

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Cynllun Ffermio Cynaliadwy
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Adran:	Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Mark Alexander
Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Cynnwys

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?	3
ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?	12
ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?.....	29
ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?	32
ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?.....	37
ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?	60
ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL	61
ADRAN 8. CASGLIAD	63
ADRAN 9. DATGANIAD	70
ASESIADAU EFFAITH LLAWN	71
A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT	71
B. YR ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	80
C. ASESIAD EFFAITH PRAWF GWLEDIG	95
D. SGRINIO – ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA	103
E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG	112
F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH.....	128
G. ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL	162

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y Ddeddf) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer:

- Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)
- Cymorth yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol
- Monitro ac adrodd ar SLM
- Monitro ac adrodd ar gymorth yn y dyfodol
- Casglu a rhannu data

Mae'r Ddeddf yn diffinio amaethyddiaeth fel:

- a. garddwriaeth;
- b. ffermio cnydau âr;
- c. ffermio gwartheg godro;
- d. cadw a bridio da byw;¹
- e. defnyddio tir fel tir pori;
- f. defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth;
- g. amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir;²
- h. tyfu fel arall blanhigion i'w gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn;
- i. cynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer gweithgarwch a restrir uchod

Mae'r Ddeddf yn diffinio 'gweithgarwch ategol' fel

- a. gweithredu, ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth—
 - i. i greu a rheoli cynefinoedd, neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth natur,
 - ii. i liniaru ac addasu i newid hinsawdd, neu
 - iii. i gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau;
- b. gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddosbarthu dosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

¹ Mae 'da byw' yn cynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw anifail a gedwir i gynhyrchu bwyd, diod, olewau, ffibrau neu ledrau, neu i bori tir.

² Ystyr 'amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir' yw tyfu planhigion mewn ecosystem gaeedig sy'n caniatáu i newidynnau amgylcheddol (gan gynnwys tymheredd, lleithder, golau a maethynnau) gael eu rheoli.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r Ddeddf yn gosod Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisi amaethyddol i'r dyfodol, gan gynnwys rheoleiddio a chymorth. Diffinnir rheoli tir yn gynaliadwy gan bedwar amcan strategol yn y Ddeddf. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
2. Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
3. Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu.
4. Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso ei defnydd.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn datgan,

At ddibenion yr amcan cyntaf, mae'r ffactorau sy'n berthnasol i ba un a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad i'r economi leol, ymysg pethau eraill.

Yn ogystal,

At ddibenion y pedwerydd amcan, mae 'adnoddau diwylliannol' yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, ymysg pethau eraill.

Rhaid cyflawni'r amcanion hyn mewn ffordd sy'n:

- a. Diwallu anghenion presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; ac
- b. Cyfrannu at nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i sicrhau bod cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol yn cael ei ddarparu mewn ffordd sydd, yn eu barn nhw, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM.

Pwerau i ddarparu cymorth

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion ddarparu cymorth i amaethyddiaeth, gan gynnwys y gallu i agor cynlluniau, ar gyfer amaethyddiaeth ac mae'n gosod dibenion y gellir darparu cymorth ar eu cyfer. Y dibenion yw:

- a. Annog cynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy
- b. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- c. Dal a storio mwy o garbon
- d. Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau
- e. Gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol
- f. Gwella ansawdd aer

- g. Gwella ansawdd dŵr
- h. Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw
- i. Lliniaru risgiau llifogydd a sychder
- j. Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid
- k. Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau
- l. Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau
- m. Gwella gwytnwch busnesau amaethyddol
- n. Cynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Yn dilyn cyflwyno Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) fel y prif ddull o ddarparu cymorth ariannol i ffermydd yn y dyfodol.

Bydd gan y Cynllun dair haen:

- Haen Gyffredinol: Gweithredoedd y bydd angen i bob fferm sy'n cymryd rhan yn y Cynllun eu cymryd, oni bai nad ydynt yn berthnasol i'w system ffermio³.
- Haen Opsiynol: Cyfres o weithredoedd lle bydd modd i ffermydd ddewis y rhai mwyaf addas ar gyfer eu busnes.
- Haen Gydweithredol: Cefnogaeth i ffermydd weithio gyda ffermydd a sefydliadau eraill ar brosiectau ar y cyd i wneud y mwyaf o'r potensial i gyflawni manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae gofynion Haen Gyffredinol y Cynllun yn cynnwys 3 elfen: y Llinell Sylfaen Reoleiddio, y Cod Cyffredinol a'r Gweithredoedd Cyffredinol.

Mae'r Llinell Sylfaen Reoleiddio wedi'i hategu gan y gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau Trawsgydymffurfio, gyda gofynion ychwanegol ar gyfer rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol a Mynediad/Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Ni fydd y rhan fwyaf o'r gofynion hyn yn newydd i ffermwyr gan eu bod yn gyfraith eisoes.

Mae'r Cod Cyffredinol yn cynnwys yn bennaf y gofynion sy'n weddill o fewn trawsgydymffurfio nad ydynt wedi'u cwmpasu gan ddeddfwriaeth, gyda rhai ychwanegiadau

³ Er enghraifft, ni fydd camau yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid yn berthnasol i ffermydd nad oes ganddynt dda byw.

cryfach mewn perthynas â gofynion bioamrywiaeth, cynefinoedd, tiroedd comin a gorchudd pridd.

Mae'r Gweithredoedd Cyffredinol yn set o ofynion sy'n benodol i bob un o'r 12 Gweithred Gyffredinol. Efallai na fydd y rhain yn berthnasol i bob fferm o fewn y Cynllun.

Cyfnod pontio

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw cymorth ariannol yn dod i ben yn sydyn i unrhyw ffermwr. O ganlyniad, bydd cyfnod pontio wedi'i reoli rhwng 2026 a 2029¹. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno, gan ddechrau gyda'r Gweithredoedd Cyffredinol a Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol â blaenoriaeth, a bydd y gyfres lawn o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ar gael dros amser. Mae cymorth wedi parhau i gael ei ddarparu cyn 2026 (fel rhan o Gam Paratoi) i gefnogi cyflwyno ffermwyr i'r Cynllun. Bydd y rhai sy'n dymuno aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) o 2026 yn cael BPS graddedig fel rhan o'u pontio o'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Effaith

Rydym yn cydnabod bod cyflwyno rheoli tir yn gynaliadwy yn y Ddeddf, a'r newid i ddisodli cynlluniau talu presennol â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn cynrychioli newid sylweddol i'r diwydiant amaeth yng Nghymru. Hefyd, rydym yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd, costau cynyddol, cytundebau masnach newydd a'r rhyfel yn Wcráin yn creu heriau sylweddol i'n ffermwyr. Mae'r Cynllun wedi'i greu gyda'r nod o gynorthwyo gwytnwch y diwydiant nawr, a sicrhau bod ffermio yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nod cyfnod pontio yw helpu i reoli'r newid hwn; serch hynny, mae'n anochel y bydd newidiadau mor sylweddol yn cael effaith amrywiol ar ffermydd, y diwydiant amaethyddol ehangach, a Chymru gyfan. Mae'r effeithiau posibl hyn yn cael eu harchwilio yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Costau a Manteision

Mae darparu cymorth ariannol i'r diwydiant amaeth yn costio i Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, gallai gweithredu rheoli tir yn gynaliadwy, gan gynnwys drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, arwain at fanteision sylweddol. Ar lefel gymdeithasol, mae hyn yn cynnwys gwerth canlyniadau amgylcheddol fel aer glanach, dŵr glanach, a storio ac atafaelu carbon. Ar lefel fferm, bwriad darparu cymorth ariannol yw cefnogi sefydlogrwydd economaidd, a fyddai'n cael effeithiau diwylliannol a chymdeithasol o ganlyniad i hynny. Bydd nifer o weithredoedd yn y Cynllun yn cyfrannu at wytnwch ffermydd yn sgil effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd, fel llifogydd neu sychder. Yn ogystal, mae llawer o arferion ffermio cynaliadwy yn gallu creu arbedion neu fanteision ariannol i ffermydd, megis gwella iechyd a lles anifeiliaid, effeithlonrwydd ynni, a storio dŵr. Cafodd manteision o'r fath eu harchwilio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Deddf Amaethyddiaeth

(Cymru)². Mae'r manteision hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn Achos Busnes y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac maent wedi llywio penderfyniad terfynol y Gweinidog ar y Cynllun.

Y pum ffordd o weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys pum 'ffordd o weithio': hirdymor, integreiddio, atal, cynnwys a chydweithio.

Hirdymor

Disgwylir i'r Cynllun helpu i gyflawni nifer o ganlyniadau sy'n cyfrannu at anghenion hirdymor cymdeithas megis lliniaru newid hinsawdd, addasu a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, a galluogi ffermwyr i barhau i wneud bywoliaeth o amaethyddiaeth. Yn ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025,³ nodwyd bod cadw ffermwyr ar y tir yn un o egwyddorion y cynllun. Ein nod yw sicrhau bod ffermwyr yn parhau i ffermio, a bod tir yn parhau i gael ei reoli gan y rhai sy'n ei adnabod orau, gan roi cymorth i ffermwyr addasu a ffynnu. Bydd y Cynllun yn gwneud hyn drwy gefnogi ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy. Bydd cadw ffermwyr ar y tir yn helpu i gyflawni canlyniadau hirdymor, yn ogystal â chefnogi ein cymunedau gwledig, creu ac atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol a chefnogi cydlyniant a gwydnwch mewn cymunedau. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cadw a gwella ein treftadaeth ddiwylliannol, gan gefnogi'r defnydd parhaus o'r Gymraeg yn ein cymunedau ffermio a gwledig.

Mae'r Cynllun yn cydnabod bod cynhyrchu bwyd yn hanfodol i'n cenedl. Disgwylir y bydd y Cynllun yn cyflawni yn erbyn ein huchelgais i ffermwyr Cymru fod yn arweinwyr byd ym maes ffermio cynaliadwy, gan fodloni ein rhwymedigaethau rhyngwladol heb i wledydd sydd â safonau is gynhyrchu bwyd yn ein lle. Mae ffermio ar y rheng flaen o ran effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i helpu i ddiogelu a gwella ein diogeledd bwyd hirdymor trwy gynorthwyo ffermwyr i addasu i newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, fel sychder a llifogydd.

Atal

Gall materion amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth godi o ofynion ar y tir i ddarparu allbynnau y tu hwnt i'w allu naturiol, a ffocws cul ar ganlyniadau economaidd. Gall effeithiau materion mawr fel y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth gael effaith sylweddol ar gynhyrchu hefyd. Bwriad ein cynigion yw integreiddio gweithredoedd a fydd yn helpu i liniaru neu wrthdroi'r effeithiau amgylcheddol hyn gydag arferion amaethyddol mewn ffordd sy'n hwyluso ffermio gwirioneddol gynaliadwy.

Rydym yn cydnabod bod cyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn dibynnu ar sicrhau bod busnesau fferm yn gynaliadwy yn economaidd ac yn gymdeithasol yn ogystal â bod yn amgylcheddol gynaliadwy. Felly, nod y Cynllun yw cynorthwyo busnesau fferm i fod yn fwy gwydn, a'u galluogi i ffermio mewn byd cystadleuol a newidiol wrth weithredu yn unol â gallu naturiol eu tir. Rhoddir y cymorth hwn ar ffurf taliadau ariannol, ond hefyd trwy

weithredoedd sy'n cynyddu gwytnwch, a thrwy barhau i ddarparu hyfforddiant a gwasanaethau cynghori. Bydd y Cynllun yn cynnwys Taliad Cyffredinol am ymgymryd â chfres o Weithredoedd Cyffredinol ac i gydnabod manteision cymdeithasol cynhyrchu cynaliadwy, er mwyn darparu sefydlogrwydd pwysig i ffermwyr. Bydd gan y Cynllun Haenau Opsiynol a Chydweithredol hefyd, a fydd yn galluogi ffermydd i gymryd camau ychwanegol sy'n berthnasol i'w busnes fferm. Bydd y camau hyn yn darparu incwm ychwanegol ac yn rhoi cymorth pwrpasol i ffermwyr er mwyn cynyddu gwytnwch eu busnes wrth wynebu'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Integreiddio

Mae'r Cynllun yn hyrwyddo dull sy'n integreiddio sbardunau ffyniant ar gyfer amaethyddiaeth ac mae'n cynnwys gweithredoedd i helpu i wella'r amgylchedd gwledig yn yr hirdymor. Credwn mai dyma'r ffordd orau ymlaen ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol. Bydd y Cynllun yn darparu cymorth ar gyfer canlyniadau penodol mewn ffordd sy'n bwriadu eu cyflawni gyda'i gilydd, gan leihau cyfnewidiadau. Mae gweithredoedd y Cynllun wedi'u cynllunio i gynorthwyo ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd sy'n cynyddu eu cyfraniad at gyflawni pob un o'r canlyniadau hyn.

Cydweithio a Chynnwys

Ymgynghoriadau

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ar hyd y broses o ddatblygu'r Cynllun. Mae hyn wedi cynnwys pedwar ymgynghoriad, dau gyfnod o gyd-ddylunio, ac ymgysylltiad parhaus sydd wedi ein helpu i gasglu barn ffermwyr, sefydliadau ffermio, sefydliadau eraill a'r cyhoedd am ein cynigion:

- Cafwyd 1,043 o ymatebion sylweddol i *Brexit a'n Tir*⁴, ein hymgyngghoriad ar sut roeddem yn bwriadu mynd ati i barhau i gefnogi ffermwyr ar ôl ymadael â'r UE.
- Cawsom 508 o ymatebion unigryw i'n hymgyngghoriad ar *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*⁵, a oedd yn amlinellu ein cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr.
- Cawsom 232 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau i'n cynigion ar gyfer y fframwaith deddfwriaethol⁶ i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru.
- Cawsom 3,228 o ymatebion sylweddol i'n hymgyngghoriad ar *Cadw ffermwyr i ffermio*, a oedd yn amlinellu cynigion diwygiedig y Cynllun ac a ddyluniwyd fel yr ymgynghoriad ffurfiol terfynol.⁷

Cydlunio

Mae ein gwaith cydlunio wedi ein galluogi i ofyn am fewnbwn gan ffermwyr unigol ledled Cymru, ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o randdeiliaid sefydliadol, sydd wedi bod yn ganolog i'r broses o greu'r Cynllun. Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith cydlunio yn 2020⁸, gyda

bron i 2,000 o ffermwyr yn cymryd rhan ynddo. Cawsom 1,941 o ymatebion i'r arolwg gan ffermwyr ar-lein neu dros y ffôn. Fe wnaethom hefyd gynnal 270 o gyfarfodydd un i un gydag ymatebwyr i'r arolwg dros y ffôn neu gyswllt fideo, a 28 o sesiynau trafod grŵp gyda chyfanswm o 129 o gyfranogwyr. Roedd y cam cydlunio hwn yn archwilio barn ffermwyr ar chwe phwnc penodol i lywio datblygiad y Cynllun⁴. Cwblhawyd ein hail gam cydlunio yn hydref 2022⁹ ac roedd yn canolbwyntio ar Gynigion Bras y Cynllun a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn; cawsom gyfanswm o 1,344 o ymatebion i'r arolwg gan ffermwyr ar-lein neu ar bapur, gyda 101 o arolygon ychwanegol yn cael eu cwblhau drwy gyfweiliadau dros y ffôn neu yn y cnawd. Cynhaliwyd cyfanswm o 26 o weithdai cydlunio hefyd i gasglu adborth manylach. Roedd 23 gweithdy yn ymwneud â gweithredoedd y cynllun a thri arall yn canolbwyntio ar brosesau'r cynllun (yn cwmpasu pynciau fel cymhwysterau a chofrestru).

Ar wahân, ac yn canolbwyntio hefyd ar Gynigion Bras y Cynllun, roedd ffurflen adborth rhanddeiliaid ar gael er mwyn rhoi cyfle i sefydliadau ac unigolion eraill fynegi eu barn ar gynigion bras y cynllun. Cawsom 100 o ymatebion rhanddeiliaid gan sefydliadau a grwpiau o fewn y sbectrwm eang o'r rhai sydd â buddiant yn y sector amaethyddol.¹⁰

Yn cefnogi ffermwyr i ffermio

Cadw ffermwyr i ffermio oedd yr ymgynghoriad ffurfiol diweddaraf, a daeth i ben ym mis Mawrth 2024. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, fe wnaethom gynnal 10 sioe deithiol ledled Cymru fel cyfle i ffermwyr glywed yn uniongyrchol beth oedd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad. Daeth tua 3,200 o ffermwyr i'r sioeau teithiol.

Yn ogystal â'r Sioeau Teithiol dan arweiniad Llywodraeth Cymru a'r cyfarfodydd rhanddeiliaid ffurfiol y cyfeirir atynt isod, mae staff Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn ystod o drafodaethau gyda rhanddeiliaid, o drafodaethau dwyochrog rhwng rhanddeiliaid unigol, a chynadleddau neu weminarau i grwpiau mwy o ffermwyr.

Yn haf 2024, sefydlwyd Bord Gron Weinidogol y Cynllun⁵ sy'n cynnwys uwch rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ffermwyr a'r sectorau bwyd, natur, coedwigaeth a milfeddygol, yn ogystal â'r cadwyni cyflenwi ehangach. Mae'r Ford Gron yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Weinidog sy'n gyfrifol am Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Yn ogystal, sefydlwyd Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon¹¹ ac, ochr yn ochr â'r Grŵp Swyddogion Rhanddeiliaid presennol, daethant yn is-grwpiau o'r Ford Gron. Sefydlwyd Grŵp Cyflawni Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd newydd hefyd. Mae'r Grwpiau hyn yn parhau i gyfarfod. Arweiniodd yr ymrwymiad cadarnhaol hwn gan rhanddeiliaid at dros 50 o gyfarfodydd (llawer o hanner diwrnodau a diwrnodau llawn) hyd at ddiwedd mis Ebrill 2025.

⁴ Y chwe phwnc a gafodd sylw yn y cam cydlunio cyntaf oedd allgymorth, rheoli pridd, rheoli cynefinoedd (gwydnwch ecosystemau), cyfleoedd datblygu ffermydd, iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw, a'r Gymraeg.

⁵ Mae aelodaeth y Ford Gron Weinidogol a'r is-grwpiau ar gael yn Atodiad 1 o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun (2024) [HTML] | LLYW.CYMRU

Helpodd yr ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad *Cadw ffermwyr i ffermio* i lywio trafodaethau gyda'r fforymau rhanddeiliaid hyn. O ganlyniad i weithio mewn partneriaeth â'r Ford Gron Weinidogol, fe wnaethom gyhoeddi Amlinelliad o'r Cynllun wedi'i ddiweddarau ym mis Tachwedd 2024. Roedd yr Amlinelliad hwn yn cynnwys newidiadau megis lleihau nifer y Gweithredoedd Cyffredinol o 17 i 12 ac, o'r 12, mae'r rhan fwyaf wedi eu newid yn sylweddol. Cafodd y gofyniad arfaethedig i sicrhau bod o leiaf 10% o orchudd coed ar bob fferm ei ddileu hefyd.

Mae'r ymgysylltu hwn wedi parhau i helpu i lywio datblygiad y Cynllun i sicrhau bod y cynnig terfynol yn hygyrch ac yn briodol i fodloni'r cynllun ac Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Y sylfaen dystiolaeth

Defnyddiwyd ystod o ffynonellau tystiolaeth i lywio datblygiad y Cynllun ac amcangyfrif effeithiau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Allbynnau Llwyfan Modelu Integredig (IMP) ERAMMP sy'n archwilio effeithiau'r Cynllun ar hyfywedd ffermydd, defnydd tir a chanlyniadau amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r IMP yn cael ei gymhwyso i 7,401 o ffermydd amser llawn⁶.
- Model Consortiwm ADAS sy'n amcangyfrif effeithiau economaidd posibl Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun. Mae'r model ADAS yn cael ei gymhwyso i 15,555 o ffermydd amser llawn a rhan-amser⁷, gan ragdybio y bydd pob fferm yn manteisio ar y Cynllun.
- Adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Miller Research o Themâu Opsiynol a Chydweithredol Arfaethedig y Cynllun sy'n amlinellu canfyddiadau adolygiad tystiolaeth ansoddol o'r Themâu Opsiynol a Chydweithredol, ac yn asesu'r dystiolaeth a adolygwyd yn erbyn Ffactorau Llwyddiant Critigol Achos Busnes y Cynllun.
- Adroddiad ERAMMP 110 yn asesu manteision cyfalaf naturiol ar gyfer 2025 sy'n darparu amcangyfrifon o'r gwerthoedd cymdeithasol o wasanaethau ecosystem penodol o'r Cynllun.

Darperir asesiad meintiol o effeithiau economaidd posibl y Cynllun, gan dynnu ar y cynhyrchion tystiolaeth a ddisgrifir yn y rhestr uchod, yn yr Achos Busnes llawn, felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ystyried amrywiaeth ehangach o ffynonellau data eilaidd a ffynonellau tystiolaeth eraill drwy gydol ein hasesiadau effaith penodol unigol. Mae'r rhain yn cynnwys data fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, data'r Cyfrifiad a data arolygon a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, llenyddiaeth academiaidd, ac

⁶ Yn yr IMP, ffermydd amser llawn yw'r rhai sydd ag o leiaf un gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE).

⁷ Mae modelu consortiwm ADAS yn cynnwys pob fferm sy'n cael cyllid Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn y llinell sylfaen a chyd digon o ddata ariannol i'w fodelu, gydag amser llawn yn cael ei ddiffinio fel Allbwn Safonol o €25k o leiaf. Mae ffermydd moch, dofednod a garddwriaethol arbenigol wedi'u heithrio.

ymchwil a gynhyrchwyd gan sefydliadau sydd â buddiant mewn amaethyddiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r gwahanol ffynonellau hyn yn caniatáu i ni asesu effeithiau posibl y Cynllun sy'n ymwneud â'r meysydd a gwmpesir gan bob asesiad effaith unigol.

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

2.1 Pobl a Chymunedau

Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth yn y dyfodol i ffermwyr yng Nghymru. Bydd yn cynrychioli newid o'r dull cymorth blaenorol a ddarparwyd o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE. Roedd y PAC yn cynnig taliadau uniongyrchol i ffermydd ar sail arwynebedd ffermydd. Mae'r model ariannu newydd yn darparu cymorth sy'n targedu cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan wobrwyo ffermwyr am gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol drwy fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy. Bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gymryd camau i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, ac am eu gwaith i sicrhau aer a dŵr o ansawdd glân, lliniaru risgiau llifogydd, brwydro yn erbyn newid hinsawdd a hyrwyddo bioamrywiaeth.

Cyflwynwyd Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel y fframwaith ar gyfer polisi amaethyddol yng Nghymru trwy Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y Ddeddf), ac mae'n sylfaen i'r Cynllun. Ei nod yw cael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau trwy ddiogelu ein hadnoddau naturiol a sicrhau canlyniadau iechyd cadarnhaol i bobl Cymru. Mae'r SLM wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a chyfrannu at y nodau llesiant fel y'u nodir yn Adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae rheoli tir yn gynaliadwy yn ymgorffori cyfraniad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ffermwyr at gymdeithas yng Nghymru. Mae'n gysyniad a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n annog defnyddio adnoddau tir yn y fath fodd fel bod anghenion y genhedlaeth bresennol yn cael eu cydbwyso â'n rhwymedigaethau i'r genhedlaeth nesaf¹².

Mae'r Cynllun wedi'i strwythuro yn y fath fodd fel bod ei Weithredoedd yn cyfrannu at un neu fwy o'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy fel y'u nodir yn y Ddeddf. Nod y Gweithredoedd y Cynllun yw galluogi ffermwyr i gael eu gwobrwyo am gyflawni canlyniadau penodol rheoli tir yn gynaliadwy ac am eu cyfraniad at iechyd a llesiant ein cenedl. Bwriad hyn yw cyflwyno manteision i ffermwyr, teuluoedd ffermio, cymunedau gwledig, defnyddwyr cynnyrch o Gymru a phobl Cymru.

Mae ffermio ar y rheng flaen o ran effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Yng Nghymru a gweddill y DU, rhagwelir y bydd effeithiau newid hinsawdd megis digwyddiadau tywydd eithafol yn cynyddu bob blwyddyn¹³. Er enghraifft, rhagwelir y gall Cymru ddisgwyl hafau cynhesach a sychach, glawiad dwysach, a mwy o lifogydd mewn ardaloedd arfordirol ac isel¹⁴. Bydd digwyddiadau tywydd eithafol amlach a mwy dwys yn cael effaith negyddol ar

gynhyrchiant amaethyddol yng Nghymru a'r DU¹⁵. Yn benodol, byddai busnesau fferm yn annhebygol o gynnal neu gynyddu lefelau presennol o gynhyrchiant amaethyddol¹⁶¹⁷.

Nod y Cynllun yw helpu i ddiogelu a gwella ein cynhyrchiant bwyd drwy gynorthwyo ffermwyr i addasu i newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, megis sychder a llifogydd, gan eu helpu i barhau i ffermio mewn modd cynaliadwy a chynhyrchiol ar eu tir er gwaethaf y newidiadau yn ein hinsawdd.

Rydym yn cydnabod bod cyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn dibynnu ar sicrhau bod busnesau fferm yn gynaliadwy yn economaidd. Felly, bydd y Cynllun yn cynorthwyo busnesau fferm i fod yn fwy gwydn, gan eu helpu i ffermio mewn byd cystadleuol sy'n newid wrth weithredu yn unol â gallu naturiol eu tir. Bydd yn cynnwys Taliad Cyffredinol am ymgymryd â Gweithredoedd Cyffredinol penodol ac i gydnabod manteision cymdeithasol cynhyrchu cynaliadwy, er mwyn darparu sefydlogrwydd pwysig i ffermwyr. Hefyd, mae llawer o Weithredoedd y Cynllun wedi'u cynllunio i helpu ffermwyr i fod yn fwy effeithlon trwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd grwpiau gwahanol yn profi effeithiau gwahanol. Felly, rydym yn darparu asesiad o'r effeithiau disgwylidig ar unigolion, grwpiau a chymunedau penodol yn yr asesiadau effaith llawn, sydd i'w gweld yn yr Atodiadau i'r ddogfen hon.

2.2 Hawliau Plant

Gweler Atodiad A am yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

2.3 Cydraddoldeb

Gweler Atodiad B am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

2.4 Prawfesur Gwledig

Gweler Atodiad C am yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig.

2.5 Iechyd

Crynodeb o'r effeithiau a ragwelir

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Rhagwelir y gallai'r Cynllun gael sawl effaith iechyd ar y cyhoedd a'r gymuned ffermio. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, gydag amcanion strategol yn cwmpasu cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, lliniaru ac addasu i newid hinsawdd, gwydnwch ecosystemau, a chadw a gwella diwylliant a chefn gwlad. Mae hyn wedi paratoi'r ffordd i'r Cynllun weithredu fel cyfrwng i gyflawni'r amcanion hyn o ran rheoli tir yn gynaliadwy, gyda'r nod o fod o fudd i bobl a thir Cymru yn

amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. O safbwynt iechyd yn benodol, gallai canlyniadau o'r fath gynnwys:

- Gwelliannau amgylcheddol sy'n cynnig manteision iechyd corfforol i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gyda manteision iechyd cysylltiedig i bobl Cymru.
- Atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, a fydd yn cyfrannu at fwyd mwy diogel, llai o ddefnydd o wrthfotigau, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau'r risg i bobl o glefydau fel salmonellosis. Mae Gweithredoedd penodol yn Haenau Cyffredinol ac Opsiynol y Cynllun wedi'u dylunio i fynd i'r afael â'r nod o gyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.
- Cyfleoedd i gynyddu gweithgarwch corfforol drwy wella cyfleoedd mynediad i'r cyhoedd a chyswllt â natur, ac effeithiau cadarnhaol hyn ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Mae cynnal a gwella mynediad y cyhoedd at gefn gwlad wedi'i osod fel diben ar gyfer cymorth yn y Ddeddf, a bydd gweithredoedd penodol ar gael i ffermwyr oddi mewn i Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun.

Fodd bynnag, mae gan lefel y newid y potensial i gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr os na chaiff ei reoli'n briodol. Bydd cyngor, arweiniad a chymorth clir yn bwysig i helpu i liniaru hyn. Yn ogystal, bydd y newid yn digwydd dros sawl blwyddyn er mwyn rhoi sefydlogrwydd i ffermwyr wrth symud o Gynllun y Taliad Sylfaenol presennol i'r Cynllun. Ni fydd taliadau unrhyw ffermwr yn dod i ben yn sydyn, hyd yn oed os ydynt yn dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda Grŵp Cymorth Ffermydd Cymru¹⁸ (gan gynnwys ar Ford Gron Weinidogol y Cynllun), sy'n cynrychioli'r prif elusennau ffermio, a rhanddeiliaid eraill i ddeall materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac i sicrhau bod mesurau lliniaru addas ar waith lle mae materion yn codi.

2.5a Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

Ffyrdd o fyw

Gallai'r broses o gyflawni canlyniadau amgylcheddol drwy'r Cynllun ddarparu manteision i benderfynyddion iechyd pobl Cymru yn ymwneud â ffordd o fyw. Gallai gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad, a'i fwynhau, gyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol, yn yr un modd â gwelliannau mewn diogelwch bwyd sy'n deillio o godi safon iechyd a lles anifeiliaid.

Iechyd y Cyhoedd a Da Byw

Nod y Cynllun yw cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Wrth fabwysiadu'r Cynllun, bydd yn ofynnol i ffermydd perthnasol weithredu'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC), yr asesiad Bioddiogelwch anifeiliaid sydd ar ddod a'r elfen Lles Anifeiliaid sy'n canolbwyntio ar symudedd a sgorio cyflwr y corff. Bydd hyn yn caniatáu

darparu cymorth i ysgogi atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, gan gyfrannu at fwyd mwy diogel sy'n cael ei gynhyrchu'n fwy effeithlon, a gwell iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid. Disgwylir i'r AHIC ofyn am weithredoedd gwahanol ar draws ffermydd oherwydd rydym yn cydnabod nad oes dwy fferm yr un fath. Disgwylir i ffermwyr weithio'n agos gyda'u milfeddyg i nodi meysydd ar y fferm lle gellid gwella perfformiad. Disgwylir i'r mesurau hyn leihau'r risg o glefyd a gwella iechyd, lles a chynhyrchiant anifeiliaid, a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a diogelwch cynnyrch anifeiliaid Cymru a gwydnwch busnesau da byw a chymunedau gwledig Cymru. Er enghraifft, mae lleihau'r risg i bobl o glefydau fel salmonellosis yn gallu helpu i leihau'r galw ar wasanaethau iechyd a'r angen am driniaeth wrthfotig, a chefnogi cynhyrchiant ffermydd. Nod elfen fioddiogelwch y Weithred Gyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid yw lliniaru'r risg o glefydau sy'n deillio o gyflwyno anifeiliaid sy'n dod i mewn.

Mae da byw llai iach yn llai effeithlon ac yn debygol o fod ag allyriadau nwyon tŷ gwydr dwysedd uwch h.y. maent yn cynhyrchu mwy o gilogramau o nwyon tŷ gwydr fesul cilogram o allbwn bwytafwy. Mae gwaith a gomisiynwyd gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) wedi nodi bod gwella iechyd anifeiliaid yn fesur lliniaru nwyon tŷ gwydr allweddol¹⁹. Mae anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol yn arwain at lai o lygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac felly risg is i iechyd pobl drwy gefnogi taith sector da byw Cymru tuag at sero net erbyn 2050.

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yw un o'r bygythiadau hirdymor mwyaf i iechyd pobl, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae effeithiau AMR heb ei lliniaru yn eang ac yn hynod gostus, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd o ran iechyd byd-eang, diogeledd bwyd, llesiant amgylcheddol a datblygiad economaidd-gymdeithasol. Eisoedd, amcangyfrifir bod AMR yn achosi o leiaf un miliwn o farwolaethau ar draws y byd bob blwyddyn²⁰. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y ffigur hwnnw'n cynyddu, gydag amcangyfrif o 39 miliwn o farwolaethau rhwng 2025 a 2050 os na chymerir unrhyw gamau²¹. Bydd AMR hefyd yn effeithio ar Gymru os na chaiff ei reoli; fodd bynnag, nid yw ymchwil feintiol ar effaith AMR yng Nghymru ar farwolaethau wedi'i chynnal eto. Mae AMR yn cael ei sbarduno gan y defnydd o wrthfotigau. Bwriad AHIC yn y pen draw yw lleihau'r defnydd o wrthfotigau, mewn anifeiliaid, p'un a ydynt yn cael eu ffermio neu eu cadw at ddibenion eraill, ac mewn pobl. Ar gyfer anifeiliaid fferm, mae hyn yn golygu eu cadw mor iach â phosibl mewn systemau cynhyrchu iechyd uchel. Mae hyn yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau ac felly'n lleihau'r risg o ddatblygu AMR. Mae egwyddorion y Cynllun wedi'u dylunio i hybu gwaith i gynhyrchu da byw iach, gan fabwysiadu dull 'atal yn well na gwella', a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â'r mater AMR.

Ffyrdd o Fyw a Gweithgarwch Corfforol

Un o'r ffyrdd mae ffermwyr yn cefnogi llesiant corfforol a meddyliol y boblogaeth gyffredinol yw drwy gynnal a chadw cefn gwlad a hawliau tramwy. Mae cefn gwlad Cymru yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n cyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol. Dangoswyd

bod treulio amser yng nghefn gwlad neu mewn mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant²². Mae defnydd amaethyddol yn cyfrif am 90%⁸ o'r tir yng Nghymru,²³ sy'n cynnwys 16,000 o filltiroedd o lwybrau troed, 3,000 o filltiroedd o lwybrau ceffylau, 1,200 o filltiroedd o rwydwaith beicio a 460,000 hectar o dir mynediad agored, yn ogystal â gwrychoedd, waliau cerrig sych a nodweddion tirwedd eraill.

Bydd y Cynllun yn gofyn am gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol gofynnol ac yn galluogi darpariaeth ar gyfer gwella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad ac adnoddau diwylliannol. Gall Gweithredoedd Opsiynol y Cynllun gynnwys:

- Gwella hawliau tramwy cyhoeddus neu fynediad i dir mynediad agored i'w gwneud yn fwy hygyrch
- Gwella profiad defnyddwyr
- Gwella mynediad i natur a hamdden awyr agored
- Uwchraddio llwybrau cerdded i fod yn llwybrau aml-ddefnydd.
- Gwella llwybrau presennol i'w gwneud yn fwy hygyrch.
- Sefydlu llwybrau cysylltiedig neu lwybrau mynediad newydd.

Yn ogystal, gallai Gweithredoedd Cydweithredol o dan y Cynllun hefyd gefnogi prosiectau a fyddai'n gwella mynediad ar gyfer cymunedau lleol ac yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol. Gallai hyn gynyddu lefelau hamdden a mwynhad o gefn gwlad Cymru ymysg pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru.

Ceir tystiolaeth sylweddol yn cefnogi'r syniad y gallai mwy o fynediad i gefn gwlad, neu fannau gwyrdd, gyfrannu at fanteision cadarnhaol i iechyd unigolion ac iechyd y cyhoedd. Er enghraifft:

- Daeth adolygiad yn 2007 o'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd naturiol a lles i'r casgliad canlynol: "The natural environment provides physical, mental and social well-being benefits. There are synergistic effects between these benefits"²⁴. Nododd hefyd: 'increased levels of physical activity are known to have both a preventative role in cardiovascular and musculo-skeletal diseases and inhibiting stroke and cancer. It also has a positive effect on range of health determinants such as body weight, blood pressure, cholesterol levels and so forth'²⁵.
- Daeth astudiaeth yn 2007 yn edrych ar effeithiau amrywiaeth o weithgareddau gwyrdd cefn gwlad ar iechyd meddwl ledled y DU i'r casgliad canlynol: 'green exercise generates mental health benefits regardless of the level of intensity, duration or type of green activity undertaken'²⁶. Nododd yr astudiaeth fod yr holl gyfranogwyr yn dangos 'significant improvement in their self-esteem and total mood disturbance...

⁸ Naill ai tir fferm neu dir comin.

factors of anger-hostility, confusion-bewilderment, depression-dejection and tension-anxiety all significantly improved post-activity'²⁷.

- Gwerthusodd astudiaeth yn 2009 newidiadau mewn hunan-barch a hwyliau ar ôl cerdded mewn pedwar o safleoedd naturiol a threftadaeth gwahanol Ymddiriedolaeth Genedlaethol Lloegr²⁸. Nododd fod teimladau o ddicter, iselder ysbryd, tensiwn a dryswch i gyd yn lleihau'n sylweddol a bod lefelau bywiogrwydd wedi cynyddu. Felly, mae'r amgylchedd yn gwneud cyfraniad pwysig at hwyluso gweithgareddau corfforol a helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad llonydd.
- Dangosodd astudiaeth yn y Ffindir yn 2023 fod cysylltiad rhwng ymweld yn aml â mannau gwyrdd a defnyddio llai o feddyginiaethau seicotroffig, atal pwysedd gwaed uchel ac asthma i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol²⁹. Nid oes cysylltiad o ran byw mewn mannau gwyrdd neu las neu weld golygfeydd gwyrdd neu las o'r aelwyd.

Diogelwch ar Ffermydd

Mae data gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn dangos bod 23 o farwolaethau mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota ledled y DU yn 2023/24⁹, o gymharu â chyfartaledd pum mlynedd o 24³⁰. Mae llawer mwy wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu wedi mynd yn sâl ac, o ganlyniad, yn methu â gweithio³¹.

Mae iechyd a diogelwch ar ffermydd yn un o ofynion sylfaenol busnes ffermio cynaliadwy a dylid ei ystyried yn rhan hanfodol o reoli busnes fferm.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Gweithred Gyffredinol lle bydd yn ofynnol i ffermwyr gwblhau lefel sylfaenol o ddysgu, gan gynnwys ynghylch iechyd a diogelwch, a fydd yn un o ofynion y Cynllun. Bydd hyn yn cefnogi gwaith Partneriaeth Diogelwch Ffermydd Cymru³². Disgwylir y bydd nodi a rheoli risgiau'n briodol, ynghyd â lefelau uchel o addysg a sgiliau, yn arwain at wella safonau iechyd a diogelwch ar ffermydd.

Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd*, yn nodi nifer o ffynonellau ansicrwydd a heriau allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar lesiant ffermwyr, ac un ohonynt yw teimlo'n ynysig ac yn unig³³. Ceir tystiolaeth y gall cymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol liniaru rhai o'r problemau llesiant hyn. Er enghraifft, nododd adroddiad EU LIFE ar brosiect Burren LIFE yn Iwerddon y canlynol: 'Another initially unforeseen benefit of the subcontracted conservation work was its ability to offset the social isolation that many farmers experience as the work was usually carried out by teams of at least two and provided an opportunity for social interaction'³⁴.

⁹ Dylid nodi bod y ffigur a ddyfynnir ar gyfer 2023/24 yn ffigur dros dro ar hyn o bryd, yn amodol ar gael ei adolygu a'i gadarnhau'n derfynol.

Yn yr un modd, nododd arolwg o gyfranogwyr Stiwardiaeth Amgylcheddol (ES) yn Lloegr y gall ES chwarae:

an important part in developing new social contacts and networks. Of the advisors used by agreement holders, 40% were not known to them previously, which indicates these agreement holders had to reach out beyond the established social networks around their farm or business for this expertise. This was particularly the case for HLS [Higher Level Stewardship] agreement holders and for the lowland dairy and livestock farms. These new linkages and flows of information can potentially lead to profound changes in social and business activity³⁵.

Canfu'r arolwg hefyd fod cynlluniau ES, yn enwedig HLS, wedi dod â deiliaid cytundebau i gysylltiad â mwy o ffermwyr a'r cyhoedd. Mae'n ymddangos y gellir rhoi gwerth mawr ar y cyswllt cymdeithasol a ddaw yn sgil aelodaeth o gynllun (cynnal neu fynychu teithiau fferm, cyfarfodydd i drafod opsiynau, ymweliadau gan gynghorwyr).

Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu y gallai ariannu camau SLM cydweithredol ymysg ffermwyr, a rhwng ffermwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach, leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymysg cyfranogwyr y cynllun, ac felly cyfrannu at well iechyd meddwl ymhlith ffermwyr. Bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig i weithio gyda'i gilydd ar ystod o Weithredoedd Cydweithredol a dod â ffermwyr at ei gilydd fel rhan o raglen trosglwyddo gwybodaeth Cyswllt Ffermio.

Lles meddyliol

Fel y trafodwyd uchod, bydd y Cynllun yn cynnwys Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gwirfoddol a ddyluniwyd i gefnogi cyfleoedd ar gyfer mynediad i gefn gwlad, a'r mwynhad ohono. Gallai hyn gyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n cael mynediad i gefn gwlad. Mae effeithiau cadarnhaol nodweddion tirwedd ar lesiant y rhai sy'n treulio amser yn yr amgylchedd naturiol yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad *A Countryside for Health and Wellbeing: The Physical and Mental Health Benefits of Green Exercise, report*³⁶.

Yn ogystal ag iechyd a llesiant cymdeithas yn gyffredinol, mae iechyd meddwl ffermwyr yn ystyriaeth bwysig, gan y bydd y newidiadau sy'n deillio o'r Cynllun yn cael effaith fwy amlwg ar eu bywydau o ddydd i ddydd o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Mae data rhyngwladol yn dangos mai ffermio sydd ag un o'r lefelau digwyddedd uchaf o ran hunanladdiad o gymharu â galwedigaethau eraill: gall ynysigrwydd cymdeithasol yn y gwaith fod yn ffactor pwysig yn hyn o beth³⁷. Yng Nghymru, dangosodd data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 39 o weithwyr amaethyddol wedi marw yn sgil hunanladdiad rhwng 2011 a 2021 (37 o ddynion a 2 fenyw)³⁸.

Mae adroddiad ICC, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd*, yn esbonio'r canlynol

gall delio ag ansicrwydd gynyddu gorbryder a chael effaith niweidiol ar les meddyliol, ymhlith ffermwyr, eu teuluoedd a chymunedau gwledig. Mae ffermwyr yn profi lefelau uchel o straen a gorbryder oherwydd ymdeimlad bod ganddynt lai o reolaeth dros brosesau'r sector ffermio (cystadleuaeth, rheoleiddio a phrisiau) a'r amgylchedd ehangach sy'n effeithio ar arferion ffermio (clefydau a'r tywydd). Mae ffermwyr yn wynebu risg uwch o deimlo ar adegau nad yw bywyd yn werth ei fyw, nad oes ganddynt gymorth cymdeithasol, ac maent wedi'u nodi fel grŵp galwedigaethol sydd â risg uwch o hunanladdiad³⁹.

Mae'r adroddiad yn nodi 6 her a ffynhonnell ansicrwydd allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol ffermwyr:

1. Ansicrwydd a hyfywedd ffermio yng Nghymru.
2. Cynllunio olyniaeth.
3. Rheoleiddio, gwaith gweinyddol a digideiddio.
4. Ffermwyr yn blaenoriaethu eu hiechyd eu hunain.
5. Ynysigrwydd ac unigrwydd (manyion yn 'Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol' uchod').
6. Y diwylliant ffermio a'r disgwyliadau ohono.

Rydym yn trafod pob un o'r heriau a ffynonellau ansicrwydd allweddol hyn isod, mewn perthynas â'r Cynllun.

1. Ansicrwydd a hyfywedd ffermio yng Nghymru

Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y '...broses Brexit wedi creu ansicrwydd ariannol a rheoleiddiol sylweddol, yn arbennig i ffermwyr. Mae sefyllfaoedd masnachu ac ansicrwydd rheoleiddiol ar ôl Brexit yn cael eu cydnabod fel heriau i'r diwydiant ffermio yng Nghymru'⁴⁰. Er bod yr egwyddorion a'r cyfeiriad polisi ar gyfer cymorth yn y dyfodol wedi'u nodi yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'r Cynllun, mae ansicrwydd o hyd ynghylch natur cydberthnasau masnachu'r DU mewn cynnyrch amaethyddol nawr ein bod wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cyflwyno diwygiad sylweddol i bolisi a chymorth amaethyddiaeth drwy sefydlu'r fframwaith rheoli tir yn gynaliadwy a'r broses o'i weithredu yn y dyfodol drwy'r Cynllun. Gallai'r newidiadau hyn i'r sector amaethyddol achosi ansicrwydd i'r sector ffermio.

Rydym wedi ceisio lliniaru hyn drwy annog pawb sydd am gyfrannu drwy'r ymgynghoriad a chatau cydlunio rheoli tir yn gynaliadwy a'r Cynllun i ymgysylltu fel rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cyfrannu at fwy o wybodaeth a llai o ansicrwydd ynghylch y cynllun arfaethedig o fewn y gymuned ffermio. Rhwng cyhoeddi'r Cynllun terfynol yn haf 2025 a dechrau'r Cynllun ym mis Ionawr 2026, mae amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu yn cael eu dylunio fel bod

ffermwyr yn ymwybodol o fanylion terfynol y Cynllun a'r hyn mae cymryd rhan yn y Cynllun yn ei olygu iddynt. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfres o sioeau teithiol yn y cnawd, a byddwn yn darparu deunyddiau ymgysylltu drwy'r rhwydwaith rhanddeiliaid. Y bwriad yw i'r Cynllun ddarparu sicrwydd i ffermwyr gan ei fod yn nodi'r dull hirdymor o roi cymorth amaethyddol yng Nghymru. Yn benodol, mae "gwella gwytnwch busnesau amaethyddol" yn un o'r dibenion cymorth a nodir yn y Ddeddf, sy'n golygu bod modd rhoi cymorth yn y dyfodol ar gyfer gweithredoedd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at hyfywedd ffermio yng Nghymru. Hefyd, mae amcanion y Ddeddf yn ystyried gwytnwch busnesau amaethyddol fel agwedd ar gynhyrchu bwyd cynaliadwy.

Yn ogystal, bydd cyfnod pontio wedi'i reoli rhwng y BPS presennol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae hyn yn golygu na fydd ffermwyr sy'n dymuno aros yn y BPS yn gweld eu taliadau'n dod i ben yn sydyn.

2. Cynllunio olyniaeth

Canfu adolygiad mawr o strategaethau olyniaeth ffermydd y canlynol: 'the probability of intra-family succession increases with farm performance, which was measured in annual farm revenues' a 'family farms that pursue innovative and sustainable business strategies are expected to have a higher probability of succession because they are more attractive for the next generation'⁴¹. Rydym eisoes wedi amlinellu y dylai'r Cynllun fod ar gael i bob fferm gymwys ac y dylai ddarparu ffrwd refeniw bwysig ar gyfer ffermydd sy'n cymryd rhan. Mae rhwystrau blaenorol i olyniaeth, megis defnyddio cyfnodau cyfeirio neu gwtâu, wedi'u tynnu'n fwriadol o'r Cynllun i gefnogi ffermydd i gynllunio yn y tymor hir ar gyfer eu busnesau a chefnogi olyniaeth.

Mae pryderon eraill sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer olyniaeth, megis trethiant cenedlaethol, yn cael eu cadw gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gynrychioli safbwyntiau diwydiant ffermio Cymru.

3. Rheoleiddio, gwaith gweinyddol a digideiddio

Mae adroddiad ICC, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd*, yn nodi bod deall a chydymffurfio â rheoliadau yn her allweddol i gynnal iechyd meddwl a llesiant meddyliol da ffermwyr a rheolwyr tir⁴². Bydd y Cynllun yn gynllun gwirfoddol a fydd yn darparu cymorth i ffermwyr i gyflawni gweithredoedd a fydd yn rhagori ar y gofynion rheoleiddio; fodd bynnag, gan mai hwn fydd y prif ddull o roi cymorth ariannol i ffermydd, mae'n bwysig ystyried effaith newid mor fawr yn ogystal ag ystyried effeithiau rheoleiddio.

Gan ddefnyddio Twberwloysis Buchol fel enghraifft, gall difa unrhyw anifail cyn amser, a diboblogi daliadau cyfan yn llwyr mewn rhai achosion, gael effaith andwyol sylweddol ar les meddyliol ceidwaid da byw na all iawndal yn unig wneud iawn amdano. Mae straen ac iselder yn gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath, sy'n gallu effeithio ar les corfforol wedyn. Mae'r Cynllun yn cynnwys safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel a phwyslais ar fioddiogelwch

ymhlith ei Weithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol. Y nod yw lleihau'r risg o frigiad o achosion o glefydau ar raddfa fawr a pha mor aml y profir effeithiau negyddol mesurau rheoli clefydau mwy difrifol. Fel y trafodwyd uchod, bydd y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr da byw fabwysiadu'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) fel Gweithred Gyffredinol a hefyd cwblhau asesiad biddiogelwch anifeiliaid newydd gyda'u milfeddyg i leihau'r risg o gyflwyno clefyd. Mae'r mesurau hyn wedi'u dylunio i wella iechyd anifeiliaid a dylanwadu'n gadarnhaol ar lesiant ffermwyr, ymhlith eu hystod o effeithiau.

Gan gydnabod effaith achosion o TB ar iechyd meddwl ffermwyr a theuluoedd ffermio, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y rhaglen Cymorth TB i ddarparu cymorth milfeddygol a ariennir gan y Llywodraeth gan filfeddygon preifat lleol sydd wedi derbyn hyfforddiant penodol. Er bod ymweliadau Cymorth TB am ddim ar gael i geidwaid o hyd, bydd gwersi a ddysgwyd o brosiectau TB Sir Benfro a Gogledd Cymru yn llywio adolygiad o'r fenter. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi contractio'r Rhwydwaith Cymunedau Ffermio (FCN) i ddarparu cymorth iechyd meddwl a lles ffermwyr pwrpasol i'r rhai y mae TB yn effeithio arnynt.

Erbyn hyn, mae Grŵp Cyngori Technegol (TAG) TB Buchol a Bwrdd Rhaglen TB Buchol ar waith, a fydd yn goruchwyllo ac yn darparu arweiniad i Lywodraeth Cymru ar ei rhaglen Dileu TB. Mae gan Fwrdd y Rhaglen gynrychiolaeth gref o blith ffermwyr a milfeddygol, i gydnabod yr effaith mae TB yn ei chael ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol ffermwyr gwartheg, eu teuluoedd a'r gymuned amaethyddol ehangach.

Bydd y Cynllun yn darparu arweiniad a chefnogaeth, er enghraifft, drwy Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, i helpu ffermwyr i ddeall a bodloni eu gofynion rheoleiddio a gweinyddol. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y gall ffermwyr, wrth weithredu'r Cynllun, wynebu heriau, canlyniadau annisgwyl, neu hyd yn oed ganfod y gallai'r camau a gymerir ganddynt fod yn aflwyddiannus o dan eu hamgylchiadau penodol. Bydd y Cynllun yn ceisio cefnogi ffermwyr i oresgyn a datrys unrhyw broblemau, yn hytrach na chosbi methiannau nas rhagwelwyd.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i sicrhau bod ffermwyr yn deall sut i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl a lles gan yr elusennau ffermio a phorth FarmWell⁴³.

4. Ffermwyr yn blaenoriaethu eu hiechyd eu hunain.

Mae tystiolaeth yn awgrymu'r canlynol: 'the self-reported mental health of farmers adopting agri-environmental schemes in Wales was significantly better than non-adopters'. Although correlation was shown, rather than causation, interpretation of the results suggest that poor mental health of farmers may be one cause of non-adoption of agri-environment schemes'⁴⁴.

Dylid nodi y gallai'r berthynas weithio'r ddwy ffordd; gallai ddangos bod ffermwyr sydd â gwell iechyd meddwl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol,

yn hytrach na bod y cynlluniau hyn yn arwain at well iechyd meddwl. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod cysylltiad rhwng y ddau, ac o'r herwydd, mae'r Cynllun wedi'i ddylunio gyda'r nod o leihau achosion o beidio â mabwysiadu'r cynllun, er enghraifft, drwy leihau gofynion gweinyddol y Cynllun o gymharu â'r cynigion gwreiddiol.

5. *Ynysigrwydd ac unigrwydd*

Trafodir hyn yn fanylach uchod, o dan y pennawd 'Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol'.

6. *Y diwylliant ffermio a'r disgwyliadau ohono*

Mae adroddiad ICC, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd*, yn disgrifio diwylliant o hunandibyniaeth mewn amaethyddiaeth, gyda disgwyl i ffermwyr 'fwrw ati' a pheidio ag ystyried methu⁴⁵. Amlygwyd y diwylliant hwn a'r pwysau sy'n cyd-fynd ag ef fel her allweddol wrth fynd i'r afael ag iechyd meddwl ffermwyr. Mae'r adroddiad yn cynnig 'atal drwy gefnogi newid diwylliant i geisio cyngor a gwerthfawrogi iechyd'⁴⁶.

Bydd y Cynllun yn cynnwys gwasanaeth cyngori a chymorth, a chyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan adeiladu ar waith rhaglen bresennol Cyswllt Ffermio. Canfu gwerthusiad diweddar SQW o Cyswllt Ffermio ei bod yn ymddangos ei fod wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran dylanwadu ar ddatblygiad personol ffermwyr, yn enwedig o ran cryfhau hyder ac uchelgais, a chreu'r sylfeini ar gyfer newid.⁴⁷ Mae hyn wedi dylanwadu ar brosesau rheoli busnes a gwneud penderfyniadau ochr yn ochr â gwella sgiliau technegol y rhai sy'n rhan o Cyswllt Ffermio.

Bydd y Cynllun yn hwyluso cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant gan gymheiriaid drwy Cyswllt Ffermio, a allai annog ffermwyr i gefnogi ei gilydd ymhellach. Ar ben hynny, bydd y Cynllun hefyd yn cefnogi ystod o Weithredoedd Cydweithredol, gan gefnogi ffermwyr i weithio gyda'i gilydd, a disgwylir iddynt feithrin cysylltiadau a rhwydweithiau rhwng ffermwyr.

Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi sefydlu rheoli tir yn gynaliadwy fel y fframwaith polisi ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae amcanion y Ddeddf yn cynnwys lliniaru ac addasu i newid hinsawdd, a chynnal a gwella gwydnwch ecosystemau. Bydd y Cynllun yn annog gweithredoedd sydd â'r nod o gyfrannu at ansawdd aer gwell, yn lleihau'r risg llifogydd ac yn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Felly, gallai'r Cynllun gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwell yn y boblogaeth gyffredinol.

Bydd gan y Cynllun y potensial i gael effaith uniongyrchol ar iechyd y cyhoedd drwy ganlyniadau cadarnhaol, yn enwedig:

1. Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
2. Gwella ansawdd dŵr a lliniaru peryglon llifogydd a sychder.

3. Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw.

4. Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.

Rydym yn ystyried pob un o'r canlyniadau hyn a'u heffeithiau cadarnhaol isod.

1. Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod baich amlygiad hirdymor i lygredd aer yng Nghymru yn cyfateb¹⁰ i 1,000 i 1,400 o farwolaethau (ar oedrannau nodweddiadol) bob blwyddyn⁴⁸. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn nodi uchelgeisiau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'r economi. Mae amcanion crynodiad ansawdd aer cenedlaethol presennol wedi'u gosod ar gyfer diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Yn ogystal, mae gan y DU ymrwymïadau lleihau allyriadau ar gyfer allyriadau cyffredinol y DU o bum llygrydd aer niweidiol i'w cyflawni erbyn 2030. Mae'r llygryddion yn cynnwys: deunydd gronynnol mân (PM2.5); amonia (NH3); nitrogen ocsid (NOx); sylffwr deuocsid (SO2); a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn cynnwys methan (NMVOCs). Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024⁴⁹ fframwaith gosod targedau ansawdd aer newydd yng Nghymru, sy'n cryfhau pwerau Gweinidogion Cymru ac yn galluogi cyflwyno targedau hirdymor ar gyfer risgiau llygryddion a nodwyd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dwy ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer llygryddion: targed ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM2.5) erbyn mis Chwefror 2027; a tharged erbyn mis Chwefror 2030 ar gyfer un o'r canlynol: amonia; deunydd gronynnol (PM10); osôn ar lefel y ddaear; nitrogen deuocsid; carbon monocsid a sylffwr deuocsid⁵⁰.

Mae ICC yn nodi mai'r llygryddion aer sy'n peri'r pryder mwyaf i iechyd y cyhoedd yw PM2.5 ac NO2⁵¹. Mae llygredd aer, ynghyd ag agweddau eraill ar yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol, yn creu baich clefydau annheg ar rannau mwy difreintiedig o gymdeithas. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y rhan fwyaf o broblemau llygredd aer lleol yn cael eu hachosi gan allyriadau o gerbydau ffordd; fodd bynnag, mae ffynonellau eraill yn dylanwadu ar ansawdd aer hefyd, fel ffynonellau diwydiannol, amaethyddol a phreswyl/domestig. Bydd y Cynllun yn cynnwys Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol mewn perthynas â chreu a rheoli coetir, plannu coed, rheoli gwrychoedd, adfer a chreu. Bydd plannu coetiroedd newydd yn enwedig darparu manteision sylweddol i ansawdd aer yng Nghymru a manteision dilynol i iechyd pobl.

Mae gan lygredd o amaethyddiaeth y potensial i effeithio'n ddifrifol ar iechyd corfforol drwy allyriadau llygryddion megis amonia neu ocsidau nitraidd. Y sector amaethyddol yw'r 'brif ffynhonnell' o allyriadau amonia yn y DU, gan gyfrif am 87% o gyfanswm allyriadau yn

¹⁰ Nid yw hyn yn golygu bod marwolaethau 'gwirioneddol' o ddod i gysylltiad â llygredd aer; yn hytrach, mae'n golygu bod y disgwyliad oes is y mae pawb yn ei brofi oherwydd dod i gysylltiad â llygredd aer yn 'gyfwerth' â rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau pan gânt eu crynhoi.

2022⁵². Gall llygredd aer deithio'n bell iawn, felly gallai lleihau llygredd mewn ardaloedd gwledig gael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig a threfol ledled Cymru.

Mae gwella ansawdd aer a gwella ansawdd dŵr yn ddau o ddibenion cymorth o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) i helpu i reoli tir yn gynaliadwy. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithredoedd i gyfrannu at y dibenion hyn.

Gall plannu coetiroedd mewn lleoliadau priodol ryng-gipio allyriadau amonia. Yn ogystal, bydd y Cynllun yn adeiladu ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 drwy gymell ymhellach gamau i leihau'r risg o lygredd gwasgaredig o ffermydd. Bwriad y broses o roi'r Cynllun ar waith yn arwain at fanteision i ansawdd pridd, aer a dŵr drwy leihau llygredd, a dylai hynny yn ei dro arwain at welliant yng nghanlyniadau iechyd y cyhoedd.

2. Gwella ansawdd dŵr a Lliniaru peryglon llifogydd a sychder

Bydd nifer o weithredoedd yn y Cynllun yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr a lliniaru peryglon llifogydd a sychder. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithredoedd sy'n ceisio lleihau perygl ac effaith llifogydd. Er enghraifft, gall gwella iechyd a strwythur y pridd, ynghyd â chynyddu deunydd organig pridd, ganiatáu i ddŵr wyneb ymdreiddio'n gyflymach a chael ei gadw yn y pridd am gyfnodau hirach nag y byddai fel arall. Hefyd, mae gan amaeth-goedwigaeth sydd wedi'i lleoli'n gywir y potensial i gynyddu ymdreiddiad yn ddyfnach i'r pridd a lleihau'r perygl o lifogydd.

Bydd y Cynllun hefyd yn cefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i weithio gyda'i gilydd ar lefel tirwedd, dalgylch neu Gymru gyfan i adeiladu rhwydwaith ar y cyd o weithredoedd cydgysylltiedig a allai gynnwys gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â pheryglon llifogydd a sychder.

Nod arall y Cynllun yw gwella ansawdd dŵr, oherwydd mewn llawer o achosion (fel gyda lliniaru llifogydd), mae'n bosibl y bydd cymorth i weithredoedd eraill yn arwain at wella ansawdd dŵr. Dylai gwella ansawdd pridd o ganlyniad i gyflwyno'r Cynllun gyfrannu at wella ansawdd dŵr, tra bydd lleihau allyriadau hefyd yn cyfrannu at ddŵr glanach. Mae llygredd dŵr sy'n mynd i ddalgylchoedd afonydd o amaethyddiaeth yn teithio i lawr yr afon, felly gallai lleihau allyriadau arwain at fanteision cadarnhaol mewn ardaloedd trefol yn ogystal â rhai gwledig.

Yn gyffredinol, nod y Cynllun yw lleihau'r risg i'r cyhoedd o lifogydd a sychder, a gwella ansawdd dŵr, a ddylai gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol.

3. Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw.

Bydd y Cynllun yn cynorthwyo ffermwyr i gynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw. Bydd yr Haen Opsiynol yn darparu cymorth ar gyfer uwchraddio a gwella hawliau tramwy cyhoeddus presennol, sy'n cynnwys

gwella dodrefn a phrofiad ymwelwyr. Nod gwelliannau i ddodrefn, megis tynnu camfeydd, yw ei gwneud yn haws i bobl ag amhariadau symudedd neu deuluoedd â chadeiriau gwrthio gael mynediad i gefn gwlad. Nod cymorth i ailosod neu osod nodwyr llwybr, byrddau gwybodaeth a seddi yw gwella profiadau ymwelwyr a gallant annog ymweliadau newydd neu fwy aml (gan gyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol).

4. Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.

Ceir manylion am sut y gall gwella iechyd a lles anifeiliaid gael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl yn yr adran Iechyd y Cyhoedd a Da Byw uchod.

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

Mae asesiad economaidd annibynnol o Haen Gyffredinol y Cynllun wedi llywio asesiad o'r berthynas amcangyfrifedig rhwng y Cynllun a chyflogaeth wledig, incwm busnesau fferm a materion economaidd-gymdeithasol ehangach. Mae manylion yr asesiad hwn, a dadansoddiad o gostau a manteision y Cynllun, i'w gweld yn Achos Busnes y Cynllun.

Mae gwybodaeth am effaith economaidd-gymdeithasol ddisgwyliedig y Cynllun wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Atodiad G).

Mynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau

Nod y Cynllun yw darparu mwy o gyfleoedd ac ymgysylltiad â gwasanaethau amaethyddol, er enghraifft, yn y ffordd y bydd ffermwyr yn ymgysylltu â'u milfeddyg i gwblhau'r gweithredoedd iechyd a lles anifeiliaid. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys cymorth i reoli cynefin a choetir presennol, ynghyd â gweithredoedd i blannu coed a chreu neu adfer gwrychoedd. Nodir manylion pellach yn Achos Busnes y Cynllun.

Bioamrywiaeth

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ar gyfer y Cynllun wedi'i gynnwys yn Atodiad F.

Hinsawdd

Mae Rhaglen Lywodraethu (2021-2026) Llywodraeth Cymru yn nodi, fel amcanion llesiant allweddol, yr angen i 'Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn' ac 'Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.' Yn ogystal, mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi gosod yr amcan i liniaru ac addasu i newid hinsawdd. Bydd y Cynllun yn cyfrannu at yr amcanion hyn drwy leihau ôl troed carbon y sector amaethyddol a chynyddu gorchudd coed a choetiroedd, a fydd yn ei dro yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Cymru. Mae Adroddiad 2020 UKCCC, *Land Use: Policies for a Net Zero UK*, yn tynnu sylw at gyd-fanteision lleihau allyriadau, gan gynnwys gwella iechyd yn sgil ansawdd aer gwell a gwelliannau o ran lliniaru llifogydd. 53

Wrth i'r hinsawdd newid, bydd yr amgylchedd, anghenion bioamrywiaeth a'r ecosystem fiolegol i gyd yn newid hefyd. Mae rheoli tir yn gynaliadwy a'r Cynllun wedi'u dylunio i alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn gadarnhaol, gan gefnogi ffermydd i barhau i fod yn wydn.

2.5b. A allai fod effaith iechyd wahaniaethol ar grwpiau penodol?

Byddwn yn ystyried y categorïau canlynol:

- Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran
- Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm
- Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall
- Grwpiau daearyddol

Yn ogystal, trafodir yr effaith bosibl ar iechyd meddwl ffermwyr yn adran Llesiant Meddyliol cwestiwn 2.5a.

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob ffermwr cymwys o bob oed. I gydnabod cyffredinrwydd anghydraddoldebau digidol ymhlith cenedlaethau hŷn a gwledig, ac i liniaru yn ei erbyn, cynhaliwyd cyfres o sioeau teithiol i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ffurfiol diwethaf, *Cadw ffermwyr i ffermio*. Cynhaliwyd deg sioe deithiol gyda lleoliadau wedi'u dewis i gynnig sioe deithiol o fewn awr i bob rhan o Gymru lle bynnag y bo modd. Mae digwyddiadau tebyg wedi'u cynllunio cyn i'r Cynllun gael ei gyflwyno yn 2026 a byddwn yn darparu cymorth i'r rhai y mae mynediad digidol yn anodd iddynt (am sawl rheswm). Mae rhagor o fanylion am hyn, ac am effeithiau disgwylidig y Cynllun, gan gynnwys effeithiau iechyd, ar grwpiau oedran gwahanol, wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B).

Gall cynllunio ar gyfer olyniaeth fod yn destun pryder i ffermwyr a bydd yn debygol o gael effaith negyddol fwy difrifol ar iechyd meddwl ffermwyr hŷn sy'n agosáu at ymddeol. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy beidio â chynnwys unrhyw gyfnodau cyfeirio neu hawliau hanesyddol. Gall gwella cynaliadwyedd busnesau ffermio gael effaith gadarnhaol drwy leddfu pwysau iechyd meddwl os yw'r Cynllun yn arwain at gynllunio ar gyfer olyniaeth yn fwy llwyddiannus, a byddai hyn yn cael ei deimlo'n fwy gan ffermwyr hŷn.

O safbwynt y boblogaeth yn fwy cyffredinol, mae 54gwaith ymchwil yn dangos bod plant a phobl hŷn yn fwy agored i effeithiau negyddol dod i gysylltiad â llygredd aer. Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio'n benodol gyda'r nod o ymateb i'r argyfwng hinsawdd, a bydd canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, megis aer glanach a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cyfrannu at yr amcan hwn. Oherwydd eu bregusrwydd cynyddol, byddai disgwyl i blant a phobl hŷn brofi'r manteision iechyd mwyaf o ganlyniadau amgylcheddol o'r fath.

Y sector amaethyddol sydd â'r gyfradd farwolaethau a damweiniau uchaf o blith holl ddiwydiannau'r DU, gan gynnwys y gyfradd anafiadau plant uchaf mewn amgylchedd gwaith⁵⁵. Yn ogystal, ffermio yw'r unig ddiwydiant risg uchel yn y DU lle mae plant yn bresennol drwy'r amser (naill ai fel rhan o'r teulu neu fel aelodau o'r cyhoedd)⁵⁶. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi bod plant yn y DU yn cael eu lladd bob blwyddyn wrth ymwneud â gwaith a gweithgareddau amaethyddol; yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant sy'n marw mewn digwyddiadau o'r fath yn aelodau o'r teulu⁵⁷. Fel y nodir uchod, mae'r Cynllun yn cynnwys Gweithred Gyffredinol lle bydd yn ofynnol i ffermwyr gwblhau lefel sylfaenol o ddysgu, gan gynnwys ynghylch iechyd a diogelwch. Dylai nodi a rheoli risgiau, ynghyd â lefelau uchel o addysg a sgiliau, arwain at wella safonau iechyd a diogelwch ar ffermydd a allai yn ei dro gefnogi diogelwch plant.

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm

Bydd prif effeithiau'r Cynllun mewn perthynas â grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm yn ymwneud ag aelwydydd ffermio. Mae ymchwil i ffermydd bach a bach iawn yng Nghymru (sy'n cyfrif am 87% o ffermydd Cymru) yn dangos nad yw maint economaidd ffermydd o reidrwydd yn rhagweld incwm aelwydydd ar gyfer y rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru⁵⁸. Roedd ffermydd Bach iawn yn fwy tebygol o fod ag incwm aelwyd o £10,000 i £29,999, tra bod ffermydd Bach yn fwy tebygol o fod ag incwm aelwyd rhwng £50,000 a £69,999, er nad oedd yr un o'r canlyniadau hyn yn ystadegol arwyddocaol yn yr ymchwil. Yn gyffredinol, bydd gan y mwyafrif llethol (82%) o ffermydd bach a bach iawn Cymru incwm aelwyd rhwng £10,000 a £69,999⁵⁹. Bwriad y Cynllun yw darparu cymorth i ffermydd llai o gymharu â BPS, o ganlyniad i isafswm maint fferm cymwys is (3ha neu 550 o oriau llafur safonol, o gymharu â 5ha yn BPS).

Yn wahanol i Gynllun y Taliad Sylfaenol, bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr yn ariannol i gyflawni gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau. Nid oes disgwyl ar hyn o bryd y bydd y Cynllun yn cael effaith wahaniaethol sylweddol ar grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm, yn amodol ar y defnydd o'r Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Mae dadansoddiad o gostau a manteision y Cynllun wedi'i gynnwys yn Achos Busnes y Cynllun.

Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

Nid ydym yn rhagweld y bydd y Cynllun yn effeithio'n benodol ar iechyd grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall, ac eithrio'r manteision iechyd posibl i'r boblogaeth gyffredinol a ddisgrifiwyd gennym uchod. Am ragor o wybodaeth am effeithiau'r Cynllun ar y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Atodiad G). Am effeithiau ar y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb y DU 2010, gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B).

Grwpiau daearyddol

Ni nodwyd unrhyw effeithiau anghymesur penodol ar gyfer yr effaith ar iechyd grwpiau daearyddol. Fel y disgrifir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae'r cyfrannau uchaf o bobl 50 oed a hŷn yn byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru megis Powys, Conwy ac Ynys Môn. Er bod effeithiau iechyd ar bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, maent yn canolbwyntio ar gyflawni materion allweddol yn ymwneud ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth.

2.6 Preifatrwydd

Fel rhan o'r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (Atodiad D).

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

3.1 Llesiant diwylliannol

Nod diwylliannol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'⁶⁰. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig a threftadaeth anniriaethol megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elït a chymunedol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (Ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)

Mae cysylltiad annatod rhwng diwylliant a threftadaeth Cymru a'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Mae datganiad Llywodraeth Cymru, *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru*,⁶¹ yn pwysleisio pwysigrwydd tirwedd Cymru fel cefndir ac ysbrydoliaeth i lawer o'r cynnyrch diwylliannol yng Nghymru. Rhan annatod o'r berthynas hon yw amaethyddiaeth; amcangyfrifir bod 90% y cant o dir Cymru yn cael ei neilltuo i amaethyddiaeth.

Mae'r Datganiadau Ardal a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos y berthynas hon rhwng tirweddau, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru⁶². Er enghraifft, mae tir amaethyddol ar wastadeddau Gwent (Datganiad Ardal y De-ddwyrain) nid yn unig o bwysigrwydd hanesyddol ac archeolegol, ond mae hefyd yn gynefin pwysig i lawer o rywogaethau⁶³. Yn yr un modd, mae Datganiad Ardal y Gogledd-ddwyrain yn dangos sut mae hanes Cymru wedi'i wreiddio yn y dirwedd drwy systemau caeau canoloesol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy⁶⁴.

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn nodi mai Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw'r fframwaith polisi ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae'n cynnwys pedwar amcan strategol y bydd rhaid i Weinidogion eu hystyried. Y pedwerydd amcan yw 'cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'. Felly, ystyrir bod diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys y Gymraeg, yn elfen allweddol o ddyfodol ffermio yng Nghymru, ochr yn ochr â'r amcanion yn ymwneud â chynhyrchu bwyd, newid hinsawdd a gwydnwch ecosystemau.

O ystyried bod gan y rhan fwyaf o'r tir yng Nghymru ddefnydd amaethyddol, tir amaethyddol hefyd yw lle mae llawer o'n hasedau treftadaeth archaeolegol wedi'u lleoli. Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r dirwedd drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod ar draul asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol gan fod rheoli tir yn gynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth a ffermwyr ystyried y dirwedd yn gyfannol er mwyn cyflawni'r amcanion strategol a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Un o ddibenion rheoli tir yn gynaliadwy yw 'cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoeddus iddynt a'u hymgysylltiad â hwy.' Er bod newid tirwedd yn anochel dros amser drwy brosesau naturiol, dylai newid a achosir gan y Cynllun gefnogi'r gwerth diwylliannol sy'n deillio o nodweddion unigol neu'r cyd-destun a ddarperir gan eu tirwedd gyfagos.

Fel y nododd *Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025*, mae tirweddau gwledig Cymru yn 'rhan werthfawr o'n treftadaeth' ac 'mae'r nodweddion hanesyddol ar ein ffermdir yn hanfodol i'n cymeriad cenedlaethol, ein hunaniaeth ddiwylliannol a'n heconomi.'⁶⁵ Er mwyn cydnabod eu gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, bydd y Cynllun yn cynorthwyo ffermwyr i reoli a gwella'r dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol drwy nifer o Weithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Ein huchelgais yw diogelu ein hasedau hanesyddol pwysig rhag difrod a helpu i warchod a chynnal cymeriad gwledol a diwylliannol nodedig Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Bwriedir i gadwraeth yr amgylchedd hanesyddol drwy'r Cynllun gael ei gyflawni drwy gael ffermwyr i gymryd cyfrifoldeb am yr asedau hanesyddol ar eu tir. Bydd Taliadau Gwledig Cymru (RPW) ar-lein yn dangos i ffermwr a oes ganddynt unrhyw asedau hanesyddol hysbys ar eu tir.

Fel rhan o Weithred Gyffredinol yr Amgylchedd Hanesyddol, bydd angen i ffermydd sydd ag asedau hanesyddol wedi'u nodi fonitro, cynnal a mabwysiadu dull 'peidio â gwneud difrod' i'w nodweddion hanesyddol.

Mae'r Weithred hon yn berthnasol i bob fferm yn y Cynllun sydd ag o leiaf un o'r asedau hanesyddol a restrir isod:

- Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gerddi Cofrestredig
- Nodweddion amgylcheddol hanesyddol – gan gynnwys nodweddion unigol ac ardaloedd mwy sy'n sensitif yn archaeolegol
- Adeiladau Fferm Traddodiadol

Gall y Cynllun hefyd gefnogi prosiectau cydweithredol sy'n seiliedig ar dirwedd sy'n anelu at wella'r amgylchedd a'r dirwedd hanesyddol, gan gynnwys yn ein Tirweddau Dynodedig, Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, lle bydd y cynllun Ffermio Bro: Ffermio

mewn Tirweddau Dynodedig (sy'n dechrau yn 2025-26) yn llywio'r haen gydweithredol ar draws ffermydd lluosog. Yn ogystal, efallai y bydd y Cynllun hefyd yn cynorthwyo gweithgareddau cydweithredol ar lefel tirwedd i wella mynediad ar gyfer cymunedau lleol a chefnogi blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae rhagor o fanylion am sut y disgwylir i'r Cynllun hyrwyddo a diogelu ein hamgylchedd naturiol a'n cefn gwlad, a'n treftadaeth ddiwylliannol yn sgil hynny, wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth (Atodiad F). Hefyd, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn amlinellu effeithiau disgwyledig y Cynllun ar yr agwedd benodol hon ar ddiwylliant Cymru (Atodiad E).

Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i gefnogi'r gwaith o reoli ein tirweddau a gwelliannau i hygyrchedd cefn gwlad. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y Cynllun yn effeithio'n uniongyrchol, yn gadarnhaol nac yn negyddol, ar gyfranogiad pobl yn y celfyddydau nac mewn chwaraeon.

3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft drwy ddarparu cyfleoedd eraill)?

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y gallai'r Cynllun gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, na gallu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Mae gan Gymru dreftadaeth amaethyddol gyfoethog ac mae ffermydd o bwysigrwydd diwylliannol i lawer o gymunedau yng Nghymru. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi gwytnwch y busnesau hyn, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig. Nod arall y Cynllun yw helpu cymunedau gwledig i ffynnu yn ogystal â gwella gwytnwch busnesau amaethyddol. Rydym yn nodi rhagor o fanylion yn ein Hasesiad Effaith Prawf Gwledig (Atodiad C).

3.2 Y Gymraeg

Gweler Atodiad E ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hynny drechu tlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?

Busnesau fferm

Mae cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) yn creu newid i sut mae busnesau fferm yn cael arian cyhoeddus. Yn y gorffennol, o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE, darparwyd cymorth ariannol i ffermydd yng Nghymru ar sail arwynebedd tir, ac roedd cymorth ychwanegol ar gyfer gweithredoedd penodol ar gael o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Glastir.

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y Ddeddf) yn gosod Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel y fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, ar sail pedwar amcan sy'n cwmpasu cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, lliniaru newid yn yr hinsawdd, gwynnwch ecosystemau, a chadw a gwella adnoddau diwylliannol. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i ddarparu SLM, ac o ganlyniad bydd yn gofyn i ffermwyr ymgymryd ag arferion ffermio cynaliadwy er mwyn derbyn arian cyhoeddus.

Bydd llesiant economaidd ffermwyr yn adlewyrchu'n rhannol wydnwch ariannol ac economaidd eu busnesau fferm. Bydd gwydnwch economaidd busnesau fferm yn adlewyrchu'r effaith ar gynhyrchiant, allbwn ac Incwm Busnes Fferm o ymgymryd â gweithredoedd y Cynllun, yn ogystal â gwerth taliad y Cynllun a wneir i ffermydd. Fe wnaethom gyhoeddi'r dull talu arfaethedig fel rhan o'r Amlinelliad o'r Cynllun⁶⁶ yn 2024. Mae rhagor o fanylion am y dull talu ar gael yn yr Achos Busnes. Bydd y Taliad Cyffredinol a geir gan fferm yn Haen Gyffredinol y Cynllun yn cynnwys y canlynol:

- Taliad Sylfaenol Cyffredinol i adlewyrchu'r costau a'r incwm a gollwyd i ffermwyr am ymgymryd â Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun, ac mae'n cynnwys tair elfen ar wahân:
 - Taliad Fferm Gyfan – cyfradd taliad sengl fesul hectar sy'n cwmpasu arwynebedd cymwys y fferm gyfan a dyraniad cymesur o dir comin lle bo hynny'n berthnasol;
 - Taliad Cynnal Cynefinoedd – cyfradd taliad sengl fesul hectar o dir ffermio cynefin lled-naturiol (heb gynnwys tir comin) a gynhelir (gan gynnwys tir SoDdGA nad yw'n goetir) yn unol â'r gweithredoedd rheoli a/neu ardal o gynefin dros dro, ar ôl ei chreu; a

- Taliad Cynnal Coetir – cyfradd taliad sengl fesul hectar ar gyfer coetir presennol (gan gynnwys coetir SoDdGA) sy'n cael ei reoli ar dir fferm nad yw'n denantir. Ni ellid talu'r Taliad Cynnal Cynefinoedd a'r Taliad Cynnal Coetir (lle talwyd) ar yr un ardal o dir.
- Taliad Gwerth Cymdeithasol: Bwriad y taliad gwerth cymdeithasol yw adlewyrchu'r manteision mae ffermydd yn eu cynhyrchu i gymdeithas ehangach drwy gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r taliad hwn yn ychwanegol at daliadau a wneir o dan y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Bydd yn gyfradd taliad sengl fesul hectar sy'n cwmparu'r ardal gymwys.

Bydd taliadau Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn adlewyrchu'r costau a'r incwm a gollwyd ar gyfer gweithredu ond nid ydynt yn cynnwys taliad gwerth cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio'r taliad gwerth cymdeithasol ar yr Haen Gyffredinol, i gydnabod y gwerth cymdeithasol presennol ac ychwanegol a ddarperir gan ffermio cynaliadwy yn y Cynllun, a thrwy hynny helpu i ysgogi ffermwyr i gymryd rhan yn y Cynllun. Wrth i'r Cynllun ddatblygu, byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon yn barhaus.

Mae'r dadansoddiad sy'n cefnogi'r Achos Busnes yn dangos bod effeithiau economaidd posibl y Cynllun yn amrywio ar draws mathau o ffermydd a gwahanol feintiau economaidd ffermydd, ac mae'n sensitif iawn i ragdybiaethau ynghylch dadleoli stoc a nifer y ffermwyr sy'n wynebu costau cydymffurfio ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredoedd y Cynllun. Mae'r modelu economaidd yn rhagdybio y bydd pob ffermwr yn ymuno â'r Cynllun ond, mewn gwirionedd, byddant yn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylent gymryd rhan yn y Cynllun yn seiliedig ar eu hamgylchiadau personol a busnes eu hunain.

Er mwyn lliniaru effeithiau economaidd negyddol posibl, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyfnod pontio a reolir. Rydym yn cynnig lleihau taliadau BPS mewn cynyddrannau ar gyfer ffermydd sy'n dewis peidio ag ymuno â'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw ffermwr yn gweld ei daliadau'n dod i ben yn sydyn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod rhai cynlluniau cymorth presennol yn parhau wrth i'r gyfres o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gael eu datblygu.

Nod y broses o reoli tir yn gynaliadwy, gan gynnwys drwy'r Cynllun, yw cefnogi hyfywedd economaidd yn yr hirdymor, drwy helpu ffermydd i fod yn wydn yn wyneb effeithiau amgylchiadau niweidiol, er enghraifft, oherwydd newid hinsawdd (megis llifogydd a sychder), a'u helpu i liniaru'r effeithiau hynny, a thrwy ddarparu cymorth ariannol i ymgymryd â gweithredoedd a allai arwain at arbed costau i ffermydd (megis gwella iechyd anifeiliaid a chyflwr pridd ac effeithlonrwydd adnoddau).

Mae asesiad meintiol o effeithiau economaidd posibl y Cynllun ar fusnesau fferm yng Nghymru ar gael yn yr Achos Busnes.

Diwydiannau amaethyddol a gwledig ehangach

Bydd y Cynllun yn cynnwys nifer o weithredoedd y gellid disgwyl iddynt fod o fudd i'r gadwyn gyflenwi ehangach, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Gallai nifer o Weithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol gynyddu'r angen i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i ffermydd, gan greu cyfleoedd i fusnesau eraill ddatblygu neu dyfu. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud â chreu a rheoli coetiroedd, gweithredoedd iechyd a lles anifeiliaid, profion pridd, creu a phlygu gwrychoedd, rheoli cynefinoedd, cyflenwi hadau a darparu cyngor technegol.

Bydd cymorth yn cael ei ddarparu o dan yr Haen Gydweithredol i ffermydd weithio gyda'i gilydd i ychwanegu gwerth at gynnyrch, cael mynediad at farchnadoedd newydd a datblygu cadwyni cyflenwi a fydd o fudd i ffermydd a'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Yn anuniongyrchol, gellir cefnogi manteision i'r gadwyn gyflenwi ehangach a busnesau gwledig drwy weithredoedd sy'n cefnogi gwydnwch busnesau fferm a chymunedau gwledig, sy'n anelu at sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu'n barhaus a sicrhau mynediad economaidd ac amgylcheddol gynaliadwy i farchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol dros y tymor hwy.

Mae risg y bydd y Cynllun yn arwain at ostyngiad mewn allbwn amaethyddol wrth i ffermwyr ymateb yn gadarnhaol i heriau newid hinsawdd, gofynion esblygol ac anwadalrwydd y farchnad a gofynion y Cynllun. Mae'r Cynllun (Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol) wedi'i ddylunio i ddarparu hyblygrwydd i ffermwyr ddewis y Gweithredoedd priodol sy'n addas i'w hamgylchiadau ac felly lliniaru'r risg hon. Er enghraifft, bydd gan ofynion rheoli cynefin lefelau stocio a argymhellir yn hytrach na lefelau gorfodol. Mae'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn wirfoddol.

Y Cyhoedd ac Unigolion

Bwriad y Cynllun yw cael effaith gadarnhaol ar unigolion a'r cyhoedd. Mae llawer o'r effeithiau cadarnhaol posibl sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant wedi'u hamlinellu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Adran 2) a'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B). Amlinellir effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Atodiad G).

Yn benodol, gellir cynhyrchu'r effeithiau canlynol ar y cyhoedd:

- Bydd cynnal safonau cynhyrchu bwyd Cymru yn darparu bwyd o safon i ddefnyddwyr ac yn diogelu tirwedd ac adnoddau naturiol Cymru ar yr un pryd
- Bydd gwell darpariaeth ar gyfer cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad yn dod â manteision o ran iechyd, llesiant a thwristiaeth
- Bydd diogelu tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol yn cynnal ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Bydd gwell ansawdd aer a dŵr, drwy sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy yn y Cynllun, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant hefyd

- Bydd safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yn cyfrannu at fwyd mwy diogel, iechyd y cyhoedd gwell, llai o alw ar wasanaethau iechyd a'r angen am driniaeth wrthfotig. Mae clefydau anifeiliaid yn fygythiad cyson i'r sector da byw yng Nghymru a gall achosion o glefydau gael effaith ddinistriol ar y diwydiant, cymunedau gwledig ac economi Cymru. Mae risg hefyd o filheintiau (clefydau y gellir eu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl e.e. salmonela) sy'n gallu cael effaith ar iechyd y cyhoedd. Mae da byw iach sy'n cael eu cadw yn unol â safonau lles uchel yn cyfrannu at gymunedau gwledig trwy gynnal busnesau fferm proffidiol, cefnogi cyfleoedd marchnata a masnach a helpu ffermwyr i gynyddu elw, yn ogystal â diogelu a chreu swyddi.

Yn dibynnu ar ymddygiad y cyhoedd, gall gwell mynediad beri risgiau i'r amgylchedd naturiol. Ar ben hynny, mae'r arolwg diweddar am gŵn yn poeni defaid gan y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol wedi dangos bod ffermwyr yn dal i brofi digwyddedd yr un mor uchel o gŵn yn poeni ac yn ymosod ar ddefaid â phan oedd y broblem ar ei hanterth ar ddechrau'r pandemig coronafeirws (COVID-19) yn 2020, wrth i berchnogaeth cŵn a mynediad i gefn gwlad gynyddu.⁶⁷ Mae'r Cod Cefn Gwlad, a fydd yn cael ei hyrwyddo fel rhan o Weithredoedd y Cynllun, wedi'i ddiweddarau ers hynny⁶⁸ i adlewyrchu'r ffordd mae pobl bellach yn defnyddio cefn gwlad, a'i nod yw lleihau'r risg o effeithiau negyddol.

4.2 Y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?

Bydd y prif effeithiau ar y sector cyhoeddus yn ymwneud â'r cyrff hynny sy'n mynd ati i roi'r Cynllun ar waith. Yn benodol, bydd agweddau ar weithredoedd y Cynllun yn gofyn am arbenigedd technegol gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn bennaf Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru (RPW) a Cadw), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r ddau sefydliad yn cyfrannu'n sylweddol at ddarparu mecanweithiau cymorth a rheoli presennol.

Hefyd, mae'n bosibl y bydd y Cynllun yn helpu i leihau costau i'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r Haenau Cyffredinol ac Opsiynol yn cynnwys gweithredoedd sy'n ymwneud â bioddiogelwch a gwella iechyd a lles anifeiliaid; gallai lleihau'r tebygolrwydd o frigiadau o achosion o glefydau, a graddfa'r brigiadau o achosion, arwain at arbedion cost mewn perthynas ag ymdrin â digwyddiadau o'r fath ac ymateb iddynt. Bydd yr enillion 'un iechyd' sy'n gysylltiedig â gwella iechyd a lles anifeiliaid hefyd yn cefnogi manteision i gyrff iechyd cyhoeddus drwy leihau baich milheintiau a lleihau'r defnydd o wrthfotigau, gan oedi datblygiad ymwrthedd i wrthfotigau. Ymhellach, gall llai o ddibyniaeth ar driniaethau anifeiliaid gefnogi gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrff iechyd yr amgylchedd drwy leihau faint o gyfansoddion anthelmintig a gwrthparasitig sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd a'u heffeithiau ar fioamrywiaeth.

4.3 Y Trydydd Sector

Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'r hyn maen nhw'n ei wneud?

Rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector yn ystod ein hymgyngghoriadau ac fel rhan o'n gwaith cydlunio, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw wrth i'r Cynllun gael ei gyflwyno a'i gwblhau.

Yn benodol, mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector yn darparu cymorth iechyd meddwl i ffermwyr yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod amaethyddiaeth yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol ac y gall hyn effeithio ar iechyd meddwl rhai ffermwyr. Mae asesiad manylach o'r effeithiau hyn, a mesurau lliniaru perthnasol, wedi'u cynnwys yn Adran 2. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth yn y maes hwn yn gweld newidiadau i lefel y galw a'r math o gymorth y gofynnir amdano.

Cynllun ffermio yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac o'r herwydd, nid sefydliadau'r trydydd sector fydd y prif gyfranogwyr na'r rhai sy'n cael cyllid drwy'r Taliad Cyffredinol. Pan fydd ffermwr tenant yn ffermio tir sy'n eiddo i sefydliad trydydd sector, rydym yn disgwyl mai'r ffermwr ei hun fydd yn ymuno â'r Cynllun, yn cyflawni'r gweithredoedd ac yn cael taliadau. Fodd bynnag, yn yr Haen Gydweithredol, bydd cyfleoedd i sefydliadau'r trydydd sector weithio ochr yn ochr â ffermwyr i gyflawni canlyniadau ar raddfa tirwedd, ar gyfleoedd arloesi a chyfleoedd eraill lle gall unigolion a sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd gael budd mawr.

Rhagwelir y gall rhai o sefydliadau'r trydydd sector ddarparu arweiniad a chymorth i lywio gweithredoedd ffermwyr i wireddu'r manteision sy'n deillio o'r Cynllun, ond nid yw'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r trydydd sector neu wirfoddolwyr gyflawni unrhyw agwedd ar y Cynllun, ac ni fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio cyfleusterau/asedau cymunedol sy'n eiddo i'r trydydd sector.

4.4 Effaith ar Gyfiawnder

Mae'r Cynllun yn ymwneud â gweithredoedd ar y fferm sy'n mynd y tu hwnt i ofynion rheoleiddio. Nid yw'r cynllun yn:

- Cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd
- Creu, dileu neu ddiwygio trosedd
- Arwain at unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder (e.e. drwy gynyddu ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus)

O'r herwydd, nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar gyfer y cynigion.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol, yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol i weithredu'r polisi hwnnw ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

Gofynnol ar gyfer pob cynnig:	Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol Polisi Adnoddau Naturiol	5.1a 5.1b
Gofynnol ar gyfer pob cynnig	Bioamrywiaeth	5.2 ac Atodiad F
Gofynnol ar gyfer pob cynnig	Newid Hinsawdd	5.3
Cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004	Asesiad Amgylcheddol Strategol	5.4 a Chanllawiau IIA
Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (ACA/AGA)	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	5.5 a Chanllawiau IIA
Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr; draenio tir a thrydan lle bo angen Asesiad o'r Effaith	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	5.6 a Chanllawiau IIA

Amgylcheddol o dan y Rheoliadau amrywiol		
--	--	--

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut fydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)?

Y Blaenoriaethau Cenedlaethol yn yr NRP yw:

- *Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur*
- *Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau*
- *Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd*

Disgwylir y bydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) yn helpu i gyflawni pob un o'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol fel y'u nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Atebion seiliedig ar natur

Mae'r Cynllun wedi targedu cymorth ar ffurf nifer o Weithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol gyda'r nod o gyfrannu at, er enghraifft, pridd iach, aer glân ac amgylchedd gwydn gyda mwy o fioamrywiaeth.

Bydd y Cynllun yn annog mwy o ffocws ar atebion naturiol a gwella'r cynefinoedd a'r fioamrywiaeth ar dir amaethyddol ledled Cymru. Bydd yr Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol yn cefnogi defnyddwyr tir i wneud y newidiadau hyn mewn arferion rheoli ffermydd. Er enghraifft, gallai cynyddu'r gorchudd coed ar dir cymwys (a reolir yn unol â'r Safon Coedwigaeth y DU), ynghyd â'r weithred o reoli cynefinoedd yn weithredol, helpu i leihau perygl llifogydd a chyfrannu at ddatgarboneiddio.

Rhaid i bob fferm yn y Cynllun hefyd gynnal o leiaf 10% o'u fferm fel cynefin, gan gydnabod cyfraniad a maint y gweithredu sydd ei angen i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd ffermydd heb 10% yn gallu creu cynefin dros dro ychwanegol ar dir wedi'i wella i fodloni'r gofyniad hwn. Nod y Weithred hon yw sicrhau cynnydd sylweddol mewn tir a reolir fel cynefin yng Nghymru a darparu manteision gwerthfawr i'r ffermwr, natur a'r amgylchedd.

Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau

Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o Weithredoedd a ddyluniwyd i helpu ffermwyr i ddod yn fwy effeithlon drwy fabwysiadu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau, lleihau gwastraff (a ystyrir yn aml fel llygredd amgylcheddol) ac felly cynyddu effeithlonrwydd adnoddau.

Er enghraifft, nod y Weithred Gyffredinol Meincnodi yw annog meincnodi sylfaenol i hyrwyddo newid sylweddol ym mherfformiad ffermydd, gan gynyddu gallu ffermydd i addasu i newid a gwella eu heffaith ar yr amgylchedd, gan arwain at ddiwydiant mwy llewyrchus a gwydn. Bydd y Weithred Gyffredinol Meincnodi yn rhoi man cychwyn i ffermwyr ddeall sut mae eu busnes yn perfformio ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy, lleihau costau, gwneud gwell defnydd o adnoddau a gwneud gwelliannau amgylcheddol, sy'n cysylltu â gweithredoedd eraill y Cynllun e.e. gwelliannau iechyd anifeiliaid neu ddefnyddio glaswelltir yn fwy effeithlon.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ERAMMP,⁶⁹ sy'n amlinellu sut y gall mesurau rheoli da byw leihau allyriadau a gwella effeithlonrwydd.

Bydd y Gweithredoedd Cyffredinol, megis profion pridd, datblygiad proffesiynol parhaus, iechyd a lles anifeiliaid a rheolaeth integredig ar blâu, hefyd yn llywio newidiadau ar ffermydd i gefnogi mwy o effeithlonrwydd adnoddau. Mae gweithgareddau o dan yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol wedi'u dylunio i gefnogi'r gwaith o wireddu'r manteision a nodwyd yn y Gweithredoedd Cyffredinol.

Bwriad cefnogi ffermwyr, drwy Weithredoedd y Cynllun a chynghor a chanllawiau, i weld lle y gellir gwneud gwelliannau yw cefnogi gostyngiad mewn allyriadau carbon a llygredd, a darparu manteision i fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau. Byddai'r newidiadau hyn hefyd yn cefnogi aer a dŵr glanach a chynnyrch bwyd o ansawdd uwch.

Dull seiliedig ar leoedd

Mae'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn annog dull seiliedig ar leoedd, a gefnogir gan nifer o Weithredoedd arfaethedig o fewn y Cynllun. Mae rheoli tir yn gynaliadwy yn bwriadu cefnogi ffermio mewn ffordd sy'n gweithio gyda natur, yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn cefnogi cymunedau gwledig bywiog, yn ogystal â galluogi a chefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Nod gweithredoedd y Cynllun yw cyflawni canlyniadau cadarnhaol SLM, ond bydd camau o'r fath yn amrywio yn ôl fferm, lleoliad a blaenoriaethau lleol. Byddwn yn parhau i ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys yr 70Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol⁷¹ (SoNaRR) a Datganiadau Ardal CNC i nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd lleol i gefnogi cydweithio ar raddfa dalgylch neu dirwedd.

Bydd Gweithredoedd y Cynllun i gefnogi gweithgarwch seiliedig ar leoedd, ar raddfa tirwedd yn cynnwys, er enghraifft, y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (CANI) a ddatblygwyd i feithrin gallu a galluogrwydd er mwyn gweithredu ar y cyd, gan alluogi ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir ac eraill i gydweithio ar lefel tirwedd, dalgylch neu Gymru gyfan. Bydd cyfleoedd pellach yn Haen Gydweithredol y Cynllun i ffermwyr, ac eraill, weithio gyda'i gilydd i gyflawni blaenoriaethau lleol.

Ar bob lefel o weithgarwch o dan y Cynllun (fferm, tirwedd, dalgylch, Cymru gyfan), bydd yn bwysig sicrhau bod gweithredoedd priodol ar gyfer y lleoliad hwnnw a'r busnes fferm yn cael

eu rhoi ar waith. Er enghraifft, bydd y Cynllun yn defnyddio mecanweithiau presennol, wedi'u haddasu lle bo hynny'n briodol, i sicrhau bod cyfyngiadau a sensitifrwydd amgylcheddol yn cael eu cydnabod fel rhan o greu coed, coetir a gwrychoedd i gefnogi camau sensitif a phriodol. Drwy gyflwyno'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Gwrychoedd, mae plannu coed a chreu gwrychoedd wedi'u dylunio i fod mor hyblyg â phosibl, gan ganiatáu i ffermwyr ddewis ble orau i blannu gyda chefnogaeth ariannol, help ac arweiniad.

5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn.

Gweler Atodiad F ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas.

Nod y Cynllun yw helpu ffermwyr i ddeall eu llwybrau i sero net a chefnogi nodi cyfleoedd i leihau allyriadau carbon a chynyddu atafaelu carbon.

Rydym yn cynnig darparu Llinell Sylfaen Carbon unigol ar Lefel Fferm i bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun gyda'r bwriado fesur effaith carbon y busnes fferm cyfan (CO₂e fesul hectar o allbwn). Mae hwn yn fan cychwyn i bob ffermwr ddeall ei ôl troed carbon, a dylai gefnogi ffermwyr yn eu gallu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a storio cymaint o garbon â phosibl. Bydd defnydd parhaus o'r Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm yn helpu i olrhain effeithiolrwydd mentrau carbon isel ar y fferm, gan rymuso ffermwyr i ddeall eu hallyriadau presennol a helpu i nodi meysydd y gellir eu gwella.

Mae adroddiad *cadwyni rhesymeg Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd* (ERAMMP)⁷² ac adroddiad y *Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon*,⁷³ a ddefnyddiwyd i gefnogi dylunio'r Cynllun, yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael yn y Cynllun a pholisi ehangach i gefnogi'r gwaith o ddiogelu a chynyddu storfeydd carbon a biomas. Bwriad Gweithredoedd Cyffredinol megis profion pridd, rheolaeth integredig ar blâu, meincnodi a rheoli gwrychoedd, ynghyd â Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol cysylltiedig, yw cefnogi ffermydd i ymgymryd ag ystod o arferion rheoli a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth⁷⁴ yn dangos gallu cyfyngedig i gynyddu storfeydd carbon a phwysigrwydd cynnal rheolaeth fuddiol dros y tymor hwy:

- Mae'r cynnydd mewn Carbon Organig Pridd (SOC) oherwydd newid penodol mewn dull rheoli neu ddefnydd tir yn gyfyngedig. Bydd stociau SOC yn tueddu i drwytho wrth gyrraedd cyflwr ecwilibriwm newydd. Yn yr un modd, efallai y bydd enillion SOC

posibl ar eu mwyaf mewn ardaloedd sydd â stoc SOC isel ar hyn o bryd sy'n gweld newidiadau mewn defnydd tir, yn hytrach na mân newidiadau rheoli.

- Efallai na fydd cynnydd yn y SOC oherwydd newid penodol mewn dull rheoli neu ddefnydd tir yn barhaol. Mae dychwelyd i'r dull rheoli gwreiddiol yn debygol o ryddhau SOC cronedig, felly mae newidiadau hirdymor mewn arferion yn bwysig.

Bydd yn ofynnol i bob fferm yn y Cynllun reoli o leiaf 10% o'u fferm fel cynefin, gan gydnabod cyfraniad a maint y gwerithredu sydd ei angen i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Bydd ffermydd heb 10% yn gallu creu cynefin dros dro ychwanegol ar dir wedi'i wella i fodloni'r gofyniad hwn. Gallai'r Weithred hon, ynghyd â Gweithredoedd Opsiynol penodol ar gyfer creu a rheoli cynefinoedd, arwain at gynnydd sylweddol yn y tir a reolir fel cynefin yng Nghymru a darparu manteision gwerthfawr i'r ffermwr, natur a'r amgylchedd. Mae yna hefyd Weithred Gyffredinol ar gyfer safleoedd dynodedig, a ddyluniwyd i sicrhau bod gan bob safle, ar ffermydd o fewn y Cynllun, Gynllun Rheoli a Rhestr Waith, y cytunwyd arnynt gyda CNC, i gynnal neu wella cyflwr yr asedau cenedlaethol gwerthfawr hyn.

Yn ogystal, gallai rheoli ac adfer cynefinoedd naturiol sy'n bodoli eisoes (o fewn y Cynllun) sy'n gweithredu fel storfeydd carbon arwain at gynyddu gallu gwahanol ecosystemau i gadw carbon.

Cynnal gallu cynhyrchiol, yn enwedig drwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch.

Ansawdd Pridd

Mae cynnal gallu cynhyrchiol drwy wella ansawdd pridd yn rhan annatod o egwyddor rheoli tir yn gynaliadwy a rhaid ei gynnal a'i wella er mwyn cyflawni'r amcanion strategol. Mae Adolygiad Tystiolaeth Pridd Cymru (2022)⁷⁵ yn tynnu sylw at y ffaith bod pridd yn adnodd hanfodol sy'n cynnal bywyd ac yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol i Gymru (t4). Mae'r adroddiad yn nodi, gan fod gan bridd broses ffurfio araf, ei fod yn cael ei ystyried yn adnodd nad yw'n adnewyddadwy, sy'n gofyn am reolaeth gynaliadwy. Disgrifir statws presennol pridd amaethyddol Cymru (yn enwedig priddoedd organomwynol a mawn) fel pridd sy'n uchel mewn carbon, o gymharu â'r cyfartaledd Ewropeaidd. Mae hyn yn gwneud y pridd yn adnodd gwerthfawr. Mae'r risg i'r pridd yn gysylltiedig â dwysedd y rheolaeth o fewn systemau glaswelltir, gan eu bod yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru ac yn dibynnu ar ddwysedd stocio, menter fferm a'r math o laswelltir. Mae'r adroddiad yn amlinellu tri chyfle allweddol ar gyfer gwella ansawdd pridd yng Nghymru: atafaelu a chadw carbon, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a newidiadau mewn ansawdd tir a chyfleoedd cynyddio.

Bydd Gweithredoedd ar y fferm i wella ansawdd pridd yn aml yn sicrhau manteision ehangach hefyd megis llai o nwyon tŷ gwydr, gwell ansawdd dŵr, gwell ansawdd aer ac ecosystemau mwy gwydn, gan gynnal gallu cynhyrchiol y tir.

Bydd y Cynllun yn cynnwys Gweithredoedd yn yr Haenau Cyffredinol ac Opsiynol sy'n gysylltiedig â Chynllunio Iechyd Pridd, a fydd yn cynnwys profion pridd, rheoli a chynllunio

maethynnau. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth i bob ffermwr o'i bridd a gofynion ei gnydau. Drwy brofi eu priddoedd, bydd gan ffermwyr yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau gwybodus, a fydd yn cael eu cefnogi drwy weithgareddau o dan yr Haen Opsiynol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ffermwyr yn rhoi'r dull rheoli mwyaf priodol ar waith ar eu fferm, gan wella'r canlynol hefyd:

- Proffidioldeb ffermydd drwy reoli costau mewnbynnau
- Biom pridd drwy fywyd amrywiol yn y pridd megis ffyngau neu organebau bach mwy o faint e.e. mwydod
- Adeiledd pridd drwy gael pridd sy'n cydgrynhoi'n well a thrwy sicrhau lefelau sefydlog o garbon yn y pridd, lleihau erydu
- Atafaelu carbon yn y pridd
- Cyfradd ymdreiddiad pridd gan ganiatáu i fwy o ddŵr gael ei gadw gan briddoedd, gan leihau llifogydd

Gall gweithgareddau yn yr Haen Opsiynol sy'n canolbwyntio ar droi'n organig a chymorth hefyd wasanaethu i wella neu gynnal ansawdd pridd ar y ffermydd sy'n eu gweithredu oherwydd y defnydd o ddulliau cylchdro cnydau, compost a chnydau sy'n bachu nitrogen⁷⁶.

Mae'r Cod Cyffredinol hefyd yn cynnwys gofynion gorfodol gofynnol megis Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) 4 a 5, i ganolbwyntio ar ddiogelu pridd drwy gynnal isafswm gorchudd pridd a lleihau erydiad pridd.

Bioddiogelwch

Mae clefydau sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant yn cyfyngu'n fawr ar gynhyrchu da byw yn effeithlon ac maent yn effeithio ar ôl troed carbon, effeithlonrwydd a phroffidioldeb ffermydd. Mae systemau Cymru yn arbennig o agored i effeithiau clefydau endemig gan eu bod yn seiliedig ar dir pori i raddau helaeth. Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) wedi nodi gwell iechyd anifeiliaid drwy fioddiogelwch fel mesur lliniaru effeithiol, yr amcangyfrifir ei fod yn arbed arian i ffermwyr ac yn cyfrannu at leihau allyriadau CO₂e.

Dangosodd *adroddiad cadwyni rhesymeg ERAMMP*⁷⁷ y gallai da byw iachach a mwy cynhyrchiol yn sgil bioddiogelwch gwell ddarparu:

- Gwell cynhyrchiant, fel bod angen llai o dda byw ar gyfer yr un allbwn
- Cynnal a gwella bioddiogelwch fel budd ynddo'i hun
- Llai o effeithiau meddyginiaethau milfeddygol ar rywogaethau eraill (e.e. chwilod tail) a phrosesau ecosystemau (e.e. cylchdroi maethynnau) a gwasanaethau ecosystemau (e.e. ansawdd dŵr) cysylltiedig
- Llai o wrthfotigau'n gollwng i'r amgylchedd
- Gwell ansawdd aer a llai o allyriadau carbon fesul uned, sy'n fanteision anuniongyrchol anifeiliaid mwy cynhyrchiol

Mae Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun yn cynnig cefnogaeth i gyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd anifeiliaid, lles a bioddiogelwch. Bydd y Weithred Gyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cynnwys tair prif elfen: y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC); Bioddiogelwch; a Lles Anifeiliaid. Bydd yr elfen Bioddiogelwch, a gweithgareddau cysylltiedig yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol, yn ceisio galluogi lefel dda o fioddiogelwch ar draws ffermydd, drwy'r gallu i ddarparu cymorth i gyflawni gweithredoedd megis sicrhau bod ffiniau'n ddiogel i atal stoc rhag crwydro, sicrhau bod gorsafoedd golchi ar gael a diogelu storfeydd bwyd anifeiliaid i gadw bywyd gwyllt, ac yn enwedig fermin, allan.

Mae Gweithredoedd eraill sy'n cefnogi bioddiogelwch yn cynnwys:

- Yr opsiwn o ddewis modiwlau Datblygiad Proffesiynol Parhaus cysylltiedig
- Mae'n ofynnol i ffermwyr sydd â da byw sicrhau bod eu holl ffiniau fferm amgaaedig y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt wedi'u diogelu stoc fel sy'n briodol i'r rhywogaeth a gedwir

Lleihau'r perygl o lifogydd

Mae amrywiaeth o ffactorau megis topograffi, cynefin a glawiad yn dylanwadu ar y perygl o lifogydd⁷⁸. Mae adroddiad cadwyni rhesymeg ERAMMP yn tynnu sylw at ystod o weithgareddau y byddai disgwyl iddynt liniaru'r perygl o lifogydd:

- Gall rheoli'r borfa a chnydau gorchudd gynyddu cyfraddau ymdreiddiad a chadw dŵr
- Gall plannu gwrychoedd a chlustogfeydd eraill (e.e. mewn parthau glan afon) arafu dŵr ffo
- Mae coetir fferm yn gwella'r ffordd mae dŵr yn cael ei ryng-gipio drwy wella strwythur y pridd

Mae amrywiaeth eang o ecosystemau yn cynnig budd amlwg o ran rheoli llifogydd pan fyddant mewn cyflwr da. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sôn am un enghraifft o hyn mewn perthynas ag ardaloedd Ffridd yng Nghanol De Cymru, lle sonnir am liniaru llifogydd fel un o nifer o fanteision rheoli'r ecosystem yn dda⁷⁹.

Mae tystiolaeth ERAMMP⁸⁰ yn dangos bod gan adfer gwlyptiroedd gorlifdir fanteision o ran Rheoli Perygl Llifogydd, drwy leihau amllder a'r oedi cyn digwyddiadau llifogydd. Gall fod risg i gydamseru penllanw, gan arwain at lifogydd i lawr yr afon. Mae effeithiolrwydd adfer gwlyptiroedd gorlifdir yn dibynnu ar ffactorau penodol i safle, er enghraifft, topograffi tirwedd, nodweddion pridd, math o reolaeth ac i ba raddau y maent wedi'u cysylltu â'r afon. Mae tystiolaeth ERAMMP hefyd yn nodi manteision bioamrywiaeth gorlifdiroedd wedi'u hadfer, sy'n gallu 'darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd (gan gynnwys cynefinoedd sy'n derbyn blaenoriaeth megis ffeniau, gwelyau cyrs a chorsydd wedi'u codi ar dir isel) a buddion ar gyfer y rhywogaethau sy'n defnyddio'r rhain fel mannau bwydo, bridio a gorffwys.'⁸¹ Ymysg y rhywogaethau a'r tacsonau sy'n elwa mae rhydwyr, adar gwyllt, pysgod,

mamaliaid, amffibiaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae tri chwarter y tiroedd gwlybion a adferwyd yn cael eu defnyddio gan adar sy'n mudo'⁸².

Gall rheoli pridd hefyd gyfrannu at lai o berygl llifogydd. Mae'r Gymdeithas Frenhinol yn nodi 'soil can act as 'natural flood management infrastructure' by increasing water infiltration into the ground and also by providing natural water storage, for example through uptake into root systems'⁸³. Maent yn nodi 'both these benefits are negatively affected by compacted soil structure. Compaction of the pores within the soil reduces the ability of rainfall to infiltrate the soil and acts as an obstacle to root penetration'⁸⁴.

Mae Gweithredoedd o fewn y Cynllun a allai gefnogi amcanion lliniaru perygl llifogydd yn cynnwys:

- Os oes ganddynt gynefin, bydd angen i ffermwyr ei gynnal yn briodol
- Creu coetir a gwrychoedd newydd
- Cynnal a chadw coetir
- Rheoli gwrychoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- Cael cnwd gorchudd amlrywogaeth ar bob tir nad yw'n cael ei bori dros y gaeaf (er mwyn osgoi pridd moel a fyddai'n cyflymu llif dŵr, yn caniatáu i bridd drosglwyddo i ddyfrffyrdd ac yn arwain at erydiad pridd)
- Rheoli o leiaf 10% o'u tir i gynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol. Lle nad oes digon o gynefin lled-naturiol ar gael, bydd angen i ffermwyr ddewis Gweithredoedd i greu nodweddion cynefin parhaol neu dros dro ar dir amaethyddol arall

Yn gyffredinol, nod y Cynllun yw cyfrannu at leihau'r perygl o lifogydd drwy arferion rheoli tir yn gynaliadwy, yn enwedig creu gwrychoedd a choetir, cynyddau gorchudd, adfer gwlyptiroedd a rheoli pridd. Gyda'i gilydd, gallai'r camau hyn wella cyfraddau cadw dŵr, lleihau cyfradd dŵr ffo, gwella bioamrywiaeth ac ategu swyddogaethau ecosystemau. Yn ei dro, gallai hyn helpu i liniaru effeithiau negyddol posibl i lawr yr afon, ac mae'n cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Cefnogi lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo drwy ddulliau ecosystem.

Mae allyriadau amaethyddol yn rhan sylweddol o nwyon tŷ gwydr Cymru, gan gyfrannu tua 15% o gyfanswm allyriadau Cymru⁸⁵. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau sero net ar gyfer 2050 ac mae'r diwydiant (Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru) yn targedu 2040⁸⁶. O ystyried maint allyriadau nwyon tŷ gwydr y diwydiant, mae cyfle sylweddol yn bodoli ar gyfer ffermio i helpu i liniaru newid hinsawdd.

Diffinnir dulliau ecosystemau o addasu i newid hinsawdd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel 'the use of biodiversity and ecosystem services [...] to help people adapt to the adverse effects of climate change'⁸⁷. Gall hyn gynnwys 'sustainable management, conservation and restoration of ecosystems, as part of an overall adaptation strategy that

takes into account the multiple social, economic and cultural co-benefits for local communities'⁸⁸.

Mae'n bwysig nodi bod y diffiniad hwn yn rhoi pwyslais ar lesiant pobl a chymunedau ac yn defnyddio mesurau sy'n sicrhau manteision ehangach. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcan SLM strategol o liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd a bod yn rhaid gwneud hynny mewn ffordd sy'n:

- Diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; ac
- Cyfrannu at nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gall ecosystemau iach weithredu fel clustog yn erbyn tywydd garw a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Mae CNC wedi cynghori, yn natganiad ardal Gogledd-orllewin Cymru, fod effeithiau newid hinsawdd eisoes yn digwydd yng Nghymru, gyda sychder difrifol, tanau gwyllt a straen ar ein cynefinoedd brodorol yn dod yn fwy cyffredin⁸⁹. Bwriad Gweithredoedd y Cynllun isod yw cefnogi canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy mewn perthynas â newid hinsawdd:

- Cynnal profion pridd. Gall mwy o ddealltwriaeth o iechyd y pridd lywio penderfyniadau rheoli, a all yn ei dro arwain at fanteision i bridd. Gall iechyd pridd da arwain at lawer o fanteision trawsbynciol, sy'n cynnwys darparu gwydnwch i dywydd eithafol; gwella ffrwythlondeb, gan arwain at gynaliadwyedd hirdymor; a lleihau llifogydd.
- Os oes ganddynt gynefin, bydd angen i ffermwyr ei gynnal yn briodol.
- Plannu coed, creu gwrychoedd a chreu coetir newydd.
- Cynnal a chadw coetir.
- Rheoli gwrychoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

Gallai Gweithredoedd y Cynllun gyfrannu at greu rhwydweithiau ecolegol gwydn drwy wella cynefin ar gyfer bywyd gwyllt, ac amrywio rhywogaethau. Mae'r Gweithredoedd hyn hefyd yn cyd-fynd â diogelu a chynyddu storffeydd carbon.

*Amaeth-goedwigaeth*¹¹

Mae tystiolaeth⁹⁰ yn dangos y gall systemau amaeth-goedwigaeth gyfrannu at arafu'r cynnydd hwnnw (mewn crynodiadau carbon deuocsid atmosfferig [CO₂]) ac, felly, gyfrannu at liniaru newid hinsawdd. Y pwll carbon organig pridd (SOC), yn benodol, yw'r unig bwl daearol sy'n storio rhywfaint o garbon (C) am filenia y gellir ei wella'n fwriadol gan arferion amaeth-goedwigaeth. Gall hyd at 2.2 Petagram (Pg) o Garbon (1 Pg = 1015 g) gael ei ddal uwchben ac islaw'r ddaear am dros 50 mlynedd mewn systemau amaeth-goedwigaeth.

¹¹ Mae amaeth-goedwigaeth yn cyfeirio at gynhyrchu cynydau, da byw a biomas coed ar yr un darn o dir.

Bwriad y Cynllun yw darparu mwy o gyfleoedd a chymorth ariannol ar gyfer amaeth-goeswigaeth a choetir pori ar ffermydd Cymru.

Coetir

Mae cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) i Lywodraeth y DU ar ei Seithfed Cyllideb Garbon (2038-2042) ⁹¹ yn nodi pwysigrwydd cynyddu gorchudd coetir ar lefel y DU, o fewn y Llwybr Cytbwys. Gallai defnyddiau amgen o dir arwain at ostyngiadau mewn allyriadau o 39% erbyn 2040, o gymharu â 2022. Erbyn y pwynt hwnnw, rhagwelir y bydd allyriadau yn gostwng o 0.8 MtCO₂e yn 2022 i -1.9 MtCO₂e erbyn 2040. Mae hyn yn cynnwys adfer a rheoli mawndiroedd (17% o'r gostyngiad mewn allyriadau yn 2040), a oedd yn cyfrif am ffynhonnell net o allyriadau (15 Mt CO₂) yn 2022. Yn y Llwybr Cytbwys, mae cyfanswm yr arwynebedd sydd wedi'i adfer neu'r arwynebedd bron yn naturiol yn codi o'r 30% presennol i 60% yn 2040. Yn y Llwybr Cytbwys, byddai plannu coetiroedd amrywiol newydd yn cynyddu arwynebedd gorchudd coetir y DU o 13% i 16% erbyn 2040, a 19% erbyn 2050. Mae 2024 Progress Report to Parliament y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r cyfraddau plannu coed presennol yn ddigonol i gyrraedd targed y DU o greu 30,000 hectar o goetir newydd y flwyddyn erbyn 2025, a byddai angen i hynny fwy na dyblu i gyrraedd y targed hwn gan mai'r gyfradd bresennol o ran creu coetir newydd yw tua 13,000 hectar y flwyddyn.⁹²

Yn eu cyngor i Lywodraeth Cymru ar ei Phedwaredd Gyllideb Garbon (2031-2035)⁹³, mae'r mesurau o fewn Llwybr Cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd i Gymru yn gofyn am newidiadau mewn defnydd ar gyfer 14% o dir Cymru, yn unol â'r hyn sy'n cyfateb i'r DU gyfan. Fodd bynnag, mae amrywiadau mewn mathau o dir a chyfyngiadau seilwaith wrth ddefnyddio cnydau ynni yn golygu bod mwy o bwyslais ar greu coetir ar gyfer y Llwybr Cytbwys yng Nghymru o gymharu â'r DU gyfan. Yn y Llwybr Cytbwys yng Nghymru o dan y Bedwaredd Gyllideb Garbon, byddai plannu coetir amrywiol newydd yn cynyddu arwynebedd gorchudd coetir o 15% i 17% erbyn 2033, a 26% erbyn 2050.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn tynnu sylw at fanteision ychwanegol y gweithredoedd hyn, gan gynnwys manteision i iechyd a llesiant, gwydnwch amaethyddol a mwy o gyflogaeth mewn rhai ardaloedd.

Yn ogystal â manteision carbon, mae coed a gwrychoedd yn darparu budd i natur ac yn cynnig cysgod a lloches i dda byw, a fydd yn bwysig wrth i ni wynebu tywydd mwy eithafol oherwydd newid hinsawdd. Mae astudiaethau wedi dangos, drwy ddarparu lloches, y gall colledion ŵyn leihau hyd at 30% a gall y cynnydd dyddiol mewn pwysau byw gynyddu 10-21%⁹⁴. Mae gwrychoedd hefyd yn gwella bioddiogelwch a gall coed gynnig ffrwd incwm amgen.

Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i alluogi ffermwyr i gymhwyso'r dulliau ecosystem uchod, ymhlith eraill, ar eu fferm, gyda chymorth Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Gwrychoedd y Cynllun. Dylai hyn helpu i gynyddu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, ond gallai hefyd

ddarparu manteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach drwy sicrhau cynaliadwyedd amaethyddiaeth a chymunedau gwledig.

Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd aer.

Mae allyriadau amaethyddol i'r aer (e.e. amonia) yn effeithio ar ansawdd aer ac yn cael effeithiau negyddol ar iechyd pobl ac ecosystemau. Mae llawer o'r ecosystemau ac adnoddau naturiol yng Nghymru yn gweithredu mewn ffyrdd i leihau llygredd. Mae hyn yn cynnwys coetiroedd yn dal a storio carbon ac yn rhyng-gipio allyriadau amonia, ynghyd â nifer o fanteision gan wahanol dirweddau. Ymdrinnir ag effeithiau disgwylidiedig ansawdd aer gwell ar iechyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Mae nitrogen yn cael ei golli i'r aer fel amonia pan fydd wrin yn cymysgu â thail ac wrth daenu gwrtaith. Mae'n cronni yn yr atmosffer ac yna'n syrthio ar y tir, gan ymyrryd ag ecosystemau. Yn 2018, cafodd 88% o gynefinoedd sensitif yng Nghymru nitrogen gormodol uwchlaw trothwyon lle mae'n niweidiol i blanhigion a bioamrywiaeth sensitif. Yn ogystal, mae nitrogen yn cael effaith andwyol ar 29% o'r cynefinoedd mwyaf sensitif⁹⁵.

Amcangyfrifir bod cyfanswm allyriadau blynyddol o amaethyddiaeth Cymru yn dod i oddeutu 20,000 tonnall o amonia ac 2,000 tonnall o ocsid nitrogen i'r aer⁹⁶.

Er mwyn llwyddo i gyrraedd targed Rheoliadau Nenfydau Allyriadau Cenedlaethol 2018 (NECR) ar gyfer 2030, bydd angen i allyriadau amonia fod 16% yn is o gymharu â lefelau 2005. O gymharu â llygryddion eraill NECR, gostyngodd allyriadau amonia rhwng 1990 a 2007, ond maent wedi bod yn codi ers hynny.

Bydd yr hyn sy'n achosi allyriadau amonia yn wahanol ar bob fferm ond dyma restr ohonynt yn nhrefn gyffredinol eu pwysigrwydd:⁹⁷

- Taenu slyri a thail (26%)
- Siediau da byw (24%)
- Gwrtaith, yn enwedig wrea (19%)
- Pori (12%)
- Storio tail a slyri (11%)

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan yr ymyriadau canlynol y potensial i sicrhau ansawdd aer gwell:⁹⁸

- Rheoli colledion nitrogen (N) ar y fferm a gwella effeithlonrwydd y defnydd o N yw'r elfennau allweddol ar gyfer lleihau allyriadau NH₃ yn gyffredinol. Er enghraifft, ar ffermydd da byw cymysg, mae rhwng 10% a 40% o'r golled N yn gysylltiedig ag allyriadau NH₃⁹⁹.
- Mae gan y defnydd o systemau argymell gwrtaith (h.y. paru cyflenwad maethynnau o dail organig a gwrteithiau wedi'u gweithgynhyrchu i ofynion maethynnau cnydau) y

potensial i leihau tua 5% y colledion nitrogen a ffosfforws i ddŵr ac allyriadau amonia ac ocsid nitraidd i'r aer.

- Gallai opsiynau lleihau amonia eraill leihau colledion amonia o'r llwybr colli a dargedir hyd at 80% (e.e. gorchuddion cadarn ar storfeydd slyri – bydd gorchuddio storfeydd tail hylifol, ynghyd â defnyddio technolegau taenu manwl-gywir ar gyfer taenu tail hylifol, yn lleihau allyriadau amonia).

Mae tystiolaeth arall gan ERAMMP yn nodi: 'mae sylw yn gallu cael ei roi ar bump maes bras lle mae lleihau amonia wedi cael ei ymchwilio'n dda yn barod a'i brofi fel dull effeithiol.

Mae'r themâu hynny fel a ganlyn:

- Strategaethau bwydo da byw
- Lleihau allyriadau amonia o lety anifeiliaid
- Atal allyriadau o gyfleusterau storio piswail
- Technegau cymhwyso piswail allyrru isel

Gall allyriad NH₃ o osod gwrteithiwr mwynol gael ei ostwng wrth ddewis gwrteithwyr allyrru N isel, fel amoniwm nitrad, gan osgoi wrea sy'n gysylltiedig ag allyriadau llawer uwch'¹⁰⁰.

Mae nifer o Weithredoedd y Cynllun sydd wedi'u bwriadu i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd aer, gan gynnwys:

- Cynnal a chadw coetir
- Plannu coed (gan gynnwys coetir ac amaeth-goedwigaeth) a chreu gwrychoedd
- Rheoli gwrychoedd
- Cynnal cynefinoedd
- Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella
- Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig
- Profion pridd, a all helpu i dargedu'r defnydd o wrtaith a lleihau colledion i'r aer
- Buddsoddiadau seilwaith ar y fferm, megis storfeydd slyri, rhoi to ar iardiau presennol ac ati.
- Offer manwl gywir ar gyfer rhoi maethynnau, gan gynnwys systemau chwistrellu slyri yn uniongyrchol, GPS ac ati.

Er nad yw llygredd sŵn wedi'i dargedu'n benodol o fewn y Cynllun, gallai camau yn y Cynllun leihau llygredd sŵn hefyd. Canfu adroddiad gan Efec ar gyfer DEFRA fod cyfalaf naturiol wedi helpu i liniaru lefelau sŵn ffyrdd i hyd at 115,000 o adeiladau yng Nghymru¹⁰¹. Gallai cynyddu gwytnwch ecosystemau gefnogi hyn ymhellach.

Gwella ansawdd ein dŵr a sicrhau swm ein dŵr.

Amcangyfrifir bod colledion maethynnau blyneddol o amaethyddiaeth Cymru i ddŵr tua 37,000 tonnall o nitrad-N a 700 tonnall o ffosfforws¹⁰². Allyriadau nitradau, ffosffadau a

gwaddodion o dir amaethyddol yw un o'r prif ffynonellau pwysau ar ansawdd dŵr croyw yng Nghymru¹⁰³.

Gellir gwella ansawdd dŵr drwy amrywiaeth o fesurau ar y fferm¹⁰⁴ sy'n lleihau colledion maethynnau, erydiad yr uwchbridd ac atal unrhyw golledion rhag cyrraedd cyrsiau dŵr:

- Gall cynlluniau rheoli maethynnau sicrhau bod y meintiau cywir yn cael eu taenu ar yr adeg gywir, gan leihau colledion i ddŵr
- Gall gwrychoedd, cynefinoedd a choed gynyddu nifer y maethynnau sy'n cael eu rhyng-gipio, gan eu hatal rhag cyrraedd cyrsiau dŵr
- Gall cynyddau gorchudd gynyddu'r maethynnau sy'n cael eu cadw, lleihau colledion a chynnal yr uwchbridd

Mae Gweithredoedd y Cynllun sy'n gyson â diben rheoli tir yn gynaliadwy i wella ansawdd dŵr yn cynnwys:

- Profion pridd
- Rheoli cynefinoedd a mawndiroedd
- Plannu coed a chreu coetir
- Cynnal a chadw coetir
- Rheoli, creu ac adfer gwrychoedd
- Tyfu cnwd gorchudd amlrywogaeth ar unrhyw dir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf
- Cynnal a chadw, rheoli, creu a gwella cynefinoedd (gan gynnwys pyllau a gwlyptiroedd)
- Gwella gwydnwch rheoli dŵr ar y fferm
- Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol

Gallai'r Gweithredoedd hyn gefnogi lleihau colled maethynnau mewn dŵr ffo sy'n deillio o erydu pridd, creu rhwystrau naturiol i leihau'r llygredd sy'n mynd i mewn i ddyfrffyrdd, a chynyddu dulliau storio a hidlo dŵr ar ffermydd unigol. Bydd gweithgarwch ar raddfa fwy, er enghraifft, gweithgarwch ar raddfa dalgylch, wedi'i gydlynw â gweithgareddau eraill yn cael ei annog drwy'r haen Gydweithredol, fel y dangosir yn y dull INRS presennol.

Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis drwy effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy.

Mae effeithlonrwydd adnoddau a rheoli ynni'n effeithiol yn amcanion bwriedig sydd wedi'u cynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun. Mae effeithlonrwydd adnoddau yn hanfodol ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd amaethyddiaeth. Gall adnoddau fferm fod yn amgylcheddol (e.e. dŵr, pridd) neu gallant fod yn fewnbynnau (e.e. ynni, gwrtaith, disel, plaladdwyr).

Nod y Cynllun yw cefnogi ffermydd i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, drwy wella effeithlonrwydd eu dulliau cynhyrchu o fewn gallu naturiol y tir. Elfen bwysig o hyn fydd

darparu cyngor ac arweiniad effeithiol, o fewn y rhaglen Cyswllt Ffermio wedi'i datblygu, i gefnogi dealltwriaeth ohonynt a'u cymhwyso.

Gall gwell effeithlonrwydd nid yn unig wneud busnesau fferm yn fwy gwydn, drwy leihau costau a gwastraff (e.e. drwy ddefnyddio llai o ynni neu wrtaith), ond gall hefyd helpu i leihau'r pwysau o ran adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Un ffordd o gefnogi gwelliannau cynaliadwy, a fydd yn cael eu cefnogi drwy weithgareddau o fewn yr Haen Opsiynol, yw ystyried dangosyddion megis oedran lladd, oedran adeg cael llo cyntaf a'r cyfnodau rhwng cael llo, er mwyn gwella potensial genetig buches Cymru yn raddol.

Mae Gweithredoedd eraill y Cynllun sy'n ceisio cefnogi effeithlonrwydd adnoddau yn cynnwys:

- Llinell Sylfaen Carbon Lefel Fferm
- Meincnodi
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)
- Profi pridd a chymorth i gynllunio iechyd pridd
- Rheolaeth integredig ar blâu
- Gofynion gorchudd cnwd amlrywogaeth
- Gweithred opsiynol cynhyrchu cynaliadwy

Bwriad arall cyflawni gweithredoedd ehangach yn erbyn dibenion eraill rheoli tir yn gynaliadwy, megis aer glân, dŵr glân a mwy o atafaelu carbon, yw lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol.

Cefnogi dulliau ataliol o ymdrin â chanlyniadau iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol, er enghraifft, llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl.

Fel yr amlinellir uchod, bwriad y fframwaith rheoli tir yn gynaliadwy, y mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu oddi tano, yw lleihau llygredd aer, gwella ansawdd aer a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad ac ymgysylltu ag ef. Yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd, rydym wedi nodi tystiolaeth o'r prif feysydd lle gallai ein cynigion gyfrannu at iechyd meddyliol a chorfforol.

O ran mynd i'r afael â gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl, dylai gwella mynediad i'r amgylchedd wneud y mannau gwyrdd hyn yn fwy deniadol ac yn haws ymweld â nhw. Mae gweithgareddau Haen Opsiynol y Cynllun, megis gosod gatiau yn lle camfeydd, yn dilyn egwyddorion 'mynediad lleiaf cyfyngol', gan ddarparu cyfleoedd i bob unigolyn.

Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd

Bydd y Cynllun yn cyfrannu at well ansawdd aer a dŵr ac, i'r graddau y mae ansawdd aer a dŵr gwael yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel (mewn ardaloedd difreintiedig), dylai'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau iechyd aelwydydd incwm isel.

Yng Nghymru, yn seiliedig ar 2017, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod baich amlygiad hirdymor i lygredd aer yn cyfateb i 1,000 i 1,400 o farwolaethau (ar oedrannau nodweddiadol) bob blwyddyn¹⁰⁵. Ochr yn ochr â hyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi disgrifio'r sefyllfa fel argyfwng iechyd cyhoeddus, gydag amcangyfrif cost i economi Cymru o £1 biliwn mewn diwrnodau gwaith a gollir a chostau i'n gwasanaeth iechyd¹⁰⁶. Bydd gweithredoedd sy'n cefnogi gwelliant mewn ansawdd aer a dŵr yn helpu i wella'r sefyllfa hon. Yn ogystal, mae mynediad i fannau gwyrdd yn gysylltiedig â gwell iechyd, waeth beth fo'r defnydd gwirioneddol a'r statws economaidd-gymdeithasol¹⁰⁷. Dangoswyd bod mynediad i fannau gwyrdd diogel, lleol, o ansawdd da yn annog lefelau uwch o weithgarwch corfforol. Gall ffurfiau mwy goddefol o ddefnydd, neu hyd yn oed dim ond mynediad i olygfeydd o fannau gwyrdd, gael effaith fuddiol ar lesiant meddyliol a swyddogaeth wybyddol.

Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod gan y canlyniadau amgylcheddol y gellid eu cyflawni gan y Cynllun y potensial i effeithio ar ddangosyddion ym mhob un o'r tri is-faes amgylchedd ffisegol (ansawdd aer; perygl llifogydd; a mynediad i fannau gwyrdd) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)¹⁰⁸.

Cefnogi cydlyniant cymunedol

Disgwylir i'r Cynllun gyfrannu'n gadarnhaol at gyfalaf cymdeithasol a lles cymunedol. Mae cymunedau gwledig ar y rheng flaen o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur. Os na chymerir camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a gwytnwch economïau a chymunedau gwledig o dan fygythiad. Mae'r Gweithredoedd o fewn y Cynllun wedi'u dylunio i gefnogi lliniaru'r heriau hyn mewn ffordd sydd hefyd o fudd i gydlyniant cymdeithasol, diwylliant a threftadaeth ac sy'n cefnogi datgarboneiddio mewn ffordd deg a llewyrchus. Y bwriad yw i'r Cynllun alluogi cryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau, gan helpu cymunedau gwledig i ffynnu.

Mae'r angen i gyflawni'r amcanion SLM, sy'n sail i'r Cynllun, yn cael ei gryfhau gan y gofyniad bod rhaid eu cyflawni mewn ffordd sy'n:

- a. Diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; a
- b. Chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bwriedir i'r Cynllun gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau i gynyddu gwydnwch amaethyddiaeth a'r amgylchedd gwledig, sydd yn ei dro yn cefnogi cydlyniant cymunedol fel

yr amlinellir yn ein Hasesiadau Effaith Prawfesur Gwledig (Atodiad C) a Llesiant Economaidd (Adran 4).

Dylai gwella mynediad i'r amgylchedd wneud y mannau gwyrdd hyn yn fwy deniadol ac yn haws ymweld â nhw. Gall mannau gwyrdd gynnig cyfleoedd i bobl nad ydynt fel arfer yn rhyngweithio i ddod at ei gilydd a gallant helpu i ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol¹⁰⁹.

Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog

Mae amcangyfrifon ar gyfer 2024¹¹⁰ yn dangos mai cyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru yw 49,538. O'r cyfanswm hwn, mae 37,318 o brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u priod. Mae'r cyfanswm yn cynnwys 12,220 o weithwyr fferm amser llawn rheolaidd, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol. Nid yw'r ffigur yn cynnwys pobl hunangyflogedig na chontractwyr a all hefyd weithio ar y fferm.

Efallai y bydd rhai o Weithredoedd y Cynllun yn gofyn am sgiliau neu offer nad oes gan y ffermwyr sy'n cymryd rhan, neu oherwydd amser neu allu efallai y byddant yn dewis cyflogi eraill, a gall hyn newid y gofyniad am weithwyr ar y fferm. Canfu tystiolaeth o adolygiadau o Tir Cymen¹¹¹ ac Entry Level Stewardship yn Lloegr¹¹² fod y cynlluniau amaeth-amgylcheddol hyn yn gysylltiedig â chynnydd yn y galw am weithwyr. Yn ogystal, ar lefel y DU mewn perthynas â Pholisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE, awgrymwyd bod cyfraniad Colofn 2¹² at gyflogaeth wledig yn uwch (1.2%) o gymharu â chyfraniad Colofn 1 (1.0%)¹¹³.

Mae gwella gwydnwch busnesau amaethyddol yng Nghymru yn un o'r egwyddorion SLM sy'n sail i'r Cynllun. Drwy SLM, bydd sector amaethyddol gwydn hefyd yn cyfrannu at gyflogaeth ddiogel a sefydlog drwy alluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a'r canlyniadau rydym yn eu ceisio. Dylai hyn gefnogi swyddi yn y sector amaethyddol, y gadwyn gyflenwi ehangach a chymunedau gwledig.

Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau i amaethyddiaeth, defnydd tir ac arferion cysylltiedig yn deg ac yn creu cyfleoedd ar draws y gymuned wledig (ac ehangach). Bydd hyn yn gofyn am gyngor, cymorth a datblygu sgiliau priodol. Fel rhan o'r Cynllun, bydd gwasanaeth cynghori i gefnogi pob busnes fferm i reoli tir yn gynaliadwy.

Mae risg y bydd y Cynllun yn arwain at ostyngiad mewn allbwn amaethyddol wrth i ffermwyr ymateb yn gadarnhaol i heriau newid hinsawdd, gofynion esblygol ac anwadlirwydd y farchnad a gofynion y Cynllun. Mae'r Cynllun (Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol) wedi'i ddylunio i ddarparu hyblygrwydd i ffermwyr i ddewis y Gweithredoedd priodol sy'n addas i'w hamgylchiadau ac felly lliniaru'r risg hon. Er enghraifft,

¹² Ar hyn o bryd, mae taliadau'r PAC i ffermwyr y DU yn cael eu talu o dan ddwy golofn. Mae Colofn 1 yn cyfrif am y mwyafrif o'r taliadau ac maent yn daliadau uniongyrchol i ffermydd yn bennaf. Mae Colofn 2 yn ymwneud â chymorth amaethyddol a chyllid datblygu gwledig.

bydd gan ofynion rheoli cynefin lefelau stocio a argymhellir yn hytrach na lefelau gorfodol. Mae'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn wirfoddol.

Yn ogystal, gall diogelu a chynyddu cynaliadwyedd treftadaeth, tirweddau ac adnoddau naturiol Cymru arwain at nifer o fanteision trydyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chreu cyflogaeth ddiogel a sefydlog. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol ym maes amaeth-dwristiaeth lle mae adnoddau naturiol Cymru wedi creu amgylchedd naturiol sy'n fyd-enwog. Gwelir tystiolaeth o hyn yn arolwg Ymwelwyr Cymru sy'n dangos mai'r amgylchedd naturiol yw'r prif reswm i dwristiaid ddewis Cymru fel cyrchfan gwyliau¹¹⁴.

Felly, nod y Cynllun yw cefnogi cyflogaeth sefydlog a diogel yng Nghymru drwy wella gwydnwch amaethyddol a manteisio ar adnoddau naturiol Cymru drwy hyrwyddo cyflogaeth wledig a chyfleoedd amaeth-dwristiaeth.

5.2 Bioamrywiaeth

Gweler Atodiad F ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

5.3 Newid Hinsawdd

Mae newid hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau drwy gamau datgarboneiddio (5.3a) ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd drwy gynyddu ein gwytnwch (5.3b). Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn ymrwymo i ymgorffori ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

Mae effeithiau'r newid hinsawdd ar amaethyddiaeth a choedwigaeth yn y DU wedi'u nodi'n helaeth¹¹⁵. Yn yr un modd, mae tystiolaeth ynghylch effaith newid hinsawdd ar Adnoddau Naturiol Cymru¹¹⁶, ac ar ei safleoedd gwarchodedig¹¹⁷. Mae *Tueddiadau Cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad Glastir (2025)*¹¹⁸ wedi casglu tystiolaeth ar effeithiau Newid Hinsawdd ar amaethyddiaeth. Mae'r adroddiad yn nodi bod 'heriau cynyddol sy'n gysylltiedig â llygredd aer parhaus yn enwedig amonia o dda byw, digwyddiadau eithafol cynyddol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a chostau mewnbwn i reolwyr tir'. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod angen i'r camau a gymerir fod yn ddigon mawr ac ar raddfa leol a chenedlaethol i gael effaith.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. Ar ben hynny, mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi gosod fframwaith strategol i ystyried lliniaru ac addasu i newid hinsawdd o fewn amaethyddiaeth yng Nghymru, a ddyluniwyd i helpu Cymru i ddatgarboneiddio mewn ffordd deg a llewyrchus.

5.3a Datgarboneiddio

Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?

Dyluniwyd y Cynllun i gynorthwyo ffermwyr i gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, gan gynnwys lliniaru ac addasu i newid hinsawdd.

Yn 2022, roedd amaethyddiaeth yn cyfrif am 15% o allyriadau Cymru ($5.6\text{MtCO}_2\text{e}$)¹¹⁹.

Methan (66%) ac Ocsid Nitraidd (22%) yw'r allyriadau yn bennaf. Allyriadau da byw, eplesu enterig a rheoli tail ($4.5\text{MtCO}_2\text{e}$) ac allyriadau pridd ($0.5\text{MtCO}_2\text{e}$) sy'n cyfrif am yr allyriadau hyn yn bennaf.

Mae adroddiad cadwyni rhesymeg Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP)¹²⁰ ac adroddiad y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon¹²¹, a ddefnyddiwyd i gefnogi dylunio'r Cynllun, yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael yn y Cynllun a pholisi ehangach i gefnogi'r gwaith o ddiogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn ymateb i newid hinsawdd. Y bwriad yw sefydlu Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm fel rhan o gyfranogiad yn y Cynllun (fel yr amlinellir yn adran 5.1b) i hwyluso newid sylweddol ym mherfformiad y fferm, drwy roi'r offer i ffermwyr ddeall sut mae eu fferm yn perfformio a'r data a'r dystiolaeth o unrhyw ymyriadau a wneir drwy gydol y cynllun i ganiatáu ar gyfer gwerthusiad ystyrlon. Mae hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan y Weithred Gyffredinol Meincnodi.

Bwriad y Llinell Sylfaen Carbon unigol ar Lefel Fferm yw mesur effaith carbon y busnes fferm cyfan (CO_2e fesul hectar o allbwn).

Mae hwn yn fan cychwyn i bob ffermwr ddeall ei ôl troed carbon a dylai gefnogi ffermwyr yn eu gallu i leihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a storio cymaint â phosibl o garbon, gan y bydd pob ffermwr yn cael cyfle i ddefnyddio'r data Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm i gefnogi gwneud penderfyniadau yn y dyfodol a chael cyngor ac arweiniad i nodi meysydd i'w gwella.

Mewn llawer o achosion, disgwylir i Weithredoedd y Cynllun gyfrannu at gyflawni'r targed hwn, megis cefnogi busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithlon.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle a bod yn fwy effeithlon o ran ynni drwy Busnes Cymru.

Lleihau allyriadau

Archwiliodd adroddiad gan ERAMMP y gostyngiad posibl mewn allyriadau o reoli da byw, tail a gwrteithiau¹²². Canfu y gellid cyflawni Uchafswm Gostyngiad Posibl Technegol¹³ o 22.5% ar gyfer ocsid nitraidd a 32.4% ar gyfer methan erbyn 2050, gyda'r gostyngiadau mwyaf i'w cael drwy wella diet, rheolaeth a geneteg yn y diwydiant llaeth a chig eidion a defnyddio Nitrogen yn fwy effeithlon. Ynghyd â gwelliannau mewn allyriadau peiriannau amaethyddol, dangosodd yr adroddiad botensial i leihau allyriadau i $3.8\text{MtCO}_2\text{e}$ y flwyddyn.

Mae'r gweithredoedd y disgwylir iddynt gefnogi gostyngiad mewn allyriadau yn cynnwys:

¹³ Ar y lefelau cynhyrchu presennol.

- Cwblhau'r Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm i helpu i ddeall ble y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd ar bob fferm.
- Profion pridd i annog ffermwyr i wneud defnydd priodol/effeithlon o wrtaith artiffisial drwy reoli maethynnau, (mae'r gofyniad lleiaf ar gyfer profion yn cynnwys Potasiwm [P], Ffosfforws [K], Magnesiwm [Mg], pH, a deunydd organig pridd [drwy brofion labordy Colled wrth Danio (LOI]).
- Gall gweithgareddau Haen Opsiynol megis lleihau oedran lladd gwartheg cig eidion, lleihau oedran adeg cael llo cyntaf, a byrhau'r cyfnodau rhwng cael llo ar gyfer gwartheg cig eidion a gwartheg godro leihau nifer yr anifeiliaid anghynhyrchiol ar y fferm sy'n arwain at lai o anifeiliaid cadw ac yn byrhau hyd yr amser y mae anifeiliaid cig eidion yn cael eu cadw ar y fferm.

Storio cymaint o garbon â phosibl

Er mwyn storio cymaint o garbon â phosibl, mae angen diogelu'r stociau carbon presennol a chynyddu maint ein stociau. Yng Nghymru, coetir yw'r brif ddalfa ar gyfer allyriadau¹²³ (-1.27 MtCO₂e) ac yna cynhyrchion pren wedi'u cynaeafu (-0.22 MtCO₂e). Dilynir hyn gan dir cnydau wedi'i droi'n orchudd glaswelltir (-0.11 MtCO₂e), gwlyptiroedd (-0.08 MtCO₂e) ac aneddiadau wedi'u troi'n laswelltir (-0.03 MtCO₂e).

O ran rheoli porfa a glaswelltir, mae tystiolaeth¹²⁴ yn dangos bod stociau sylweddol o garbon mewn tir pori wedi'i wella, i werth cyfatebol amcangyfrifedig o 47% o stociau carbon pridd Cymru. O ran rheoli stociau coetir, mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu os yw coetir yn cael ei reoli'n gynaliadwy, ac os yw pob cylchdro o goed yn tyfu i ddychwelyd i'r stoc garbon cyn cynhaeaf, yna mae stoc garbon y goedwig yn cael ei hadnewyddu ar sail gylchol.

Mae ehangu coetiroedd a gwrychoedd yn ffordd sylfaenol o ddal a storio mwy o garbon. Mae'r UKCCC wedi argymhell y dylai Cymru blannu 22,000 ha o goetiroedd newydd erbyn 2030 a 208,000 ha erbyn 2050¹²⁵. Gallai cyrraedd y targed hwn, ar y cyd â newidiadau eraill mewn defnydd tir¹⁴, achosi i allyriadau defnydd tir ostwng o -0.9 MtCO₂e yn 2022 i -1.0 MtCO₂e erbyn 2033, ac i -3.7 MtCO₂e erbyn 2050, gyda chreu a rheoli coetiroedd yn cyfrannu 57% o'r gostyngiad mewn allyriadau a gyflawnwyd yn 2023 a 72% yn 2050. Rhagwelir y bydd coetiroedd newydd a blannwyd ar ôl 2025 yn dod yn ddalfa net yn gynnar yn y 2040au ac, erbyn 2050, yn cynnig gostyngiad mewn allyriadau o 1.0 MtCO₂e¹²⁶.

Mae Gweithredoedd sy'n cefnogi atafaelu mwy o garbon, a chynnal dalfeydd carbon presennol, yn cynnwys:

¹⁴ Roedd newid defnydd tir yn llwybr cytbwys Pwyllgor y DU ar y Newid Hinsawdd heblaw creu a rheoli coetir yn cynnwys adfer a rheoli mawndiroedd, ac amaeth-goedwigaeth a gwrychoedd. O dan y llwybr cytbwys, mae'r newidiadau defnydd tir hyn yn cyfrannu at ostyngiadau mewn allyriadau fel a ganlyn: Adfer a rheoli mawndiroedd (gostyngiad o 12% mewn allyriadau yn 2033; 7% yn 2050), Amaeth-goedwigaeth a gwrychoedd (gostyngiad o 31% mewn allyriadau yn 2033; 21% yn 2050)

- Rheoli coetir ac amaeth-goedwigaeth bresennol (yn unol â Safon Coedwigaeth y DU)
- Plannu coed (gan gynnwys coetir ac amaeth-goedwigaeth) a chreu gwrychoedd
- Rheoli gwrychoedd

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gweithredoedd sydd â'r bwriad o gefnogi ffermydd i wneud penderfyniadau ynghylch camau pellach sy'n ymwneud ag atafaelu a storio carbon:

- Cwblhau'r Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm
- Cynnal profion pridd bob blwyddyn ar o leiaf 20% o dir cymwys i gynnwys cyfuniad o: Potasiwm (K), Ffosfforws (P), Magnesiwm (Mg), pH, Deunydd organig pridd (drwy brofion labordy Colled wrth Danio [LOI])
- Cwblhau'r Rheolaeth Integredig ar Blâu
- Meincnodi
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid

Mae anifeiliaid iach yn fwy cynhyrchiol. Mae angen llai o anifeiliaid iach i gynhyrchu'r un faint o gynnyrch o gymharu â rhai nad ydynt yn iach, gan arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth unigryw, gan ddefnyddio technegau dadansoddi cylch bywyd, i bennu effaith Twbercwlosis Buchol (TB) ar allyriadau nwyon tŷ gwydr¹²⁷. Dangosodd yr astudiaeth y byddai dileu TB yng Nghymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector gwartheg tua 2% drwy leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd – cyfraniad bach, ond arwyddocaol, at y nod cyffredinol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ffermio.

Mae llawer o glefydau endemig y gallai rheolaeth ohonynt arwain at fwy fyth o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae mesur yr effaith yn gymhleth ac yn ddrud, ac mae adnoddau, hyd yma, wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar wneud gwelliannau iechyd, yn hytrach na mesur effeithiau'r gwelliannau hynny ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Dyluniwyd y Cynllun i wella iechyd a lles anifeiliaid. Fel yr amlinellwyd uchod, dylai atal clefydau arwain at anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol, gyda llai o anifeiliaid yn allyrru llai o allyriadau. Bydd atal achosion o glefydau anifeiliaid ar raddfa fawr yn lleihau'r tebygolrwydd o effaith amgylcheddol achosion o'r fath a graddfa'r effaith, o ran yr achosion eu hunain a'r camau sy'n ofynnol wrth ymateb iddynt.

Arweiniodd yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001 at ddifa tua chwe miliwn o anifeiliaid drwy gladdu torfol, llosgi mewn coelcerthi a rendro, gan effeithio ar ansawdd dŵr,

aer a thir. At hynny, roedd y defnydd dwys o dros 1.3 miliwn litr o ddiheintydd a gymeradwywyd gan y Llywodraeth, a oedd yn ofynnol i lanhau daliadau heintiedig a'i osod wrth fynedfeydd ar y ffyrdd ledled Cymru a Lloegr erbyn mis Hydref 2001, yn cyfrif am 18% o'r holl achosion o lygredd a gofnodwyd yn ystod yr achosion o'r clwy. Cafwyd effeithiau tymor hwy hefyd, yn sgil effeithio ar brosesau trin carthffosydd biolegol mewn gweithfeydd bach¹²⁸.

Er na ellir rhagweld achosion o glefydau anifeiliaid, dylai mwy o gamau ataliol drwy well boddlogelwch ac iechyd a lles anifeiliaid leihau'r tebygolrwydd o achosion ac, os byddant yn digwydd, lleihau eu maint. Gallai hyn leihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd a'r goblygiadau posibl sy'n deillio o gamau ymatebol.

Mae Gweithredoedd sy'n cefnogi gwelliannau iechyd a lles anifeiliaid yn cynnwys:

- Hunanasesiad unwaith y flwyddyn yn erbyn set safonol o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (dau fesul sector)
- Cymryd camau gweithredu, a nodwyd drwy weithio'n agos gyda'u milfeddyg, drwy'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)
- Ymgymryd â hyfforddiant ac asesu perfformiad da byw ar gyfer cloffni a chyflwr y corff
- Bod â'r mesurau boddlogelwch angenrheidiol ar waith ar bob fferm

Asesiad gan ddefnyddio methodoleg prisio Nwyon Tŷ Gwydr Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF¹²⁹

Trafodir asesiad gan ddefnyddio methodoleg prisio Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF yn yr Achos Busnes ar gyfer y Cynllun.

5.3 Addasu

Sut, ac i ba raddau, y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau newid hinsawdd?

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn ymrwymo i ymgorffori ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn. Mae'r Cynllun yn rhan o'r ymrwymiad hwn, gan gynnig cymhellion i gyfranogwyr y Cynllun ar gyfer gweithredoedd sy'n helpu ffermydd i liniaru ac addasu i'r effeithiau a ragwelir yn sgil newid hinsawdd. Heb liniaru ac addasu i newid hinsawdd, mae gwytnwch ein hecosystemau, cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a'n hadnoddau diwylliannol o dan fygythiad.

Mae amaethyddiaeth yn arbennig o agored i effeithiau newid hinsawdd.

Yng nghyd-destun ffermio da byw, mae tystiolaeth yn awgrymu,

climate change is a threat to livestock production because of the impact on quality of feed crop and forage, water availability, animal and milk production, livestock

diseases, animal reproduction, and biodiversity... the livestock sector will be a key player in the mitigation of GHG emissions and improving global food security. Therefore, in the transition to sustainable livestock production, there is a need for: a) assessments related to the use of adaptation and mitigation measures tailored to the location and livestock production system in use, and b) policies that support and facilitate the implementation of climate change adaptation and mitigation measures¹³⁰.

Yng nghyd-destun cnydau âr, mae ymchwil yn awgrymu'r canlynol

the key effects [of climate change] for arable crops will be felt through changes in the timing of the crop calendar and hence the farming year in quality, yield, pest and disease management and crop distribution. Farmers may adapt readily to changes in average climate since effects will be gradual, but adaptations to some extremes will require more forward planning. Possible adaptation options by farmers, e.g. changing crop cultivars, and the wider industry, e.g. developing new varieties, need to be considered¹³¹.

Yng nghyd-destun ffermydd godro, y ddadl yw ei bod yn 'essential to establish and adopt mitigation strategies covering available tools from management, nutrition, health and plant and animal breeding to cope with the future consequences of climate change on dairy farming'¹³².

Ceir tystiolaeth bellach o'r angen i feithrin gwydnwch yn y sector amaethyddol oherwydd y posibilrwydd o newid hinsawdd yn nadansoddiad *SWOT Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru*¹³³ a *Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024*¹³⁴.

Nod y Cynllun yw galluogi camau i gael eu cymryd ar y fferm i ymateb i effeithiau newid hinsawdd a chynyddu gwydnwch busnesau fferm. Yn ogystal, bwriad y Cynllun yw cefnogi ffermydd i ddod yn fwy cynhyrchiol yn gynaliadwy, gan reoli tir o fewn eu gallu cynhyrchiol. Dylai rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel hyn wella cyflwr ein hecosystemau sydd, yn ei dro, yn cynyddu gallu'r amgylchedd i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Er enghraifft, gall mwy o orchudd coed gael effaith oeri a lliniaru'r perygl o lifogydd. Gall gwella iechyd a strwythur y pridd, ynghyd â chynyddu deunydd organig pridd, yn caniatáu i ddŵr wyneb ymdreiddio'n gyflymach a chael ei gadw yn y pridd am gyfnodau hwy nag y byddai fel arall. Gall gwelliannau i ansawdd pridd gyfrannu at wella ansawdd dŵr hefyd.

Mae newid hinsawdd a thymereddau uwch yn cynyddu'r risg o glefydau anifeiliaid penodol, yn enwedig clefydau a gludir gan fector. Mae Feirws y Tafod Glas, er enghraifft, yn glefyd a drosglwyddir gan wybed, sydd â chyfradd goroesi uwch mewn tymereddau cynhesach. Yn ogystal, mae tymereddau cynhesach yn newid patrymau a llwybrau mudo adar gwyllt, gan achosi mwy o risg o fflw adar (AI) i'n haid genedlaethol. Dylai gwella iechyd, lles a

bioddiogelwch anifeiliaid leihau'r perygl o glefydau, gan gynnwys y risg gynyddol o glefydau a grëir gan newid hinsawdd.

Mae'r gweithredoedd y disgwylir iddynt gefnogi addasu i newid hinsawdd yn cynnwys:

- Gofynion bioddiogelwch anifeiliaid
- Cynnal a rheoli cynefinoedd (e.e. helpu i reoleiddio llif dŵr a lleihau'r risg o lifogydd)
- Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd.
- Rheoli a chreu gwrychoedd (e.e. cefnogi cysgod a lloches, lleiniau clustogi ac arafu llif dŵr)
- Rhoi gweithredoedd ar waith ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol (NFM)
- Gorchudd cnydau amlrywogaeth ar dir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf (e.e. lleihau erydiad pridd a dŵr ffo yn ystod misoedd y gaeaf).

Mae'r gweithredoedd sydd wedi'u bwriadu i gefnogi ffermydd i wneud penderfyniadau ynghylch camau pellach mewn perthynas ag addasu i newid hinsawdd yn cynnwys:

- Cynnal Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Gweithredoedd o dan y Thema Opsiynol Cynhyrchu Cynaliadwy

Felly, nod y Cynllun yw cefnogi addasu i newid hinsawdd drwy hwyluso Gweithredoedd fel rheoli cynefinoedd, cynnal a chadw gwrychoedd a rheoli llifogydd yn naturiol sy'n helpu i adeiladu gwydnwch mewn ecosystemau. Drwy hyrwyddo arferion cynaliadwy, gwelliannau i gynhyrchiant a mesurau bioddiogelwch, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod ffermydd yng Nghymru yn y sefyllfa orau ar gyfer lliniaru newid hinsawdd a chynnal cynhyrchu cynaliadwy.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Nid yw'r Cynllun yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal AAA.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth (Atodiad F, adran 32).

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Nid yw'r Cynllun yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal AEA.

ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD- GYMDEITHASOL. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Gweler Atodiad G ar gyfer yr Asesiad llawn o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

Asesiad Effaith	Ie/Na	Os ie, dylech
Hawliau plant	Ie	Atodiad A
Cydraddoldeb	Ie	Atodiad B
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	Ie	Atodiad G
Prawfesur Gwledig	Ie	Atodiad C
Iechyd	Ie	Adran 2
Preifatrwydd	Ie	Atodiad D
Y Gymraeg	Ie	Atodiad E
Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Ie	Adran 4
Cyfiawnder	Na	Adran 4
Bioamrywiaeth	Ie	Atodiad F
Newid Hinsawdd	Ie	Adran 5
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Na	Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Na	Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Na	Cyfeirio at ganllawiau Asesiadau Effaith Integredig
-------------------------------------	----	---

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu?

Ymgynghoriadau

- Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*¹³⁵. Cyflwynwyd dros 12,000 o ymatebion. Roedd y rhain yn cynnwys dros 1,000 o ymatebion sylweddol gyda gweddill yr ymatebion yn dod o saith ymgyrch wahanol.
- Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*¹³⁶. Cafwyd dros 3,300 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd ychydig dros 500 yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau gyda'r gweddill yn deillio o dair ymgyrch wahanol.
- Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y *Papur Gwyn Amaeth (Cymru)*¹³⁷. Cawsom 232 o ymatebion unigryw ac 887 arall o un ymgyrch.
- Rydym hefyd wedi cyhoeddi *crynodeb o'r ymatebion*^{138, 139, 140} a'n hymateb ein hunain i'r safbwyntiau a fynegwyd ar gyfer pob un o'r tri ymgynghoriad hyn^{141, 142, 143}.
- Ym mis Mawrth 2024, fe wnaethom gau'r ymgynghoriad *Cadw ffermwyr i ffermio*¹⁴⁴. Daeth 3,228 o ymatebion unigryw i law. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru 10 sioe deithiol wybodaeth a fynychwyd gan 3200 o ffermwyr i gyd-fynd â'r ymgynghoriad.
- Ar draws yr ymgynghoriadau hyn fe wnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill mewn sioeau amaethyddol rhanbarthol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau pwrpasol i egluro a thrafod ein cynigion ymhellach.
- Roedd y rhai a gyflwynodd ymatebion unigol i'n hymgyngoriadau yn cynrychioli amrywiaeth eang o leisiau a safbwyntiau. Dywedodd y gyfran fwyaf o ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â ffermio; roedd yr ail grŵp mwyaf o ymatebwyr yn unigolion ac yn sefydliadau â buddiannau amgylcheddol.
- Ym mhob un o'n hymgyngoriadau rydym wedi ceisio barn ar yr effeithiau y gallai ein cynigion eu cael ar y Gymraeg a sut y gellid eu llunio er mwyn cael effaith gadarnhaol.

Cydlunio ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid

- Rydym wedi ymgysylltu â mwy na 1,900 o rhanddeiliaid (y rhan fwyaf ohonynt yn ffermwyr) drwy gam cyntaf y gwaith cydlunio¹⁴⁵ er mwyn canfod eu barn ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Cwblhawyd yr ail gam o'n gwaith cydlunio diweddaraf yn hydref 2022¹⁴⁶; cawsom gyfanswm o 1,344 o ymatebion i'r arolwg gan ffermwyr ar-lein neu ar bapur, a 101 o arolygon ychwanegol drwy gyfweiliadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfanswm o 26 gweithdy i gasglu adborth manylach ar y Cynllun. Roedd 23 gweithdy yn ymwneud â gweithredoedd y cynllun a thri arall yn canolbwyntio ar brosesau'r cynllun (yn cwmpasu pynciau fel cymhwystra a chofrestru). Ar wahân,

roedd ffurflen adborth rhanddeiliaid ar gael i sefydliadau ac unigolion eraill gyfrannu eu barn.

- Gwnaed yr holl waith cydlunio yn ddwyieithog.
- Wrth ddatblygu Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023¹⁴⁷ a'n cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rydym wedi ceisio barn sefydliadau rhanddeiliaid megis undebau'r ffermwyr, sefydliadau amgylcheddol a'r rhai sy'n cynrychioli rhannau penodol o'r sector, megis Cymdeithas y Ffermwyr Tenant a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Cawsom ymatebion i'r ymgynghoriadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chymdeithasau Ffermwyr Ifanc hefyd.
- Ym mis Mai 2024, sefydlodd y Dirprwy Brif Weinidog, sy'n gyfrifol am Faterion Gwledig, Ford Gron Weinidogol y Cynllun, sy'n cynnwys 18 o uwch rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ffermwyr a'r sectorau bwyd, natur, coedwigaeth a milfeddygol, yn ogystal â chadwyni cyflenwi ehangach. Mae'r Ford Gron yn darparu cymorth uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Weinidog drwy adolygu'r blaenoriaethau ar gyfer Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun, gan gynnwys, er enghraifft, y Gweithredoedd Cyffredinol, Gofynion y Cynllun (gan gynnwys y gofynion 10%), meini prawf cymhwysra a'r fethodoleg talu. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn gwneud yr holl benderfyniadau terfynol ynghyd â gweddill Cabinet Llywodraeth Cymru, gan gydbwyso'r dystiolaeth, barn rhanddeiliaid ac ystyriaethau eraill.
- Mae Gweithgor Swyddogion, y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon a rhai agweddau ar y Grŵp Cyflawni Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd yn cyfrannu at y Ford Gron.
- Mae'r grwpiau hyn wedi cyfarfod dros 50 gwaith hyd at ddiwedd mis Ebrill 2025.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Yn draddodiadol, mae cymorth ar gyfer amaethyddiaeth wedi canolbwyntio ar bolisiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant amaethyddol. Mae effeithiau rhai arferion dwysáu ar fioamrywiaeth, ansawdd aer a dŵr, iechyd y cyhoedd a'r hinsawdd yn faterion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar frys.

Nod y Cynllun yw cefnogi cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, gan gyflawni yn erbyn heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur ar yr un pryd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod ffermio yn arbennig o agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol pwysig sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, a'r fframwaith hwn sy'n sail i'n cynigion ar gyfer polisi rheoli tir yn y dyfodol. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn sail i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 sy'n sefydlu Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Bydd cefnogi ffermwyr i gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy drwy'r Cynllun yn cynyddu gwydnwch ecolegol y tir y maent yn ei reoli, ynghyd â gwydnwch economaidd eu

busnesau. Bwriad gwella effeithlonrwydd model busnes y fferm o fewn gallu naturiol y tir yw galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i ffermio, gan gynnig gwydnwch hirdymor i'r cymunedau y maent wedi'u gwreiddio ynddynt. Disgwylir i hyn esgor ar effeithiau cadarnhaol ar gymunedau gwledig yng Nghymru i'r dyfodol, gan gadw ffermydd wrth galon eu cymunedau, darparu masnach i fusnesau lleol, a chynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo ffermwyr i gyflawni'r canlyniadau hyn hefyd yn cynnig ffrwd refeniw amgen – sef ffrwd refeniw na fydd newidiadau mewn amodau masnachu yn effeithio arni. Dylai'r ffrwd incwm hon hefyd gefnogi cymunedau gwledig gwydn, yn enwedig yn achos busnesau lleol sy'n dibynnu ar gwsmeriaeth ffermydd.

Bydd yn ofynnol i ffermwyr gymryd camau i dderbyn cyllid a bydd effaith economaidd y dull ariannu newydd hwn yn amrywio rhwng ffermydd o wahanol fathau a meintiau.

Drwy gyfrwng yr ymatebion i'n hymgyngghoriadau a cham cyntaf ein gwaith cydlunio, mynegwyd pryderon ynglŷn ag effaith bosibl cynllun newydd ar ardaloedd gwledig a'r effaith ddilysol ar y Gymraeg. Yn yr *Ymgynghoriad Cadw Ffermwyr i Ffermio*¹⁴⁸, codwyd pryderon ynghylch:

- Y potensial i'r Cynllun achosi gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg
- Y canfyddiad bod cymunedau ffermio ac amaethyddol ar raddfa fach yn gweithredu fel canolfannau Cymraeg eu hiaith y gallai'r Cynllun gael effaith negyddol arnynt
- Y posibilrwydd y byddai unrhyw effeithiau negyddol ar hyfywedd fferm yn effeithio ar y Gymraeg

Er nad oes unrhyw Weithredoedd penodol yn y Cynllun sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i gefnogi cynaliadwyedd busnesau fferm yn eu cymunedau, a fydd yn helpu cymunedau gwledig i ffynnu a diogelu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd dadansoddiad parhaus o gostau a manteision y Cynllun yn llywio'r penderfyniad Gweinidogol terfynol ar y Cynllun ac yn cwmpasu manteision cymdeithasol a diwylliannol lle'n bosibl. Gellir dod o hyd i'r dadansoddiad hwn yn yr Achos Busnes.

Drwy gefnogi ffermio i gyflawni o fewn y fframwaith SLM dylem weld canlyniadau fel gwell ansawdd aer a dŵr – lle mae amaethyddiaeth yn effeithio arnynt ar hyn o bryd. Mae hyn yn hanfodol i iechyd ein cenedl, ac i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig:

- **Yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu, yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**
- **Yn cyfrannu at gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy?**

Y Cynllun a'r Nodau Llesiant

Bydd y Cynllun yn gwneud nifer o gyfraniadau at gyflawni'r nodau llesiant, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁴⁹. Bydd arferion ffermio cynaliadwy a'u canlyniadau dilynol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nodau o sicrhau Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, Cymru fwy gwydn a Chymru iachach. Drwy gefnogi'r diwydiant amaethyddol a sicrhau bod ffermwyr yn gallu aros ar eu tir a chymryd rhan yn eu cymunedau lleol, bydd y Cynllun yn gwneud cyfraniadau anuniongyrchol at nodau Cymru lewyrchus, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n fwy cyfartal.

Lliniaru effeithiau posibl

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd unrhyw effaith economaidd bosibl ar y sector ac ar gymunedau gwledig, a'r potensial ar gyfer effeithiau amrywiol ar draws gwahanol rannau o Gymru. Dyluniwyd y Cynllun ar sail yr egwyddor y dylai fod ar gael i wahanol fathau o ffermydd, gan gynnwys tenantiaid a'r rhai sydd â hawliau tir comin. Bydd y Gweithredoedd Cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn golygu ei fod yn hygyrch i ffermwyr sy'n bodloni safonau da o ran yr amgylchedd ac iechyd anifeiliaid. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ffermwyr ac yn rhoi sylfaen i'r rhai sy'n dymuno dewis gweithredoedd ychwanegol o'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol i gael taliadau pellach.

Bydd cyfnod pontio rhwng y system gymorth bresennol a'r Cynllun yn galluogi ffermydd i addasu ac yn sicrhau nad yw taliadau ffermwyr yn dod i ben yn sydyn, waeth a fyddant yn dewis ymuno â'r Cynllun arfaethedig ai peidio.

Bydd gwasanaeth cyngori yn cyd-fynd â'r Cynllun, a bydd ar gael i bob fferm yng Nghymru. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael yn ddwyieithog a bydd yn cynorthwyo ffermydd i bontio i'r Cynllun a chael y budd mwyaf o'r Gweithredoedd yn y cynllun. Bydd y gwasanaeth hwn yn helpu i sicrhau bod ffermydd yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r arweiniad y mae arnynt eu hangen i addasu i'r newidiadau.

Cyfrannu at gyflawni'r amcanion SLM

Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio a'i ddatblygu gyda'r nod o gefnogi gwydnwch y diwydiant amaethyddol, ei fusnesau a'i ffermwyr, gan fynd ati ar yr un pryd i sicrhau bod ffermio yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu gyda'r bwriad bod pob un o'r Gweithredoedd yn cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy, gan fynd ati ar yr un pryd i gefnogi gweithredoedd amaethyddol sy'n cynyddu eu cyfraniad at yr amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol sydd wedi'u hymwreiddio o fewn rheoli tir yn gynaliadwy.

Drwy gydol yr IIA, rydym wedi darparu asesiad o'r Cynllun yn erbyn amcanion rheoli tir yn gynaliadwy; mewn rhai achosion, mae Gweithredoedd yn cyfrannu at gyflawni mwy nag un amcan.

Rydym wedi nodi isod sawl enghraifft i dynnu sylw at y berthynas annatod rhwng gweithredoedd y Cynllun a'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, ac mae rhagor o fanylion yn yr adrannau neu'r atodiadau a nodir o dan bob un o'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy:

Mae'r Gweithredoedd Cyffredinol, a gefnogir gan Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, wedi'u dylunio i ddarparu sylfaen i gefnogi cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy. Mae cwblhau'r Gweithredoedd hyn, ynghyd â'r manteision sy'n deillio o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, yn cael eu cydnabod yn y Taliad Cyffredinol. Mae Atodiad G – Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol – yn rhoi manylion am y buddion a ragwelir o ganlyniad i'r gweithredoedd a'r gefnogaeth ddilynol drwy'r Cynllun. Mae'n tynnu sylw nid yn unig at fuddion economaidd i'r fferm o gael taliadau sefydlog am weithredoedd sy'n arwain at gynhyrchu bwyd a nwyddau amaethyddol eraill mewn modd cynaliadwy, ond hefyd yr effeithiau ehangach mae hyn yn eu cael ar wytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad at yr economi leol. Er enghraifft, gall hyn ymestyn i arallgyfeirio ar ffermydd a chyfleoedd cyflogaeth ychwanegol i'r gymuned leol.

Rydym wedi crynhoi nifer o effeithiau economaidd y Cynllun ar draws y sector, gan gynnwys yr effaith yn erbyn llesiant economaidd, sydd wedi cael sylw yn Adran 4.

2. Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd:

Mae adran 5 o'r IIA yn canolbwyntio ar effeithiau'r Cynllun ar lesiant amgylcheddol. Mae hefyd yn cipio effeithiau'r Gweithredoedd a'u cyfraniad at gyflawni'r ail amcan rheoli tir yn gynaliadwy i liniaru ac addasu i newid hinsawdd, o weithredoedd pridd i blannu coed a rheoli cynefinoedd.

Mae Adran 5.1 yn cynnwys effaith y gweithredoedd sy'n cyflawni'r ail amcan rheoli tir yn gynaliadwy a sut mae gan hyn y potensial, yn ei dro, i helpu i gyflawni tair Blaenoriaeth Genedlaethol fel y'u nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol. O atebion ar sail natur i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau i ddull seiliedig ar leoedd, mae'r holl weithredoedd wedi'u datblygu i gyd-fynd â'r amcan rheoli tir yn gynaliadwy. Er enghraifft, ar gyfer atebion ar sail natur, mae'r ffocws ar atebion naturiol a gwella'r cynefinoedd a'r fioamrywiaeth ar dir amaethyddol ledled Cymru. Bydd gweithredoedd penodol yn cefnogi ffermwyr / busnesau amaethyddol i wneud y newidiadau hyn mewn arferion rheoli fferm, gan gynnwys gweithredoedd o gynyddu nifer y coed ar dir cymwys i reoli cynefinoedd i leihau perygl llifogydd a chyfrannu at ddatgarboneiddio.

Mae Adran 5.3 yn nodi gweithredoedd penodol i'w cwblhau gan ffermwyr o fewn y Cynllun, megis cwblhau Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm y bwriedir iddi fesur effaith carbon y busnes fferm cyfan (sy'n gymwys i bob busnes fferm yng Nghymru) yn ogystal ag ar lefel cynnyrch (CO₂e fesul uned allbwn). Dylai'r Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm gefnogi

ffermwyr ymhellach yn eu gallu i storio cymaint o garbon â phosibl, er enghraifft, drwy ddatblygu dealltwriaeth o'u pridd a gofynion eu cnydau a gallu defnyddio'r asesiad a phrofion pridd i gefnogi eu penderfyniadau drwy ddata a gesglir ar effaith newidiadau posibl a/neu gynnig meysydd i'w gwella. Darperir gweithgareddau pellach o dan yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol i gefnogi'r ffermwr i gyflawni'r canlyniadau hyn.

3. Cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu:

Dyluniwyd y Cynllun i dargedu nifer o feysydd allweddol sy'n cyd-fynd â'r trydydd amcan rheoli tir yn gynaliadwy. Bwriad Gweithredoedd y Cynllun ar draws yr haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol yw cefnogi mwy o ymyriadau ar sail natur gyda'r nod o gyfrannu at bridd iach, aer glân ac amgylchedd gwydn gyda mwy o fioamrywiaeth. Mae gweithredoedd y Cynllun yn annog mwy o bwyslais ar atebion naturiol a gwella'r cynefinoedd a'r fioamrywiaeth ar dir amaethyddol ledled Cymru.

Mae Adran 5.1b yn amlinellu'r effeithiau posibl y gallai gweithredoedd y Cynllun a wneir i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd hefyd eu cael ar amrywiaeth, maint ac amodau ecosystemau, a'u gallu i addasu. Mae hefyd yn cipio effeithiau gweithredoedd a wneir i gefnogi rheoli perygl llifogydd, o reoli porfeydd a chnwd gorchudd i reoli gwrychoedd a sut mae hyn yn cefnogi fflora a ffawna yr ecosystemau sydd i'w cael o amgylch fferm.

Mae Atodiad F – Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth - yn darparu enghreifftiau ychwanegol pellach o'r cysylltiadau rhwng y gweithredoedd ar lefel Cynllun a'u cyfraniad at wydnwch ecosystemau a'r manteision ynddynt.

4. Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso ei defnydd:

Mae Adran 3 o'r IIA yn crynhoi asesiadau o'r cymorth sydd i'w ddarparu o dan y Cynllun o safbwynt llesiant diwylliannol a'r Gymraeg. Mae'r adran hon yn cyd-fynd â'r asesiad o'r Cynllun yn erbyn y pedwerydd amcan SLM, sy'n ymwneud ag effeithiau diwylliannol amaethyddiaeth. Er enghraifft, mae Adran 3.1a yn amlinellu'r ffaith bod llawer o asedau treftadaeth archaeolegol yng Nghymru wedi'u lleoli ar dir amaethyddol. Felly, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod asedau ar dir amaethyddol yn cael eu cadw er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae cyfrifoldeb hefyd am nodweddion traddodiadol ar ffermydd sy'n rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, er enghraifft, waliau cerrig a llechi.

Er mwyn cydnabod eu gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, bydd y Cynllun yn cynorthwyo ffermwyr i gynnal, rheoli a gwella'r dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol drwy nifer o Weithredoedd yn yr Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Bydd ffermydd sy'n cymryd rhan yn cael map o nodweddion hanesyddol ar eu tir drwy'r HBR a fydd yn cynnwys nodweddion fel Henebion Cofrestredig, Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiladau Rhestredig.

Mae rhagor o fanylion am sut y disgwylir i'r Cynllun hyrwyddo a diogelu ein hamgylchedd naturiol a'n cefn gwlad, a'n treftadaeth ddiwylliannol yn sgil hynny, wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F. Hefyd, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ymdrin yn llawn ag effeithiau'r Cynllun ar yr agwedd benodol hon ar ddiwylliant Cymru (Atodiad E).

8.4 Sut fydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan fydd yn dod i ben?

Bydd strategaeth monitro a gwerthuso yn manylu ar sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu asesu'r modd y cyflawnir canlyniadau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o fewn y Cynllun, a bydd yn nodi effeithiau yn ystod oes y Cynllun.

Bydd y strategaeth monitro a gwerthuso hefyd yn llywio adolygiad rheolaidd o ddyluniad y Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben a bodloni rhwymedigaethau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

ADRAN 9. DATGANIAD

Datganiad

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Mark Alexander

Adran: Is-adran Diwygio Rheoli Tir

Dyddiad: Mehefin 2025

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)* a'i *Protocolau Dewisol* wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

1. Amcanion polisi

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y Ddeddf) wedi sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith polisi ar gyfer cymorth amaethyddol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf wedi rhoi'r pŵer i Weinidogion roi cymorth i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Bwriad SLM yw ymateb i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur a galluogi a chynorthwyo cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, a diogelu ein hadnoddau naturiol, ein diwylliant a'n treftadaeth. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) wedi'i ddatblygu i fod yn ddull cyflawni rheoli tir yn gynaliadwy, sy'n cynnwys y canlyniadau canlynol ymhlith eraill:

- Aer glân
- Dŵr glân
- Gwellu mynediad i'r amgylchedd naturiol, ac ymgysylltiad â'r amgylchedd naturiol
- Hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid
- Storio cymaint o garbon â phosibl
- Lliniaru risgiau o lifogydd a sychder
- Diogelu tirweddau naturiol a mannau amgylcheddol hanesyddol
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Sefydlu ecosystem wydn
- Effeithlonrwydd adnoddau

Ni fydd plant yn cymryd rhan yn y Cynllun yn uniongyrchol; fodd bynnag, gall plant ar ffermydd sy'n cymryd rhan gael eu heffeithio gan newidiadau i arferion ffermio eu teulu. Rydym yn cydnabod hefyd y gall plant fod yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n addas i'w hoedran ar ffermydd fel rhan o'r Cynllun. Trafodir yr effeithiau hyn ymhellach isod. Yn ogystal, mae'n bosibl y disgwylir i blant ar ffermydd sy'n cymryd rhan gael eu heffeithio'n anuniongyrchol gan unrhyw newidiadau economaidd posibl i fusnes eu teulu. Mae effeithiau economaidd posibl y Cynllun i ffermwyr yn cael eu hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Atodiad G).

Fodd bynnag, yn gyffredinol, disgwylir y bydd y Cynllun yn cael canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy effeithiau amgylcheddol cadarnhaol, a gwytnwch y cymunedau gwledig y mae plant yn byw ynddynt.

Y sector amaethyddol sydd â'r gyfradd marwolaethau a damweiniau uchaf o blith holl ddiwydiannau'r DU, gan gynnwys y gyfradd anafiadau plant uchaf mewn amgylchedd gwaith¹⁵⁰. Yn ogystal, ffermio yw'r unig ddiwydiant risg uchel yn y DU lle mae plant yn bresennol drwy'r amser (naill ai fel rhan o'r teulu neu fel aelodau o'r cyhoedd)¹⁵¹. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi bod plant yn y DU yn cael eu lladd bob blwyddyn wrth ymwneud â gwaith a gweithgareddau amaethyddol; yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant sy'n marw mewn digwyddiadau o'r fath yn aelodau o'r teulu¹⁵².

Disgwylir i'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant sy'n byw ar fferm, neu'n agos at fferm. Er enghraifft, bydd un Weithred Gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gwblhau lefel ofynnol o ddysgu, gan gynnwys modiwl gorfodol ar iechyd a Diogelwch, a allai godi ymwybyddiaeth o beryglon a allai niweidio plant, yn enwedig (e.e. trwy fethu ag asesu'r risgiau a allai effeithio ar blant yn gyffredinol; y peryglon a allai fygwth plant ifanc nad ydynt yn cael eu goruchwyllo; plant [14 oed a throsodd] sy'n gweithio heb oruchwyliaeth, neu heb hyfforddiant digonol).

Ar ben hynny, gellir disgwyl i'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) leihau neu atal sawl niwed corfforol i blant. Gall niwed o'r fath gynnwys lledaenu clefydau heintus; trosglwyddo milheintiau o anifeiliaid i blant; yn ogystal â lleihau'r risg y bydd plant yn dod i gysylltiad â chemegau a llygryddion niweidiol yn amgylchedd y fferm.

Bydd y Cynllun yn effeithio ar bobl ifanc sy'n ymuno â'r sector amaethyddol yng Nghymru ac sy'n dymuno ymuno â'r Cynllun hefyd. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn addas i bob ffermwr. Mae newydd-ddyfodiaid i fyd ffermio yn dod â syniadau, egni a brwdfrydedd entrepreneuraidd newydd, ac o'r herwydd maen nhw'n gallu hwyluso newid cadarnhaol yn y diwydiant.

Fodd bynnag, mae newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant amaethyddol yn wynebu heriau lluosog o safbwynt cael mynediad i dir, cyllid ac, i rai, sgiliau a hyfforddiant. Mae cynlluniau cymorth blaenorol wedi arwain at newydd-ddyfodiaid yn cael trafferth bodloni'r trothwy buddsoddi sydd ei angen i fod yn gymwys i gael grantiau; y gwerth am arian sy'n gysylltiedig â phrynu offer newydd yn unig; yn ogystal â heriau wrth geisio am daliadau lle'r oedd cwtâu neu hawliau yn seiliedig ar daliadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnodau cyfeirio blaenorol. Bydd gostyngiad yn isafswm yr arwynebedd cymwys sy'n ofynnol i ymuno â'r Cynllun yn gwneud hyn yn haws.

Fel yr amlinellir yn Adran 2, rydym yn cydnabod, yn y tymor byr, bod gan y newid o'r system gymorth bresennol y potensial i achosi ansicrwydd a straen i deuluoedd ffermio, ac felly gall effeithio ar blant yn y teuluoedd hynny. Bwriad y cyfnod pontio yw lliniaru rhywfaint o'r ansicrwydd hwn drwy sicrhau nad oes unrhyw fferm yn gweld eu taliadau'n dod i ben yn sydyn a bydd yn caniatáu amser i gynllunio ac addasu i'r newidiadau.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- *Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi?*

Newid Hinsawdd

Mae UNICEF wedi datgan bod yr argyfwng hinsawdd yn argyfwng hawliau plant¹⁵³. Mae newid hinsawdd yn bygwth hawliau sylfaenol megis mynediad at ddŵr glân, aer glân ac iechyd, ac mae plant yn fwy agored i niwed oherwydd effeithiau ecolegol negyddol.

Mae *Mynegai Risgiau i Blant yn Sgil yr Hinsawdd (CCRI) UNICEF* yn asesu i ba raddau y daw plant i gysylltiad â pheryglon newid hinsawdd ledled y byd a pha mor agored ydynt i niwed yn sgil y peryglon hyn¹⁵⁴. Mae'r Mynegai hwn wedi'i strwythuro yn ôl dwy golofn:

- a. Dod i gysylltiad â siociau a straen fel llygredd aer, llifogydd, llygredd dŵr.
- b. Pa mor agored i niwed ydynt o ran iechyd, maeth, mynediad at addysg, glanweithdra a thlodï¹⁵⁵.

Mae gan y DU sgôr 'canolig' ar sail y CCRI (tri phwynt ar raddfa pum pwynt lle mae pump yn dynodi'r perygl mwyaf) oherwydd cysylltiad uchel â siociau a pheryglon amgylcheddol¹⁵⁶. Mae hyn yn dangos bod hawliau plant yn y DU yn cael eu bygwth gan newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau amgylcheddol sy'n rhaeadru.

Mae tystiolaeth gynyddol hefyd fod plant a phobl ifanc yn profi fwyfwy 'bryder hinsawdd' o ganlyniad i newid hinsawdd, a allai arwain at effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol^{157, 158}. Er enghraifft, canfu arolwg (o 10,000 o blant a phobl ifanc) a gynhaliwyd gan Marks et al., fod mwy na 45% o'r ymatebwyr wedi dweud bod eu teimladau mewn perthynas â newid hinsawdd wedi effeithio'n negyddol ar 'eu bywyd bob dydd a'u gweithrediad', tra bod 60% yn mynegi teimlo'n bryderus iawn neu'n eithriadol o bryderus am newid hinsawdd¹⁵⁹. Yn ogystal, roedd mwy na hanner yr ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu 'bradychu' gan ddiffyg gweithredu'r llywodraeth i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd¹⁶⁰. Yng Nghymru, gofynnodd *Education Multi Cohort Study 2021-22 WISERD* i dair carfan o blant faint oeddent yn poeni am y newid yn yr hinsawdd¹⁶¹. O'r 454 o blant y cofnodwyd ymateb ar eu cyfer, dim ond 11% a ddywedodd nad oeddent yn poeni o gwbl am newid hinsawdd. Dywedodd tua 20% o'r plant a holwyd nad oeddent yn poeni llawer am newid hinsawdd, dywedodd 44% eu bod braidd yn bryderus, dywedodd 20% eu bod yn bryderus iawn a dywedodd bron i 5% eu bod yn eithriadol o bryderus¹⁵.

Felly, dylai cymryd camau i liniaru newid hinsawdd a lleihau amlygiad i beryglon megis llygredd aer a thywydd eithafol leihau'r bygythiadau i hawliau plant yng Nghymru a gweithio tuag at wella eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u llesiant meddyliol.

Mae lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd yn un o amcanion SLM. Mae camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a lliniaru ei effeithiau, yn ogystal â sicrhau nifer o ganlyniadau

¹⁵ Canrannau wedi'u cyfrifo o'r canlyniadau sydd ar gael ym Mhorth Data WISERD. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y canrannau rhoi cyfanswm o 100.

rheoli tir yn gynaliadwy, wedi'u cynnwys yn y Cynllun. Bydd y dibenion ar gyfer cymorth a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn caniatáu camau gweithredu uniongyrchol i liniaru'r risg hon drwy gyflwyno'r Cynllun, ac felly gellir disgwyl iddo gael effaith gadarnhaol ar blant.

- *Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau¹⁶ o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisiâu sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.*

I'r graddau y mae ansawdd aer a dŵr gwael yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel (mewn ardaloedd difreintiedig) a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, a ledled y DU,¹⁶² gallai'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant ar aelwydydd o'r fath.

Yn 2022, canfuwyd bod tua 535,000 o blant o dan 18 oed (y mae 356,000 ohonynt o dan 12 oed) yn byw mewn cymdogaethau lle mae'r crynodiad blynyddol cyfartalog o PM2.5 yn uwch na chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd¹⁶³. Yn ogystal, mae dros 1,200 o ysgolion wedi'u lleoli yn yr ardaloedd llygreddig hyn¹⁶⁴. Canfuwyd hefyd fod tua 93,000 o blant dan 18 oed yng Nghymru (y mae 64,000 ohonynt o dan 12 oed) yn byw mewn ardaloedd lle mae'r crynodiad cyfartalog o NO2 yn uwch na chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, a lle mae 169 o ysgolion¹⁶⁵.

Yn ogystal, mae wedi dod i'r amlwg bod plant iau mewn mwy o berygl oherwydd llygredd aer na phlant hŷn ac oedolion^{166,167}. Mae beichiogrwydd, babandod a phlentyndod cynnar yn gamau datblygiadol hanfodol bwysig; o'r herwydd, mae babanod a phlant ifanc sy'n datblygu yn agored iawn i beryglon llygredd aer ac effeithiau amgylcheddol negyddol eraill¹⁶⁸. Fel y nodwyd gan *Goleg Brenhinol y Meddygon a'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant*:

The developing heart, lung, brain, hormone systems and immunity can all be harmed by pollution. Environmental effects on the embryo, fetus, baby and toddler may last a lifetime, but may take years or even decades to become apparent. [...] There is also clear evidence that early exposure to air pollution can damage the lungs, and increase the risk of lung infections that may be fatal. It is known to have an effect on heart health in adult life¹⁶⁹.

Fel y nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nod y Cynllun yw creu canlyniadau amgylcheddol y bydd eu cyflawni yn cael effaith gadarnhaol ar ddangosyddion ym mhob un

¹⁶Er enghraifft, efallai y byddwch yn ystyried effeithiau gwahanol eich polisi ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; Plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant â phrofiad o fod mewn gofal; plant LHDTC+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac nad un profiad unfurf a fydd gan bawb o fewn y carfanau hyn.

o'r tri is-faes amgylchedd ffisegol (ansawdd aer, perygl llifogydd a mynediad i 'fannau gwyrdd') *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru* [MALIC])¹⁷⁰.

Mae plant mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn agored i effeithiau digwyddiadau tywydd garw fel llifogydd. Disgwylir i nifer o Weithredoedd y Cynllun gefnogi diben rheoli tir yn gynaliadwy o liniaru'r risg o lifogydd (e.e. cynnal a chadw coetir a gwrychoedd, creu coetir a gwrychoedd, gorchudd cnydau amlywogaeth ar bob tir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf); felly, gallai plant yn yr ardaloedd hyn elwa'n uniongyrchol o'r gweithredoedd a'r canlyniadau hyn.

Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn amlinellu effeithiau posibl ar siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

- *Pa waith yn cynnwys plant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.*¹⁷

Er y gall plant mewn teuluoedd ffermio ymgymryd â gweithgareddau addas i'w hoedran ar y fferm, ni fydd plant yn gyfranogwyr ffurfiol yn y Cynllun. O'r herwydd, nid oes angen unrhyw ymgysylltiad penodol wrth ymgynghori ar y Cynllun a'i roi ar waith.

Serch hynny, gallai plant elwa ar y Cynllun, gan y dylai'r canlyniadau disgwylidig barhau i gefnogi cymunedau gwledig gwydn a gwella cynaliadwyedd y sector amaethyddol yn yr hirdymor. Yn ogystal, bydd pobl ifanc mewn teuluoedd sy'n ffermio yn cael cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn ymwneud ag arferion ffermio cynaliadwy, a bydd modd iddynt ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn y dyfodol pe baent yn cymryd yr awenau ar y fferm neu'n dechrau ffermio yn rhywle arall.

Yn ystod y broses gydlunio ar gyfer y Cynllun, sefydlwyd nifer o weithgorau i helpu i ddatblygu'r cynllun, a oedd yn cynnwys ystyried materion sy'n ymwneud â newydd-ddyfodiaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo'r broses gydlunio hefyd trwy fynychu sioeau, marchnadoedd a digwyddiadau amaethyddol i godi proffil y Cynllun mor eang â phosibl.

Mae'r ymatebion i'n hymgyngoriadau blaenorol¹⁷¹ wedi cynnwys rhai gan sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr iau/y genhedlaeth nesaf. Mae Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn aelod o Ford Gron Weinidogol y Cynllun, yn ymgynghorai statudol ac mae wedi cymryd rhan mewn trafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion Cymru a Swyddogion ar ddatblygu'r Cynllun a pholisïau amaethyddol a gwledig ehangach. Disgwylir i'r ymgysylltiad hwn barhau wrth i'r Cynllun gael ei weithredu a'i gyflawni.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

¹⁷ Mae Erthygl 12 o CCUHP yn datgan bod gan blant hawl i fynegi eu safbwyntiau, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod rhaid ystyried eu safbwyntiau.

- *Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith mae'ch polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?*

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, rydym yn disgwyl y bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc. Mae effeithiau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau disgwyliedig rheoli tir yn gynaliadwy yn cynnwys:

- Ansawdd aer gwell.
- Ansawdd dŵr gwell.
- Ecosystemau mwy gwydn ac adfer rhywogaethau.
- Cyfleoedd gwell i gael mynediad i gefn gwlad ar gyfer ymarfer corff a llesiant cymdeithasol.
- Diogelu nodweddion tirwedd.
- Effeithlonrwydd adnoddau.
- Lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Dylai'r canlyniadau hyn effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol.

Yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, rydym wedi nodi potensial canlyniadau amgylcheddol o'r Cynllun i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Fel y trafodwyd eisoes, mae ansawdd aer gwell yn debygol o fod o fudd i blant. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, 'Mae wedi'i ddogfennu'n dda bod amlygiad i lygredd aer yn effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol; [...] ystyrir bod plant, pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau cronig yr ysgyfaint neu'r galon yn fwy agored i effeithiau amlygiad llygredd aer' 172.

Un o effeithiau cadarnhaol posibl y Cynllun ar blant hefyd yw'r cynnydd yng ngwydnwch busnesau amaethyddol oherwydd y Taliad Cyffredinol a'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a gynigir fel cymorth yn y Cynllun. Mae'r Cynllun wedi dileu neu leihau llawer o'r rhwystrau hanesyddol roedd pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gymorth ariannol. Nid yw'r Cynllun yn cynnwys unrhyw gyfnodau cyfeirio na hawliau hanesyddol, ac mae'r isafswm arwynebedd cymwys wedi'i osod ar 3 hectar neu 550 o oriau llafur safonol. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i ddylunio i fod yn hygyrch i denantiaid, sy'n aml yn llwybr i ffermio i lawer o bobl ifanc. Mae busnesau fferm cadarn yn cefnogi cymunedau gwledig gwydn. Yn ei dro, bydd hynny o fudd i blant yn yr ardaloedd hynny ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae effeithiau economaidd y Cynllun, a allai effeithio ar blant (yn gadarnhaol neu'n negyddol) wedi cael eu trafod yn yr Asesiad o'r Effaith Economaidd.

Fel y nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'n Hasesiad Effaith Prawfesor Gwledig, mae gan newidiadau i'r diwydiant amaeth y potensial i effeithio ar gymunedau gwledig a'r Gymraeg, ac fe allai hyn effeithio ar blant.

Hefyd, gall anifeiliaid iachach â safonau lles uchel helpu i feithrin gwydnwch mewn economïau a chymunedau gwledig (sonnir rhagor am hyn yn yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig), gan esgor ar gyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol posibl i blant a phobl ifanc yn y cymunedau hyn.

Mae'r Cynllun yn bwriadu cefnogi gwydnwch cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith, gan effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant yn yr ardaloedd hyn a ledled Cymru.

Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i BroTOCOLau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

Erthyglau neu BroTOCOL Dewisol y Confensiwn	Yn Gwella (X)	Yn Herio (X)	Esboniad
Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd): Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg yn ymwneud ag iechyd a llesiant er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cadw'n iach. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.	X		Mae plant yn agored i niwed yn anghymesur i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gall dod i gysylltiad â pheryglon fel llygredd aer a thywydd eithafol fygwth iechyd a llesiant. Mae'r Cynllun yn hwyluso cymorth i gyflawni dibenion Rheoli'r Tir yn Gynaliadwy ar gyfer cymorth fel aer glân, ansawdd dŵr gwell, gwytnwch ecosystemau a mynediad gwell i gefn gwlad. Byddai hyn yn creu cyfleoedd gwell i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau iach mewn amgylchedd diogel, ynghyd ag iechyd corfforol a meddyliol da.
Erthygl 27 (safon byw ddigonol): Mae gan bob plentyn yr hawl i gael safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol,	X		Mae lliniaru ac addasu i newid hinsawdd yn un o'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun. Gall tywydd eithafol, fel llifogydd a stormydd, ddinistrio tai a chreu amgylcheddau anniogel. Yn ogystal, mae gweld yr effeithiau ar les anifeiliaid yn ystod brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid yn gallu cael effaith ddifrifol ar

moesol a chymdeithasol y plentyn.			les meddyliol plentyn. Mae'r Cynllun yn cynnwys gweithredoedd y disgwylir iddynt leihau a lliniaru yn erbyn perygl llifogydd a sychder. Hefyd, mae gweithredoedd y Cynllun yn ceisio gwella ansawdd aer a dŵr a lleihau nwyon tŷ gwydr. Bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd y mae plant yn tyfu ynddo.
Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant): Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.	X		Mewn adolygiad o bwysigrwydd natur i ddatblygiad plentyndod, daethpwyd i'r casgliad canlynol: "...contact with nature is supportive of healthy child development in several domains – cognitive, social and emotional. Until proven otherwise, we can continue to assume, just as they need good nutrition and adequate sleep, children may very well need contact with nature.¹⁷³ Gallai mwy o gyfleoedd o ran darparu mynediad i gefn gwlad roi cyfle i blant fwynhau mwy o gyswllt â natur. Byddai hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad plentyndod, ar sail y dystiolaeth uchod. Bydd gan y Cynllun nifer Weithredoedd Opsynol a Chydweithredol wedi'u cynllunio'n benodol i helpu i wella mynediad a chadw a gwella ein tirweddau naturiol a'n treftadaeth, gan ddarparu diwylliant i blant nawr ac yn y dyfodol.

4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?*

Fel gydag asesiadau effaith eraill, a luniwyd o fewn yr IIA, mae'r CRIA hwn (ac iteriadau cynharach ohono) wedi'i gynnwys a'i ddefnyddio i lywio cyngor Gweinidogol ar ddatblygu a chyflawni'r Cynllun.

5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Cyhoeddir yr Asesiad hwn yn llawn fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Cynllun.

6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Fel y nodir yng Nghwestiwn 1, nid ydym wedi gofyn yn benodol am farn plant ar y Cynllun, er bod ymatebion i'n hymgyngghoriadau blaenorol wedi cynnwys rhai gan sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr iau/y genhedlaeth nesaf o ffermwyr. Er enghraifft, mae Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn rhan o ddatblygu'r Cynllun a bydd yn cael gwybod am y canlyniad.

7. Monitro ac Adolygu

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Bydd angen cynnal asesiad effaith arall os oes newidiadau i bolisi'r Cynllun a'r modd y mae'n cael ei roi ar waith yn y dyfodol. O'r herwydd, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei adolygu'n barhaus wrth i gynigion gael eu datblygu.

- **Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r modd y'i rhoddir ar waith?**

Mae datblygiad y Cynllun wedi bod yn gyson â'r adolygiad hwn ac yn seiliedig ar ein fframwaith deddfwriaethol, felly ni fu angen unrhyw newidiadau. Bydd angen cynnal asesiad effaith arall os oes newidiadau i bolisi'r Cynllun neu'r modd y mae'n cael ei roi ar waith yn y dyfodol. O'r herwydd, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei adolygu'n barhaus wrth i gynigion gael eu datblygu.

B. YR ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi 'sylw dyladwy' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Bydd y Cynllun ar gael i bob ffermwr cymwys sy'n dymuno cymryd rhan. Ei nod yw cynnal busnesau fferm sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol drwy Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM).

Nid oes disgwyl i'r Cynllun gael unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; fodd bynnag, ystyrir effeithiau posibl ar wahanol grwpiau fel rhan o'r Asesiad Effaith hwn. Mae disgwyl i'r Cynllun esgor ar rai manteision cyffredinol i'r boblogaeth gyfan, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. Mae'r manteision generig hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- Yr effeithiau ar iechyd pobl o'r canlyniadau amgylcheddol a gyflawnir o ganlyniad i weithredu ar y fferm. Y manteision o ran gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a diogelu nodweddion tirwedd.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig

Mae'r ystadegau canlynol yn defnyddio *amcangyfrifon poblogaeth y SYG ar gyfer 2023*¹⁷⁴ a *data Cyfrifiad 2021*¹⁷⁵ i archwilio materion sy'n wynebu'r Gymru wledig. Maent yn dangos bod rhai grwpiau'n cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli mewn cymunedau gwledig. Golyga hyn fod mwy neu lai o bobl na'r disgwyl yn meddu ar nodweddion penodol pe bai grwpiau o'r fath yn cael eu dosbarthu'n gymesur ar draws ardaloedd trefol a gwledig yn ôl niferoedd y boblogaeth.

Yn adrannau diweddarach yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn, rydym yn archwilio effeithiau posibl y Cynllun ar wahanol grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a fyddai'n cyfrannu at fwy o gydraddoldeb yng Nghymru.

Mae'r dosbarthiad o Awdurdodau Lleol Trefol/Gwledig¹⁷⁶ ac Ardaloedd Trefol/Gwledig¹⁷⁷ a ddefnyddir yn y isod yn seiliedig ar Ddosbarthiad Trefol/Gwledig (RUC) 2021^{18, 178}. Yma, mae Awdurdodau Lleol Trefol/Gwledig ac Ardaloedd Trefol/Gwledig yn cyfeirio at ddynodiad RUC 2021 y SYG a roddir i bob Ardal Awdurdod Lleol (LAD) neu Ardal Gynnyrch (OA) yn y drefn honno. Ardal Gynnyrch yw ardal ddaearyddol sy'n cynnwys rhwng 100 o bobl (neu 40 o aelwydydd, pa un bynnag sydd leiaf) a 625 o bobl (neu 250 o aelwydydd, pa un bynnag sydd fwyaf). Mae Ardaloedd Cynnyrch wedi'u cynllunio i fod yn ddigon bach fel nad ydynt yn cynnwys cymysgedd o amgylcheddau trefol a gwledig.

Plant: Mae plant (o dan 16 oed) yn tueddu i gael eu tangynrychioli yn Awdurdodau Lleol Gwledig¹⁷⁹ Cymru. Er bod y rhan fwyaf o blant sy'n byw mewn Awdurdodau Lleol Gwledig yn byw mewn Ardaloedd Gwledig, mae effaith y tangynrychioli ychydig yn fwy amlwg yn yr ardaloedd hyn, gyda phlant yn cael eu gorgynrychioli mewn Ardaloedd Trefol.

Pobl ifanc: Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn cael eu tangynrychioli mewn Ardaloedd Gwledig.

Pobl hŷn oedran gweithio: Mae mwy o bobl hŷn oedran gweithio, rhwng 60 a 64 oed, mewn Ardaloedd Gwledig o gymharu ag Ardaloedd Trefol ym mron pob ALI yng Nghymru.

Pobl hŷn dros 65 oed. Mae rhai o'r cyfrannau uchaf o bobl 65 oed a hŷn i'w gweld yn Awdurdodau Lleol Gwledig Cymru. Mewn nifer o'r Awdurdodau Lleol hyn, caiff pobl hŷn eu gorgynrychioli yn y boblogaeth wledig, gan gyfateb i fwy na chwarter y trigolion.

Anabledd. Roedd cyffredinrwydd anabledd yng Nghymru ar ei uchaf yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Awdurdodau Lleol y Cymoedd. Ar lefel yr Ardal Gynnyrch, mae cyffredinrwydd anabledd yn tueddu i fod ychydig yn uwch mewn Ardaloedd Trefol nag mewn Ardaloedd Gwledig. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y gall anghenion pobl anabl mewn Ardaloedd Gwledig fod yn wahanol iawn i anghenion pobl mewn Ardaloedd Trefol, gyda mwy o heriau o ran cael gafael ar ofal a chymorth priodol. Mae anabledd hefyd yn fwy amlwg ymhlith grwpiau oedran hŷn; roedd 43.8% o'r rhai a ddywedodd fod eu gweithgarwch o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn yn 65 oed a hŷn.

Hil ac ethnigrwydd: Dengys data'r Cyfrifiad yn 2021 fod 6.2% o boblogaeth Cymru yn cynnwys unigolion a oedd yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig¹⁹. Fodd bynnag,

¹⁸ Mae Dosbarthiad Trefol/Gwledig (RUC) 2021 yn ddull safonol ar gyfer dosbarthu daearyddiaeth fel gwledig neu drefol a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag ONS Geography, DEFRA a Llywodraeth Cymru.

¹⁹ "Grwpiau ethnig cymysg neu luosog", "Asiaidd, Cymry Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig", "Du, Cymry Du, Prydeinig Du, Caribïaidd neu Affricanaidd", a "Grŵp ethnig arall". Nid yw grwpiau lleiafrifol gwyn wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn.

ceir crynhoad sylweddol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn Ardaloedd Trefol; roedd tua 9 o bob 10 o'r rhai a oedd yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn Ardal Drefol, gyda'r mwyafrif llethol yn byw'n benodol yng Nghaerdydd, yng Nghasnewydd neu yn Abertawe.

Rhyw a rhywedd: Ar Ddiwrnod Cyfrifiad 2021, roedd gan ddynion a menywod sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gyfraddau cyflogaeth uwch, cyfraddau diweithdra is a chyfraddau anweithgarwch economaidd is o gymharu â'r rhai mewn ardaloedd trefol¹⁸⁰.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod gwahaniaethau amlwg i'w cael o ran nodweddion cyffredinol y rhai sy'n byw yn y Gymru wledig, o'u cymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, a sut y byddwch yn lliniaru'r rhain?

Plant

Fel y nodir yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) ac Iechyd (Adran 2), gallai'r Cynllun effeithio'n anuniongyrchol ar blant mewn sawl ffordd. Disgwylir i effaith y Cynllun ar blant fod yn gadarnhaol, drwy gyflawni canlyniadau sy'n fuddiol yn amgylcheddol fel aer a dŵr glân sy'n fanteisiol o ran iechyd, a gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad gan hwyluso mwy o gyswllt â natur.

Gallai plant mewn teuluoedd sy'n ffermio ac yn y gymuned wledig ehangach deimlo unrhyw effaith economaidd cadarnhaol neu negyddol a all ddeillio o'r Cynllun. Bwriad y Cynllun yw cefnogi gwytnwch busnesau amaethyddol, ac felly bydd yn cefnogi cymunedau gwledig gwydn, gan fod o fudd i blant yn yr ardaloedd hyn, a'u gwneud yn lleoliadau mwy hyfyw i deuluoedd fyw ynddynt.

Bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr i ddarparu gwell mynediad i ardaloedd gwledig a mannau gwyrdd o fewn yr Haen Opsiynol, gan gynnwys mewn ffyrdd sydd wedi'u hanelu at blant, megis cefnogi gosod gatiau yn lle camfeydd a fydd yn ei gwneud yn haws i deuluoedd â phlant ifanc gael mynediad i gefn gwlad, a allai annog mwy o ddefnydd o gefn gwlad gan y plant hynny yn ddiweddarach mewn bywyd.

Pobl Ifanc

Gwyddom y gall allfudo net o ardaloedd gwledig ymhlith pobl ifanc gael effaith negyddol sylweddol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth mewn ffermydd ac economïau gwledig. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a chynyddu cynaliadwyedd ffermio ar gyfer y dyfodol, mae angen cyfleoedd i bobl ifanc ymuno â'r sector amaethyddol; y rhai a fagwyd mewn teuluoedd ffermio a'r rhai sydd am ymuno â'r diwydiant o gefndiroedd eraill.

Bydd y Cynllun yn cynnwys datblygu cyngor ac arweiniad i ffermwyr, yn ogystal â darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus priodol fel rhan o'r Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol. Dylai'r ddarpariaeth hon fod yn arbennig o werthfawr i'r rhai sy'n newydd i'r diwydiant, er enghraifft, pobl ifanc sydd wedi gorffen addysg yn ddiweddar.

Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys mynediad i dir a chyllid, yn ogystal â chael gwybodaeth/sgiliau sy'n angenrheidiol i redeg busnes llwyddiannus. Mae Cyswllt Ffermio wedi arwain nifer o fentrau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac rydym yn parhau i ystyried y ffordd orau o adeiladu ar y mentrau hyn yn y dyfodol.

Mae grwpiau sy'n cynrychioli Ffermwyr Ifanc²⁰ wedi cymryd rhan yn ein hymgyngoriadau a'n rhaglen cydlunio, ac wedi crybwyll yr angen i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Dangosodd canfyddiadau ail gam *Cydlunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*¹⁸¹ fod canran y berchenogaeth tir yn cynyddu'n raddol yn gymesur ag oedran hŷn ffermwyr. Roedd ffermwyr iau (o dan 40 oed) a ymatebodd i'r arolwg yn llai tebygol o fod yn berchen ar dir amaethyddol yn llwyr ac roeddent yn fwy tebygol o ddibynnu'n gyfan gwbl ar dir fferm tenant. Gan fod canran uwch o ffermwyr iau yn dibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar dir fferm tenant, efallai eu bod yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran ymuno â'r Cynllun oherwydd efallai na fyddant yn gallu cynnal rhai gweithredoedd ar dir nad ydynt yn berchen arno. Er enghraifft, canfu ail gam *Cydlunio'r Cynllun* fod ffermwyr hŷn yn fwy parod na ffermwyr iau i ymgymryd â'r Weithred Gyffredinol gorchudd coed 10% sydd bellach wedi'i ddileu, a bod cydberthynas ymddangosiadol rhwng y parodrwydd hwn a pherchnogaeth tir a mater rheolaeth reoli. Ers yr ymgynghoriad *Cadw Ffermwyr i Ffermio*, mae newidiadau wedi'u gwneud i ddyluniad y Cynllun i sicrhau ei fod yn hygyrch i ffermwyr tenant a ddylai hefyd fod o fudd i ffermwyr iau. Rydym hefyd wedi amlinellu sut na fydd taliadau'n seiliedig ar hawliau, cwotâu neu gyfnodau cyfeirio fel y bydd newydd-ddyfodiaid neu bobl ifanc yn ymuno â'r Cynllun ar yr un telerau â phob ffermwr arall.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth¹⁸² sy'n awgrymu bod ffermwyr iau yn fwy tebygol o fanteisio ar dechnolegau a gwybodaeth newydd. Canfu gwaith ymchwil yn ymwneud â chymhellion ffermwyr mai ffermwyr o dan 40 oed oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno eu bod bob amser yn ceisio dysgu sgiliau newydd a'u bod yn agored i dechnoleg newydd¹⁸³. O ystyried y bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr i fabwysiadu dulliau newydd ac arloesol yn ogystal ag arferion ffermio traddodiadol, efallai y bydd ffermwyr ifanc mewn sefyllfa dda i weithredu rheoli tir yn gynaliadwy ac elwa ar y Cynllun. Felly, efallai y bydd disgwyl i'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ffermwyr iau.

Pobl Hŷn

²⁰ Mae'r grwpiau sy'n cynrychioli ffermwyr ifanc a fu'n ymwneud â'r broses ymgynghori yn cynnwys Clwb Ffermwyr Ifanc Môn, Clwb Ffermwyr Ifanc Erwyd, a Chlwb Ffermwyr Ifanc Maesyfed.

Mae problemau i bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth allweddol¹⁸⁴. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y Cynllun yn cael effaith negyddol ar lesiant pobl hŷn yn y gymuned wledig ehangach; yn hytrach, y bwriad yw iddo gefnogi economi wledig ffyniannus a chynaliadwy, ac felly byddai unrhyw effaith gadarnhaol ar hyfywedd cymunedau gwledig o fudd i drigolion hŷn. O ran effeithiau cadarnhaol posibl, nodwn yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd (yn Adran 2) botensial y canlyniadau amgylcheddol, sy'n deillio o'r Cynllun, i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Nodwn hefyd effaith dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael ar bobl hŷn.

Amcangyfrifwyd mai oedran cyfartalog ffermwr yng Nghymru yn 2023 dros 60 oed, gyda'r mwyafrif o brif ffermwyr yng Nghymru dros 55 oed¹⁸⁵. Mae'r Cynllun yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd mae ffermwyr yn cael cymorth gan y llywodraeth ac mae angen cyfathrebu hyn yn rhesymol i bob ffermwr.

Er bod cyfryngau digidol yn ffordd ddefnyddiol o ddiweddarau cyhoeddiadau, mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd* (2019), yn nodi bod digideiddio yn her, yn enwedig i ffermwyr hŷn¹⁸⁶. Mae'n amlwg na allwn ddibynnu'n llwyr ar ddulliau cyfathrebu digidol ar gyfer materion yn ymwneud a'r Cynllun, rhag ofn y bydd yna effaith negyddol anghymesur ar ffermwyr hŷn. Mae sioeau teithiol a gweithdai yn y cnawd wedi cael eu cynnal ar yr un pryd ag ymgynghoriadau blaenorol y Cynllun a'u nod yw cyrraedd pob ffermwr ledled Cymru, gan gynnwys y rhai a allai fod dan anfantais ddigidol. Mae cyrraedd y grwpiau hyn yn ystyriaeth bwysig wrth ddarparu cyngor ac arweiniad ac ar gyfer Gweithredoedd y Cynllun megis Datblygiad Proffesiynol Parhaus lle byddwn yn cefnogi dull yn y cnawd a digidol.

Mae gennym brofiad o gyfathrebu â ffermwyr drwy'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a chylchlythyr Gwlad, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ein strategaethau cyfathrebu. Cymerwyd camau i sicrhau bod cynrychiolaeth deg o ffermwyr o bob grŵp oedran yn cymryd rhan yn y rhaglen gydlunio a lywiodd ddatblygiad y Cynllun.

Yn groes i'r canfyddiadau'n ymwneud â ffermwyr ifanc, mae ymchwil yn awgrymu mai ffermwyr hŷn sydd leiaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno eu bod bob amser yn ceisio dysgu sgiliau newydd neu eu bod yn agored i ddefnyddio technoleg newydd¹⁸⁷. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn nes at ymddeol a'u bod yn dewis gadael penderfyniadau ynghylch newidiadau i'w holynydd. Efallai y byddant yn wynebu mwy o heriau corfforol na ffermwyr iau hefyd wrth ymgymryd â gweithredoedd fel rhan o'r Cynllun. Bydd angen i ni sicrhau bod ffermwyr hŷn yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y Cynllun a'u bod yn cael eu cefnogi i fabwysiadu rheoli tir yn gynaliadwy yn fwy cyffredinol mewn ffordd sy'n ymarferol ac yn gydnaws â chynllunio ar gyfer olyniaeth. Bydd y gwasanaethau gwybodaeth a chymorth a ddarperir ochr yn ochr â'r cynllun yn rhan annatod o hyn.

Anabledd

Yn ystod y broses o ddatblygu cyngor a chanllawiau mewn perthynas â pholisi amaethyddol, bydd swyddogion yn gweithio i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob ffermwr ac felly byddant yn ystyried addasiadau rhesymol i'r rhai ag anableddau.

Fel y nodir uchod, disgwyliwn i'r canlyniadau a gyflawnir o ganlyniad i'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys pobl ag anableddau. Ymhellach, gall unrhyw welliannau i'r llwybrau mynediad presennol, a gyflawnir o dan Haen Opsiynol y Cynllun, sy'n cynyddu hygyrchedd gael effaith gadarnhaol drwy ganiatáu i fwy o bobl anabl fwynhau cefn gwlad a'i fanteision cysylltiedig. Ceir trafodaeth fanwl ar iechyd meddwl ffermwyr yn Adran 2 y ddogfen hon.

Hil ac ethnigrwydd

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau andwyol ar hil ac ethnigrwydd yn sgil y Cynllun. Fel y nodir uchod, disgwylir i'r broses o weithredu rheoli tir yn gynaliadwy drwy'r Cynllun arwain at ganlyniadau a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth. Fodd bynnag, gall dosbarthiad daearyddol amrywiol grwpiau hil a grwpiau ethnig lleiafrifol gwahanol ledled Cymru olygu bod buddion posibl hefyd yn amrywio ar draws grwpiau.

Mae ymchwil ddiweddar wedi canfod bod grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu gorgynrychioli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer ansawdd aer, mannau gwyrdd amgylchynol a risg llifogydd yng Nghymru (yn unol â thystiolaeth yn Lloegr)¹⁸⁸. Mae hyn oherwydd y ffaith bod cymunedau ethnig lleiafrifol yn tueddu i fod wedi'u crynhoi mewn ardaloedd trefol.

O'r herwydd, mae'n berthnasol ystyried i ba raddau y teimlir effeithiau cadarnhaol o ran iechyd y Cynllun mewn trefi a dinasoedd yn ogystal ag yng nghefn gwlad. Gallai'r gweithredoedd sy'n ymwneud â phlannu coed, rheoli a chreu coetir wella ansawdd aer poblogaethau trefol yn ôl agosrwydd ffermydd sy'n cymryd rhan i'r ardaloedd hyn. Felly, lle mae gan yr ardaloedd trefol hyn sy'n agos at goetir newydd sy'n cael ei greu o dan y Cynllun gyfran uwch o gymunedau ethnig lleiafrifol, efallai y bydd mwy o fudd o wella ansawdd aer ar gyfer y grwpiau hyn. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am yr amrywiad gofodol posibl mewn buddion sy'n deillio o weithredoedd y Cynllun ar wefan ERAMMP189.

Gall llygredd aer a dŵr deithio pellteroedd sylweddol, felly gallai unrhyw leihad mewn allyriadau o amaethyddiaeth gael effaith gadarnhaol ar bobl mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol, ac felly ar hil ac ethnigrwydd. Amaethyddiaeth yw prif ffynhonnell allyriadau amonia yng Nghymru¹⁹⁰, sy'n cyfrannu at ffurfio PM_{2.5}, ac yn ei dro mae hyn yn peri risgiau i iechyd pobl mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r Cynllun yn bwriadu lleihau allyriadau amonia drwy ystod o weithredoedd, megis:

- Yr opsiwn i greu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd
- Cynnal a chadw coetir
- Rheoli gwrychoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- Cynnal cynefinoedd

- Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella
- Gweithredoedd drwy Gynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig
- Profion pridd, a all helpu i dargedu'r defnydd o wrtaith a lleihau colledion i'r aer
- Buddsoddiadau seilwaith ar y fferm, megis storfeydd slyri, rhoi to ar iardiau presennol ac ati.
- Offer manwl gywir ar gyfer rhoi maethynnau, gan gynnwys systemau chwistrellu slyri yn uniongyrchol, GPS ac ati.
- Cymorth ar gyfer prosiectau cydweithredol er mwyn i ffermwyr allu gweithio gyda'i gilydd i leihau allyriadau amonia

O ran dŵr, mae'r rhan fwyaf o drefi a dinasoedd Cymru wedi'u lleoli ger afonydd, felly bydd llygredd amaethyddol a ddaw i mewn i'r dalgylch i fyny'r afon yn effeithio ar ardaloedd trefol hefyd. Er enghraifft, mae ymchwiliadau wedi dangos na fydd gwelliannau mewn ansawdd dŵr ar gyfer ymdrochi yn y Rhyl yn cael eu gwireddu heb leihau llygredd amaethyddol yn dalgylch Clwyd¹⁹¹. Byddai lleihau llygredd dŵr hefyd yn arwain at fanteision cadarnhaol o ran hamdden i bawb sy'n defnyddio cefn gwlad, yn ogystal â lleihau costau trin dŵr.

Gwyddys fod yna wahaniaethau o ran mynediad i gefn gwlad¹⁹² ymhlith gwahanol grwpiau ethnig, a dywedir bod materion fel diffyg ymwybyddiaeth wrth wraidd y gwahaniaeth hwn¹⁹³. Bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr i ddarparu gwell mynediad o fewn yr Haen Opsiynol.

O ran ffermwyr eu hunain, mae data o Gyfrifiad 2021¹⁹⁴ yn dangos bod dros 99% o'r rhai sy'n gweithio mewn Crefftau Amaethyddol a Chrefftau Cysylltiedig Medrus yn y DU yn 2021 yn Wyn. Mae hyn yn cael ei gymharu â'r boblogaeth waith gyffredinol ar y pryd lle'r oedd 82% yn Wyn. Mae Galwedigaethau Amaethyddol Elfennol wedi'u cynnwys mewn grŵp mwy o Grefftau Elfennol a Galwedigaethau Cysylltiedig, felly er na allwn ddwyn cymhariaeth uniongyrchol, efallai y bydd mwy o amrywiaeth yn y Galwedigaethau Amaethyddol Elfennol. Nid oes gennym ddata ar gyfer Cymru yn benodol a nodwn fod ffermydd â'r sydd angen mwy o weithwyr tymhorol ar gyfer gweithgareddau fel cynaeafu yn llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr. Ymhellach, mae lefel uchel y gwaith dros dro a di-dâl yn y byd amaethyddol yn gallu ei gwneud yn heriol i bennu gwir nifer y gweithwyr.

Fel arfer, mae'n anodd i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio ddechrau gyrfa ffermio. Yn ogystal â'r crynhoad hysbys o leiafrifoedd ethnig mewn Ardaloedd Trefol, gall hyn gyfrannu at dangynrychiolaeth sylweddol o leiafrifoedd ethnig mewn ffermio.

Felly, mae gweithredoedd y Cynllun mewn perthynas â ffermio yn debygol o gael llai o effaith ar grwpiau leiafrifoedd ethnig na'r rhai yn y grwpiau ethnig Gwyn, a hynny gan eu bod wedi'u tangynrychioli i raddau helaeth yn y diwydiant amaethyddol.

Priodas a phartneriaeth sifil

Nid ydym yn disgwyl i'r Cynllun gael effeithiau penodol ar bobl oherwydd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil ai peidio.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Dylai Gweithredoedd y Cynllun mewn perthynas â bioddiogelwch a gwella iechyd a lles anifeiliaid leihau'r risgiau a achosir gan glefyd yn y boblogaeth da byw, a allai fynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Mae rhai clefydau milheintiol y (gellir eu trosglwyddo i bobl) a chyfyngau heintus yn risg difrifol i fenywod beichiog a'u babanod yn y groth yn benodol; felly, rydym yn disgwyl i unrhyw gamau i leihau clefydau gael effaith gadarnhaol arnynt. Yn ogystal, byddai effeithiau iechyd cyffredinol fel gwell ansawdd aer hefyd o bwysigrwydd arbennig i fenywod beichiog, fel y trafodir yn fanylach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant^{195,196}.

Ailbennu rhywedd

Nid ydym yn disgwyl i'r Cynllun gael effeithiau penodol ar bobl oherwydd eu bod yn mynd drwy broses ailbennu rhywedd neu wedi bod drwy'r broses.

Crefydd a chred

Nid ydym yn disgwyl i'r Cynllun gael effeithiau penodol ar bobl oherwydd eu crefydd neu eu ffydd.

Cyfeiriadedd rhywiol

Nid ydym yn disgwyl i'r Cynllun gael effeithiau penodol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

Rhyw/rhywedd

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae'r rhai a gyflogir mewn crefftau amaethyddol a chrefftau cysylltiedig medrus yn ddynion yn bennaf, ond mae nifer y menywod yn y sector wedi cynyddu 46.2% rhwng 2004 a 2024 yng Nghymru¹⁹⁷.

Mae menywod yn wynebu nifer o rwystrau yn y byd ffermio; yn 2015, lansiodd Cyswllt Ffermio fenter Merched mewn Amaeth i gefnogi menywod yn y diwydiant, ac mae'r cymorth hwn yn parhau i fod ar gael fel rhan o'r arlwy presennol. Nid oes unrhyw Weithredoedd Cyffredinol penodol yn y Cynllun sy'n ymwneud â rhyw a rhywedd; fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru ystyried darparu cymorth penodol o dan y pwerau ehangach i roi cymorth yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 er mwyn adeiladu ar fentrau blaenorol.

Ymhellach, hyd yn oed os yw'r prif ffermwr yn wryw, mae menywod mewn teuluoedd ffermio yn aml yn weithgar o ran rhedeg busnes y fferm, er efallai na chânt eu cydnabod fel gweithwyr ffurfiol. Mae natur ffermio fel busnes aelwyd yn golygu y bydd newidiadau yn y ffordd y caiff cyllid ei dderbyn a gofynion i gymryd camau penodol yn y Cynllun yn cael effeithiau y tu hwnt i'r prif ffermwr.

Aelwydydd Incwm Isel

Mae incwm busnesau fferm yn gallu bod yn anwadal yn sgil amodau amaethyddol (gan gynnwys y tywydd) ac amodau'r farchnad. Gall yr anwadalrwydd hwn fod yn her o ran cynllunio busnes hirdymor. Bydd y Cynllun yn darparu ffrwd incwm yn seiliedig ar reoli tir yn gynaliadwy; ni fydd yr anwadalrwydd hwn yn effeithio ar hyn. Ar gyfer ffermydd sy'n cymryd rhan, dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl o aelwydydd incwm isel drwy ddarparu incwm sefydlog.

Mae ein Hasesiadau o'r Effaith ar Lesiant Economaidd a Phrawfesur Gwledig, ac achos busnes y Cynllun, yn ystyried effeithiau economaidd posibl y Cynllun yn fanylach.

Aelwydydd mewn ardaloedd difreintiedig

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)¹⁹⁸ yn cynnwys ansawdd amgylchedd ffisegol ardaloedd fel un o'r wyth parth amddifadedd sy'n ffurfio'r mynegai cyffredinol. Mae'r elfen 'amgylchedd ffisegol' ym MALIC 2019 yn cynnwys dangosyddion ansawdd aer, perygl llifogydd a mynediad i fannau gwyrdd.

Nod y Cynllun yw cefnogi ffermwyr i wella'r amgylchedd ffisegol drwy leihau allyriadau, lleihau perygl llifogydd drwy ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur (e.e. amaeth-goedwigaeth, gwella iechyd pridd) a chreu mwy o fynediad i gefn gwlad. Caiff effaith y Cynllun ar yr amgylchedd ei hystyried ymhellach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, ac yn Adran 5 y ddogfen hon, sy'n ymwneud â Llesiant Amgylcheddol.

Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu, lliniaru'r rhwystrau hyn?

Nid ydym yn disgwyl i'r Cynllun greu rhwystrau i'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Wrth i ni barhau i gyfathrebu â ffermwyr ynghylch y Cynllun, byddwn yn ystyried sut gallwn sicrhau na fydd unrhyw rwystrau'n bodoli o ran atal pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig rhag cymryd rhan. Yn ogystal, byddwn yn ystyried a oes angen mentrau wedi'u targedu ochr yn ochr â'r Cynllun, o dan y pŵer cymorth yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn amaethyddiaeth, fel menywod a'r rhai sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl gyngor a'r holl ganllawiau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn cael eu cyfleu mewn ffyrdd hygyrch.

Monitro'r cynigion

Yn ogystal â darparu'r pwerau ar gyfer y Cynllun, mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn darparu'r pwerau monitro a gwerthuso perthnasol, ar gyfer cymorth yn y dyfodol ac ar gyfer SLM yn ei gyfanrwydd.

Bydd y strategaeth fonitro a gwerthuso hon yn nodi sut y caiff y Cynllun ei farnu o ran gwerth am arian a'r canlyniadau a gyflawnir ganddo ar gyfer Cymru. Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau yr anelir atynt a bydd yn nodi mesurau interim a all ddangos cynnydd.

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Gall pobl hŷn elwa'n benodol o gyflawni'r Cynllun, gan y bydd yn arwain at ganlyniadau sy'n cefnogi iechyd y cyhoedd yn gyffredinol, fel aer glanach.	Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed yn sgil llygredd aer, a bydd y gweithredoedd yn y Cynllun yn gwella ansawdd aer.	Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru.
	Efallai y bydd yna effaith negyddol ar rai ffermwyr hŷn os mai dulliau digidol yn unig a ddefnyddir i gyfathrebu am y Cynllun, a'r modd y'i rhoddir ar waith.	Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd (2019), yn nodi bod digideiddio'n her, yn enwedig i ffermwyr hŷn.	Bydd cyngor a chanllawiau ar gael mewn fformatau amrywiol ac fel rhan o waith ymgysylltu'r Cynllun, bydd sioeau teithiol yn cyrraedd ffermwyr ledled Cymru yn y cnawd.

	Mae gan symud o gynllun cymorth seiliedig ar ardal i'r Cynllun hwn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gyflawni gweithredoedd penodol, y potensial i effeithio ar newydd-ddyfodiaid, a allai fod yn bobl iau hefyd.	Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant ffermio a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys mynediad i dir a chyllid, a chael yr wybodaeth/sgiliau sy'n angenrheidiol i redeg busnes llwyddiannus.	Byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y cynnig cynghori presennol ar gyfer pobl iau a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant fel rhan o gymorth ehangach i'r diwydiant ffermio.
Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)	Disgwylir i'r canlyniadau amgylcheddol a ddarperir gan y Cynllun effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys pobl ag anableddau. Gall gwelliannau i lwybrau mynediad o dan yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol gael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd ag anghenion hygrychedd e.e. bydd tynnu camfeydd yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai ag anableddau corfforol.		Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru.
Ailbennu Rhywedd (y weithred drawsnewid a	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol.		Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.

phobl Drawsryweddol)			
Beichiogrwydd a mamolaeth	Bydd llai o glefydau da byw yn lleihau'r risg i fenywod beichiog a'u babanod yn y groth yn sgil milheintiau (clefydau y gellir eu trosglwyddo i bobl). Disgwylir i ganlyniadau amgylcheddol a gyflwynir drwy'r Cynllun effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys menywod beichiog.		Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru.
Hil (yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr, a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Mae ffermwyr yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn yn bennaf, felly bydd effeithiau uniongyrchol y Cynllun yn ymwneud yn bennaf â'r grŵp hwn. Nid oes unrhyw agweddau ar y Cynllun y byddai disgwyl iddynt gael effaith negyddol ar Sipsiwn a Theithwyr (fel newidiadau i hawliau tir neu fynediad at addysg). Bydd cefnogi economi wledig ffyniannus yn parhau i gynnig		Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.

	cyfleoedd i weithwyr mudol.		
Crefydd, cred a diffyg cred	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol.		Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.
Rhyw / Rhywedd	Dynion yw rheolwyr fferm ac unig ddeiliaid yn bennaf, ac fe allai hyn gael effaith negyddol ar gydraddoldeb rhywiol o ran mynediad at gymorth ariannol.		Byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar fentrau fel rhaglen Merched mewn Amaeth Cyswllt Ffermio fel rhan o'r cynnig cymorth ehangach ochr yn ochr â'r Cynllun.
Cyfeiriadedd rhywiol	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol.		Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.
Priodas a phartneriaeth sifil	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol.		Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Disgwylir i blant a phobl ifanc elwa o ddarparu'r Cynllun, gan y bydd yn arwain at ganlyniadau sy'n cefnogi iechyd y cyhoedd yn gyffredinol, fel aer glanach.	Mae plant yn arbennig, yn agored i lygredd aer.	Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru.
	Gallai symud o gynllun cymorth seiliedig ar arwynebedd i gynllun		Mae dadansoddiad economaidd o effeithiau posibl y Cynllun wedi'i

	sy'n seiliedig ar ofyniad i gyflawni cyfres o weithredoedd ffermio cynaliadwy gael effeithiau economaidd, a gall hyn effeithio ar blant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.		gynhyrchu yn Achos Busnes y Cynllun. Mae'r dadansoddiad hwn wedi llywio penderfyniadau gweinidogol terfynol ar y Cynllun.
Priodas a phartneriaeth sifil	Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol.		Ar hyn o bryd, ni fydd angen unrhyw liniaru, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn.
Aelwydydd incwm isel	Gall symud o gynllun cymorth seiliedig ar ardal i gynllun sy'n seiliedig ar ofyniad i gyflawni cyfres o weithredoedd ffermio cynaliadwy gael effaith economaidd, a gall hyn effeithio ar aelwydydd ffermio incwm isel.		Mae dadansoddiad economaidd o effeithiau posibl y Cynllun wedi'i gynhyrchu yn Achos Busnes y Cynllun. Mae'r dadansoddiad hwn wedi llywio penderfyniadau gweinidogol terfynol ar y Cynllun.

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A ydych yn credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? (Cyfeiriwch at bwynt 1.4 y Canllawiau EIA i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r Effeithiau negyddol?
Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth	Fel gyda chynlluniau amaethyddol blaenorol, bydd angen casglu a phrosesu data ar gyfer y Cynllun er mwyn hwyluso cyfranogiad ynddo. Ni ddylai'r gwaith o gasglu a phrosesu data a wneir ar gyfer y Cynllun o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 gael effaith negyddol ar yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol.	Mae unrhyw waith sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol yn peri risg o amharu ar yr hawl i breifatrwydd.	Bydd y dibenion a'r sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu data yn cael eu datgan yn glir i gyfranogwyr y Cynllun. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o brosesu/rhannu data mewn modd anghymesur. Ewch i'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data i gael rhagor o fanylion.

Hawliau Dinasyddion yr UE / AEE a'r Swistir

Nid ydym yn disgwyl i'r Cynllun gael effaith negyddol ar hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir. O ran Dinasyddion yr UE/AEE neu'r Swistir sy'n byw ac yn ffermio yng Nghymru, bydd y Cynllun ar gael i bob ffermwr yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra, ni waeth beth fo'i genedligrwydd.

Nod y Cynllun yw cefnogi sector amaethyddol cynaliadwy a chadarn yng Nghymru. Ar gyfer Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir sy'n dibynnu ar waith amaethyddol tymhorol, dylai'r Cynllun olygu y bydd y gofyn am waith tymhorol yn cael ei gynnal gan y bydd ffermydd yn wydn ar gyfer y dyfodol.

C. ASESIAD EFFAITH PRAWF GWLEDIG

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl wledig, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol? Er enghraifft, fel defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr a defnyddwyr.

Cymunedau gwledig ac amaethyddiaeth

Mae amcangyfrifon ar gyfer 2024 yn dangos mai cyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru yw 49,538¹⁹⁹. O'r cyfanswm hwn, mae 37,318 o brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u priod²⁰⁰. Mae'r cyfanswm hefyd yn cynnwys 12,220 o weithwyr fferm amser llawn rheolaidd, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol²⁰¹. Nid yw'r ffigur yn cynnwys pobl hunangyflogedig na chontractwyr a all fod yn gweithio ar y fferm hefyd.

Nid cyfraniad economaidd yn unig yw cyfraniad amaethyddiaeth at gymunedau gwledig. Fel y nodir gan Dwyer, 'whilst hardly visible in basic statistics, agriculture remains a major driver of economic and community viability in the many remote areas of Wales'²⁰². Adlewyrchwyd natur ganolog a rhyng-ddibyniaeth cyfraniadau cymdeithasol ac economaidd amaethyddiaeth i gymunedau gwledig hefyd yn yr ymatebion i'n hymgyngoriad, *Cadw ffermwyr i ffermio*²⁰³.

Mae ffermydd yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at y cyfalaf cymdeithasol sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau gwledig. Fel y mae NFU Cymru yn pwysleisio,

mae llawer o ffermwyr neu unigolion sy'n rhan o'r diwydiant amaeth yn cyflawni swyddogaeth fel arweinwyr neu wirfoddolwyr mewn cymunedau gwledig sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Yn aml iawn gwelir aelodau o'r diwydiant amaeth yn eistedd ar gynghorau cymuned, cymdeithasau rhieni ac athrawon neu ar fyrddau llywodraethwyr ysgol. Hefyd byddant yn aml yn cynorthwyo'r gymuned²⁰⁴.

Mae cyflwyno'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) yn newid yn y ffordd y bydd ffermwyr yn cael cymorth ariannol. O ystyried cyfraniad amlweddol amaethyddiaeth mewn llawer o ardaloedd gwledig, gallai'r newidiadau hyn effeithio ar gymunedau gwledig hefyd.

Y Cynllun fydd y prif fecanwaith ar gyfer cyflawni amcanion SLM a darparu cymorth amaethyddol yng Nghymru. Mae amcanion SLM yn pennu bod angen cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy. Mae hynny'n gofyn am fusnesau amaethyddol gwydn. Nod y Cynllun yw cefnogi ffermwyr yn unol â'r dibenion a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a disgwylir iddo gael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig trwy gynyddu gwytnwch.

Yn benodol, mae dibenion SLM i'w cyflawni trwy'r Cynllun yn cynnwys gwella gwytnwch busnesau amaethyddol, helpu cymunedau gwledig i ffynnu, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau.

Bwriad gwobrwyo ffermwyr am gyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio, trwy gyfrwng y Cynllun, yw cynyddu gwytnwch ecolegol y tir y maent yn ei reoli, ynghyd â gwytnwch economaidd eu busnesau a gwytnwch cymdeithasol cymunedau gwledig drwy bresenoldeb parhaus amaethyddiaeth. Bydd gwella effeithlonrwydd y model busnes fferm o fewn gallu naturiol y tir yn galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i ffermio, gan gynnig gwytnwch hirdymor i'r cymunedau y maent wedi'u gwreiddio ynddynt.

Bydd y Cynllun yn cynnig ffrwd refeniw hefyd, a fydd ar wahân i'r incwm a gynhyrchir ar y fferm ac na fydd anwadalrwydd mewn amodau masnachu yn effeithio arni. Dylai'r ffrwd incwm hon gefnogi cymunedau gwledig gwydn hefyd.

Trwy wella hyfywedd ffermydd a chadernid cymunedau gwledig, bydd modd cael effaith gadarnhaol o ran darparu cyfleoedd i bobl ifanc. Gallai hyn gyfrannu at fynd i'r afael â materion fel lefelau allfudo uchel o'r Gymru wledig ymhlith pobl ifanc, ynghyd â helpu ffermwyr presennol i gynllunio ar gyfer olyniaeth.

Disgwylir hefyd y daw manteision llesiant cadarnhaol i ran cymunedau gwledig drwy gynnal a gwella cynefinoedd a thirweddau, ochr yn ochr â gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd yn Adran 2 yn manylu ar effeithiau cadarnhaol disgwylidig y cynllun arfaethedig ar lesiant corfforol a meddyliol, ac mae ein hadran Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth (Atodiad F) a Llesiant Amgylcheddol (Adran 5) yn amlinellu'r manteision amgylcheddol disgwylidig.

O ran plannu coed ar dir fferm, nod y Cynllun yw cefnogi ffermwyr i gynyddu'r gorchudd coed mewn lleoliadau priodol – er budd yr amgylchedd a busnes y fferm – ochr yn ochr â champau eraill a fydd yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Cynllun yn helpu ffermwyr i gyflawni SLM ac mae'n nodi'r gweithredoedd a gefnogir yn unol â'r diffiniadau o amaethyddiaeth a gweithgareddau amaethyddol fel y'u nodir yn y Ddeddf.

Nod y Cynllun yw cadw ffermydd Cymru yn weithgar ac yn wydn, gan ddarparu ffrwd incwm sefydlog a fydd yn galluogi ffermwyr i aros ar eu tir a throsglwyddo busnesau fferm cadarn i genedlaethau'r dyfodol.

Nod y Cynllun hefyd yw gweithio tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur mewn ffordd sy'n fuddiol i ffermydd a chymunedau gwledig. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymadau presennol Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015/2020, a'n Cyllideb Garbon, sy'n nodi y dylai'r pontio i Sero Net fod yn 'deg a llewyrchus'. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru, drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw hyrwyddo arferion rhannu tir a fydd yn cefnogi a galluogi ffermwyr i

gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ochr yn ochr â chyflawni'r canlyniadau eraill rydym yn eu ceisio.

A fydd mynediad yn broblem i bobl wledig? Os felly, beth fydd yn cael ei wneud i oresgyn rhwystrau o ran mynediad?

Nid ydym yn ystyried bod mynediad yn broblem i bobl wledig o ran y Cynllun, gan fod ffermydd mewn ardaloedd gwledig yn bennaf a nhw fydd prif darged y cynllun.

Sut y mae'r cynnig wedi ystyried anghenion pobl cefn gwlad e.e. y boblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion ieithyddol?

Bydd y Cynllun ar agor i ffermwyr yng Nghymru beth bynnag eu hoedran neu unrhyw nodweddion eraill y ffermwr neu'r aelwyd. O ran pobl mewn cymunedau gwledig yn fwy cyffredinol, gan gynnwys trafodaeth ar y Gymraeg, ceir rhagor o fanylion yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B), ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Atodiad E), a'n Hasesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Atodiad G).

A fydd y cynnig yn arwain at agor gwasanaethau newydd neu gau gwasanaethau sy'n bodoli eisoes? Sut y byddwch yn cynyddu i'r eithaf yr effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r effeithiau negyddol?

Nid oes disgwyl i'r Cynllun effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaethau i ardaloedd gwledig. Er hynny, disgwylir iddo gefnogi economi wledig ffyniannus a chynaliadwy – rhywbeth a ddylai gwneud byw mewn ardaloedd gwledig yn ddewis mwy deniadol a hyfyw i unigolion o bob oed a phroffesiwn, gan gynnwys y rhai y mae eu gwaith yn darparu gwasanaethau hanfodol i bobl leol.

A yw'n ofynnol prynu neu ddefnyddio tir o dan y polisi? A ydych wedi ystyried ffactorau gwledig megis gwerth tir, faint ohono sydd ar gael neu ddynodiadau cyfyngol?

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i brynu tir i weithredu'r Cynllun.

Bydd y Cynllun yn talu ffermwyr sy'n cymryd rhan i reoli eu tir i gyflawni'r amcanion SLM a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i fod ar gael i bob ffermwr dros 3ha neu 550 awr o weithgarwch.

Nid yw'r defnydd o gyfamodau cyfyngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r tirlfeddiannwr yn rhan o'r Cynllun.

Ystyriodd adolygiad²⁰⁷ a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gyfalafu cymorth cyhoeddus ar gyfer amaethyddiaeth i brisiau tir, a daeth i'r casgliadau canlynol:

- Mae canfyddiadau empirig a damcaniaethol wedi awgrymu bod cymorthdaliadau amaethyddol yn cynyddu prisiau tir a rhent ac felly'n creu effeithiau y tu hwnt i brif dderbynnydd y buddsoddiad cyhoeddus (y ffermwr gweithredol).

- Mae consensws cyfyngedig ar faint effeithiau cyfalafu gwirioneddol cymorthdaliadau, gan fod hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis y math o gymorth, amherffeithrwydd mewn marchnadoedd ffactorau, strwythur cystadleuaeth yn y gadwyn cyflenwi bwyd a chostau trafodion.
- Mae rhyngweithiadau rhwng effeithiau lleoliad a rheoliadau'r farchnad dir yn aml yn sbardun llawer pwysicach ar gyfer pris a rhent na chymhorthdal y sector cyhoeddus.
- Mae cynnydd mewn prisiau tir oherwydd cymorthdaliadau yn lleihau effaith gyffredinol taliadau'r sector cyhoeddus ar incwm amaethyddol.
- Mae cynnydd ym mhris tir neu'r rhent sydd ei angen i'w reoli yn cael effaith negyddol ar symudedd tir ac effaith negyddol anuniongyrchol ddilynol ar ailstrwythuro ffermydd.
- Mae maint tryloywder cymhorthdal yn cael effaith uniongyrchol ar faint y cyfalafu. Mae'r anghymesuredd gwybodaeth hwn yn gysylltiedig yn bennaf â thaliadau Colofn 2 lle, er enghraifft, nad yw tiffeddianwyr yn ymwybodol o gyfanswm gwerth taliadau amaeth-amgylcheddol mae eu tenantiaid yn eu derbyn, na'r costau ychwanegol o gymryd rhan, felly maent yn llai abl i adlewyrchu unrhyw elfen elw ym mhris y rhent.

Ar y cyfan, mae'n rhy fuan i ddweud a fydd y Cynllun yn cael effaith sylweddol ar bris tir amaethyddol yng Nghymru. Gweler Achos Busnes y Cynllun am asesiad meintiol o effeithiau economaidd posibl y Cynllun.

A fydd y cynnig yn gweithio mewn tirwedd anodd e.e. ffyrdd cul a mynyddoedd serth? Os na fydd, sut y byddwch yn goresgyn unrhyw rwystrau?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw rwystrau oherwydd tirwedd anodd. Mae gan Lywodraeth Cymru brofiad blaenorol o ddarparu cynlluniau cymorth a gwasanaethau cynghori i ffermwyr, sy'n aml wedi'u lleoli ar dirwedd anodd, a bydd y profiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith cyflawni.

A yw'r cynnig yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu i ficrofusnesau? Os felly, sut ydych chi wedi ystyried eu sefyllfa hwy? A yw'r cynnig yn disgwyl i fusnesau allu cael mynediad at gymorth? (Gall hyn fod ar ffurf cyngor, hyfforddiant, cyllid ac ati.) Os ydyw, pa rwystrau y bydd busnesau gwledig yn eu hwynebu a sut y caiff y rhwystrau hyn eu goresgyn?

Mae'r rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru yn fusnesau bach ac maent yn cyfrannu at gadernid cymunedau gwledig. Mae data sy'n deillio o 2022 yn dangos bod 58% o ffermydd Cymru yn cael eu hystyried yn ffermydd 'Bach' neu 'Bach iawn' ar sail ar eu trosiant²⁰⁸. Gyda chyfartaledd o 2.14 o weithwyr fesul fferm yn 2020,²⁰⁹ mae'n debygol iawn y byddai'r mwyafrif helaeth o ffermydd Cymru yn cael eu dosbarthu fel 'micro-endidau' (llai na 10 o weithwyr, ynghyd â bodloni meini prawf yn ymwneud â throsiant). Yn 2017, roedd gan bron i ddwy ran o dair o ffermydd yr hyn sy'n cyfateb i un neu lai o weithwyr llawn amser²¹⁰.

Daeth tystiolaeth ynghylch pwysigrwydd busnesau bach i wytnwch cymunedau yn yr Alban i'r casgliad bod busnesau gwledig yn cyfrannu at feithrin gwydnwch cefn gwlad yr Alban mewn ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol²¹¹. Canfu'r dystiolaeth fod cysylltiad clir rhwng gweithgareddau busnesau gwledig a gwytnwch cymunedau gwledig, mewn perthynas â chreu swyddi a darparu gwasanaethau/cynhyrchion²¹². Ymhellach, canfu'r dystiolaeth y gall tyfu ac arallgyfeirio'r sector busnes preifat:

- Helpu i gynnal y boblogaeth oedran gweithio mewn ardal leol, gan gyfrannu at y 'cydbwysedd demograffig' a thrwy hynny gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau lleol (y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector).
- Defnyddio a datblygu adnoddau sy'n bodoli eisoes, gan gynyddu ansawdd bywyd a lles trigolion gwledig, gwneud llefydd yn fwy deniadol fel cyrchfannau i dwristiaid a gwella cydlyniant cymunedol.

Mae adolygiad sy'n deillio o Orllewin Canolbarth Lloegr yn nodi pwysigrwydd busnesau bach o ran cyfrannu at wydnwch economaidd cymunedau lleol²¹³. Mae'n nodi bod

local economies with higher levels of small businesses and local ownership perform better in terms of economic success, job creation (especially in disadvantaged and peripheral areas), local multiplier effect, social inclusion, income redistribution, health, well-being and civic engagement, than economies more dependent on centralised economic actors. Such economies also support local distinctiveness and diversity, which can be seen as being advantageous because these factors contribute to economic resilience²¹⁴.

Mae ymchwil i effeithiau symud i ffwrdd oddi wrth Gynllun y Taliad Sylfaenol yn Ne-orllewin Lloegr yn archwilio'r goblygiadau ehangach pan fydd busnesau fferm yn rhoi'r gorau i fasnachu. Yn ôl y gwaith ymchwil hwn²¹⁵, "...there is a wider impact, like the ripples in the water when a stone hits, across the rural economy'. Mae'n cydnabod y rhyng-gysylltedd rhwng amaethyddiaeth a diwydiannau fel twristiaeth a bwyd a diod, ac er bod y refeniw a ddaw i mewn i ffermio yn cael ei wario'n rhannol o leiaf yn yr economi wledig, mae'n tynnu sylw at y ffaith mai gwaith anodd iawn yw modelu'r union effaith y gallai'r newidiadau i gymorth ffermio ei chael²¹⁶.

Mae tystiolaeth o'r ymatebion i'n hymgyngoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2019),²¹⁷ yn dangos bod gan ffermydd Cymru hefyd rôl economaidd allweddol yn eu heconomiâu a'u cymunedau lleol. Mae ein crynodeb cyhoeddedig o ymatebion yn nodi bod,

[ymatebwyr] yn aml yn gwneud datganiadau angerddol am gyfraniad pwysig amaethyddiaeth wrth sicrhau ffyniant cymunedau gwledig. O'r safbwyntiau hyn, mae cysylltiad agos rhwng iechyd y sector amaethyddol a chryfder economaidd ehangach y cymunedau gwledig lle mae'r ffermwyr yn byw. At hynny, credai'r ymatebwyr fod cysylltiad agos iawn rhwng amaethyddiaeth a gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y ffordd wledig o fyw²¹⁸.

Bydd y Cynllun yn effeithio ar bob busnes fferm yng Nghymru, gan gynnwys busnesau fferm bach a chanolig a micro-endidau. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi pob math o ffermydd cymwys ledled Cymru i gyflawni SLM a bydd yn darparu cyngor a chymorth er mwyn eu cynorthwyo yn y cyfnod pontio hwn. O ystyried y rôl y mae busnesau llai yn aml yn ei chwarae o ran cefnogi gwydnwch gwledig, disgwylir y bydd rhoi cymorth i ffermydd gyflawni SLM yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau y maent wedi'u gwreiddio ynddynt. Mae'r amcanion SLM yn adlewyrchu'r ffaith bod gwytnwch busnesau amaethyddol yn y cymunedau a'r economïau lleol y maent yn gweithredu ynddynt yn ffactor bwysig i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd y Cynllun yn darparu cymorth i'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi y tu allan i giât y fferm ar gyfer gweithgarwch sy'n bodloni'r diffiniad o weithgareddau ategol ac amcanion strategol Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau gwledig a'r gymuned wledig ehangach.

A yw'r cynnig yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffyrdd/rheilffyrdd da neu fand eang cyflym neu gysylltedd da ar gyfer ffonau symudol? Os felly, pa ddarpariaeth a fydd yn cael ei wneud i gymunedau/busnesau mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig?

Gan fod y Cynllun yn ymwneud ag amaethyddiaeth, nid oes darpariaeth benodol yn angenrheidiol yn ymwneud â seilwaith nac ar gyfer gwella band eang gwledig.

Mae gan Taliadau Gwledig Cymru brofiad o gyrraedd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig, a bydd y Cynllun yn cynnwys y profiad hwn ac yn helpu i oresgyn unrhyw rwystrau a fydd yn deillio o gysylltedd gwael.

Er bod yr un rhesymau wrth wraidd tlodi mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, gallai'r profiad o amddifadedd fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Tlodi tanwydd (gan gynnwys tanwydd gwresogi a thanwydd trafndiaeth), tlodi mewn gwaith, mynediad at wasanaethau ac allgáu digidol yw rhai o'r prif faterion sy'n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig. Sut mae eich cynnig yn helpu i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig?

Nod y Cynllun yw cefnogi cymunedau gwledig ffyniannus a chadarn drwy alluogi Gweinidogion i roi cymorth i ffermwyr gyflawni SLM. Mae'r Cynllun yn bwriadu darparu ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog i ffermwyr. Mae data sy'n deillio o 2017/18 yn dangos mai 41% yn unig o ffermydd yng Nghymru a wnaeth elw heb daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol²¹⁹. Mae asesiad pellach o effeithiau posibl y Cynllun o ran achosion o amddifadedd i'w weld yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Atodiad G).

Mae'r 'rhaniad digidol' yn fwy cyffredin yng Nghymru na gwledydd eraill y DU, gyda 7% o'r boblogaeth (amcangyfrif o 170,000 o bobl) yn methu â chyrchu neu ddefnyddio'r rhyngwrdd²²⁰. Ymhlith y poblogaethau yng Nghymru sy'n arbennig o agored i allgáu digidol y mae pobl mewn cymunedau gwledig, oedolion hŷn, a siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf²²¹. O'r herwydd, mae allgáu digidol yn broblem sy'n effeithio ar rai ffermwyr yng Nghymru

oherwydd ffactorau sy'n cyfrannu fel diffyg mynediad at wasanaethau band eang, nifer uchel y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn y diwydiant hwn, a'r ffaith y gallai ffermwyr hŷn fod yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngwrwd yn fwy cyffredinol oherwydd diffyg sgiliau digidol a/neu gymhelliant. Gallai hyn olygu na fydd modd i ffermwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gael mynediad at y Cynllun, yn syml gan na fyddant yn ymwybodol ohono, os mai dulliau digidol a ddefnyddir fel y prif ddulliau o hyrwyddo'r cynllun. Rydym wedi cynnal rhaglen gyfathrebu amrywiol cyn cyflwyno'r Cynllun er mwyn cyrraedd cynifer o ffermwyr â phosibl, gan ganiatáu iddynt wneud dewis cytbwys ynghylch a ydynt am ymuno â'r cynllun ai peidio. Rhwng cyhoeddi'r Cynllun terfynol yn haf 2025 a'r Cynllun yn dechrau ym mis Ionawr 2026, mae amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu yn cael eu dylunio fel bod ffermwyr yn ymwybodol o fanylion terfynol y Cynllun a'r hyn mae cymryd rhan yn y Cynllun yn ei olygu iddynt. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfres o sioeau teithiol yn y cnawd, a rhoi deunyddiau ymgysylltu drwy'r rhwydwaith rhanddeiliaid.

Pa gyswllt fu rhyngoch a rhanddeiliaid gwledig? Disgrifiwch yn fras unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u targedu at randdeiliaid gwledig neu unrhyw ymgysylltu a fu rhyngoch chi a rhanddeiliaid gwledig er mwyn ymgynghori â hwy. A godwyd unrhyw faterion eraill yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid neu unrhyw ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn? Os do, beth oedd y materion hynny a sut ydych chi wedi diwygio eich cynnig i'w cadw mewn cof?

Rydym wedi cyhoeddi 4 ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer dyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r rhain, *Brexit a'n Tir*²²², ym mis Gorffennaf 2018. Cyhoeddwyd crynodeb llawn ac annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (12,203 o ymatebion; roedd 1,036 ohonynt yn ymatebion sylweddol a chyflwynwyd 11,160 ymateb arall drwy saith ymgyrch wahanol),²²³ a chyhoeddwyd ein hymateb ni i ymatebion yr ymgynghoriad hefyd²²⁴.

Yng ngoleuni'r ymgynghoriad, fe wnaethom gyflwyno nifer o newidiadau i'n cynigion polisi, a nodwyd yn ein hail ymgynghoriad, sef *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2019)²²⁵. Hefyd, cyhoeddwyd crynodeb annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw (3,322 o ymatebion; roedd 508 ohonynt yn sylweddol a chyflwynwyd 2,816 ymateb drwy dair ymgyrch wahanol)²²⁶.

Gofynnodd ein trydydd ymgynghoriad am sylwadau ar y cynigion ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru)²²⁷ (sydd bellach yn Ddeddf) a'n hasesiad drafft o'r effeithiau posibl. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad (1,119 o ymatebion; roedd 232 ohonynt yn sylweddol a chyflwynwyd 887 ymateb drwy ymgyrch),²²⁸ gwnaed nifer o newidiadau i gynnwys y Bil²²⁹.

Cyhoeddwyd ein hymgyngghoriad terfynol, *Cadw ffermwyr i ffermio*, ym mis Mawrth 2024²³⁰ ochr yn ochr â'n hymateb²³¹. Cafodd yr ymgynghoriad 12,108 o ymatebion, ac roedd 3,228 ohonynt yn sylweddol, mewn perthynas â chynigion diwygiedig y Cynllun²³². Aeth canfyddiadau'r ymgynghoriad ymlaen i ddylanwadu ar newidiadau i ddyluniad y Cynllun.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriadau hyn, rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill mewn sioeau amaethyddol rhanbarthol ac mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau pwrpasol i egluro a thrafod ein cynigion ymhellach.

Rydym hefyd wedi cynnal rhaglen gydlunio sydd wedi caniatáu i randdeiliaid gydweithio â Llywodraeth Cymru wrth lunio polisiau a'r Cynllun. Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer cam cyntaf y gwaith cydlunio rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020, ac mae'r mewnwelediadau a ddeilliodd o'r rhaglen hon bellach ar gael i'r cyhoedd²³³. Cymerodd mwy na 1,900 o randdeiliaid ran yn y rhaglen gydlunio, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn ffermwyr.

Cafodd ail gam y cydlunio, lle gwahoddwyd ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i roi adborth ar y Cynigion Bras ar gyfer y Cynllun, ei gynnal yn 2022; mae mewnwelediadau o'r rhaglen hon hefyd ar gael i'r cyhoedd erbyn hyn²³⁴. Bu cyfanswm o 1,445 o randdeiliaid, ffermwyr yn bennaf, yn ymwneud â'r broses gydlunio²³⁵.

I gyd-fynd â'n hymgyngoriad terfynol *Cadw ffermwyr i ffermio*, cynhaliwyd cyfres o 10 sioe deithiol wybodaeth ledled Cymru a fynychwyd gan oddeutu 3,200 o ffermwyr.

Rhwng Mehefin 2024 a hyd at ddiwedd Ebrill 2025 mae Bwrdd Crwn Gweinidogol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Gweithgor Swyddogion, Gweithgor Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd a'r Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon wedi cyfarfod dros 50 o weithiau.

Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl cefn gwlad neu eu cynrychiolwyr?

Mae'r asesiad o effeithiau'r Cynllun wedi cael ei lywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd wrth ddatblygu Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'r broses gydlunio ar gyfer y Cynllun (a nodir uchod), yn ogystal â ffynonellau tystiolaeth eraill y cyfeirir atynt yn y troednodiadau i'r asesiad effaith hwn.

Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cyfrannu at fireinio cynigion y Cynllun rhwng Mehefin 2024 a diwedd Ebrill 2025, yn bennaf trwy gydweithio. Arweiniodd gwaith y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon at Adroddiad Cryno a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024,²³⁶ ac adroddiad technegol llawnach a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025²³⁷.

Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?

Gweler Achos Busnes y Cynllun am asesiad meintiol o effeithiau posibl y cynllun. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys, er enghraifft, modelu allbynnau o Raglen Monitro a Modelu Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)²³⁸.

Mae'r Modelu hwn yn ein galluogi i amcangyfrif effeithiau gweithredoedd y Cynllun ar ddefnydd tir, amaethyddiaeth a chanlyniadau amgylcheddol yn seiliedig ar ddata a gafwyd o ffermydd llawn amser ledled Cymru.

D.SGRINIO – ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

Teitl y cynnig: Cynllun Ffermio Cynaliadwy
Enw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth: Hugh Morgan
Cyfeirnod Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIA): SFS_PIA_0.1
Disgrifiwch eich cynnig: i. <i>Os mai newid i system/prosiect/proses/polisi presennol yw hwn, amlinellwch y trefniadau presennol (a sut y caiff data personol ei brosesu ar hyn o bryd), ac yna amlinellwch y newidiadau, gan gynnwys a fydd data personol bellach yn cael ei rannu â thrydydd partïon.</i> ii. <i>Os mai system/prosiect/proses/polisi newydd yw hwn, nodwch sut y bydd y system/prosiect/proses/polisi newydd yn gweithio, gan gynnwys sut y caiff y data personol ei brosesu ac a fydd y data personol yn cael ei rannu â thrydydd partïon.</i> iii. <i>PWYSIG – A fydd y cynnig yn cynnwys datblygu deddfwriaeth/mesurau newydd a fydd yn gofyn am brosesu data personol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw bartïon eraill?</i> Llywodraeth Cymru yw'r Perchennog a'r Prosesydd Data a rhaid iddi fodloni'r Egwyddorion Diogelu Data a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018. Bydd Is-adran Taliadau Gwledig Cymru (RPW) o fewn Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu, prosesu a rheoli data personol. Er bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gynllun cymorth amaethyddol newydd a ariennir yn ddomestig ar gyfer Cymru; bydd y broses o gasglu, storio, defnyddio a rhannu data personol yn debyg i'r gyfundrefn gymhorthdal etifeddol y mae'n ei disodli, sef Polisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd (PAC), a reolwyd gan RPW. Bydd rhai o weithredoedd y cynllun yn gofyn am gymorth ychwanegol gan wasanaeth Cyswllt Ffermio, sy'n wasanaeth sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, a reolir gan 3^{ydd} parti dan gcontract. Mae'r gwaith o integreiddio system RPW a Cyswllt Ffermio wedi'i ddatblygu er mwyn rhannu data personol lle mae ffermwyr eisiau cofrestru ar gyfer y cymorth ychwanegol. Yn ogystal, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o weinyddiaeth y cynllun, gan ddefnyddio systemau RPW. Yn olaf, bydd gwybodaeth nad yw'n bersonol yn ymwneud ag arferion a niferoedd da byw ar ffermydd unigol yn cael ei chasglu, ei phrosesu a'i rhannu gyda DEFRA er mwyn cyfrifo a

dychwelyd sgôr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer y Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm arfaethedig.			
A oes sgrinio o'r effaith ar ddiogelu data neu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wedi'i gynnal eisoes? Nac oes. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud unwaith y mae'r cynllun terfynol wedi'i gymeradwyo.			
A yw'r cynnig yn cynnwys prosesu data personol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw bartïon eraill? Ydy, gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi fel yr amlinellir uchod. Ticiwch yr eitemau data personol a fydd yn cael eu prosesu (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth): Personol <table> <tr> <td> • Enw • Cyfeiriad • Cyfeiriad busnes • Cod post • Cyfeiriad e-bost </td><td> • Rhifau ffôn • Dyddiad geni • Rhif trwydded yrru • Rhif pasbort / cerdyn adnabod • Lluniau / delweddau (y gellid eu defnyddio i adnabod unigolyn) • Arall (nodwch) </td></tr> </table>		• Enw • Cyfeiriad • Cyfeiriad busnes • Cod post • Cyfeiriad e-bost	• Rhifau ffôn • Dyddiad geni • Rhif trwydded yrru • Rhif pasbort / cerdyn adnabod • Lluniau / delweddau (y gellid eu defnyddio i adnabod unigolyn) • Arall (nodwch)
• Enw • Cyfeiriad • Cyfeiriad busnes • Cod post • Cyfeiriad e-bost	• Rhifau ffôn • Dyddiad geni • Rhif trwydded yrru • Rhif pasbort / cerdyn adnabod • Lluniau / delweddau (y gellid eu defnyddio i adnabod unigolyn) • Arall (nodwch)		
Categori Arbennig			
Tarddiad hiliol / ethnig Safbwyntiau gwleidyddol Credoau crefyddol / athronyddol Aelodaeth undeb llafur Cyflyrau iechyd corfforol / iechyd meddwl Bywyd rhywiol Cyfeiriadedd rhywiol	Data biometrig, e.e. DNA, olion bysedd		

Cofnodion troseddol a llysoedd (gan gynnwys troseddau honedig)	
Os yw data personol o gategori arbennig yn cael ei brosesu, a yw'r data hwn yn cael ei gasglu'n orfodol (h.y. heb fod testun y data'n cael dewis peidio â'i ddarparu)? Amherthnasol	
A yw unrhyw un o'r testunau data y bydd eu data personol yn cael ei brosesu yn perthyn i'r categorïau canlynol? Nac ydyw Plant (o dan 12 oed) Cleifion Ceiswyr Lloches Gweithwyr cyflogedig Llywodraeth Cymru	
Rhowch syniad o faint y prosesu (e.e. ledled Cymru, grŵp a dargedir) Manylion Ledled Cymru, y grŵp a dargedir yw busnesau ffermwyr a pherchnogion tir amaethyddol (o bosibl hyd at 25,000 o fusnesau yng Nghymru)	
O ran y data personol sy'n cael ei brosesu, nodwch	
Pwy yw rheolwr y data?	Manylion: Llywodraeth Cymru
Unrhyw broseswyr data?	Manylion: Taliadau Gwledig Cymru
A fydd y data yn cael ei rannu?	Manylion: Gellir rhannu data gyda Phartneriaid cyflenwi a chyrrff Rheoli a Gorfodi (os yw'n ofynnol ac os gellir cyfiawnhau hynny): • Cyswllt Ffermio • Cyfoeth Naturiol Cymru • Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion • Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol • Awdurdodau Lleol Cymru • Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru • Gwasanaethau Symud Gwartheg Prydain (BCMS) • EID Cymru (Amlrywogaeth Cymru, sy'n disodli BCMS) • Awdurdodau rheoleiddio, fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhidi a'r Heddlu • DEFRA

Beth yw'r sail statudol i brosesu'r data? D.S. - Nid yw GDPR ei hun yn darparu sail gyfreithiol statudol i brosesu data personol.

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (gweler Adrannau 8 i 10, Adran 12 a Rhan 3 Pennod 1)

A yw'r gwasanaethau cyfreithiol wedi cadarnhau bod y sail a amlinellwyd uchod yn darparu'r porth statudol angenrheidiol ar gyfer prosesu data (gan gynnwys unrhyw rannu arfaethedig)?

Ydynt

A fydd y cynnig yn cynnwys dulliau newydd, neu ddulliau sydd wedi newid yn sylweddol, o brosesu data personol am bob unigolyn?

Na fydd, bydd y Cynllun yn cael ei ddarparu trwy ddefnyddio prosesau presennol Llywodraeth Cymru a systemau TG a ddefnyddir gan RPW a Cyswllt Ffermio.

A fydd y data personol yn cael ei gydgrynhoi, ei gysylltu neu ei baru â data o ffynonellau eraill?

Bydd, gyda data sy'n cael ei gadw gan Borth y Llywodraeth (sy'n cael ei ddisodli gan GOV.UK OneLogin), Cyswllt Ffermio ac o bosibl EID Cymru (Amlrywogaeth Cymru) wrth i'r cynllun ddatblygu.

A fydd y data personol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomatig?

Na fydd

A fydd y data personol yn arwain at fonitro testunau data yn systematig?

Na fydd

A yw'r cynnig yn cynnwys polisiau/arferion newydd, neu rai sydd wedi newid, o ran casglu, cadw neu rannu data/arferion mewn perthynas â data personol?

Ydy, o dan y cynnig newydd bydd data personol yn cael ei rannu â Cyswllt Ffermio

A oes gennych chi bolisi cadw clir a pha bethau ymarferol sydd ar waith i sicrhau bod eich Polisi Cadw yn cael ei roi ar waith?

Oes, bydd y cynllun yn cydymffurfio â pholisiau cadw Llywodraeth Cymru. Mae gan y rheolydd data arferion gwaredu sefydledig i fodloni'r gofynion o ran cadw.

A fydd y cynnig yn cynnwys cyflwyno technolegau sy'n amharu ar breifatrwydd, fel

- ~~Cardiau clyfar~~
- ~~Tagiau Adnabod Amledd Radio (RFID)~~
- ~~Biometreg~~

• Goruchwyliaeth weledol (e.e. TELEDU CYLCH CYFYNG (neu CCTV)) • Proffilio, cloddio data neu gofnodi traffig electronig • Arall (rhowch fanylion) • Arsylwi'r Ddaear a delweddau synhwyro o bell a recordiad fideo o ffotograffiaeth o'r awyr a delweddau lloeren o barseli tir a hawlir gan fusnesau ffermio – gwybodaeth bersonol heb ei chynnwys • Technolegau lleoli (e.e. System Leoli Fyd-eang (GPS), olrhain ffonau symudol) – lluniau â geotagiau o waith prosiect a gyflwynir gan hawl wyr fel tystiolaeth – gwybodaeth bersonol heb ei chynnwys
A fydd y cynnig yn cynnwys prosesau newydd, neu rai sydd wedi newid, o ran rheoli neu ddilysu hunaniaeth? Bydd. Bydd y rheolydd data yn newid y prosesau dilysu o borth y Llywodraeth i Gov.Uk One Login
A fydd y cynnig yn fodd i adnabod unigolion a oedd yn anhysbys yn flaenorol? Na fydd

I'w lenwi gan yr Uned Hawl i Wybodaeth

A oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) ar gyfer y cynnig hwn? Oes, mae Erthygl 35(1) o GDPR y DU yn nodi bod angen DPIA pan fydd prosesu yn debygol o olygu risg uchel. Mae Gweithgor Erthygl 29 (WP29) wedi amlinellu naw maen prawf y dylid eu hystyried a byddai bodloni dau neu fwy o'r rhain yn gwneud cynnal DPIA yn ofynnol. Mae'r cynnig hwn yn bodloni meini prawf canlynol WP29: 5. Prosesu data ar raddfa fawr. Caiff ei fodloni oherwydd nifer posibl yr unigolion dan sylw, hyd y prosesu ac ehangder daearyddol y prosesu. 6. Paru neu gyfuno setiau data. Caiff ei fodloni oherwydd bod y data wedi'i gysylltu â data a gedwir gan OneLogin, Cyswllt Ffermio ac EID Cymru o bosibl. Mae Erthygl 35(4) yn gofyn bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi rhestr o weithrediadau prosesu sy'n debygol o olygu risg uchel ac sy'n gofyn am DPIA. Mae rhestr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnwys 10 math o brosesu sy'n gofyn am DPIA yn awtomatig, ac un ohonynt yw'r canlynol: • Paru data neu gyfuno setiau data o wahanol ffynonellau. Caiff hyn ei fodloni oherwydd bod y data'n cael ei gysylltu â data a gedwir gan OneLogin, Cyswllt Ffermio ac EID Cymru o bosibl.

Gweler isod am y DPIA.

A oes cyngor ar gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) wedi'i ddarparu?

Oes (fel yr isod):

A yw'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i ddrafftio Hysbysiad Preifatrwydd?

Ydy. Er mwyn rhoi gwybod i destunau data sy'n defnyddio'r cynllun sut y bydd eu data personol yn cael ei brosesu.

A yw'r cynnig yn gofyn am ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Erthygl 36(4) GDPR y DU?

Nac ydy. Fodd bynnag, bydd angen ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os nodir risg uchel, ar ôl cwblhau'r DPIA a rhoi mesurau lliniaru ar waith.

A yw'r cynnig yn gofyn am contract rhwng Llywodraeth Cymru fel rheolydd data a phrosesydd trydydd parti?

Ydy. Ydy, gyda phartneriaid allanol sydd â rôl wrth weinyddu a dilysu'r cynllun ac a fydd yn prosesu data personol ar ran Llywodraeth Cymru.

A yw'r cynnig yn gofyn am ddrafftio cytundeb rhannu data?

Ydy. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu data personol â phartneriaid cyflenwi, er mwyn i'r partneriaid cyflawni hynny ymgymryd â'u dyletswyddau cyfreithiol. Ar ôl derbyn data personol, bydd y partneriaid cyflawni yn rheolwyr data a bydd angen iddynt sicrhau bod eu gwaith prosesu yn cydymffurfio â GDPR y DU.

Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA)

Nodwch y prif risgiau o ran preifatrwydd a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig. Gall Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIA) ar raddfa fwy gofnodi'r wybodaeth hon ar gofrestr risg fwy ffurfiol.

Mater Preifatrwydd	Risg Gorfforaethol	Risg Cydymffurfio	Risg Sefydliadol
• Rheolaethau datgelu annigonol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd	• Gall peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data arwain at	• Diffyg cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Preifatrwydd a	• Mae gwybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i storio yn ddiangen, neu nad yw'n cael ei rheoli'n briodol fel bod cofnodion dyblyg yn

gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amhriodol. • Gall y cyd-destun y defnyddir neu y datgelir gwybodaeth ynddo newid dros amser, gan arwain at ei defnyddio at ddibenion gwahanol heb fod pobl yn gwybod. • Gall rhannu a chyfuno setiau data ganiatáu i sefydliadau gasglu set ehangach o lawer o wybodaeth nag y gallai unigolion ei ddisgwyl.	sancsiynau, dirwyon a niwed i enw da. • Mae gwybodaeth yn anghyson rhwng gwasanaethau, gan arwain at wasanaethau aneffeithiol neu aneffeithlon.	Chyfathrebu Electronig (PECR). • Diffyg cydymffurfiaeth â'r GDPR.	cael eu creu, yn llai defnyddiol i'r busnes. • Gallai colledion data sy'n niweidio unigolion arwain at hawliadau digolledu.
---	--	--	--

Datrysiadau preifatrwydd

Gall camau a gymerir er mwyn lleihau risg o ran preifatrwydd gynnwys y canlynol:

- Penderfynu peidio â chasglu neu storio rhai mathau o ddata personol.
- Llunio cyfnodau cadw sy'n cadw gwybodaeth am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig a chynllunio dulliau diogel o ddinistrio gwybodaeth.
- Rhoi mesurau diogelwch technolegol priodol ar waith.
- Sicrhau bod staff wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau posibl o ran preifatrwydd.
- Datblygu ffyrdd o anonymeiddio'r wybodaeth yn ddiogel pan fydd modd gwneud hynny.
- Llunio canllawiau i staff ar sut i ddefnyddio systemau newydd a sut i rannu data os yw'n briodol.
- Defnyddio systemau sy'n caniatáu i unigolion gyrchu eu gwybodaeth yn haws ac sy'n ei gwneud yn symlach ymateb i geisiadau am fynediad gan destunau'r data.
- Cymryd camau i sicrhau bod unigolion yn gwbl ymwybodol o sut y caiff eu gwybodaeth ei defnyddio a'u bod yn gallu cysylltu â'r sefydliad am gymorth os oes angen.

- Dewis proseswyr data a fydd yn darparu mwy o ddiogelwch a sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu'r wybodaeth sy'n cael ei phrosesu ar ran sefydliad.
- Llundio cytundebau rhannu data sy'n ei gwneud yn glir pa wybodaeth fydd yn cael ei rhannu, sut y caiff ei rhannu a chyda phwy y caiff ei rhannu.
- Ymgynghori ag unrhyw bartion yr effeithir arnynt yn fewnol ac yn allanol. Gellir defnyddio ymgynghori yn unrhyw gam o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

A yw'r risgiau wedi eu dileu, eu lleihau neu eu derbyn? Pwy sydd wedi cymeradwyo'r risgiau o ran preifatrwydd sy'n gysylltiedig â'r prosiect? Pa ddatrysiadau y mae angen eu rhoi ar waith?

Risg	Datrysiad Arfaethedig
• Rheolaethau datgelu annigonol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amhriodol. • Gall y cyd-destun y defnyddir neu y datgelir gwybodaeth ynddo newid dros amser, gan arwain at ei defnyddio at ddibenion gwahanol heb fod pobl yn gwybod. • Gall rhannu a chyfuno setiau data ganiatáu i sefydliadau gasglu set ehangach o lawer o wybodaeth nag y gall unigolion ei ddisgwyl. • Gall peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data arwain at sancsiynau, dirwyon a niwed i enw da. • Mae gwybodaeth yn anghyson rhwng gwasanaethau, gan arwain at wasanaethau aneffeithiol neu aneffeithlon.	• Systemau diogel i rannu data. Hyfforddiant trylwyr i'r staff. Cytundebau cadarn â thrydydd partion. • Hysbysiadau preifatrwydd sydd wedi'u mynegi'n glir ac wedi'u cynllunio'n dda, a chydymffurfio'n llwyr â'r amodau a ddatgelir wrth gasglu'r data. • Telerau defnydd sydd wedi'u mynegi'n glir a'u cytuno o ran gwybodaeth a gesglir ar gyfer y Cynllun, wedi'u hadlewyrchu'n llawn mewn hysbysiadau preifatrwydd. • Cydymffurfio'n llawn â phrosesau corfforaethol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol o ran diogelu data yn cael eu bodloni. • Ailddefnyddio gwybodaeth ar draws gwasanaethau i sicrhau cysondeb. • Sicrhau bod y datrysiad technegol yn bodloni gofynion y PECR yn llawn.

• Diffyg cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR). • Diffyg cydymffurfiaeth â'r GDPR. • Mae gwybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i storio yn ddiangen, neu nad yw'n cael ei rheoli'n briodol fel bod cofnodion dyblyg yn cael eu creu, yn llai defnyddiol i'r busnes. • Gallai colledion data sy'n niweidio unigolion arwain at hawliadau digolledu.	• Sicrhau bod gofynion y GDPR wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r system a'r cynllun casglu data. • Sicrhau bod yr ateb dylunio yn casglu ac yn storio gwybodaeth unwaith, gan leihau'r baich gweinyddol i gwsmeriaid a gweinyddwyr. • Dilyn rheolau diogelwch gwybodaeth Corfforaethol Llywodraeth Cymru a sicrhau bod trydydd partïon yn cytuno i'r un telerau.
---	--

Pwy sy'n gyfrifol am integreiddio canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd i gynllun y prosiect a diweddarau unrhyw waith papur ar gyfer rheoli'r prosiect?

Taliadau Gwledig Cymru

Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r datrysiadau sydd wedi'u cymeradwyo?

Taliadau Gwledig Cymru

Pwy yw'r cyswllt ar gyfer unrhyw bryderon o ran preifatrwydd a all godi yn y dyfodol?


Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru, Perchennog Asedau Gwybodaeth ar gyfer gweithredu a chyflawni gweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050*²³⁹ yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymraeg sy'n ffynnu yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Mae gan *strategaeth Cymraeg 2050*²⁴⁰ dair thema gydberthynol:



1. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2021 i 2026

Cyd-destun

Mae data'r Cyfrifiad o 2021 yn dangos bod 17.8% o drigolion Cymru²⁴¹ sy'n 3 oed ac yn hŷn yn gallu siarad Cymraeg²¹. Mae siaradwyr Cymraeg i'w cael ym mhob rhan o Gymru, ond gwelir bod y niferoedd a'r gyfran o fewn y boblogaeth yn amrywio. Yr awdurdodau lleol sydd â'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (64.4%), Ynys Môn (55.8%), Ceredigion (45.3%) a Sir Gaerfyrddin (39.9%). Mae'r holl awdurdodau lleol hyn yn wledig eu natur i raddau helaeth. Yr awdurdod lleol sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (73,600) ac yna Sir Gaerfyrddin (72,800)²⁴².

Mae *Cymraeg 2050*²⁴³ yn nodi bod ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan eu bod yn debygol o greu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â chefnogi'r Gymraeg ar draws Cymru gyfan. Po fwyaf yw nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal, po fwyaf yw'r siawns o allu defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Yn ystod y can mlynedd hyd at Gyfrifiad 2021, gostyngodd canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg o 37.1% o'r boblogaeth yn 1921 i 17.8% yn 2021. Ar draws grwpiau oedran, mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ar ei mwyaf ar hyn o bryd ymhlith plant 5 i 15 oed²⁴⁴.


Yn rhanbarthol, Sir Gaerfyrddin a welodd y gostyngiad mwyaf yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 – o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021²⁴⁵. Gwelodd Powys, Sir Ddinbych, Sir Benfro a Cheredigion hefyd ostyngiad o ddau bwynt canran neu fwy yn y gyfran sy'n siarad Cymraeg. Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Dengys Ffigur 1a y newid yng nghyfran y bobl tair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 ar lefel awdurdod lleol, a dengys Ffigur 1b y newid yng nghyfran y bobl tair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Mae'n bwysig nodi y gall cynnydd/gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd/gostyngiad yn nifer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg esgor ar newidiadau yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg.


Ym mhob awdurdod lleol a welodd ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, gwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm nifer y siaradwyr hefyd.

²¹ Nid yw'r Cyfrifiad yn gofyn i'r rhai sy'n byw yn Lloegr am eu gallu yn y Gymraeg.

Ffigur 1a. Newid yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl Awdurdod Lleol, rhwng 2011 a 2021²⁴⁶



Ffigur 1b. Newid yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), 2011 a 2021²⁴⁷



Ffynonellau data eraill:

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau eraill am allu yn y Gymraeg o wahanol ffynonellau data, o arolygon a ffynonellau data gweinyddol. Er enghraifft:

- Mae *Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW)*²⁴⁸ Llywodraeth Cymru yn darparu ystadegau am allu oedolion 16 oed neu hŷn yn y Gymraeg bob blwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys ystadegau am ba mor aml mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith, a pha mor rhugl y maent yn tybio ydynt.
- Mae *Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (APS)*²⁴⁹ y SYG yn darparu ystadegau am allu pobl tair oed neu hŷn yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys ystadegau am ba mor aml mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith. Mae'r ystadegau hyn ar gael bob tri mis.

Er na ddylid cymharu'r ffynonellau data hyn yn uniongyrchol â data'r Cyfrifiad oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr wybodaeth ei chasglu, er enghraifft, fe'u defnyddir i fonitro tueddiadau o ran gallu yn y Gymraeg rhwng Cyfrifiadau. Maent hefyd yn cynnwys data ar lefelau gallu ac amllder defnydd a hunangofnodir. Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell ddata swyddogol o hyd o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae data'r NSW²⁵⁰ ar gyfer 2022-23 yn amcangyfrif bod 34% o boblogaeth Cymru sy'n 16 oed a hŷn yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. O'r rhai a ddywedodd bod ganddynt rywffaint o allu yn y

Gymraeg, roedd 32% yn rhugl yn y Gymraeg, roedd 15% yn gallu siarad "tipyn" o Gymraeg, roedd 29% yn gallu siarad "ychydig" o Gymraeg, ac roedd 23% yn gallu dweud "gair neu ddau"²².

Mae data'r APS ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024 yn amcangyfrif bod 851,700 o bobl tair oed a hŷn yng Nghymru (27.7% o'r boblogaeth) yn gallu siarad Cymraeg²⁵¹. Amcangyfrifodd yr APS hefyd fod 20.6% o'r boblogaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol o leiaf²⁵².

Mae gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yn y Cyfrifiad yn seiliedig ar hunanasesiad person o'i allu. Mewn rhai achosion, yn enwedig i blant, cafodd gallu yn y Gymraeg ei adrodd gan berson arall, er enghraifft, rhiant neu warcheidwad.

Cynhaliwyd *Cyfrifiad 2021* yn ystod y pandemig coroneffirws (COVID-19), ar 21 Mawrth 2021. Roedd hyn yn dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud, dysgu o bell i blant ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid yw'n hysbys sut y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar allu pobl yn y Gymraeg (neu'r canfyddiad o allu pobl eraill yn y Gymraeg).

Mae gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg rhwng y cyfrifiad ac arolygon aelwydydd megis yr APS yn bodoli ers amser maith, ac mae'r SYG²⁵³ a Llywodraeth Cymru²⁵⁴ wedi archwilio rhesymau posibl dros rai o'r gwahaniaethau hyn yn y gorffennol.

Er bod arolygon aelwydydd fel arfer yn rhoi amcangyfrifon uwch i ni o allu i siarad Cymraeg, dyma'r tro cyntaf i'r Cyfrifiad amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, a'r APS yn amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu.

Yn dilyn cyhoeddi Cyfrifiad 2021, rydym yn blaenoriaethu gwaith i archwilio'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data hyn yn fanylach, gan gynnwys archwilio dulliau arloesol megis cysylltu data, er mwyn sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth gydlynol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Rydym wedi cyhoeddi cynllun gwaith²⁵⁵ sy'n amlinellu'r gwaith mae'r SYG a Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ein dealltwriaeth o'r prif arolwg a'r ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau am y Gymraeg.


Amaethyddiaeth a'r Gymraeg

Yn ôl data o *Gyfrifiad 2021*²⁵⁶, er gwaethaf maint bach y sector amaethyddol (2% o holl weithwyr Cymru), mae cyfran gymharol fwy o'r holl siaradwyr Cymraeg (5% o'r holl weithwyr sy'n siarad Cymraeg) yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth.

Y sector amaethyddiaeth (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) sydd â'r gyfran fwyaf o weithwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, sef 43% (Ffigurau 3a a 3b). Mae hyn o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer gweithwyr ar draws pob sector, sef 17%.


²² Ar gyfer y boblogaeth (16 oed a hŷn) yn gyffredinol, mae hyn yn gyfystyr ag 11% yn rhugl yn y Gymraeg, 5% yn siarad "tipyn" o Gymraeg, 11% yn siarad "ychydig" o Gymraeg, ac 8% yn gallu dweud "gair neu ddau". Efallai na fydd y canrannau'n rhoi cyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu.

Ffigur 3a. Nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn ôl diwydiant²³ (miloedd), 2021²⁵⁷



²³ Mae 'Arall' yn cynnwys Celfyddydau, adloniant a hamdden, Gweithgareddau gwasanaeth eraill, Gweithgareddau aelwydydd fel cyflogwyr, a Gweithgareddau sefydliadau a chyrrff allgyrsiol

Ffigur 3b. Canran y gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl diwydiant²⁴, 2021²⁵⁸




O edrych ar draws pob awdurdod lleol, mae 88% o weithwyr amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota Gwynedd yn siarad Cymraeg, sef canran uwch na'r cyfartaledd ar draws pob diwydiant yn y sir (68%); Ym Mlaenau Gwent, 3% yw'r gyfran o siaradwyr Cymraeg ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, o gymharu â chyfartaledd o 5% ar draws pob diwydiant (Ffigur 4)²⁵⁹. Gwelir amrywiaeth hefyd ymhlith awdurdodau lleol mwy gwledig lle mae amaethyddiaeth yn ddiwydiant amlwg. Er enghraifft, mae 21% o weithwyr amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota Powys yn siarad Cymraeg (cyfran sy'n uwch na chyfartaledd Cymru) o gymharu â 73% yng Ngheredigion. Mewn llawer o achosion, yr awdurdodau lleol mwy gwledig hyn yw'r un ardaloedd a welodd ostyngiadau mwy yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021 (Ffigur 1a)²⁶⁰.

Yn aml, gwelir cyfran fwy o siaradwyr Cymraeg o fewn y diwydiant amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota mewn awdurdodau lleol gwledig sydd hefyd â chyfran fwy o siaradwyr Cymraeg ar draws yr holl weithlu (Ffigur 4)²⁶¹. Fodd bynnag, mae yna duedd i'r gyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota fod yn fwy na'r gyfran ar gyfer yr holl weithwyr yn yr awdurdodau lleol hyn. Er enghraifft, yn Ynys Môn mae cyfran uchel o'r holl weithlu yn siarad Cymraeg (59%), ond mae cyfran y gweithwyr amaethyddol yn yr awdurdod lleol yn fwy (80%)²⁶². Mae'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg yng Nghonwy a Sir Ddinbych – awgryma hyn fod yna

²⁴ Mae 'Arall' yn cynnwys Celfyddydau, adloniant a hamdden, Gweithgareddau gwasanaeth eraill, Gweithgareddau aelwydydd fel cyflogwyr, a Gweithgareddau sefydliadau a chyrff allgyrsiol

bwysigrwydd cymharol uwch i amaethyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn yr Awdurdodau Lleol hyn.

Ffigur 4. Canran y gweithwyr mewn Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota sy'n gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r Holl Ddiwydiannau, yn ôl Awdurdod Lleol, 2021²⁶³



Mae tair thema *Cymraeg 2050* yn gysylltiedig, ac mae gan y sector amaethyddiaeth gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg eisoes o'i gymharu â diwydiannau eraill. Felly, mae yna botensial i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn y sector amaethyddiaeth mewn amgylchedd a chanddo fwy o botensial i gynnig amodau ffafriol i'r iaith, o gymharu â diwydiannau eraill. I'r gwrthwyneb, gallai unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y diwydiant yn gyffredinol, megis dadleoli gweithwyr amaethyddol ar ôl colli busnesau fferm, arwain at effeithiau negyddol ar y Gymraeg drwy wasgaru siaradwyr Cymraeg, drwy weld llai o siaradwyr mewn ardaloedd gwledig, trwy leihau'r cyfleoedd bob dydd i ddefnyddio'r Gymraeg, neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

Amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg

Nid yw'r ffaith fod rhywun yn gallu siarad Cymraeg yn golygu o reidrwydd y bydd yn ei defnyddio yn y gweithle, am nifer o resymau gwahanol. Yn Adroddiad Llywodraeth Cymru, *Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector*²⁶⁴, aethpwyd ati i archwilio'r berthynas rhwng gallu ieithyddol, defnydd o'r iaith ac anghenion cyflogwyr ar draws 8 sector yng Nghymru. Dyma'r canfyddiadau:

- Roedd gan 68% o fusnesau bwyd-amaeth²⁵ (gan gynnwys amaethyddiaeth) staff â sgiliau Cymraeg, o gymharu â 66% o'r holl fusnesau; yr uchaf oedd gofal plant, sef 94%;
- Ymddengys fod 34% o staff bwyd-amaeth yn y busnesau a arolygwyd yn meddu ar sgiliau Cymraeg, o gymharu â 24% o staff ar draws pob busnes; yr uchaf oedd gofal plant, sef 66%;
- Roedd gallu lefel uwch yn fwyaf tebygol o gael ei gofnodi ar gyfer staff mewn busnesau bwyd-amaeth a chreadigol, ac roedd staff bwyd-amaeth yn meddu ar alluoedd lefel uchel ar draws pob maes (darllen, ysgrifennu, siarad, deall);
- Mewn busnesau bwyd-amaeth, roedd staff yn defnyddio'r Gymraeg; dywedodd 19% o fusnesau fod y staff yn meddu ar allu yn y Gymraeg ond nad oeddent yn ei ddefnyddio; ar draws pob busnes, 31% oedd y ffigur;
- Pan oedd busnesau bwyd-amaeth yn defnyddio'r Gymraeg, roeddent yn ei defnyddio at ddibenion ffurfiol ac anffurfiol, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Roedd y busnesau hyn hefyd yn defnyddio'r Gymraeg i gynnal busnes gyda phartneriaid allanol (cleientiaid, cwsmeriaid ac ati). Nid oedd hyn mor gyffredin mewn sectorau eraill, ac mae'n awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel mater o drefn mewn llawer o fusnesau bwyd-amaeth sydd â staff Cymraeg eu hiaith.

Mae'r canlyniadau hyn yn cyflwyno tystiolaeth bod busnesau bwyd-amaeth yng Nghymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, yn cynnig amodau mwy ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o gymharu â diwydiannau eraill, a bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r rhyngweithio sy'n digwydd o fewn y busnes. Ar gyfer ffermydd, bydd rhyngweithio y tu allan i'r busnes yn cynnwys masnachu anifeiliaid, porthiant, peiriannau ac ati ac amrywiaeth o weithgareddau eraill. I'r 43% o ffermydd²⁶⁵ yng Nghymru sydd wedi arallgyfeirio i feysydd eraill (e.e. twristiaeth), gall y rhyngweithiadau busnes hyn fod yn digwydd mewn amrywiaeth ehangach o fusnesau hefyd.

Cymraeg, amaethyddiaeth a'r gymuned leol

Mae canlyniadau *Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22*²⁶⁶ yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn aml yn teimlo eu bod yn rhan o gymunedau cryf; yn achos pobl a oedd yn cytuno bod ganddynt ymdeimlad o berthyn i'w cymuned, roeddent yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd o gymharu â'r rhai a oedd yn anghytuno. Mae ymdeimlad o berthyn hefyd yn debygol o fod yn gysylltiedig â rhyngweithio ag aelodau eraill o'r gymuned, a gall y rhyngweithio hwn ddigwydd yn Gymraeg²⁶⁷.

Yn ei adroddiad, *Ffermio – Creu Cymru Unedig*²⁶⁸, mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru yn dod i'r casgliad bod "ffermwyr Cymru yn hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg", o ystyried cyfran uchel y siaradwyr Cymraeg ym maes amaethyddiaeth a'r graddau y mae ffermwyr yn cyfrannu at eu cymunedau. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod "... llawer o ffermwyr neu unigolion sy'n rhan o'r diwydiant amaeth yn cyflawni swyddogaeth fel arweinwyr neu wirfoddolwyr mewn cymunedau gwledig sy'n cyfrannu at gydlynid cymunedol". Gall cyfranogi mewn rhwydweithiau a gweithgareddau cymunedol ffurfiol fod yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth

²⁵ Wedi'i ddiffinio gan ddefnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol. Mae'n cynnwys cynhyrchu a gweithgynhyrchu ond nid yw'n cynnwys manwerthu.

(e.e. grwpiau technegol, Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau amaethyddol), neu'n gysylltiedig â phethau eraill (e.e. cyngor lleol, eglwys/capel, clybiau chwaraeon, grwpiau cymorth cymunedol, grwpiau cerddoriaeth a drama), tra bydd rhwydweithiau eraill yn llai ffurfiol (cyfeillgarwch, sgwrsio â chymdogion). Drwy gymryd rhan yn y rhwydweithiau hyn, bydd gweithwyr amaethyddol Cymraeg eu hiaith, a'u teuluoedd, yn cefnogi'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau.

Y Gymraeg a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

O ystyried y gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant amaethyddiaeth, mae gan newidiadau i strwythur y sector amaethyddol y potensial i newid cyfraniad y sector at wydnwch y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os gwelir newid mewn patrymau allfudo siaradwyr Cymraeg o ardaloedd gwledig o ganlyniad Cynllun, neu os gwelir pobl ddi-Gymraeg yn mudo i'r ardaloedd hyn. Bydd y ffactorau hyn yn dibynnu, yn rhannol, ar effeithiau economaidd y cymorth a ddarperir drwy'r Cynllun. Y Cynllun fydd prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi cymorth ariannol i'r sector amaethyddol. Mae gwaith dadansoddi a modelu economaidd annibynnol wedi'i gwblhau i ddarparu tystiolaeth o sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ffermydd o wahanol fath a maint ledled Cymru, ac mae'r dadansoddiad hwn i'w weld fel rhan o Achos Busnes y Cynllun. Ceir rhagor o fanylion am yr Asesiad Effaith Economaidd yn Adran 4.

Nid yw'r Cynllun yn cynnwys camau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ond mae cefnogi'r Gymraeg o fewn cyd-destun amaethyddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, wedi'i osod fel amcan yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys diben penodol y gall Gweinidogion ddarparu cymorth ar ei gyfer i gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Mae Thema 3 strategaeth *Cymraeg 2050* yn rhoi pwyslais ar greu amodau ffafriol er mwyn diogelu'r Gymraeg a galluogi iddi ffynnu, gyda'r nod penodol o 'Gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith'. Mae nifer o ardaloedd a chanddynt ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn rhai sydd â chyfran fwy o'r boblogaeth a gyflogir yn y sector amaethyddiaeth, y sector cyhoeddus a'r sector twristiaeth. Mae Cymraeg 2050 yn nodi ei bod yn bwysig cynnal a thyfu cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Felly, gall y Cynllun gefnogi a chyfrannu at Cymraeg 2050 mewn nifer o ffyrdd.

Yn gyntaf, bydd y Cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am weithredu yn unol ag SLM – rhywbeth a fydd yn creu ffrwd incwm sefydlog i ffermydd mewn cymunedau gwledig. Ni fydd newidiadau yn y farchnad nwyddau ehangach a'r amgylchedd masnachu yn effeithio ar y ffrwd incwm hon, felly bydd yn helpu i greu gwytnwch i fusnesau fferm, yn cynnwys ar gyfer tenantiaid amaethyddol, a'r gymuned ehangach.

Mae busnesau amaethyddol gwydn yn cyfrannu at greu swyddi ar gyfer siaradwyr Cymraeg iau nawr ac yn y dyfodol, a hynny ar ffermydd ac mewn busnesau lleol, gan gefnogi'r diwydiant amaethyddol a'r cymunedau gwledig ehangach. Gallai hyn helpu i gadw pobl mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith ac yn lleihau'r angen i bobl ifanc chwilio am waith mewn mannau eraill, gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau allfudo mewn perthynas ag iechyd y Gymraeg.

Yn ail, bydd y Cynllun, drwy gyfrwng y fframwaith SLM, yn cefnogi ffermwyr i reoli eu ffermydd mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn gwella gallu tir amaethyddol i gefnogi anghenion cenedlaethau'r

dyfodol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi gwytnwch hirdymor cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith drwy sicrhau y gellir parhau i ffermio'r tir yn y dyfodol.

Yn drydydd, bydd y Cynllun yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori er mwyn helpu ffermwyr i gydymffurfio â'r cynllun a chymryd rhan ynddo. Gallai'r gwasanaeth hwn gynnwys cymysgedd o ddulliau darparu, gan gynnwys cynghorydd yn ymweld â ffermydd a chyfleoedd i ffermwyr rannu gwybodaeth â'i gilydd. Bydd y gwasanaeth cynghori hwn ar gael yn ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac i ategu Cymraeg 2050. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac yn fwy anffurfiol gyda'u cymheiriaid, gan helpu i gynnwys y Gymraeg mewn bywyd bob dydd²⁶⁹.

Ymhellach, bydd y Cynllun yn cynnwys Haen Gydweithredol a fydd yn annog ffermwyr i gydweithio dros ardaloedd mwy ac yn cynnig cyfleoedd iddynt wneud hynny. Drwy gydweithio, bydd modd i ffermwyr sy'n siarad Cymraeg weithio gyda'i gilydd, rhoi cyfle i siaradwyr newydd weithio ochr yn ochr â siaradwyr iaith gyntaf ac ymarfer eu sgiliau iaith, a sicrhau bod ffermwyr di-Gymraeg yn dod i gysylltiad â'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Disgwylir y bydd prosiectau cydweithredol yn dilyn dull gweithredu'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig presennol sy'n gofyn i ymgeiswyr ddangos sut y bydd eu cynigion yn cefnogi ac yn annog defnydd o'r Gymraeg, ac rydym yn rhagweld y byddai cyfranogwyr y Cynllun yn cael eu hannog i wneud yr un fath.

2. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Daw'r prif effeithiau ar gymunedau Cymraeg eu hiaith drwy'r ddarpariaeth gyffredinol o gymorth i'r diwydiant amaeth, sydd â chyfran arbennig o uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mae gwaith ymchwil²⁷⁰ ar ffermydd 'Bach'²⁶ a 'Bach lawn'²⁷ yng Nghymru yn darparu rhywfaint o ddealltwriaeth o rôl ffermydd Cymru yn eu cymunedau. Mae 87% o holl ffermydd Cymru yn ffermydd Bach a Bach lawn. Mae ffermydd bach iawn yn cyfrif am 59% o ffermydd Cymru, ond swm cymesur is o allbwn safonol (5%) a thir (15%). Mae ffermydd bach (28% o Ffermydd Cymru) yn cyfrif am 22% o allbwn a 45% o dir fferm. Mae ffermydd bach yn fwy tebygol o ymdebygu i ffermydd teuluol 'traddodiadol' a ffermydd Bach lawn yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn 'ffermydd ffordd o fyw'.

Canfu'r gwaith ymchwil fod ffermwyr ar ffermydd bach yn fwy tebygol na ffermwyr ar ffermydd bach iawn i²⁸:

- Fod â phrofiad blaenorol o ffermio*
- Bod wedi etifeddu neu gymryd yr awenau ar y fferm deuluol
- Creu incwm o'r fferm i ennill bywoliaeth*

²⁶ Wedi'u diffinio fel ffermydd â chynnyrch safonol rhwng €25,000 a €125,000

²⁷ Wedi'u diffinio fel ffermydd â chynnyrch safonol o dan €25,000

²⁸ *Yn nodi bod y canfyddiad yn arwyddocaol yn ystadegol.

- Dibynnu ar waged masnachol a thaliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol i ennill bywoliaeth
- Cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylchedd neu gadwraeth*
- Gallu siarad Cymraeg yn rhugl*
- Siarad Cymraeg bob dydd
- Siarad Cymraeg yn y cartref*
- Ymwneud â 'llawer' o sefydliadau cymdeithasol neu ffermio
- Ymgysylltu, cydweithio a chymdeithasu â ffermwyr eraill*
- Nodi eu bod yn teimlo'n rhan o'r cymunedau ffermio a gwledig

Roedd ffermwyr ar ffermydd Bach lawn yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu fferm, o ymwneud ag 'ychydig' o sefydliadau cymdeithasol neu ffermio, a dwywaith yn fwy tebygol o fod wedi'u haddysgu hyd at lefel gradd.

Nodwyd bod ffermwyr sy'n siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o'r gymuned wledig ac o fod â lefelau uwch o ymgysylltiad â sefydliadau cymdeithasol a ffermio na'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Hefyd, roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi etifeddu eu fferm, ac roedd y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu fferm.

Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod y ffermwyr sy'n ffermio i ennill bywoliaeth, ac sy'n fwy tebygol o fanteisio ar gynlluniau cymorth y llywodraeth, hefyd yn ffermwyr sy'n fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg ac yn aelodau o deuluoedd ffermio sydd wedi'u hen sefydlu, sydd â lefelau uwch o gyfranogiad yn eu cymunedau lleol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r astudiaeth yn ystyried nodweddion ffermydd Canolig, Mawr, neu Fawr lawn²⁹. O ystyried bod y ffermydd Bach hyn yn fwy tebygol o dderbyn taliadau Cynllun y Taliad Sengl, bydd unrhyw newidiadau i'r system gymorth yn fwy tebygol o effeithio arnynt, naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu ffordd negyddol. Os na all ffermydd barhau i fasnachu, mae'n bosibl y bydd hynny'n arwain at effeithiau dilynol ar y gymuned ffermio leol, y gymuned wledig leol, a'r Gymraeg, yn dibynnu ar yr hyn a fydd yn digwydd i'r fferm a'r teulu ffermio yn yr amgylchiadau hynny.

Nododd astudiaeth ar gyfalaf cymdeithasol mewn ffermio mynydd yn Cumbria²⁷¹ fod cael llai o ffermydd mawr mewn ardal yn wahanol iawn i gael llawer o ffermydd bach, o ran cyfalaf cymdeithasol a chyfle ar gyfer ymdrechion cydweithredol. Nodwyd hefyd y clymau ymddiriedaeth cryf a'r cytundebau anffurfiol sydd wedi datblygu ac wedi bod ar waith dros flynyddoedd lawer a thros sawl cenhedlaeth (e.e. trefniadau pori tir comin a chydweithio). Mae'r dystiolaeth sy'n deillio o Cumbria yn awgrymu y gall newidiadau o ran nifer a strwythur ffermydd arwain at wanhau cyfalaf cymdeithasol a chydlyniant cymunedol; yng Nghymru, gallai hyn hefyd effeithio ar y Gymraeg ac ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Nod Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cynaliadwyedd ffermydd drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan eu cefnogi i ddod yn fwy gwydn i'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a newidiadau yn yr amgylchedd masnachu. Ymhellach, drwy gynhyrchu bwyd a rheoli eu tir mewn ffordd gynaliadwy,

²⁹ Wedi'u diffinio fel ffermydd â chynnyrch safonol rhwng €125,000 a €250,000, €250,000 a €500,000 a mwy na €500,000 yn y drefn honno.

bydd ffermwyr yn helpu i ddiogelu hyfywedd ffermio yng Nghymru yn y dyfodol, gan gefnogi cymunedau Cymraeg gwydn.

Yn ei adroddiad ar *heriau triphlyg Brexit, Covid-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru*²⁷² yn tynnu sylw at y ffaith y gallai newid yn yr hinsawdd effeithio'n anghymesur ar ffermwyr, gweithwyr amaethyddol a thrigolion cymunedau gwledig yn sgil ffactorau fel colli cyflogaeth, llai o allbwn economaidd ac amodau gwaith sy'n gwaethygu oherwydd tywydd eithafol. Nod y Cynllun yw cefnogi ffermwyr i weithredu yn wyneb yr argyfwng hinsawdd a meithrin gwydnwch er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn ei dro, dylai hyn helpu i gefnogi cynaliadwyedd cymunedau gwledig Cymraeg.

Dyluniwyd y Cynllun ar yr egwyddor y dylai fod ar gael i wahanol fathau o ffermydd, gan gynnwys ffermydd tenant. Bydd cyfnod pontio hefyd rhwng y system gymorth bresennol a'r Cynllun arfaethedig er mwyn caniatáu i ffermydd addasu ac er mwyn sicrhau na fydd taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol unrhyw ffermwr yn dod i ben yn sydyn, pa un a fyddant yn dewis ymuno â'r Cynllun newydd ai peidio.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar addysg yn codi o'r Cynllun. Bydd y Cynllun yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus trwy ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr gwblhau isafswm o 6 awr o ddysgu, yn ogystal â dysgu Iechyd a Diogelwch, yn ystod bob blwyddyn o'r Cynllun fel Gweithred Gyffredinol benodol. Hefyd, bydd yn cynnig cyfleoedd am ragor o ddysgu o dan yr Haen Opsynol.

Dylai'r broses o gefnogi diwydiant amaethyddol ffyniannus ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg o bob oed ddefnyddio'r iaith a meithrin eu sgiliau Cymraeg mewn diwydiant lle defnyddir y Gymraeg mewn sawl ardal fel y brif iaith gyfathrebu. Mae hyn yn cyfrannu at un o nodau *Cymraeg 2050*, sef creu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg; mantais i siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr fel ei gilydd.

Fel yn achos Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, sef rhaglen bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi, bydd amryfal gyfleoedd hyfforddi ar gael yn y Cynllun ac ochr yn ochr ag ef i'r rhai sy'n gweithio yn y byd amaeth, a bydd y rhain yn cael eu darparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd cyrsiau a deunyddiau dysgu dwyieithog yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr cael eu trochi yn y Gymraeg, a dod yn gyfarwydd â therminoleg sy'n benodol i'r diwydiant – rhywbeth a allai eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn ystod eu gwaith.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

Bydd y Cynllun yn darparu gwasanaeth cynghori, wedi'i deilwra i gefnogi'r gwaith o Reoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Mae Cyswllt Ffermio yn cysylltu'n rheolaidd â chyfran helaeth o ffermwyr Cymru drwy ei gylchlythyrau, ei ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth a'i gymorth wyneb yn wyneb. Mae'r gwasanaeth a ddarperir trwy gyfrwng Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith, a bydd y rhain yn parhau i fod yn nodwedd o'r gwasanaeth cyngori yn y Cynllun.

Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

Bydd yr holl fanylion mewn perthynas â'r Cynllun ar gael yn ddwyieithog. Wrth ddelio â ffermwyr ar-lein trwy gyfrwng Taliadau Gwledig Cymru, mae 7.51% o'r cysylltiadau wedi gofyn am gael cyfathrebu yn Gymraeg, ond nid yw hyn yn adlewyrchu lefel yr ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg; mae llawer o bobl sydd wedi gofyn am ohebiaeth yn Saesneg yn troi at y Gymraeg wrth gael sgysiau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Yn ei ymateb i'n hymgyngoriad yn 2020, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*²⁷³, soniodd Comisiynydd y Gymraeg am dystiolaeth anecdotaidd nad yw deunyddiau ysgrifenedig yn Gymraeg mor hawdd eu deall â deunyddiau cyfatebol yn Saesneg. Mae'n bosibl hefyd bod diffyg opsiynau Cymraeg yn y gorffennol wedi peri bod ffermwyr yn gyfarwydd â llenwi gwaith papur eu busnes yn Saesneg, a'u bod yn gofyn am ohebiaeth Saesneg yn awtomatig felly. Wrth i ni barhau i ddatblygu agweddau gweinyddol ar ddarparu'r Cynllun a'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig, byddwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod deunydd Cymraeg yn cael ei ysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu lleferydd a geirfa bob dydd. Byddai annog siaradwyr Cymraeg (a dysgwyr sy'n teimlo eu bod yn gallu) i fanteisio ar opsiynau gohebiaeth Gymraeg yn cyfrannu at *Cymraeg 2050* drwy gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Hyd yma, mae pedwar ymgynghoriad (*Brexit a'n Tir*, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, *Papur Gwyn Amaeth (Cymru)*, a *Cadw ffermwyr i ffermio*) wedi'u cwblhau ar ddyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried effaith ein cynigion ar y Gymraeg.

Derbyniodd *Brexit a'n Tir* (2018) 12,203 o ymatebion, ac roedd 1,043 ohonynt yn sylweddol. O blith yr ymatebion hyn, un farn amlwg iawn oedd y byddai cymunedau gwledig yn ei chael hi'n anodd cynnal eu hunain heb sector amaethyddol ffyniannus ac y byddai'r Gymraeg yn dioddef yn sylweddol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd mai dim ond gydag economi wledig ffyniannus y byddai gweledigaeth *Cymraeg 2050* yn cael ei gwireddu.

Derbyniodd *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2019) 3,322 o ymatebion, ac roedd 508 ohonynt yn sylweddol. Fel yn achos *Brexit a'n Tir*, roedd yr ymatebwyr yn glir bod economi wledig gref yn hanfodol i'r Gymraeg, a bod amaethyddiaeth yn rhan hanfodol o gymunedau gwledig. Nodwyd pryder, felly, y gallai unrhyw beth a fyddai'n newid strwythur y sector amaethyddol effeithio ar y Gymraeg.

Cafwyd cyfanswm o 1,119 o ymatebion yn ystod ymgynghoriad Papur Gwyn Amaeth (Cymru), a oedd hefyd yn gofyn i ymatebwyr am sylwadau ar ddrafft cyntaf yr Asesiadau Effaith Integredig. Roedd hyn yn cynnwys 232 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau, a chyflwynwyd 887 yn ychwaneg trwy gyfrwng ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon. Mynegodd yr ymatebwyr farn debyg i'r un a fynegwyd yn y ddau ymgynghoriad blaenorol mewn perthynas â'r Gymraeg, a chynigiodd rhai awgrymiadau ar sut y gallai'r cynigion gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy annog mwy o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn Llywodraeth Cymru ac ar draws adrannau.

Cafwyd cyfanswm o 12,018 o ymatebion i'r ymgynghoriad *Cadw ffermwyr i ffermio*. Roedd ymatebion i gwestiynau am y Gymraeg yn canolbwyntio'n bennaf ar ganfyddiad negyddol y byddai cynigion y Cynllun yn niweidiol i ffermio yng Nghymru ac felly'n niweidiol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i gynnig Cynllun cwbl ddwyieithog a sicrhau bod cyngor a chanllawiau yn cael eu darparu yn ddwyieithog.

Roedd y cynigion wedi'u diweddarau a gafodd eu cynnwys yn yr Amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024 yn cynnwys nifer o newidiadau, megis lleihau cyfanswm y Gweithredoedd Cyffredinol o 17 i 12 a dileu'r gofyniad arfaethedig i 10% o bob fferm fod dan goed. Cyflwynwyd y newidiadau hyn o ganlyniad i waith partneriaeth y Ford Gron Weinidogol gyda'r nod o sicrhau bod y Cynllun yn fwy hygyrch i bob ffermwr, gan gynnwys ffermwyr mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Gofynnodd adroddiad Cyswllt Ffermio, *Iaith y Pridd/The Language of the Land*²⁷⁴, i aelodau'r gymuned ffermio 'Sut all amaethyddiaeth gyfrannu at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Codwyd chwe thema, gyda dwy ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'n gwaith o greu'r Cynllun:

- Y system gymorthdaliadau – pwysleisiodd yr ymatebwyr fod taliadau sy'n cefnogi'r fferm deuluol yn galluogi teuluoedd i aros mewn ardaloedd gwledig, sydd yn ei dro yn cefnogi'r Gymraeg;
- Cefnogi gweithgarwch ar y tir – mynegwyd y farn y byddai symud oddi wrth reolaeth amaethyddol weithredol o'r tir yn lleihau gweithgarwch yn yr economi wledig ehangach, a fyddai, yn ei dro, yn arwain at ddirywiad yn y Gymraeg.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gwobrwyo rheolaeth weithredol o'r tir. Bydd hyn yn helpu i gefnogi busnesau fferm a'r economi ehangach, ac yn helpu i gynnal cymunedau gwledig Cymraeg gwydn. Ymhellach, un o egwyddorion allweddol y Cynllun yw y dylid cadw ffermwyr ar y tir fel yr adlewyrchir yn amcanion strategol y Ddeddf.

Rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglen gydlunio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill wrth inni ystyried y Cynllun. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall canlyniadau anfwriadol posibl o ran y Gymraeg. Cynhaliwyd yr holl waith cydlunio yn ddwyieithog, ac roedd y cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn y Gymraeg os mai dyna oedd eu dymuniad.³⁰ Yng nghanm cyntaf y cydlunio, gofynnwyd i'r cyfranogwyr

³⁰ Yn ystod dau gam y cydlunio, roedd cyfranogwyr yn gallu cwblhau'r arolygon a chymryd rhan mewn trafodaethau un i un naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cynhaliwyd cyfran o'r sesiynau grŵp yn Gymraeg,

roi adborth ar effaith bosibl y cynllun ar y Gymraeg, a gellir gweld crynodeb o'r ymatebion yn adran 8.5 yr adroddiad²⁷⁵. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effeithiau posibl ar ffermydd llai, a mynegodd ymatebwyr optimistiaeth ynghylch cyfleoedd cadarnhaol o fewn y Cynllun a phryder mewn perthynas â chanlyniadau negyddol posibl. Roedd ail gam y cydlunio yn canolbwyntio ar y camau penodol a gynigiwyd ar gyfer y Cynllun²⁷⁶. Roedd ffurflen adborth rhanddeiliaid ar gael i sefydliadau ac unigolion eraill gyfrannu eu barn ar gynigion y cynllun amlinellol, a chodwyd awydd am fwy o fanylion ynghylch cymorth ymarferol i siaradwyr Cymraeg yn y Cynllun drwy'r mecanwaith hwn²⁷⁷.

Mae gwaith dadansoddi wedi cael ei wneud i amcangyfrif effaith economaidd y Cynllun ar lefel busnesau fferm, ar lefel sector ac ar lefel ranbarthol. Mae canlyniadau'r gwaith hwn wedi llywio'r gwaith o asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y Cynllun arfaethedig ar gymunedau gwledig, ac felly ar y Gymraeg, fel y'i nodir yn yr achos busnes ar gyfer y Cynllun.

Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda chynlluniau amaethyddol, bydd y Cynllun yn destun gwaith monitro a gwerthuso ffurfiol i helpu Llywodraeth Cymru i bennu effaith y cynllun ac arwain unrhyw newidiadau y gallai fod angen eu gwneud yn y dyfodol.

Bydd gwerthusiad cynnar o'r Cynllun yn canolbwyntio ar bynciau megis y nifer sy'n manteisio ar y cynllun ac yn cymryd rhan ynddo, ac yn ein galluogi i archwilio rhwystrau posibl, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

gyda'r gweddill yn cael eu cynnal yn Saesneg ond yn cynnwys siaradwyr Cymraeg. Roedd hyn yn cyfateb i 8 gweithdy o blith 28 yng Ngham 1 a 4 gweithdy o blith 17 yng Ngham 2.

F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae ecosystemau – eu cymunedau cyfansoddol o organebau a'r amgylchedd ffisegol y maent yn rhyngweithio ynddo – yn darparu'r sylfeini ar gyfer bywyd ar y Ddaear. Maent yn rheoleiddio ein cylchoedd hinsawdd a maethynnau, yn darparu ocsigen i ni allu anadlu, yn cynhyrchu deunyddiau crai ac ynni, bwyd i'n maethu, ac yn ysbrydoli mynegiant artistig, ymhlith llawer o wasanaethau eraill. Bioamrywiaeth, yr amrywiaeth lawn o fywyd, yw nodwedd hanfodol ecosystemau sy'n darparu sefydlogrwydd a gwytnwch i newid – gan ganiatáu i'r gwasanaethau sy'n cynnal ein llesiant barhau.

Fel gyda gwledydd eraill y DU, mae bioamrywiaeth yng Nghymru wedi profi degawdau lawer o ddirywiad a diraddiad ers y Chwyldro Diwydiannol o leiaf. Mae tystiolaeth wedi'i modelu a gyflwynwyd yn adroddiad diweddaraf *Sefyllfa Natur: Cymru* yn dangos mai Cymru yw 'un o'r gwledydd sydd wedi dirywio fwyaf o ran byd natur ar y Ddaear'²⁷⁸.

Mae peth o'r pwysau allweddol sydd wedi arwain at golli bioamrywiaeth, a nodwyd gan Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU²⁷⁹ ac Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023,²⁸⁰ yn cynnwys:

- Rheoli tir amaethyddol mewn ffordd anghynaliadwy
- Trefoli
- Llygredd
- Newid yn yr hinsawdd
- Rhywogaethau estron goresgynnol

Gan fod tua 90% o dir Cymru yn amaethyddol, mae'r sector ffermio yn gallu chwarae rhan ganolog i helpu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth y wlad, a'i gwella.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella bioamrywiaeth Cymru. Mae polisïau a gweithredoedd diweddar yn adlewyrchu'r nod hwn, ynghyd â'n hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Er enghraifft:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys nod 'Cymru Gydnerth', sydd eisiau i Gymru fod yn 'Genedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd)' ²⁸¹.
- Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a thrwy wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, ac wrth wneud hynny rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i *Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol* 1992²⁸².

- Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur²⁸³ Llywodraeth Cymru yn datgan ein huchelgais i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ymrwymadau *Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth Confensiwn y CU ar Amrywiaeth Fiolegol* a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi³¹ cysylltiedig, er mwyn atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna gwrthdroi'r dirywiad hwn. Disgwylir i gynllun diwygiedig adlewyrchu nodau Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) Kunming-Montreal²⁸⁴.
- Mae *Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynol Prydain 2023 – 2030*²⁸⁵, y mae Gweinidogion Cymru wedi'i mabwysiadu, yn cydnabod yr effeithiau dinistriol y mae rhywogaethau goresgynol yn eu cael ar fioamrywiaeth ac mae'n cynnwys camau gweithredu sy'n cyd-fynd â tharged 6 o *Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang CBD* i haneru cyfraddau cyflwyno a sefydlu rhywogaethau estron goresgynol erbyn 2030²⁸⁶.
- Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 wedi ymrwymo i 'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'²⁸⁷.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyrraedd nodau a thargedau'r GBF, sy'n cynnwys y targed i adfer 30% o'r tir, dŵr croyw a'r môr erbyn 2030 (menter '30 erbyn 30')³². Gwnaeth argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ddatblygu 'cyfres o gamau cydweithredol y gallwn eu cymryd ar unwaith i gyflawni nod '30 erbyn 30' y CBD, gan gydnabod y galluoedd sydd gennym yng Nghymru ac adlewyrchu ein dyletswyddau a'n ffordd o weithio a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)'²⁸⁸. O ystyried faint o dir y mae'r diwydiant amaethyddiaeth yn ei reoli, mae cyfle sylweddol i ffermio gyfrannu tuag at gyflawni'r targed hwn megis drwy adfer a rheoli safleoedd gwarchodedig a chreu 'mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal'^{289,33}.
- Mae'r GBF yn gosod y genhadaeth: *To take urgent action to halt and reverse biodiversity loss to put nature on a path to recovery for the benefit of people and planet by conserving and sustainably using biodiversity and by ensuring the fair and*

³¹ Mae'r Confensiwn Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig ar gyfer y cyfnod 2011-2020 yn darparu fframwaith cyffredinol ar fioamrywiaeth ar gyfer gwledydd sy'n rhan o'r Cenhedloedd Unedig.

³² Mae '30 erbyn 30' yn cyfeirio at warchod a rheoli'n effeithiol o leiaf 30% o'n tir, dŵr croyw, a môr er lles byd natur erbyn 2030. Mae'n un o nifer o dargedau sy'n rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) y cytunwyd arno yn COP15.

³³ Canllawiau ar fesurau cadwraeth seiliedig ar ardal (OECMs) effeithiol eraill - adnodd | IUCN Mae OECMs yn allweddol bwysig i gyflawni '30 erbyn 30' ac atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd haenau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn enwedig yr Haen Gydweithredol, yn fecanwaith allweddol ar gyfer creu OECMs.

equitable sharing of benefits from the use of genetic resources, while providing the necessary means of implementation. Mae'r GBF yn cynnwys 23 o dargedau byd-eang seiliedig ar weithredu y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys dros y degawd tan 2030²⁹⁰.

- Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi pennu'r amcan o gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu, fel un o amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'r deddfau, y cynlluniau a'r polisiau hyn wedi braenaru'r tir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun), a'i fwriad o gefnogi sawl canlyniad amgylcheddol cadarnhaol o dan amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. O ran bioamrywiaeth, mae'r Cynllun yn bwriadu cyflawni yn erbyn amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau', ond mewn llawer o achosion, mae disgwyl i gamau a chanlyniadau eraill o fewn y Cynllun hefyd gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth, e.e. gwella ansawdd aer a dŵr, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cynlluniwyd y Cynllun i gyd-fynd ag ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ymgorffori Bioamrywiaeth

1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau?

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y Ddeddf) yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen i gynnal a gwella lefelau gwytnwch ecosystemau, y mae bioamrywiaeth yn elfen sylfaenol ohono. Mae gwytnwch ecosystemau yn cynnwys:

- Amrywiaeth: o fewn a rhwng rhywogaethau, ac o fewn a rhwng ecosystemau
- Maint: ardaloedd sy'n ddigon mawr i gynnal poblogaethau, cefnogi prosesau ecolegol ac ymdopi â phwysau fel ysglyfaethu a'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.
- Cyflwr: rheoli effeithiau a phwysau fel y gall yr amgylchedd gynnal amrywiaeth o organebau a phoblogaethau iach.
- Cysylltedd: mae organebau a phoblogaethau yn gallu symud o fewn a rhwng ecosystemau.
- Y gallu i addasu: gallu ecosystemau i addasu i newid.

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a'i reoleiddio mewn ffordd a fydd, yn eu barn hwy, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM, gan gynnwys yr amcan o gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Bydd hyn yn ymgorffori bioamrywiaeth ym mhenderfyniadau'r Llywodraeth.

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gyflawni canlyniadau SLM, sy'n cynnwys 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau'. Bioamrywiaeth yw elfen graidd gwytnwch, er enghraifft, gan ddarparu'r disodli swyddogaethau ('functional redundancy') ar gyfer cynnal prosesau ecosystem ar ôl iddi gael ei haflonyddu. O ganlyniad, mae bioamrywiaeth wedi bod yn elfen sylfaenol o ddyluniad y Cynllun o'i gamau cynnar. Dylai Gweithredoedd y Cynllun, ym mhob haen o'r Cynllun, sy'n ceisio cyflawni canlyniadau SLM eraill, mewn nifer o achosion gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth hefyd, ac i'r gwrthwyneb.

Mae disgwyl i ganlyniadau cadarnhaol y Cynllun raeadru buddion amgylcheddol, oherwydd natur gyd-ddibyniaeth rhwng ecosystemau. Er enghraifft, gall sefydlu ardal glustogi'r glannau (e.e. llwyni a choed ar hyd cyrsiau dŵr) i wella ansawdd dŵr croyw hefyd greu cynefin ar gyfer rhywogaethau glaswelltir, coetir a dŵr croyw, a lleihau llygredd cemegol sy'n cyrraedd yr amgylchedd morol²⁹¹. Yn yr un modd, gall creu coetir a gwrychoedd i fyny'r afon liniaru'r risg o lifogydd a sychder eithafol mewn ecosystemau dŵr croyw, gan wella'r broses o gadw dŵr, ymdreiddiad, ac adfer dŵr daear^{292,293,294}.

2. A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio'r prosiect?

Nod y Cynllun yw integreiddio gweithredoedd cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth ar lefel busnesau fferm. Bydd y Cynllun yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cyllid, hyfforddiant a chymorth cynghori i ffermydd ar gyfer cyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio, gan gynnwys cynnal, gwella a chreu cynefinoedd, gwytnwch ecosystemau ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Bydd y gofynion ar gyfer Haen Gyffredinol y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ffermydd sy'n cymryd rhan reoli o leiaf 10% o'u tir er budd bioamrywiaeth. Bydd ffermwyr yn cael eu cefnogi i gofnodi eu cynefin presennol ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF) a fydd yn nodi'r angen am gynefin dros dro ychwanegol, lle nad yw'r trothwy gofynnol o 10% wedi'i fodloni. Bydd y gofyniad i gytuno ar Gynllun Rheoli a Rhestr Waith gyda CNC ar gyfer safleoedd dynodedig yn sail ar gyfer gwella cyflwr safleoedd dynodedig.

Yn ogystal, gall mabwysiadu gweithgareddau sydd ar gael o dan yr Haen Opsiynol ar ffermydd sy'n cymryd rhan fod yn amodol ar asesiad gan Lywodraeth Cymru. Gallai gweithgareddau o'r fath fod yn fwy cymhleth, ac wedi'u targedu a'u teilwra i bob daliad unigol, a byddent yn cael eu cefnogi gan gynghorwyr technegol. Gallent gynnwys gweithredoedd a allai:

- Wella cyflwr ac ansawdd cynefinoedd lled-naturiol.
- Nodi ardaloedd addas ar gyfer naill ai creu neu adfer cynefin.
- Nodi ardaloedd ymylol gwael o ran rhywogaethau sydd fwyaf addas ar gyfer creu coetiroedd.
- Gweithredu fel gwasanaeth cyfeirio a chynghori ar benderfyniadau i arwain a chynorthwyo'r ffermwr wrth ddylunio a chyflawni gweithredoedd ehangach wedi'u teilwra i nodweddion ac amgylchiadau busnes eu ffermydd.

Bydd gweithgareddau'r Haen Opsiynol ar gyfer cymorth a throsi organig hefyd yn hyrwyddo gweithgarwch cynnal a thwf bioamrywiaeth. Mae systemau ffermio organig, gyda'u cyfuniad o fwy o arwynebedd o gynefin a gwahardd y rhan fwyaf o fewnbynau artiffisial, yn cynyddu nifer y rhywogaethau sy'n bresennol ar ffermydd^{295, 296}. Mae astudiaethau wedi dangos y gall ffermio organig ddylanwadu ar fioamrywiaeth bywyd pridd;²⁹⁷ cynnydd yng nghyfoeth a thoreithrwydd rhywogaethau blodau²⁹⁸ ac infertebratau;^{299, 300} mwy o fioamrywiaeth o ran adar;^{301, 302} a mwy o fioamrywiaeth o ran mamaliaid, yn enwedig mamaliaid bach fel llygoden y coed, y llygoden bengron goch a'r llyg cyffredin³⁰³.

3. Beth fydd effaith caffael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gynllun gwirfoddol sydd â'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Gall ffermydd ddewis ymuno â'r Cynllun, a derbyn taliad am y Gweithredoedd Haen Gyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol sy'n addas i'w cynnal ar eu daliad penodol. Mae llawer o'r gweithredoedd hyn wedi'u cynllunio i gyfrannu tuag at gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau, ac felly'n cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae Cymru'n bwysig yn rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth fyd-eang, megis ar gyfer ei chytrefi adar môr oddi ar Sir Benfro, Ynys Môn a Phenrhyn Llŷn³⁰⁴. Mae 11% o arwynebedd tir Cymru (gan gynnwys ardaloedd dŵr croyw ac ardaloedd arfordirol hyd y dyfrnod uchel) hefyd wedi'i ddynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), safleoedd Ramsar a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol³⁰⁵. O ystyried y ffocws ar dir amaethyddol, gellir disgwyl y bydd y Cynllun yn cael yr effeithiau cadarnhaol mwyaf ar gynefinoedd daearol a dŵr croyw, a fydd yn cynnwys adfer a chadwraeth ardaloedd o'r fath.

Bwriedir i'r Cynllun gefnogi'r amcan SLM o wella gwytnwch ecosystemau, a hynny yn ei dro yn cyfrannu at yr amcanion ychwanegol o liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â chadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae canlyniadau hyn y Cynllun yn rhyngddibynnol, a gallent felly raeadru effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

4. A yw'r cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy?

Ni fydd y Cynllun ei hun yn dod o hyd i gynhyrchion. Fodd bynnag, mae'r Cynllun wedi'i seilio ar egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae rhan o hyn yn cynnwys cefnogi ffermydd i ddod yn fwy gwydn, gan eu galluogi i ffermio mewn byd cystadleuol a newidiol wrth weithredu'n unol â gallu naturiol eu tir. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy, nawr ac yn y tymor hwy.

Bydd Haen Opsiynol y Cynllun hefyd yn cefnogi ffermwyr i wella a rheoli'r asedau ar eu ffermydd fel coetiroedd. Gall rheoli coetir ddarparu nifer o fanteision amgylcheddol cadarnhaol megis gwella cynefinoedd, ond gall hefyd fod o fudd uniongyrchol i'r busnes fferm. Ymhellach, mae coetiroedd yn cynnig cyfle i dyfu pren er mwyn dal carbon. Un o fanteision economaidd sylweddol rheoli coetir fyddai cynhyrchu pren a thanwydd pren cynaliadwy mewn ffordd gyfrifol.


5. A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy'n niweidio'r fioamrywiaeth?

Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i gefnogi rheoli adnoddau yn gynaliadwy mewn ffordd sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth. Bwriad y Cynllun yw gwella'r perfformiad amgylcheddol ledled Cymru drwy gefnogi ffermwyr i ystyried a mabwysiadu arferion sydd o fudd i fioamrywiaeth ac sy'n briodol i'w busnes fferm.

Fodd bynnag, mewn perthynas â chreu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd, gallai'r Cynllun fod â'r potensial anfwriadol i niweidio cynefinoedd penodol os na chaiff ei reoli'n gywir. Er enghraifft, mae cysylltiad wedi'i nodi rhwng dirywiad y gylfinir ac adar eraill sy'n nythu ar y ddaear a cholli cynefin mewn perthynas â dwysáu amaethyddol a chreu ac ehangu coetiroedd^{306, 307, 308}. Ar hyn o bryd, mae'r gylfinir yn dirywio'n gyflym ledled Cymru, y DU a'r UE (gweler y ffigur isod). Bydd y dull gweithredu sy'n seiliedig ar le a anogir gan fframwaith y Cynllun yn ystyried costau bioamrywiaeth o'r fath yn erbyn manteision bioamrywiaeth posibl.

Ffigur 5: Map o Atlas Adar diweddaraf y BTO yn dangos newid yn niferoedd gylfinirod bridio ledled y DU³⁰⁹.

Breeding Abundance Change 1988–91 to 2008–11



Gan fod y gylfinir yn aderyn sy'n nythu ar y ddaear, mae'n dibynnu ar gynefin wedi'i ddewis yn benodol ar gyfer nythu, deor, magu cywion ac osgoi ysglyfaethwyr³¹⁰. Os yw coedwigoedd yn cael eu plannu ar dirwedd agored, neu'n agos at dirwedd agored, lle nad oedd dim neu fawr ddim coed o'r blaen, mae newidiadau o'r fath yn gallu gwneud y cynefin yn anaddas³¹¹. Ar ben hynny, mae'r gylfinir fel arfer yn driw i safle, sy'n golygu y bydd parau bridio fel arfer yn dychwelyd i'r un ardaloedd nythu bob gwanwyn; o'r herwydd, mae rheoli cynefinoedd yn y tymor hir yn ffactor hanfodol bwysig i atal neu wrthdroi eu dirywiad³¹².

Bydd angen i newidiadau i gynefinoedd fel coedwigo yn sgil y Cynllun gael eu rheoli a'u hystyried yn ofalus drwy'r broses HBR, a bydd eithriadau'n codi, megis lle ceir cynefinoedd â blaenoriaeth (gweler adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd [Cymru] 2017). Yn achos penodol y gylfinir, bydd cyfranogwyr y Cynllun sy'n dymuno creu coetir newydd mewn Ardal Gylfinir Bwysig yn cael eu hannog i dderbyn cyngor arbenigol neu ymgynghori â CNC i gael cyngor cyn ymgeisio.

6. A oes angen i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd i weithredu'n gadarnhaol dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio prosiect?

Fel y nodwyd uchod, mae'r gofynion i gyfranogi yn Haen Gyffredinol y Cynllun yn cynnwys rheoli 10% o dir er budd bioamrywiaeth. O lansio'r Cynllun, felly, bydd gofyn i bob cyfranogwr nid yn unig ystyried, ond hefyd weithio'n uniongyrchol tuag at greu effeithiau a

gweithredoedd cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd CNC a ffermwyr yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rheoli safleoedd a rhestr o'r gwaith ar safleoedd dynodedig.

Trwy'r Haen Gydweithredol, disgwylir i ffermwyr a sefydliadau eraill gydweithio ar brosiectau sydd â'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth, gyda'r Cynllun yn adeiladu ar brofiad y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig presennol.

7. A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau am gyllid a manylebau prosiect?

Mae ystyried bioamrywiaeth yn ofyniad hanfodol yn y Cynllun. Mae rhan o'r gofynion sylfaenol ar gyfer ymuno â'r Cynllun yn pennu bod yr holl gynefinoedd i'w cadw a'u cynnal fel rhan o Haen Gyffredinol y Cynllun, ac mae'n rhaid i bob fferm fodloni'r amodau er mwyn derbyn unrhyw gyllid.

Bydd angen i bob cyfranogwr roi gwybod am ardaloedd cynefinoedd ar SAF fel rhan o broses ymgeisio'r Cynllun. Bydd hyn yn pennu'r Gweithredoedd gorfodol y mae ffermydd sy'n cymryd rhan eu hangen neu'n dewis eu cymryd i gael eu gwobrwyo'n ariannol am arferion rheoli tir y disgwylir iddynt fod o fudd i gynefin a bioamrywiaeth.

8. A yw eich gwerthusiad o'r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella?

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth mewn ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM, gan gynnwys yr amcan i 'gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.' Mae hyn wedi ymgorffori bioamrywiaeth i fecanwaith cymorth y Llywodraeth o fewn y Cynllun.

Gan weithio mewn partneriaeth â CNC, bydd angen i safleoedd dynodedig gael Cynllun Rheoli ar waith erbyn 2030. Bydd y Rhestr o'r Gwaith sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Rheoli yn darparu cyfleoedd i wneud cais am gyllid ychwanegol oddi mewn i'r Haenau Opsiynol neu Gydweithredol, a mecanweithiau cyllido eraill sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth ar gyfer cymorth wedi'i dargedu i wella rheolaeth a chyflwr y safle.

Fel y trafodwyd yn flaenorol, bydd angen i ffermwyr reoli o leiaf 10% o'u tir yn weithredol i gynnal a gwella cynefinoedd lled-naturiol.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf trwy gadw a chynnal cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol presennol; gyda choetir llydanddail a/neu wrychoedd newydd neu bresennol mewn cyflwr da. Fodd bynnag, lle mae'r cynefinoedd lled-naturiol sydd ar gael yn dal yn brin, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd i greu nodweddion cynefin dros dro ar dir amaethyddol sydd wedi'i wella.

Bydd yn ofynnol i ffermwyr sicrhau bod eu holl ardaloedd cynefin yn cael eu rheoli o dan y Cynllun i'w cadw a'u cynnal fel rhan o'r haen Gyffredinol, a byddant yn cael eu gwobrwyo'n ariannol am wneud hynny. Bydd opsiynau hefyd ar gael i wobrwyo ffermwyr am greu cynefin, coetir a gwrychoedd newydd yn ogystal ag adfer a rheoli rhai presennol. Er

enghraifft, bydd ffermwyr yn cael eu cymell a'u gwobrwyo am adfer a rheoli pyllau bywyd gwyllt presennol a/neu am sefydlu nifer o byllau dŵr dros dro (pyllau dŵr tymhorol) fel sy'n briodol ar eu fferm. Bydd yr ardal sy'n cael ei defnyddio/ei hymrwymo drwy'r gweithgareddau Haen Opsiynol hyn yn gymwys i gyfrannu tuag at y gofyniad i reoli o leiaf o 10% o dir er budd bioamrywiaeth.

9. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio ar gyfer integreiddio ar lefel busnesau fferm. Bydd hyn yn galluogi ffermydd i gael gafael ar gyllid, hyfforddiant a chymorth cynghori i gyflawni canlyniadau SLM, sy'n cynnwys cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

O'r cychwyn cyntaf, bydd ffermwyr yn gallu asesu'r lefel debygol o gymhellion a chymorth ariannol sydd ar gael drwy ymuno â'r Cynllun, a'u pwysu a'u mesur yn erbyn opsiynau annibynnol amgen a allai fod yn ystyriaeth. Bydd y Cynllun yn gwobrwyo ffermydd sy'n rhan o'r Cynllun yn ariannol i gymryd camau a fyddai o fudd uniongyrchol i gynnal, rheoli a gwella bioamrywiaeth.

Er enghraifft, o dan Haen Gyffredinol y Cynllun, bydd yn ofynnol i ffermydd gynnal coed a choetiroedd presennol ar eu daliadau. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y bydd ffermwyr yn cael eu talu i gadw a chynnal coetir presennol. Yn ogystal, o dan yr Haen Opsiynol, byddent hefyd yn cael eu cefnogi i integreiddio mwy o goed i'w system ffermio a rheoli coetir presennol er budd eu fferm, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach. Byddai rhai o'r manteision hyn yn cynnwys:

- Cefnogaeth i ddiogelu ein coetiroedd hynafol na ellir eu hail-greu, sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth a'n treftadaeth.
- Gwella ansawdd aer drwy ddal allyriadau amonia o siediau da byw a storfeydd slyri neu greu lleiniau clustogi rhag amonia ar gyfer safleoedd sensitif fel coetiroedd hynafol.
- Gwella a diogelu bioamrywiaeth drwy greu a chysylltu cynefinoedd.
- Gwella lles anifeiliaid drwy gynnig cysgod a lloches i dda byw a bioddiogelwch drwy wneud ffiniau ffermydd yn fwy trwchus gyda gwrychoedd lletach a phlannu coed.
- Lleihau'r perygl o lifogydd drwy arafu llif dŵr.
- Gwella ansawdd dŵr drwy atal llif dŵr wyneb, gwella sefydlogrwydd pridd a gostwng llygredd gan faethynnau.
- Lleihau effeithiau negyddol rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.
- Cynnig cyfleoedd hamdden drwy ganiatáu mynediad i'r cyhoedd iddynt.

Mae hefyd yn bosibl cefnogi'r ffermydd sy'n cymryd rhan, drwy Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun, i ymgymryd â gweithgareddau a fyddai o fudd i fioamrywiaeth, rheoli cynefinoedd a chynhyrchu cynaliadwy, a chael eu gwobrwyo'n ariannol am wneud

hynny. Er enghraifft, gallai'r opsiynau cymorth posibl hyn gynnwys rheoli cynefin coetir i dyfu coed i ddal carbon neu gynhyrchu pren mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol; a/neu brosiectau cydweithredol pellach lle gallai busnesau fferm reoli eu coetir gyda'i gilydd ar gyfer gweithredoedd posibl a fyddai o fudd i gynefinoedd, cynaliadwyedd a bioamrywiaeth.

Ymhellach, ar lefel busnesau fferm, gallai llawer o weithredoedd y Cynllun esgor ar arbedion cost i fusnesau fferm (e.e. profi pridd a rheolaeth integredig ar blâu gan arwain at leihau mewnbynnau) yn ogystal â manteision bioamrywiaeth. Ar gyfer y gweithredoedd hynny na fyddant o bosibl yn esgor ar arbedion cost yn uniongyrchol, bydd y gallu i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer ymgymryd â hwy yn cefnogi gweithredoedd pellach er budd bioamrywiaeth. Bydd yr elfennau hyn gyda'i gilydd yn helpu ffermydd i gynnwys bioamrywiaeth yn eu proses cynllunio busnes.

10. A yw wedi ystyried costau oes gyfan sy'n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn y dadansoddiad costau a manteision, hyd yn oed os yw'n broses anffurfiol?

Mae allbynnau o Lwyfan Monitro Integredig (IMP) Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) wedi llywio dyluniad y Cynllun³¹³. Mae'r IMP yn ystyried canlyniadau amgylcheddol hirdymor sy'n deillio o ymyriadau polisi. Darperir trosolwg o effeithiau economaidd y Cynllun yn Adran 4. Mae dadansoddiad o gostau a manteision y Cynllun, sy'n ystyried gwerth canlyniadau amgylcheddol lle bo hynny'n bosibl, wedi'i gynnwys yn Achos Busnes y Cynllun.

11. A ydych wedi ystyried sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgarwch Llywodraeth Cymru, er enghraifft i gefnogi gweithgareddau hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd, a thyfu bwyd yn lleol? (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, yn lleihau'r defnydd o ynni ac yn gwella systemau draenio.)

Bwriedir i elfennau gwytnwch y Cynllun gefnogi bioamrywiaeth, a chyflawni canlyniadau SLM eraill ar yr un pryd. Er enghraifft, fel yr amlinellwyd uchod, byddai creu cynefinoedd coetir newydd o fudd i fioamrywiaeth, a hefyd yn lliniaru yn erbyn perygl llifogydd a sychder, yn gwella ansawdd dŵr ac aer, yn gwella lles anifeiliaid, ac mewn rhai achosion hefyd yn gallu cynnig cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd drwy wella mynediad at natur. Yn yr un modd, gallai'r broses o greu ardal glan-afon (e.e. llwyni a choed ar hyd glannau cyrff dŵr) i wella ansawdd dŵr gyfoethogi cynefinoedd coetir ac yn diogelu cynefinoedd dyfrol hefyd.

Bydd gwybodaeth a chyfeirio hefyd ar gael ar Cyswllt Ffermio i'r rhai sy'n dymuno arallgyfeirio i gynhyrchu pren, storio carbon, hamdden ac ati. Er enghraifft, mae cyfleoedd i wella coetiroedd i ddod yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn gallu cynnig amgylcheddau gwell ar gyfer hamdden llesiant cymunedol a'r manteision eraill y mae'n eu cynnig ar sawl lefel.

12. A yw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a'r potensial ar gyfer arbedion ar gyfer iechyd a llesiant, perygl llifogydd ac ati?

Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fodloni safonau rheoleiddio cyfreithiol ac i gyflawni yn erbyn ei Weithredoedd Cyffredinol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod llinell sylfaen sydd wedi'i chynllunio, yn y man lleiaf, i gadw a chynnal y cynefin/bioamrywiaeth ar y lefel bresennol.

Mae'r Taliad Cyffredinol wedi'i gynllunio i ad-dalu'n ariannol a chymell ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun i gadw a chynnal cynefinoedd presennol ac o bosibl ddatblygu mathau newydd o gynefinoedd ar eu daliadau a sicrhau nad yw bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn dirywio.

Hefyd, gall rhai ffermydd gynnwys cynefinoedd sy'n cynnwys safleoedd dynodedig ac sydd angen dull rheoli safle-benodol wedi'i dargedu. Mae safleoedd o'r fath yn chwarae rhan hanfodol wrth wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, ac o'u rheoli'n dda, gallent gyflawni llawer o'r canlyniadau SLM a gwasanaethau ecosystem a ddeisyfir sy'n hanfodol i gyflawni ein hymrwymiaidau a'n huchelgeisiau polisi.

Un o'r cynefinoedd gwarchodedig hyn yw mawndiroedd, sydd ymhlith yr ecosystemau mwyaf cyfoethog o ran carbon ar y ddaear. Mae mawndiroedd yng Nghymru yn storio tua 25-30% o'r holl garbon pridd, ond serch hynny dim ond 4% o dir Cymru sy'n fawndir³¹⁴.

Mewn cyflwr naturiol, mae mawndiroedd yn cael effaith oeri net ar yr hinsawdd, yn helpu i reoli storio a chyflenwi dŵr, lleihau'r risg o dân, a chefnogi bioamrywiaeth. Maent hefyd yn darparu mannau nythu a bwydo pwysig i lawer o adar hirgoes yn ogystal â chynefinoedd pwysig ar gyfer pryfed a phlanhigion prin. Oherwydd y fflora a'r ffawna unigryw y maent yn eu cynnal, a'u prinder yn fyd-eang, cyfeirir weithiau at orgorsydd fel fforestydd glaw y DU.

Mae gan Gymru oddeutu 82,000-90,000³¹⁵ hectar o fawndir, ond dim ond 10% sy'n cael ei ystyried yn fewndir sydd mewn cyflwr da³¹⁶. Mae 50% o'r adnodd mawndir wedi'i ddynodi'n SoDdGA ac mae ardal sylweddol o fewn tirweddau dynodedig; nid oes gan tua 33% o'r adnodd unrhyw ddynodiad natur na thirwedd. Fe wnaeth y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd adfer 3,000 hectar rhwng 2020 a 2023³¹⁷. Amcangyfrifir bod tua 2,000 hectar arall wedi'u hadfer trwy gyllid LIFE yr UE, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, Cwmnïau Dŵr, Glastir a'r Cynlluniau Rheoli Cynaliadwy. Hefyd, mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gynorthwyo'r gwaith parhaus o reoli a chynnal cynefinoedd mawndiroedd a safleoedd dynodedig arbennig eraill o dan reolaeth ffermydd sy'n cymryd rhan.

Mae rheoli safleoedd dynodedig arbennig ac ardaloedd cynefin presennol, gwella eu cyflwr a chreu rhai newydd trwy haenau Cyffredinol ac Opsiynol y Cynllun yn gallu gwella bioamrywiaeth, lliniaru newid yn yr hinsawdd, a gwrthdroi diraddiad cynefinoedd gan ddibynnu ar leoliad, defnydd a chyflwr cychwynnol y safle.

13. A yw'n gallu annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a'r arbedion hyn?

Ar lefel busnesau fferm, mae gweithredoedd o fewn y Cynllun wedi'u targedu at gyflawni SLM, sydd ar yr un pryd yn gallu arbed costau i fusnesau fferm (e.e. profi'r pridd sy'n arwain at ostyngiad mewn mewnbynnau, da byw iachach, gwell iechyd pridd a chynnyrch uwch ac ati) tra'n darparu buddion bioamrywiaeth ar yr un pryd.) Ar gyfer y gweithredoedd hynny na fyddant o bosibl yn esgor ar arbedion cost yn uniongyrchol, bydd y Cynllun yn cynnig cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer ymgymryd â gweithredoedd a fydd yn ategu budd i fioamrywiaeth.

Fel yr amlinellwyd eisoes, bydd mynediad i'r Cynllun yn cynnwys datgan yr holl ardaloedd cynefin presennol a fydd yn helpu cyfranogwyr i ddeall y gofynion y mae angen eu bodloni a hwyluso'r broses o gyfrifo'r taliad tebygol trwy'r Haen Gyffredinol. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i roi sylfaen safle cyfan i ffermwyr ar gyfer eu ffermydd wrth fynd i mewn i'r Cynllun, gan sicrhau bod modd ystyried costau ac arbedion unigol.

Hefyd, bydd yn ofynnol i ffermydd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun ymgymryd â hunanasesiad o leiaf unwaith y flwyddyn yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Drwy fesur eu perfformiad yn rheolaidd, byddai ffermydd yn gallu cymharu â'u perfformiad blaenorol eu hunain a pherfformiad ffermydd eraill. Y bwriad yw rhoi cyfle iddynt nodi lle y gellir gwneud gwelliannau i leihau eu costau a dod yn fwy cynaliadwy drwy wneud gwell defnydd o'u hadnoddau. Y disgwyl yw y bydd mabwysiadu meincnodi sylfaenol gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn arwain at newid sylweddol ym mherfformiad ffermydd, gan gynyddu gallu ffermydd i addasu i newid a gwella eu heffaith ar yr amgylchedd, ac yn sgil hynny arwain at ddiwydiant mwy llewyrchus a gwydn. Disgwylir i rai o fanteision allweddol meincnodi drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol gynnwys:

- Gwell dealltwriaeth o sut mae busnes fferm yn perfformio, gan ganiatáu iddynt ymchwilio yn fanylach os ydynt yn awyddus i wneud hynny a mynd ymlaen i wella'u perfformiad.
- Caniatáu i ffermwyr ddeall a dangos effeithiau'r newidiadau y maent yn eu gwneud ar lawr gwlad.
- Galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy a lleihau eu hól troed carbon, gan gysylltu â gweithredoedd eraill y Cynllun fel gwelliannau i iechyd anifeiliaid neu wneud gwell defnydd o laswellt.

Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

14. A allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?

Trwy bennu bod 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau' yn un o'r canlyniadau SLM yn Neddf Amaeth (Cymru) 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu ariannu'n uniongyrchol

fentrau sy'n cefnogi bioamrywiaeth yn unol â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gefnogi hyfforddiant arbenigol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn ymwneud â bioamrywiaeth i fusnesau fferm.

Bydd Llywodraeth Cymru a'i darparwyr gwasanaethau a gaffaelwyd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi i ddatblygu dull integredig o roi cyngor ac arweiniad. Ochr yn ochr â chyfathrebu ac ymgysylltu uniongyrchol, bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o weithredoedd cadarnhaol sy'n sicrhau manteision ar gyfer bioamrywiaeth, ac yn cefnogi'r gweithredoedd hynny.

15. A allwch chi hyrwyddo'r manteision o sicrhau mynediad i fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?

Bwriad y Cynllun yw darparu buddion i fioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru drwy gefnogi ffermydd i arfer gweithredoedd sy'n cyflawni canlyniadau SLM. Mae hwn yn newid sylweddol o'r hen Gynllun y Taliad Sylfaenol. Drwy ganlyniadau disgwyledig y Cynllun, dylai gwelliannau mewn pridd, dŵr, lles anifeiliaid ac ansawdd aer gefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ynghyd ag iechyd cyffredinol cymunedau.

Yn gymaint â bod tir amaethyddol yn cyfrif am 90% o holl dir Cymru, mae ffermwyr mewn sefyllfa hollbwysig i chwarae rhan sylweddol wrth helpu Cymru i gyfrannu at y frwydr fyd-eang yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Er enghraifft, un o ganlyniadau arfaethedig SLM yw 'cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad y cyhoedd â hwy'. Bydd y Cynllun yn cynnig gweithredoedd ategol ar lefel Opsiynol i wella mynediad i'r cyhoedd. Mae dros ddwy ran o dair o hawliau tramwy cyhoeddus Cymru ar dir fferm, ac felly maent yn ffynhonnell hanfodol o fynediad i fioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n tirweddau. Mae gweithgareddau'r Haen Opsiynol yn y Cynllun yn cynnwys cefnogi gwelliannau dodrefn ar hawliau tramwy cyhoeddus a gwella profiad ymwelwyr e.e. byrddau gwybodaeth am fioamrywiaeth. Bydd y gweithredoedd hyn yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd fwynhau'r awyr agored a gwella eu dealltwriaeth o fioamrywiaeth Cymru.

16. A allwch chi ddarparu neu drefnu hyfforddiant arbenigol lle bo angen?

O dan yr Haen Gyffredinol, bydd gofyniad i unrhyw berchennog/partner yn y busnes fferm gwblhau 6 awr o ddysgu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), ynghyd â modiwl Iechyd a Diogelwch, bob blwyddyn.

Bydd hyn yn sefydlu lefel sylfaenol o ddysgu DPP ar gyfer pob ffermwr o fewn y Cynllun, trwy roi trosolwg ar draws ystod o feysydd datblygu allweddol gan gynnwys iechyd a diogelwch. Bydd ffermwyr yn dewis y pynciau dysgu a'r dulliau cyflawni cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Gellir cwblhau'r chwe awr o ddysgu mewn unrhyw ffordd. Gall un cwrs o 6 awr gyfri; yn yr un modd, bydd 6 modiwl ar-lein awr o hyd yn dderbyniol. Hefyd,

anogir trefniant o rannu'r dysgu ar draws y busnes fferm, staff y fferm a'r teulu ehangach lle bo hynny'n briodol.

Bydd y rhaglen Cyswllt Ffermio yn darparu hyfforddiant ynghyd â gwasanaethau eraill i gefnogi'r Cynllun mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag Amcanion SLM.

17. A allwch chi gysylltu â strategaethau cyfathrebu a mentrau bioamrywiaeth eraill, er enghraifft, cynlluniau gwobrwyo, digwyddiadau lleol?

Bwriad y Cynllun yw cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Bydd Haen Gyffredinol y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr reoli mewn ffordd weithredol o leiaf 10% o'u tir er budd bioamrywiaeth. Bydd y SAF yn cynorthwyo ffermwyr i nodi'n fras y mathau o gynefinoedd sy'n bresennol y bydd camau rheoli a chanlyniadau penodol y mae angen i ffermwr eu cwblhau a'u cyflawni ar eu cyfer.

Bydd y targed bioamrywiaeth o 10% yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy gynnal cynefinoedd lled-naturiol presennol. Rhagwelir y bydd hyn yn debyg i'r hyn a ddefnyddir eisoes mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Glastir, felly mae cyfle i adeiladu ar sianeli cyfathrebu presennol i hysbysebu a chyflwyno negeseuon yn ymwneud â gweithredoedd sy'n fuddiol i fioamrywiaeth o fewn y Cynllun.

Hefyd, bydd Cyswllt Ffermio yn cyfeirio ffermwyr at gyngor a gwybodaeth, am y farchnad bren er enghraifft, os ydynt yn dymuno ehangu eu coetiroedd y tu hwnt i'r gofyniad Cyffredinol, neu os ydynt eisiau arallgyfeirio i'r farchnad bren.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro

18. A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

Drwy gydol datblygiad Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, ac ymgynghori a chyd-lunio datblygiad y Cynllun, defnyddiwyd y dystiolaeth orau a mwyaf cyfredol a oedd ar gael o fioamrywiaeth i lywio'r Cynllun a'r asesiad effaith hwn. Bydd adroddiadau Sefyllfa Byd Natur yn y dyfodol a gwaith monitro parhaus trwy'r Arolwg Maes Cenedlaethol³¹⁸ yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth. Mae rhywfaint o dystiolaeth allweddol am fioamrywiaeth sy'n berthnasol i'r Cynllun wedi'i hamlinellu isod.

*Sefyllfa Byd Natur: Cymru, 2023*³¹⁹

Nododd yr adroddiad *Sefyllfa Byd Natur: Cymru*³²⁰ diweddaraf y canfyddiadau allweddol canlynol:

- Mae 18% o rywogaethau dan fygythiad o ddiflannu o Gymru³⁴

³⁴ O 3,897 o rywogaethau sydd wedi'u hasesu trwy ddefnyddio meini prawf y Rhestr Goch

- Bu gostyngiad o 20% ar gyfartaledd mewn digonedd o rywogaethau daearol a dŵr croyw (ers cyhoeddi'r data am y tro cyntaf ym 1994)³⁵.
- Mae patrymau amrywiol o newid yn y dosbarthiadau o rywogaethau infertebratau - gostyngodd dosbarthiadau 993 o rywogaethau (33%) a chynyddodd dosbarthiadau 953 o rywogaethau (31%).
- Mae fflora Cymru yn newid yn sylweddol³⁶. Mae llawer o fryoffytau epiffytig wedi dechrau adfer o effeithiau llygredd diwydiannol blaenorol tra bod dosbarthiadau planhigion blodeuol mewn cynefinoedd ucheldirol wedi gostwng.
- Mae Cymru yn 'gadarnle' ar gyfer adar môr, ac mae 7 rhywogaeth o adar môr sy'n cael eu monitro yn rheolaidd yn dangos ychydig o newid mewn toreithrwydd yng Nghymru ers 1986³⁷ tra bod gostyngiadau mewn toreithrwydd cyfartalog wedi'u cofnodi mewn ardaloedd eraill o'r DU.

SoNaRR

Nododd yr *Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o Fioamrywiaeth*³²¹ y cyfleoedd canlynol i gefnogi gwytnwch ecosystemau ar dir fferm caeedig, yn benodol:

- Creu rhwydweithiau ecolegol gwydn drwy adfer a chreu cynefinoedd o fewn ac o amgylch systemau cynhyrchu.
- Ehangu amaeth-goedwigaeth a gwrychoedd. Cynyddu nifer y coed a'r gwrychoedd er mwyn dal a storio carbon a chynyddu gwasanaethau ecosystemau tra'n cynnal y prif ddiben o gynhyrchu bwyd.
- Hyrwyddo dulliau rheoli tir sy'n ystyriol o natur gyda pherchnogion ceffylau. Caiff oddeutu 6% o Dir Fferm Caeedig ei reoli ar gyfer ceffylau. Ar hyn o bryd, ni chaiff y tir hwn ei ystyried mewn polisi defnydd tir, ac yn aml caiff ei reoli'n wael.
- Defnyddio a rheoli maethynnau yn gynaliadwy. Defnyddio dulliau dadansoddi pridd, dulliau cynllunio maethynnau a dulliau taenu manwl gywir i leihau mewnbynnau artiffisial a diwallu gofynion cnydau.
- Hyrwyddo ymyriadau i atal amonia rhag cael ei ryddhau i'r aer, gan gynnwys gorchuddio storfeydd slyri, cyfyngu ar wrtaith sy'n seiliedig ar wrea a chwistrellu slyri.

Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP)

³⁵ Oddi mewn i'r duedd gyffredinol hon, mae digonedd 140 o rywogaethau wedi gostwng (37%) ac mae 107 o rywogaethau wedi cynyddu (28%).

³⁶ Ers 1970, mae dosbarthiad 42% o rywogaethau planhigion sy'n blodeuo wedi gostwng ledled Cymru ac mae 40% wedi cynyddu. Mae dosbarthiad rhywogaethau bryoffyt wedi gostwng 44% ac mae 46% wedi cynyddu.

³⁷ Er gwybodaeth, ceir amrywiad oddi mewn i'r duedd gyfartalog hon, ac mae'r ffigyrau hyn yn rhagflaenu'r achosion presennol o fflw adar pathogenig iawn.

Fe wnaeth y rhaglen GMEP³²² fonitro deg dangosydd bioamrywiaeth lefel uchel sy'n cwrdd â cefn gwlad yn ei gyfanrwydd, ac ar gyfer Rhywogaethau a Chynefinoedd â Blaenoriaeth. Mae'r canlyniadau hyn yn llywio asesiad o effeithiau Glastir yn y dyfodol ynghyd â thueddiadau cenedlaethol hirdymor. Nododd yr asesiad sylfaenol, yn benodol:

- Gall newidiadau mewn cyflwr cynefinoedd o ganlyniad i reolaeth gymryd amser hir i'w gwireddu, ac mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysondeb o ran dull gweithredu
- O ran ardaloedd a dargedwyd ar gyfer eu gwella dros nifer o flynyddoedd, e.e. Gorgorsydd a Glaswellt y Gweunydd a Phorfeydd Brwyn, mae eu cyflwr wedi gwella
- Cynnydd yn nifer y gwrychoedd a gaiff eu rheoli ond dirywiad yng nghyfoeth rhywogaethau coediog
- Tueddiadau cadarnhaol dros y deng mlynedd diwethaf o ran presenoldeb rhywogaethau planhigion sy'n arwydd o gyflwr da cynefinoedd a thiroedd wedi'u gwella. Dim newid ar gyfer coetiroedd a thiroedd â

Tueddiadau Cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad Glastir

Mae'r adroddiad ERAMMP³²³ hwn yn gwerthuso tueddiadau cenedlaethol cyfredol adnoddau naturiol Cymru a chanlyniadau cynllun amaeth-amgylchedd Glastir. Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

Gorchudd tir

- Cynnydd o 7% (+23,600 hectar) mewn gorchudd coetir; roedd Glastir wedi ariannu'r gwaith o blannu tua 3,780 hectar (+1%).
- Cynnydd sylweddol (+ 2,200km) yn hyd y gwrychoedd a blannwyd ac a adferwyd, y mwyafrif wedi'u hariannu gan Glastir; ac roedd eu cyflwr wedi gwella.

Bioamrywiaeth

- Gostyngiad mewn dangosyddion cyfoeth rhywogaethau planhigion (-8%), adar (-13 i 35%) a pheillwyr (-23 i 75%) ledled Cymru.
- Roedd tir sydd ag opsiynau rheoli Glastir wedi arafu neu atal dirywiad cyfoeth rhywogaethau planhigion yng Nghymru yn gyffredinol a dangosyddion adar mewn tir â, coetir, glaswelltir a gwrychoedd.

Cynefin Eang

- Fe aeth arbenigwyr ERAMMP ati i adolygu'r dystiolaeth yn ei chyfanrwydd a daeth i'r casgliad bod 12 (63%) o gynefinoedd a nodweddion tirwedd mewn cyflwr sy'n peri pryder neu wedi dirywio; roedd 6 yn sefydlog (32%); roedd 1 (5%) wedi gwella (Gwrychoedd) dros y 10 mlynedd diwethaf.

Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol

Roedd ein hadolygiad o dystiolaeth y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn cynnwys *Adolygiad o Gyfraniad Cofnodion Rhywogaethau* a gedwir gan *Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru*³²⁴.

Mae'r rhaglen modelu a monitro barhaus yn cynnwys yr Arolwg Maes Cenedlaethol sy'n galluogi adrodd ar dueddiadau hirdymor ac sydd wedi llywio ein blaenoriaethau. Mae monitro bioamrywiaeth yn elfen bwysig o'r gwaith hwn ac mae'n cynnig sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer datblygu a monitro cymorth yn y dyfodol.

Adolygiadau o Dystiolaeth ERAMMP

Mae Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) wedi darparu tystiolaeth mewn perthynas â pholisi Rheoli Tir yn Gynaliadwy tirwedd amaethyddol Cymru drwy gydweithio â chonsortïwm mawr o bartneriaid, gan gyflwyno'r gorau o'u harbenigedd a'u gweithgareddau parhaus ar draws y gymuned fonitro a modelu.

Nod y rhaglen yw darparu tystiolaeth ac arbenigedd hanfodol i fusnesau drwy dair elfen rhyngberthynol **Monitro** (yr Arolwg Maes Cenedlaethol), **Modelu** (y Llwyfan Monitro Integredig) a darparu **Tystiolaeth** a chynghor arbenigol.

Rydym wedi comisiynu ystod o adolygiadau tystiolaeth gan ERAMMP³²⁵ er mwyn llywio ein cynigion ar gyfer y Cynllun, gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r materion canlynol sy'n berthnasol i fioamrywiaeth:

- Rheoli maethynnau pridd
- Rheoli'r borfa
- Gwytnwch ecosystemau
- Rheoli perygl llifogydd
- Dull systemau o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Gwellu ansawdd aer

Roedd yr adolygiadau tystiolaeth hyn yn rhan o becyn tystiolaeth ehangach a luniwyd gan gymuned o adolygwyr ar draws disgyblaethau. Fe wnaeth hyn sicrhau bod modd sefydlu consensws a bod sail dystiolaeth drylwyr a chyfredol wedi'i darparu ar gyfer datblygu polisi. Defnyddiwyd cyfanswm o 849 o bapurau ymchwil wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.

Rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)

Bwriad y gweithredoedd rheoli cynefinoedd yn y Cynllun yw cael rhestr fanwl o weithredoedd a chanlyniadau mesuradwy, a nifer wedi'i grynhoi/wedi'i grwpio o fathau o gynefinoedd a chymunedau, yn seiliedig ar y rhestr o Gynefinoedd Blaenoriaeth Adran 7 yn

Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2017, i leihau maint a chymhlethdod opsiynau cynefinoedd sydd ar gael (dull gweithredu tebyg i Glastir).

Mae grŵp adolygu gweithredoedd rheoli cynefinoedd, sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr CNC, wedi archwilio ac ystyried pob gweithred rheoli cynefinoedd arfaethedig i benderfynu:

- Cyfansoddiad y mathau o gynefinoedd a sut i'w grwpio ar gyfer eu rhoi ar waith yn y Cynllun
- Pa elfennau o bob gweithred rheoli cynefinoedd a'i chanlyniadau ddylai fod yn rhan o'r broses gyflawni ac o dan ba haen
- Yr angen am ddilysu a sicrhau tystiolaeth o weithredoedd
- Mae CNC wedi cael y dasg o adolygu'r holl ganiatadau a chydsyniadau i adolygu'r broses ymgeisio a chydsynio gyda'r bwriad o sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru
- Bydd rhestr gynhwysfawr o gynefinoedd, eu gweithredoedd rheoli cysylltiedig, gofynion tystiolaeth a dilysu, cydsyniadau ac ati, yn cael eu cyflwyno ar ffurf tablau/matrics i ddarlunio a chyfleu'r uchod.

19. A ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth?

Mae'r dystiolaeth a ddyfynnwyd uchod, yn cynnwys rhai o'r wybodaeth a'r ffynonellau allweddol a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau polisi hyd yma ar y Cynllun, a'r hyn a fydd yn parhau i gael ei hystyried.

Fel y trafodwyd eisoes, bydd pawb sy'n cael eu derbyn i'r Cynllun yn ymgymryd â phroses Arolwg Llinell Sylfaen o Gynefinoedd Lefel 1 (HBR1) er mwyn cynnwys yr holl fathau o gynefinoedd yn eu daliadau. Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i benderfynu pa weithredoedd y mae angen i gyfranogwr eu gwneud fel rhan o'r Cynllun, gydol cyfnod y contract. Fel yr amlinellwyd uchod, mae gweithredoedd o'r fath wedi cael eu seilio ar wybodaeth gyfredol o'r effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth.

20. A ydych chi'n gwybod beth sy'n sbarduno newid a beth yw'r ffactorau negyddol allweddol a allai godi o'ch cynnig?

Fe wnaeth adolygiadau tystiolaeth ERAMMP, a ddisgrifir uchod, asesu'r gadwyn resymeg a'r cysylltiadau achosol â chanlyniadau ar gyfer amrywiaeth o ymyriadau posibl. Ymhellach, aeth y gwaith hwn ati i ystyried y cyfaddawdau a'r cydfanteision ar gyfer pob ymyriad³²⁶. Anaml y gwelwyd bod ymyriadau'n effeithio ar ganlyniadau unigol yn unig; dengys hyn gyfle i gyflawni amryfal fanteision, ond dengys hefyd fod angen ystyried cyfaddawdau er mwyn osgoi cyflawni un canlyniad ar draul rhai eraill.

Hefyd, nododd yr adolygiadau fod elfen ofodol ynghlwm wrth rai gweithredoedd posibl i gyflawni canlyniadau mewn perthynas ag a fyddai'r manteision yn cael eu gwireddu neu a ellid sicrhau gwerth ychwanegol. Canfuwyd hyn ar gyfer gweithredoedd bioamrywiaeth hefyd. Er enghraifft, gall gweithredu ar draws nifer o ffermydd cysylltiedig neu ar raddfa'r dalgylch gynnig cyfle i sicrhau gwerth ychwanegol. Bydd opsiynau cyllido cydweithredol gwirfoddol o fewn y Cynllun yn cefnogi ffermwyr i ymgymryd â gweithgareddau cydweithredol amrywiol ar raddfa tirwedd.

21. A ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn gymwys neu eu bod wedi'u hosgoi?

Mae'r fframwaith SLM yn bwriadu osgoi cyfaddawdau negyddol drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun ystyried y ffordd orau o gyflawni amcanion SLM. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd ffactorau sy'n sbarduno newid, a ffactorau negyddol posibl, yn cael eu hystyried yn gyfannol. Yn y pen draw, oherwydd natur wirfoddol y Cynllun, bydd ffermydd yn gallu ystyried yn annibynnol a ddylid cymryd rhan ynddo ai peidio.

22. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

Cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 y gofyniad i fonitro ac adrodd ar gyflawni amcanion SLM, a gyflawnir drwy'r Cynllun. Bydd y Cynllun yn destun monitro a gwerthuso cadarn a bydd y canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd er mwyn llywio ein gwybodaeth am fioamrywiaeth.

23. A yw'n gallu cefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion a chynlluniau monitro?

Nid oes unrhyw fwriad i'r Cynllun gyfrannu'n weithredol at fentrau gwyddoniaeth dinasyddion neu gynlluniau monitro ar hyn o bryd, ond gallai hyn fod yn bosibilrwydd yn y dyfodol.

24. A ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata am fioamrywiaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd?

Yn unol â gofynion Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn flynyddol am raddfa cynefinoedd ar ffermydd yn y Cynllun, sut maent yn datblygu, ac ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, bydd yn darparu asesiad o effaith y cymorth a ddarparwyd. Bydd hyn yn cynnwys asesu effeithiau bioamrywiaeth a fydd yn cael eu cyflawni trwy fonitro a gwerthuso parhaus, gan gynnwys dadansoddi data bioamrywiaeth

sydd wedi'i gasglu fel rhan o'r Arolwg Maes Cenedlaethol. Bydd y canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

Gall y ffermwr hefyd ddefnyddio'r data lefel fferm i ddangos prawf cadarnhaol o rinweddau cynaliadwyedd ei fferm, gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth, i ddefnyddwyr a manwerthwyr.

Dulliau llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth

25. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gyflawni canlyniadau SLM drwy gefnogi cynaliadwyedd y sector amaethyddol. Mae llawer o Weithredoedd y Cynllun wedi'u cynllunio i gyflawni yn uniongyrchol yn erbyn y canlyniad SLM sef 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau'; fodd bynnag, mae disgwyl i lawer o'i weithredoedd eraill (a'u heffeithiau amgylcheddol cadarnhaol disgwyliedig) fod o fudd i fioamrywiaeth hefyd.

Mae Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun y bwriedir iddynt gefnogi bioamrywiaeth yn uniongyrchol yn cynnwys:

- Cynnal yr holl gynefin lled-naturiol presennol
- Os yw llai na 10% o ddaliad yn gynefinoedd lled-naturiol, bydd angen creu tir dros dro wedi'i wella
- Rheoli coed, coetir a gwrychoedd presennol
- Y gofyniad i sicrhau bod Cynllun Rheoli a Rhestr o'r Gwaith y cytunwyd arno ar waith ar gyfer safleoedd dynodedig o dan reolaeth unigol y ffermwr

Mae gweithgareddau Gwirfoddol posibl yr Haen Opsiynol a fyddai'n cefnogi bioamrywiaeth yn cynnwys:

- Rheoli neu wella cynefinoedd dros y 10% gofynnol, gan gynnwys gweithredoedd arbennig i safle penodol
- Gwneud y defnydd gorau o borfa drwy ddulliau pori amgen, cyflwyno porfeydd amlrywogaeth a phori cymysg
- Creu coetir newydd a rheoli coetir presennol, gan gynnwys coetir hynafol
- Creu, adfer ac ailblannu gwrychoedd
- Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
- Bydd cyfle i ffermwyr gynnal gweithgareddau i rheoli mawnogydd (llystyfiant o'r math sy'n tyfu ar gyforgors, gorgors, gwaun wlyb, mignen a ffen)
- Caiff ffermwyr eu cefnogi i sefydlu llain glustogi ar lan cwrs dŵr
- Bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gyflwyno pyllau dŵr parhaol a thymhorol ychwanegol os yw'n briodol gwneud hynny

- Bydd cymorth ar gael i gadw a dargadw dŵr. Cynigir help i ffermwyr i:
 - Gosod offer casglu ac ailgylchu dŵr
 - Gosod seilwaith gwahanu dŵr glân a dŵr budr
- Gweithredoedd i reoli llifogydd yn naturiol fel casglu dŵr
- Rhoddir cymorth i ffermwyr wneud mwy dros dirweddau wedi'u gwarchod. Bydd y gweithredoedd hyn yn cael eu teilwra i'r fferm a'i chyffiniau ac yn gyson â rhinweddau arbennig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Barc Cenedlaethol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei brofi drwy'r cynllun newydd Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig

Gall gweithgareddau Gwirfoddol yr Haen Gydweithredol a fyddai o fudd i fioamrywiaeth gynnwys:

- Cefnogi cytundebau rheoli pori ar y cyd ar dir comin
- Cefnogi cydweithredu i greu cynefinoedd sy'n cysylltu â'i gilydd ar draws y tirlun drwy uno cynefinoedd, gan ystyried unrhyw flaenoriaethau lleol neu genedlaethol o ran adfer rhywogaethau
- Cefnogaeth i brosiectau reoli ac uno coetiroedd ar raddfa fwy na'r fferm unigol er lles y ffermydd, yr amgylchedd a chymdeithas
- Cefnogaeth i brosiectau adfer a rheoli mawndiroedd sy'n cael eu rhannu gan nifer o ffermwyr
- Cefnogaeth ar gyfer cydweithredu i reoli safleoedd gwarchodedig i sicrhau canlyniadau SLM
- Cymorth i gyd-reoli rhywogaethau estron goresgynnol
- Annog ffermwyr i gydweithredu ar draws dalgylch i leihau'r perygl o lifogydd. Byddan nhw'n cael eu gwobrwyo am weithredu ar y cyd, gan gynnwys cyflwyno nodweddion fel rhwystrau sy'n gollwng, mannau storio neu blannu coed ar orlifdir
- Cefnogaeth ar gyfer prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy'n gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r dirwedd, gan gynnwys yn ein Tirweddau Dynodedig, ar draws ffermydd lluosog

26. A all staff fod yn rhan o weithredu ymarferol?

Bydd nifer o dimau o fewn Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun, a bydd y gwaith yn cynnwys prosesu ceisiadau a gwneud taliadau, darparu arweiniad, gwaith monitro a gwerthuso, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y cynllun.

27. A allwch chi ariannu unrhyw weithredu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?

Bydd y Cynllun yn rhoi cyllid uniongyrchol i gyfranogwyr.

28. A allwch chi gefnogi partneriaethau a/neu gydweithio er mwyn mynd ati i weithredu ar fioamrywiaeth yn lleol ac yn gymunedol?

Fel y nodwyd uchod, mae opsiynau o fewn y Cynllun i gydweithio ar ganlyniadau bioamrywiaeth a chynefinoedd gwell, a fydd yn sbarduno cymorth ariannol ychwanegol drwy'r Cynllun.

A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?

29. A allwch chi gefnogi camau i gaffael sgiliau a hyfforddiant?

Rydym eisiau sicrhau bod gan ein diwydiant amaethyddol yr wybodaeth gywir am arloesedd er mwyn gallu gwella cynhyrchiant a gwynwch a chyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio, gan gynnwys cynnal a gwella gwynwch ecosystemau.

Mae cynyddu sgiliau ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth wedi cael ei ddatblygu fel rhan o'r cynnig cymorth o fewn y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gynnig drwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys:

- Gofynion DPP
- Cyngor arbenigol
- Ymarferion trosglwyddo gwybodaeth
- Digwyddiadau arddangos ar ffermydd

Rydym hefyd eisiau sicrhau y caiff hyfforddiant sgiliau, arloesi a chymorth cyfalaf eu cydgysylltu'n llawn er mwyn galluogi ffermwyr a choedwigwyr i fabwysiadu'r dechnoleg a'r technegau cywir i wella gwynwch eu busnes.

Bydd y broses SAF yn helpu ffermwyr i ddeall ble a sut y gellir cymhwyso Gweithredoedd Cyffredinol ar ffermydd. Wrth gynnal yr adolygiad, bydd gan ymgeiswyr fynediad at setiau data perthnasol, taflenni crib, cymorth ar-lein a chanllawiau i'w cynorthwyo.

O dan yr Haen Opsiynol, byddai rheoli cynefinoedd ar dir lled-naturiol yn cynnwys dull mwy cymhleth, wedi'i dargedu, wedi'i deilwra, cyfyng a dwys o'u rheoli. Byddai ffermwyr sy'n dymuno cymryd rhan yn yr haen hon yn derbyn cymorth i gynnal rhai o'r asesiadau mwy cymhleth. Dylai'r lefel Opsiynol hon alluogi ffermwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u gallu arbenigol ymhellach o ran adnabod a rheoli rhai o'r cyfleoedd bioamrywiaeth mwy cymhleth ar eu tir.

Ar ben hynny, lle nodir safle dynodedig perthnasol, bydd proses yn cael ei sefydlu i gychwyn cysylltu â ffermwyr a chynnal ymweliad safle dilynol i fwrw ymlaen â datblygu'r Cynllun Rheoli. Bydd asesydd cymwys addas, gyda'r cydbwysedd gofynnol o sgiliau technegol, gweinyddol a rhyngpersonol, ac unrhyw arbenigwr arall sy'n cael ei ystyried yn angenrheidiol

o ystyried y nodweddion pwysig ar y safle, yn ymweld â'r ardal. Bydd y ffermwr yn gweithio'n agos gyda'r asesydd a'r rheolaeth reoli i sicrhau bod yr hyn a gynigir yn ymarferol ac yn gyflawnadwy, ac i gytuno ar sail ar gyfer Cynllun Rheoli a Rhestr o'r Gwaith y gellir eu gweithredu o dan yr elfennau Opsiynol a Chydweithredol. Bydd y broses o ddatblygu'r cynllun hefyd yn gweithredu fel math o hyfforddiant gwybodaeth a sgiliau i ffermwr i'w baratoi ar gyfer y gweithredu.

A yw eich cynnig yn sicrhau bod gan y rheini sy'n rhan o broses o wneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth y cymwysterau priodol?

30. A all eich cynnig ariannu'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gweithredu ar fioamrywiaeth?

Bydd Gweithredoedd Cynefinoedd o fewn y Cynllun yn gyfarwydd i'r rhai sydd â phrofiad o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Bydd angen lefel ychwanegol o arbenigedd neu gymorth ar eraill. Er mwyn helpu hyn, a helpu ffermydd i ymuno â'r Cynllun pan gaiff ei lansio, bydd ffermwyr yn cael eu cefnogi a'u cynghori cyn lansio'r Cynllun.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig adolygiad manwl lle bydd adnoddau arbenigol ar gael, ar ffurf cynghorwyr sydd â'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau technegol, gweinyddol a rhyngpersonol i gefnogi a chyflawni yn erbyn y gweithgareddau Haen Opsiynol mwy cymhleth.

Ar ben hynny, trwy ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr brofi eu priddoedd fel rhan o'r Weithred Gyffredinol Iechyd Pridd, byddant yn datblygu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau SLM ar sail gwybodaeth. Gall y penderfyniadau hyn gynnwys dewis o'r rhestr ehangach o weithgareddau Haen Opsiynol y Cynllun, a fydd yn eu helpu i wella strwythur eu pridd (e.e. bras-droi'r tir) neu wneud y defnydd gorau o dail a gwrtaith (e.e. gwasgaru manwl gywir).

30. A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chmau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Datblygwyd y Cynllun yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar Weinidogion Cymru yn Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Bydd Gofynion Cyffredinol y Cynllun yn sicrhau y bydd yr holl weithredoedd a phenderfyniadau a wneir gan gyfranogwyr ar y fferm yn cael eu dangos i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chadw a'i chynnal yn y man lleiaf. Bydd gweithgareddau'r Haen Opsiynol sydd ar gael yn cyfrannu ymhellach tuag at wella bioamrywiaeth.

Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn

31. A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?

Bydd cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol yn berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n dymuno ymuno â'r Cynllun. Mae cadarnhau cydymffurfiaeth reoleiddiol yn un o ofynion y Cynllun, a gall unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth beryglu rhan o'r Taliad Cyffredinol, neu'r holl daliad. Bydd y Cynllun yn cynnig taliadau i ffermwyr ledled Cymru am gyflawni cyfres o Weithredoedd sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

32. A ystyriwyd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a/neu gamau gorfodi ac a weithredwyd arnynt?

Bydd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a gorfodi yn cael ei ystyried a'i weithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth.

33. A nodwyd unrhyw ofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac a weithredwyd ar hynny?

At ddibenion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ni ddisgwylir i'r rhaglen Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn gynllun na phrosiect. Mae'n Gynllun gwirfoddol sydd wedi'i gynllunio i gyflawni Amcanion SLM ar gyfer ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun.

Nid yw gofynion yr Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol ond yn cael eu cymhwyso ar ôl derbyn y cais i ymuno â'r Cynllun, neu weithredoedd unigol. Mae'n debygol y bydd angen ystyried HRA unwaith y bydd ffermwyr wedi ymuno â'r Cynllun a bod Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol neu Gydweithredol penodol o dan y Cynllun yn cael eu cwblhau ar y tir perthnasol a allai fod yn 'gynllun neu'n brosiect' at ddibenion HRA. Bydd y broses weithredol i gyflawni hyn yn cael ei chytuno â CNC cyn cyflwyno unrhyw geisiadau yn 2026.

Mae cadwraeth a gwarchod cynefinoedd lled-naturiol y tu allan i safleoedd dynodedig yn cael eu rheoleiddio gan Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol amrywiol yng Nghymru. Mewn cyd-destun amaethyddol, mae'n dod o dan gwmpas Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd), sy'n gwahardd prosiectau gwella amaethyddol ar dir lled-naturiol heb wneud cais yn gyntaf i Lywodraeth Cymru am benderfyniad sgrinio.

Bydd y fethodoleg ar gyfer cyflwyno proses y Cynllun yn seiliedig ar y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol Llywodraeth Cymru ac yn debyg iawn iddi.

Bydd gweithredoedd rheoli cynefinoedd Cyffredinol y Cynllun yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chymuned y cynefin/math o lystyfiant/categori sy'n bresennol, neu sydd i'w greu, fel bod y cynefin dan sylw yn cael ei gadw a'i gynnal mewn cyflwr amgylcheddol da gan ddefnyddio dull tebyg i gynlluniau rheoli tir yn gynaliadwy blaenorol. Sefydlir y rhain yn nogfen Gofynion y Cynllun a Chanllawiau terfynol y Cynllun. Bydd gweithgareddau Haen Opsiynol yn cael eu targedu'n benodol i wella cyflwr cynefin neu greu cynefin newydd.

34. A nodwyd unrhyw effeithiau neu gyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn Adran 7, ac a weithredwyd ar hynny?

Fel rhan o'r Cynllun, mae disgwyl i ffermwyr gael cynllun rheoli sydd wedi'i ddatblygu a'i gytuno'n llawn, ac sy'n barod i'w weithredu lle mae safleoedd dynodedig o dan reolaeth lwyr y ffermwr. Mae cyfleoedd y tu allan i safleoedd dynodedig i wella cynefinoedd â blaenoriaeth o dan Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun.

A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y lle cyntaf?

35. A ydych chi wedi dewis yr opsiwn sy'n osgoi colled a/neu ddifrod i fioamrywiaeth, ac sy'n hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau?

Drwy ei nod o gyflawni amcanion SLM, nod y Cynllun yw mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chynyddu gwytnwch ecosystemau. Mae Adran 25, uchod, yn rhestru llawer o'r gweithredoedd arfaethedig yn y Cynllun sydd â'r nod o gynnal a gwella bioamrywiaeth yn uniongyrchol.

36. Mewn achosion lle bo cydbwysedd y manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol³⁸ sy'n cael ei ddarparu gan eich cynnig yn golygu y gellid colli rhywfaint o gynefinoedd neu rywogaethau, a ydych chi wedi ceisio gwella bioamrywiaeth mewn mannau eraill ar y safle, neu os nad oes opsiwn i wneud hynny, yn rhywle oddi ar y safle?

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi'r nod SLM o 'gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau'. Bydd cynefinoedd lled-naturiol presennol fel y'u diffinnir gan reoliadau Amaethyddiaeth EIA cysylltiedig, yn cael eu cadw a'u cynnal, gan gynnwys unrhyw gynefin lled-naturiol sy'n bresennol uwchlaw'r 10% sydd ei angen i ymrwymo i'r Cynllun. Mae gweithgareddau'r Haen Opsiynol hefyd ar gael i sbarduno gwaith rheoli, creu a gwella cynefinoedd. O'r herwydd, nod y Cynllun yw nid yn unig cadw a chynnal cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli, a'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt, ond hefyd eu gwella, a chreu cynefinoedd newydd a gweithio tuag at gyfoethogi bioamrywiaeth.

³⁸ Rhoi ystyriaeth briodol i fanteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth ac ecosystemau

Ar ben hynny, lle mae gan ddaliad lai na'r 10% o gynefin presennol sydd ei angen i fodloni'r gofyniad trothwy cynefin cyffredinol, bydd angen creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i weithredu fel coridorau bywyd gwyllt ac ardaloedd sy'n gyfeillgar i bryfed peillio ar laswelltir wedi'i wella, tir â neu dir a ddefnyddir mewn cylchdro â. Rhaid i'r ffermwr ddewis gwneud iawn am y diffyg drwy ddewis un neu fwy o weithgareddau rheoli addas. Bydd y dewis o weithredoedd yn cynnwys:

- Ymylon o wyndwn
- Talarau o âd a llin heb eu gwrteithio, eu chwistrellu na'u cynaeafu
- Ymyl sefydlog o borfa arw ar dir â
- Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir â
- Cymysgedd o gnwd âd a phrotein heb ei chwistrellu, wedi'i hau yn y gwanwyn, gan gadw'r sofr
- Sefydlu porfeydd cymysg ar dir wedi'i wella (mae'r rhain hefyd yn cael eu galw'n borfeydd amlrywogaeth neu borfeydd llysieuol)
- Sefydlu cnwd gorchudd ar gyfer bywyd gwyllt ar dir wedi'i wella
- Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
- Llain glustogi heb ei chwistrellu, ei gwrteithio na'i thrin gerllaw cynefin presennol (gan gynnwys dŵr agored) ar laswelltir wedi'i wella
- Glaswelltiroedd wedi'u gwella, a gaiff eu torri'n hwyr
- Caniatáu i laswelltir sydd wedi'i wella hadu

37. A yw eich cynnig yn cyfrannu at y gwaith o gynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru?

Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr reoli o leiaf 10% o'u tir fel cynefin. Lle nad oes digon o gynefin ar gael i fodloni'r gofyniad o 10%, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd i greu nodweddion cynefin parhaol neu dros dro er mwyn gwella'r fioamrywiaeth ar eu tir.

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o adolygiadau tystiolaeth (Keenleyside ac eraill)³²⁷. Ar gyfer glaswelltir wedi'i led-wella (a allai fod o werth sylweddol, er enghraifft, fel cynefin ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau cyffredin sy'n dirywio, megis y drudwy, y siglen felen a'r gornchwiglen), mae'r adolygiadau hyn wedi dangos bod yna gyfle i sicrhau enillion cadwraeth cymharol syml a phwysig (gan gynnwys cysylltedd) o ganlyniad i ddefnyddio ymyriadau sy'n briodol ar gyfer tir lled-naturiol, heb yr angen i adfer cynefinoedd yn ddwys. O ystyried bod tua 9% o Gymru o dan laswelltir lled-naturiol³²⁸ a bod tua 90% o'r tir yn amaethyddol³²⁹, mae'r Cynllun yn cynnig y potensial i wella bioamrywiaeth ledled Cymru.

Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol

38. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnherthedd ein hecosystemau?

Mae cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau wedi'i osod fel un o'r pedwar amcan SLM, ac mae'n un o brif nodweddion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Disgwylir i wydnwch ecosystemau gael ei wella trwy Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a fydd yn helpu i ddatblygu rhwydweithiau cryfach o gynefinoedd a hyrwyddo cysylltedd. Dengys tystiolaeth y byddai'r camau canlynol, sy'n cyd-fynd ag SLM, yn helpu i hyrwyddo cysylltedd cynefinoedd ar raddfa tirwedd^{330, 331, 332}:

- Gwella cyflwr safleoedd drwy reoli da i wella cysylltedd a ffitrwydd poblogaethau o fewn llain
- Cynyddu maint lleiniau cynefin
- Datblygu lleiniau clustogi o amgylch lleiniau
- Ehangu cynefin i uno lleiniau â'i gilydd
- Datblygu cerrig sarn rhwng lleiniau
- Datblygu coridorau bywyd gwyllt
- Gwella cyflwr tir rhwng lleiniau cynefin er mwyn cynyddu hydreddedd
- Gwella amrywiaeth, maint, cysylltedd, a chyflwr nodweddion tirwedd megis gwrychoedd, ymylon caeau a chysiau dŵr
- Datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd
- Annog ardaloedd di-dor mawr o gynefin ar raddfa tirwedd

39. A yw'n gweithio gyda natur, ac yn ystyried y defnydd o atebion seiliedig ar natur yn bennaf?

Oherwydd bod y Cynllun yn bwriadu cyflawni canlyniadau SLM, bydd busnesau amaethyddol yn cael eu cefnogi drwy'r Cynllun i ffermio mewn ffordd gynaliadwy. O'r herwydd, bydd ffermydd yn cael eu cefnogi i weithio gyda natur, lle bo hynny'n bosibl, a defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur, i wella cynaliadwyedd y sector amaethyddol yng Nghymru.

40. A oes unrhyw atebion seiliedig ar natur yn frodorol ac yn fioamrywiol?

Mae nifer o atebion sy'n seiliedig ar natur yn y Cynllun yn frodorol ac yn fioamrywiol. Er enghraifft, bydd y Cynllun yn cefnogi ffermwyr i gynnal, gwella a rheoli eu cynefinoedd coetir a gwrychoedd presennol. Mae'r gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol sy'n darparu'r cymorth hwn yn gallu bod o fudd i'r busnes fferm a darparu manteision cymdeithasol ac amgylcheddol eraill, megis:

- Gwella ansawdd aer drwy ddal allyriadau amonia o siediau da byw a storfeydd slyri neu greu lleiniau clustogi rhag amonia ar gyfer safleoedd sensitif fel coetiroedd hynafol
- Gwella a diogelu bioamrywiaeth drwy greu a chysylltu cynefinoedd
- Gwella lles anifeiliaid drwy gynnig cysgod a lloches i dda byw a bioddiogelwch drwy wneud ffiniau ffermydd yn fwy trwchus gyda gwrychoedd lletach a phlannu coed

- Lleihau'r perygl o lifogydd drwy arafu llif dŵr
- Gwella ansawdd dŵr drwy atal llif dŵr wyneb, gwella sefydlogrwydd pridd a lleihau llygredd gan faethynnau
- Cynnig cyfleoedd tirwedd a hamdden drwy ganiatáu mynediad i'r cyhoedd iddynt

41. A yw'n gallu adfer neu gyfrannu at y gwaith o adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio?

Mae nifer o weithredoedd o fewn y Cynllun yn bwriadu adfer neu gyfrannu tuag at adfer, cynefinoedd sydd wedi dirywio. Yn benodol, bydd y Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol mewn perthynas â'r rhwydwaith safleoedd dynodedig gwarchodedig yn ceisio cyflawni hyn. Dangosodd prosiect gwerthuso llinell sylfaen CNC 2020,³³³ a asesodd tua hanner y nodweddion ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru, y canlynol:

- Amcangyfrifir bod 20% o'r nodweddion mewn cyflwr ffafriol
- Mae tua 30% mewn cyflwr anffafriol
- Nid yw tua 50% mewn cyflwr a ddeisyfir
- Ymhellach, nid yw'r rhan fwyaf o safleoedd yng Nghymru yn destun unrhyw gytundeb rheoli gweithredol

Mae SoDdGA, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Cymru yn hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth ac maent yn rhan bwysig o'r dirwedd sy'n cael ei ffermio. Yn ogystal â chwarae rhan hanfodol wrth wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, gall safleoedd gwarchodedig o dan reolaeth gadarn gyflawni llawer o'r canlyniadau SLM a gwasanaethau ecosystem a ddeisyfir sy'n hanfodol i gyflawni ein hymrwymadau a'n huchelgeisiau polisi.

Ein huchelgais yw i bob safle dynodedig, neu ran o safleoedd dynodedig sydd o dan reolaeth lawn a rheolaeth lwyr ymgeisydd sy'n dod yn rhan o'r Cynllun, gael ei reoli'n effeithiol erbyn diwedd cyfnod y rhaglen. O dan yr Haen Gyffredinol, bydd gofyn i gyfranogwyr lunio cynllun rheoli ar gyfer safleoedd o'r fath yn y man lleiaf. O dan yr Haen Opsiynol, fodd bynnag, bydd ffermwyr yn gallu ymrwymo i gytundeb rheoli a gweithio'n weithredol tuag at ddiogelu ac adfer cynefinoedd gwarchodedig o'r fath.

42. A yw'n gallu cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau o gynefinoedd ecolegol cadarn?

Trwy Haen Gydweithredol y Cynllun, bydd ffermwyr yn cael yr opsiwn i weithio gyda'i gilydd i gysylltu, adeiladu a rheoli rhwydweithiau ecolegol o gynefinoedd, gan adeiladu ar brofiad y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig. Er enghraifft, gall y Cynllun gefnogi Gweithred Gydweithredol ar gyfer:

- Prosiectau i reoli ac uno coetiroedd ar raddfa fwy na'r fferm unigol er lles y ffermydd, yr amgylchedd a chymdeithas ehangach
- Creu cynefinoedd sy'n cysylltu â'i gilydd ar draws y tirlun trwy uno cynefinoedd, gan ystyried unrhyw flaenoriaethau lleol neu genedlaethol o ran adfer rhywogaethau

- Cydweithredu i reoli safleoedd gwarchodedig i sicrhau canlyniadau SLM
- Symud a gwaredu rhywogaethau estron goresgynnol
- Prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy'n gwella'r amgylchedd a'r dirwedd hanesyddol, gan gynnwys yn ein Tirweddau Dynodedig, ar draws nifer o ffermydd

43. A yw'r cynnig yn gwella rheolaeth safle i wella cyflwr cynefinoedd neu rywogaethau ar unrhyw raddfa? e.e. plannu rhywogaethau brodorol, darparu ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer pryfed peillio, gadael ardaloedd o laswellt heb ei dorri; a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd gwerthfawr

Nod y gweithredoedd rheoli cynefinoedd yn y Cynllun yw gwella cyflwr cynefinoedd neu rywogaethau ar draws ystod o raddfeydd, a fydd yn y pen draw yn cael eu pennu gan ofynion gorfodol neu weithredoedd gwirfoddol pob cyfranogwr a rhinweddau amgylcheddol penodol eu daliadau.

44. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefinoedd newydd?

Bydd y Cynllun yn sicrhau y gellir cynnal a chreu nodweddion tirwedd sy'n darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt ar yr holl dir amaethyddol ledled Cymru a bydd yn diogelu amddiffyniadau i'r cynefinoedd hyn a allai fod wedi cael eu colli fel arall.

Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r ystod o weithredoedd yn y Cynllun³³⁴ yn awgrymu, er mwyn cynyddu gwytnwch rhwydweithiau cynefinoedd yng Nghymru, bod angen creu neu adfer cynefin ar dir lled-wella a gwella. Mae adfer a chreu yn elfennau hanfodol o reoli cynefinoedd lled-naturiol ar raddfa tirwedd yn y Cynllun.

45. A yw eich cynnig yn cefnogi creu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, gwrychoedd brodorol, ddolydd blodau gwyllt neu ardaloedd eraill o fannau gwyrdd brodorol, bioamrywiol?

Bydd y Cynllun yn cefnogi rheoli, cynnal, gwella a chreu ardaloedd o gynefin newydd ar dir amaethyddol.

O dan Haen Gyffredinol y Cynllun, bydd yn ofynnol i ffermwyr reoli o leiaf 10% o'u tir er budd bioamrywiaeth. Disgwylir i hyn gael ei gyflawni'n bennaf drwy gadw a chynnal cynefinoedd presennol. Eto, ble nad oes digon o gynefin lled-naturiol ar gael, bydd angen i ffermwyr ddewis gweithredoedd i greu nodweddion cynefin dros dro ar dir amaethyddol arall i gyrraedd 10%. Bydd y Cynllun hefyd yn cefnogi creu cynefinoedd newydd.

Ar ben hynny, bydd cefnogaeth ar gael i ddychwelyd tir pori yn ddolydd blodau gwyllt cyfoethog gyda'r rheolaeth gywir. Gall cynefinoedd newydd fel y rhain fod hyd yn oed yn fwy gwerthfawr os ydynt yn cysylltu cynefinoedd â'i gilydd er mwyn i fywyd gwyllt allu symud o amgylch y dirwedd. Bydd y Cynllun yn cynnig cyfleoedd cyllid Opsiynol a Chydweithredol ychwanegol i annog creu cynefinoedd cydgysylltiedig ar draws tirweddau, gan wireddu

canlyniadau amgylcheddol i'r eithaf ar raddfa tirwedd drwy weithredoedd cyfunol wedi'u teirlwra.

46. A all creu cynefin gyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn?

Bydd targedu gweithgareddau'r Haen Opsiynol yn helpu i nodi ardaloedd addas i wella cynefinoedd ac ecosystemau. Mae'r rhain yn cynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer tir lled-naturiol ymylol, ardaloedd ar gyfer plannu coed, a chyfleoedd i greu mwy o byllau dŵr parhaol a thymhorol.

Bydd gweithredoedd eraill o fewn Haen Gydweithredol y Cynllun, er enghraifft porwyr, tîrfeddianwyr a phartneriaid cyflenwi yn gweithio gyda'i gilydd i wella cyflwr tir comin, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dulliau cydgysylltiedig ar draws gwahanol dirfeddianwyr a sefydliadau i gysylltu ac ehangu rhwydweithiau bywyd gwylt a chynefinoedd, a allai gynyddu eu gwytnwch.

Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

47. A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau drwy?

Newid defnydd tir

Un o ganlyniadau allweddol SLM yw annog a chreu ecosystemau mwy gwydn ar dir amaethyddol. Bwriad y Cynllun yw annog newidiadau bach yn y defnydd o dir mewn mannau priodol i wella bioamrywiaeth a gwarchod cynefinoedd yn hytrach na cheisio newidiadau defnydd tir ar raddfa fawr mewn ardaloedd lleol, a allai arwain at amgylchiadau anfwriadol.

Os yw daliadau cyfan neu ran ohonynt wedi'u lleoli mewn safleoedd dynodedig, lle mae gan yr ymgeisydd reolaeth lawn a llwyr ac yn ymuno â'r Cynllun, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gael cynllun rheoli wedi'i lunio a'i gytuno rhwng partïon perthnasol. Dylai hyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol posibl yn cael eu hystyried a'u lliniaru'n ofalus cyn gweithredu unrhyw newidiadau i'r tir.

Achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn neu ddirgryniad?

Mae nifer o gyfleoedd cyllido uniongyrchol yn y Cynllun sy'n bwriadu gwella cynefinoedd a rhywogaethau a sicrhau manteision ehangach megis gwella ansawdd aer a dŵr, sydd hefyd o fudd i fioamrywiaeth.

Bydd angen i ymgeiswyr y Cynllun ystyried unrhyw effeithiau negyddol posibl a sut y gellir lliniaru'r rhain cyn gwneud cais am yr Haenau Opsiynol neu Gydweithredol ychwanegol.

Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig mewn defnydd tir i gyflawni SLM (e.e. plannu coed er mwyn cynyddu atfael carbon) yn gofyn am gymeradwyaeth drwy'r rheoliadau

Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer pob prosiect unigol dros bum hectar yn y ffordd arferol, gan roi sylw dyladwy i fioamrywiaeth ar y safle arfaethedig.

Mae cynnydd yn y mynediad i gefn gwlad yn meddu ar y potensial i gael effaith negyddol ar gynefinoedd a rhywogaethau lleol pe na bai defnyddwyr y mynediad yn ymwybodol o'r Cod Cefn Gwlad a'u cyfrifoldebau yn yr amgylchedd naturiol. Bydd y Cynllun yn cynnig cyfleoedd ariannu opsiynol ychwanegol drwy'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol i gefnogi gweithgareddau addysgol a hybu ymwybyddiaeth i'r rhai a allai fod yn llai cyfarwydd â'r amgylchedd gwledig. Mae hyn yn cynnwys ariannu byrddau gwybodaeth i atgoffa ymwelwyr am eu cyfrifoldebau o safbwynt y Cod Cefn Gwlad.

48. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd?

Byddai hyn yn cynnwys:

- *Rheoli llygredd*
- *Rhywogaethau estron goresgynnol*
- *Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy*
- *Newid yn yr Hinsawdd ac ati*

Byddai gweithredu i leihau llygredd, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd i gyd yn cyd-fynd â chyflawni SLM. Mae mynediad i'r Cynllun hefyd yn dibynnu ar ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddio sydd eisoes ar waith yng Nghymru. Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnig cyngor, hyfforddiant ac arweiniad i gefnogi defnyddwyr tir i ddeall a chydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

49. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?

A ddefnyddiwyd dulliau system gyfan ac atebion brodorol a bioamrywiol seiliedig ar natur i leihau llygredd a lliniaru newid yn yr hinsawdd?

Oherwydd bod y Cynllun wedi cael ei gynllunio i gyflawni SLM, bydd yn annog dull system gyfan o gynnal a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd amaethyddiaeth yng Nghymru. Dylai cefnogi ffermwyr i gynllunio'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion hyn, sy'n cynnwys lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, leihau effeithiau negyddol anfwriadol. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar ddull gweithredu fferm gyfan er mwyn sicrhau nad yw Gweithredoedd yn lleol nac yn ddetholus, felly nid yw ffermwyr yn gallu dewis pa gaeau nad ydynt yn cael eu cynnwys ac felly lle nad yw gofynion y Cynllun yn gymwys.

Bwriad y cymorth ariannol yw sicrhau bod modd cymryd camau uniongyrchol i leihau llygredd a lliniaru newid yn yr hinsawdd mewn amaethyddiaeth. Gellir cyflawni llawer o'r canlyniadau sydd gennym mewn golwg drwy gyfrwng camau a fydd yn rhadru buddion, gan gefnogi dull gweithredu system gyfan ymhellach.

A yw eich cynnig yn defnyddio'r arferion gorau ar gyfer rheoli'r meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth ac adeiladu yn gynaliadwy?

Datblygwyd y Gweithredoedd a'r cymorth yn y Cynllun i ystyried sut i gefnogi arfer gorau wrth reoli amaethyddiaeth yn gynaliadwy ledled Cymru. Yn fras, bydd y ffermydd sy'n cymryd rhan yn cael eu cefnogi i:

- **Leihau, aildefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maethynnau a gwastraff:** Nod y Cynllun yw helpu ffermydd i ddefnyddio cyn lleied o fewnbynnau â phosibl ac i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau er mwyn lleihau eu colledion i'r amgylchedd, gwella ansawdd aer a dŵr a'u gwneud yn fwy effeithlon a phroffidiol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi cyfranogwyr i:
 - Wneud y defnydd gorau o wrtaith artiffisial drwy reoli maethynnau a phrofi'r pridd
 - Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tail a magu ffrwythlondeb
 - Gwneud y defnydd gorau o atchwanegion, gwrthfotigau a meddyginiaethau
 - Defnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr drwy reolaeth integredig ar blâu
 - Gwneud y defnydd gorau o borfa drwy ddulliau pori amgen, gan gynnwys porfeydd amlrywogaeth a phori cymysg
 - Lleihau effaith allyriadau amonia ar yr amgylchedd
- **Lleihau allyriadau fferm a dal a storio cymaint o garbon â phosibl:** Nod y Cynllun yw helpu ffermydd i fod yn fwy effeithlon, i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i wella'u storfeydd carbon drwy atafaelu carbon. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi cyfranogwyr i:
 - Mabwysiadu arferion effeithlonrwydd ynni
 - Mabwysiadu Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)
 - Rheoli a chynnal glaswelltir lled-naturiol a mawndir wedi'i adfer
 - Rheoli amaeth-goedwigaeth, gwrychoedd a choetir presennol a chreu rhai newydd
- **Diogelu a gwella ecosystem y fferm:** Nod y Cynllun yw cefnogi ffermydd i weithio'n dda â'u hecosystemau, gan ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i sicrhau priddoedd iach a byw ac amrywiaeth gyfoethog o ran y fferm a natur. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi cyfranogwyr i:
 - Ddiogelu pridd rhag erydu a dirywio

- Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau, drwy:
 - Gynnal a chreu cynefinoedd
 - Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella
 - Rheoli safleoedd dynodedig
 - Diogelu dŵr rhag llygredd, drwy:
 - Lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig
 - Gwarchod glannau cyrsiau dŵr
 - Diogelu a chadw dŵr, drwy:
 - Adfer/rheoli/creu pyllau dŵr parhaol a thymhorol
 - Casglu a storio dŵr
- **Bod o fudd i bobl, anifeiliaid a lleoedd:** Byddwn yn helpu ffermwyr i hyrwyddo a gwella'u llesiant yn ogystal â llesiant eu teuluoedd, eu gweithlu, y gymuned leol a'u da byw. Byddwn yn cefnogi ffermwyr i gyfoethogi harddwch yr amgylchedd naturiol a rhoi cyfleoedd i bobl ymwneud â diwylliant, tirweddau a threftadaeth cefn gwlad. Bwriedir gwneud hyn trwy gefnogi cyfranogwyr i:
 - Gynnal a gwella'r amgylchedd hanesyddol, treftadaeth a harddwch
 - Galluogi pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad iddo
 - Ansawdd bywyd da i dda byw
 - Buddsoddi mewn pobl i ddarparu gwaith teg a chreu gweithlu sy'n cael ei werthfawrogi
 - Meddu ar y sgiliau i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol

A yw eich cynnig yn cynnwys camau i gefnogi peillwyr?

Mae tystiolaeth³³⁵ yn dangos pryder cynyddol ynghylch statws poblogaeth pryfed peillio, ynghyd â'r gwasanaeth peillio a ddarperir ganddynt. Mae'r prif fygythiadau i bryfed peillio yn cynnwys colli cynefinoedd, llygredd amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd a lledaeniad rhywogaethau estron^{336, 337}.

Bydd clymu cyfleoedd cyllid uniongyrchol y Cynllun â'r SLM arfaethedig yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu peillwyr gan gynnwys colli cynefinoedd, llygredd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd.

Bydd Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol i gynnal a chreu cynefin o fudd i beillwyr. Mae gweithredoedd y Cynllun a allai fod o fudd i beillwyr yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Brofi pridd
- Asesiadau rheoli plâu integredig
- Rheoli amaeth-goedwigaeth, gwrychoedd a choetir presennol a chreu rhai newydd
- Rheoli a chynnal yr holl gynefin lled-naturiol presennol
- Creu cynefinoedd
- Rheoli Safleoedd Dynodedig
- Lle mae llai na 10% o gynefin yn bodoli, creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella
- Adfer a rheoli pyllau dŵr parhaol a thymhorol
- Gweithredu strategol i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol, yn enwedig planhigion, trwy gefnogi gweithredu ar y cyd ymhlith ffermwyr a rhanddeiliaid eraill a thirfeddianwyr
- Bydd sawl gweithred opsiynol yn cynnwys mesurau i leihau effaith anifeiliaid estron goresgynnol yn ogystal â phlanhigion. Bydd yr opsiynau hyn yn cynorthwyo ein gofyniad statudol i ymateb yn gyflym i ddyfodiad rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion goresgynnol newydd, gan gydnabod y gallan nhw ledaenu'n naturiol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd
- O dan Haen Gydweithredol y Cynllun, mae gweithredoedd gweithgareddau ar Raddfa Tirwedd yn cynnwys rheoli rhywogaethau estron goresgynnol

G. ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Pa dystiolaeth a ystyriwyd er mwyn deall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o ffactorau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys incwm a chyfoeth, yn ogystal ag amddifadedd yn ymwneud â ffactorau fel gwaith, iechyd a'r amgylchedd ffisegol.

Ffermwyr

Mae Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn system sy'n defnyddio cysylltiadau galwedigaeth a chyflogaeth i grwpio unigolion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol. Mae'n defnyddio codau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) a'r categorïau canlynol sy'n disgrifio cysylltiadau cyflogaeth:

1. Cyflogwyr – sefydliadau mawr;
2. Cyflogwyr – sefydliadau bach;
3. Hunangyflogedig – dim gweithwyr;
4. Rheolwyr – sefydliadau mawr;
5. Rheolwyr – sefydliadau bach;
6. Goruchwylwyr;
7. Gweithwyr eraill.

Mae'r strwythur NS-SEC sy'n deillio o hyn fel a ganlyn:

1. Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch
 - 1.1 Cyflogwyr mawr a galwedigaethau rheoli a gweinyddol uwch
 - 1.2 Galwedigaethau proffesiynol uwch
2. Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is
3. Galwedigaethau canolradd
4. Cyflogwyr bach a gweithwyr ar eu liwt eu hunain
5. Galwedigaethau goruchwyllo a thechnegol is
6. Galwedigaethau gwaith lled-ailadroddus
7. Galwedigaethau gwaith ailadroddus
8. Erioed wedi gweithio, neu ddi-waith hirdymor

Er bod y dosbarthiad ei hun yn weddol syml ac nad yw o reidrwydd yn dangos amddifadedd economaidd-gymdeithasol, mae'n ddefnyddiol gan y dangoswyd bod NS-SEC yn rhoi arwydd o brofiadau, ymddygiadau a chanlyniadau bywyd pobl. Er enghraifft, mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dangos bod NS-SEC yn rhagfynegydd rhesymol mewn perthynas â disgwyliad oes³³⁸, oedran mamau³³⁹, statws priodasol rhieni newydd, a chyffredinrwydd ysmygu³⁴⁰. Mae'r rhai sydd mewn categori economaidd-gymdeithasol uwch fel arfer yn byw'n hwy ac maent yn llai tebygol o ysmygu, gyda menywod yn rhoi genedigaeth yn ddiweddarach yn eu hoes ar ôl iddynt briodi. Mae'r gwrthwyneb yn fwy tebygol o ddod i ran y rhai sydd mewn categori economaidd-gymdeithasol is, gyda phrofiadau, ymddygiadau a chanlyniadau yr ystyrir eu bod yn llai ffafriol ac yn niweidiol i iechyd a lles cyffredinol.

At hynny, mae NS-SEC yn arwydd o nodweddion cyflogaeth, megis *"...remuneration (hourly or weekly wages versus monthly or annual salaries, payments for overtime, whether on an incremental pay scheme), job prospects (opportunities for promotion and notice period) and work autonomy (deciding the pace, the timing and/or the planning of tasks)"*³⁴¹. Mae amodau cyflogaeth llai ffafriol yn fwy tebygol o ddod i ran y rhai sydd mewn categori economaidd-gymdeithasol is, a cheir tystiolaeth sy'n dangos bod hyn yn cael effaith ar iechyd yn ogystal ag ar incwm a chyfoeth.

Er hynny, mae'n bwysig nodi nad yw NS-SEC yn cynnwys gwybodaeth am lefel neu natur enillion, oriau a weithiwyd, y math o gontract (yn achos cyflogeion) na lefel addysg.

Mae ffermwyr yng Nghymru fel arfer yn hunangyflogedig heb unrhyw gyflogeion, neu maent yn cyflogi nifer fechan o staff, ac felly maent yn perthyn i gategori 4 y system NS-SEC. Gellir dosbarthu gweithwyr fferm eraill yng nghategoriâu 4, 5, 6, neu 7, yn dibynnu ar eu rôl.

Fodd bynnag, ceir amrywiaeth eang o brofiad ymhlith ffermwyr o ran incwm a chyfoeth, a bydd hyn yn effeithio ar safon byw a chanlyniadau. Ym mlwyddyn ariannol 2023-24, roedd incwm cyfartalog busnesau fferm³⁹, ar gyfer pob fferm yng Nghymru yn £30,700, ond roedd yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o fferm. Incwm cyfartalog busnesau fferm ar gyfer ffermydd llaeth oedd £67,500, y cyfartaledd ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid mewn ardaloedd llai ffafriol (LFA) oedd £22,200, a'r cyfartaledd ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid (ar yr iseldir) oedd £23,000³⁴². Er bod incwm ffermydd llaeth yn uwch ar gyfartaledd na mathau eraill o ffermydd dros y degawd diwethaf, mae ffermydd o'r fath hefyd yn dioddef ansefydlogrwydd o flwyddyn i flwyddyn, ac mae hyn yn arwain at ansicrwydd i ffermwyr.

³⁹ Mae incwm busnes fferm yn cynrychioli'r enillion ariannol i bob gweithiwr di-dâl (fel ffermwyr, eu partneriaid, aelodau eraill o'r teulu sy'n gweithio ar y fferm etc.) ac mae'n debyg i elw net o weithgareddau amaethyddol. Mae'n cynnwys incwm o gynlluniau taliad sylfaenol a chynlluniau taliadau amaeth-amgylcheddol.

Nododd y rhan fwyaf (68%) o'r rhai a ymatebodd i arolwg o ffermydd Bach a Bach lawn yng Nghymru³⁴³, a gynhaliwyd yn 2021, fod o leiaf un person ar yr aelwyd yn hunangyflogedig neu'n gyflogedig oddi ar y fferm er mwyn ychwanegu at incwm yr aelwyd. Yn ogystal, dywedodd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr eu bod yn cynnal gweithgareddau anamaethyddol eraill o'u daliad. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd darparu llety i dwristiaid, megis tai gwyliau, gwely a brecwast, gwersylla a glampio. Roedd ffynonellau incwm eraill yn cynnwys gwaith contractio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gweithgareddau'n ymwneud â cheffylau. Ymhellach, nododd llawer o aelwydydd ffermio yn yr astudiaeth fod taliadau uniongyrchol gan Gynllun y Taliad Sylfaenol yn rhan hanfodol o'u hincwm ar y pryd, gyda ffermydd Bach yn fwy tebygol o nodi hyn (69% o gymharu â 45% ar gyfer ffermydd Bach lawn).

Er eu bod yng nghanol strwythur dosbarthiad yr NS-SEC, mae'n amlwg bod rhai ffermwyr yn wynebu pwysau mawr mewn perthynas ag incwm eu busnes fferm, a hefyd mewn perthynas ag incwm eu haelwyd – rhywbeth a allai arwain at amddifadedd materol ac effaith ar eu hansawdd bywyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn nodi bod lefelau incwm isel, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch hyfywedd ariannol y sector ffermio, yn her allweddol mewn perthynas ag iechyd meddwl ffermwyr³⁴⁴.

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn pennu Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel fframwaith polisi ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

Bwriedir i'r gwaith o gyflawni'r Amcanion SLM trwy'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ffermydd a chymunedau gwledig. Ategir hyn gan y gofyniad y dylid cyflawni'r amcanion mewn ffordd sy'n:

- a. diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; a
- b. chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Disgwylir i'r Cynllun effeithio ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ffermwyr yn y ffyrdd allweddol canlynol:

1. Bydd y Cynllun yn darparu cymorth ar gyfer cyflawni'r canlyniadau SLM rydym yn ceisio eu sicrhau. Gall hyn roi ffrwd incwm sefydlog i'r ffermwyr dan sylw, na fyddai ffactorau fel anwadalrwydd y farchnad yn effeithio arni.
2. Yn benodol, gellir rhoi cymorth o dan y diben i wella gwytnwch busnesau amaethyddol fel y nodir yn y Ddeddf, yn unol â'r amcanion SLM. Mae hyn yn cyfrannu at leihau anfantaes yn y tymor byr ac yn diogelu rhag ergydion neu ffynonellau anfantaes yn y dyfodol.
3. Gellir cyflawni llawer o agweddau ar SLM mewn ffyrdd sy'n cynnig budd ariannol i fusnes y fferm. Er enghraifft, mae cynlluniau rheoli maethynnau yn cefnogi gwell

ansawdd aer a dŵr, ond mae hefyd yn lleihau costau mewnbynnau drwy ddefnyddio llai o wrtaith. Gall gwell effeithlonrwydd ynni arwain at arbedion cost.

Mae'n bosibl y gallai'r newid o'r mecanweithiau cymorth presennol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael effeithiau economaidd-gymdeithasol negyddol. Bydd dull pontio a reolir ar waith wrth symud i'r system newydd, er mwyn sicrhau na fydd cyllid unrhyw ffermwr yn dod i ben yn sydyn, ynghyd â phwerau i liniaru effeithiau negyddol posibl.

Cymunedau gwledig

Er mai ffermwyr fydd yn teimlo effeithiau mwyaf y Cynllun, rydym yn cydnabod y rôl economaidd, gymdeithasol a diwylliannol allweddol sydd gan amaethyddiaeth yn y Gymru wledig, ac felly disgwylir i'r Cynllun gael effaith ar gymunedau gwledig yn fwy cyffredinol. Gall anfantais economaidd-gymdeithasol arwain at anghydraddoldeb canlyniadau mewn meysydd fel addysg, iechyd, diogelwch personol a safonau byw. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)³⁴⁵ yn cynnig cyfres o ddangosyddion yn ymwneud â ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd. Yn gyffredinol, cymysg yw'r darlun ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig:

- **Incwm:** Ni welir unrhyw duedd glir mewn perthynas ag amddifadedd incwm mewn ardaloedd gwledig. Ardaloedd cefnog mewn dinasoedd a threfi sy'n tueddu i fod â'r lefelau amddifadedd isaf, tra bod yr ardaloedd lleiaf cefnog mewn dinasoedd a threfi yn tueddu i fod â'r lefelau amddifadedd uchaf. Gwelir bod ardaloedd gwledig rhwng y ddau begwn hyn.
- **Cyflogaeth:** Yn yr un modd â'r maes incwm, mae eithafion o ran amddifadedd cyflogaeth i'w gweld mewn dinasoedd a threfi, tra bod ardaloedd gwledig ar sbectrwm rhwng y ddau begwn.
- **Iechyd:** Mae gan ardaloedd gwledig ganlyniadau cymedrol i dda ar draws yr holl ddangosyddion iechyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, heb unrhyw batrwm amlwg; mae'r amddifadedd iechyd mwyaf difrifol yn digwydd mewn ardaloedd trefol.
- **Addysg:** Mae'r darlun ar gyfer addysg mewn ardaloedd gwledig yn debyg iawn i'r darlun ar gyfer iechyd, gyda chanlyniadau cymedrol i dda ar draws yr holl ddangosyddion addysg, heb unrhyw batrwm clir.
- **Mynediad i wasanaethau:** Dyma'r prif faes lle mae ardaloedd gwledig yn dangos lefelau amddifadedd uchel yn gyson. Mae rhai trigolion yn gallu ymdopi â'r pellter at wasanaethau ac maent yn ei dderbyn fel aberth gwerth ei gwneud er mwyn gallu elwa ar fanteision ffordd o fyw eraill sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig. I eraill, yn enwedig i bobl hŷn neu anabl, gall fod yn anodd iawn iddynt gael gafael ar wasanaethau ac fe all hyn gyfrannu'n uniongyrchol at ansawdd bywyd gwaeth.
- **Tai:** Mewn ardaloedd gwledig ni welir llawer iawn o bobl yn byw mewn tai gorlawn neu dai sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan; fodd bynnag, mae pobl mewn ardaloedd

gwledig yn fwy tebygol o fyw mewn tai sydd o ansawdd gwael neu sy'n cynnwys peryglon difrifol.

- **Yr Amgylchedd Ffisegol:** Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i sgorio'n wael o ran mynediad i fannau gwyrdd cyhoeddus, ond mae eu sgoriau ar gyfer 'Mannau Gwyrdd Amgylchynol' yn uchel oherwydd natur werdd gynhenid yr amgylchedd gwledig yng Nghymru. Gwelir hyn er gwaethaf y ffaith bod mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus yng nghefn gwlad⁴⁰, er efallai nad yw unrhyw un o'r rhain o fewn pellter digon hygyrch i aelwydydd gwledig⁴⁰. Mae lefelau llygredd yn peri mwy o broblemau mewn amgylcheddau trefol nag ardaloedd gwledig, tra bod perygl llifogydd yn amrywio'n sylweddol ar sail ffactorau eraill.
- **Diogelwch Cymunedol:** Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fod â lefelau trosedd is a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol nag ardaloedd mwy trefol; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall natur ac effaith troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd gwledig fod yn wahanol iawn i'r rhai a welir mewn ardaloedd trefol.

Un ffordd y gallai'r Cynllun effeithio ar feysydd MALIC mewn ardaloedd gwledig yw drwy wella mynediad i gefn gwlad. O dan y Cynllun, bydd modd i Lywodraeth Cymru gefnogi gweithredoedd ar ffermydd i gynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw. Mae gweithgareddau Haen Dewisol yn cynnwys ystod o fesurau y byddai ffermwyr yn gallu eu cymryd i ddarparu gwell mynediad, sy'n cynnwys gwella hawliau tramwy cyhoeddus a gwella profiad ymwelwyr. At hynny, gellir cefnogi prosiectau cydweithredol o dan y Cynllun i wella mynediad ar gyfer cymunedau lleol hefyd. Gallai gwell mynediad i gefn gwlad fod o fudd i'r rhai sy'n byw'n lleol, ond hefyd i'r rhai sy'n teithio mwy o bellter i fwynhau'r amgylchedd naturiol.

Gallai'r meysydd iechyd ac Addysg weld effaith gadarnhaol hefyd o ganlyniad i'r Cynllun; bydd nifer o'r Gweithredoedd yn cefnogi canlyniadau megis aer glanach, dŵr glanach a gwella iechyd anifeiliaid, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl.

Bydd y Cynllun yn effeithio'n gadarnhaol ar economïau gwledig, gyda photensial i gael effaith gadarnhaol ar incwm a chyflogaeth. Yn ei dro, bydd cynaliadwyedd cymunedau gwledig yn cyfrannu at fanteision cadarnhaol mewn perthynas â chyfalaf cymdeithasol, diwylliant a'r Gymraeg.

Pa wybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynnig/penderfyniad yn effeithio arnynt, yn benodol felly y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi cynnal pedwar ymgynghoriad hyd yn hyn, sef *Brexit a'n Tir, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, y *Papur Gwyn Amaeth a Cadw ffermwyr i ffermio*. Cawsom lawer o ymatebion gan ffermwyr unigol yng Nghymru yn ogystal â chan nifer o sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Cafodd Brexit a'n Tir 521 o ymatebion sylweddol gan unigolion a sefydliadau

⁴⁰ 5 munud o gerdded neu bellter o 300m.

yn y maes ffermio, cafodd Ffermio Cynaliadwy a'n Tir 198 o ymatebion, cafodd y Papur Gwyn Amaeth 30 o ymatebion, a chafodd Cadw ffermwyr i ffermio 2,345 o ymatebion; er, mae'n werth nodi na chyflwynodd pob ymatebydd wybodaeth am eu cefndir yn y diwydiant a gall y ffigurau hyn fod yn dangyfrif. Rydym wedi ymgymryd â dau gam o waith cydlunio er mwyn galluogi ffermwyr – sef y rhai y bydd y Cynllun yn effeithio fwyaf arnynt – i helpu i lunio dyfodol polisi ffermio yng Nghymru. Roedd y prosiect cydlunio yn cynnwys cyfranogwyr a oedd yn amrywio o ran oedran, math o fferm, sector, deiliadaeth, ac aelodaeth o gynlluniau Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb pan fo hynny'n bosibl, fel Ffeiriau Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Bydd sioeau teithiol a digwyddiadau wyneb yn wyneb eraill yn cael eu cynnal drwy gydol cyfnod ymgynghori'r Cynllun er mwyn cyrraedd cynifer o ffermwyr â phosibl ledled Cymru. Cynhaliwyd 10 sioe deithiol wybodaeth fel rhan o'r ymgynghoriad Cadw ffermwyr i ffermio, a ddenodd tua 3,200 o unigolion.

A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?

Cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B) i gael rhagor o fanylion am sut y bydd y Cynllun yn effeithio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

A yw cymunedau buddiant a mannau o ddiddordeb wedi'u hystyried?

Y prif gymunedau buddiant mewn perthynas â'r Cynllun yw'r gymuned amaethyddol a'r gymuned Gymraeg. O ystyried bod y Cynllun yn ymwneud â'r diwydiant amaethyddol, cafodd yr effeithiau ar y rhai yn y gymuned amaethyddol eu hystyried yn fanwl drwy gydol yr asesiad effaith. Cafodd yr effeithiau ar y Gymraeg, y rhai sy'n siarad yr iaith a'r rhai sy'n ei dysgu, eu hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Atodiad E).

Yn ogystal, mae'r newid mewn polisi amaethyddol tuag at SLM yn golygu bod sefydliadau amgylcheddol yn cynrychioli cymuned fuddiant sylweddol arall. Mae sefydliadau o'r fath wedi bod wrthi'n ymateb i'n hymgyngoriadau; cafodd *Brexit a'n tir* 160 o ymatebion sylweddol gan unigolion a sefydliadau sydd â diddordebau amgylcheddol; cafodd *Ffermio cynaliadwy a'n tir* 32; cafodd y Papur Gwyn Amaeth 27; a chafodd *Cadw ffermwyr i ffermio* 226. Bwriad penodol y Cynllun yw esgor ar ganlyniadau cadarnhaol o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Gellir dod o hyd i Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F, ac mae Adran 5 y ddogfen hon yn ymdrin â Llesiant Amgylcheddol.

Y prif gymunedau lle yw cymunedau gwledig Cymru yn fwy cyffredinol. Manylir ar yr effeithiau ar y rhai sy'n byw mewn Ardaloedd Gwledig yn yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig (Atodiad C), a cheir trafodaeth ychwanegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar

Gydraddoldeb (Atodiad B), gan fod demograffeg cymunedau gwledig yn tueddu i fod yn wahanol i ddemograffeg amgylcheddau trefol.

Pa wybodaeth a ystyriwyd o ran tueddiadau'r dyfodol?

Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 ac argyfwng natur yn 2021. Mae *Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig*³⁴⁷ yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng newid hinsawdd ac anghydraddoldeb. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y disgwylir i'r poblogaethau tlotaf a'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf ddioddef waethaf yn sgil newid hinsawdd. Gyda hyn mewn cof, trwy sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, bydd modd cael effaith gadarnhaol bwysig ar y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymdeithas. Mae hyn yn cyd-fynd â'n Fframwaith Pontio Teg³⁴⁸, lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bontio i Sero Net mewn ffordd deg a chyfartal, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd yn debygol o'i chael hi'n anoddach gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol; er enghraifft, methu fforddio addasiadau priodol i'w cartref neu symud i ffwrdd o ardal sydd mewn perygl o lifogydd. Unigolion mewn amddifadedd iechyd sy'n wynebu'r risg fwyaf yn sgil ansawdd aer gwael.

Yn ei adroddiad, *Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd i iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru*, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod ffermwyr a gweithwyr amaethyddol ymhlith y rhai y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf ar eu galwedigaeth. Felly, mae'n bwysig cynhyrchu bwyd a rheoli tir mewn ffordd sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau bod ffermydd yn hyfyw i ffermwyr y dyfodol, a diogeledd bwyd i'r genedl. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cymunedau gwledig fel rhai sy'n arbennig o agored i'r 'her driphlyg'.

Mae gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 bedwar amcan y mae gweithredoedd y Cynllun wedi'u llunio i'w cyflawni. Bydd amcanion strategol yn ymwneud â lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, cynnal a gwella ecosystemau, a chadw, gwella a hyrwyddo cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso ei defnydd i'w cyflawni ochr yn ochr â'r amcan strategol cyntaf, sef cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy. Felly, bwriad y Ddeddf yw mynd i'r afael â thueddiadau'r argyfyngau hinsawdd a natur yn y dyfodol, a bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer targedu materion penodol fel llygredd aer, llygredd dŵr a pherygl lifogydd. I gael rhagor o fanylion am sut y disgwyliwn i'r Cynllun effeithio ar newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, gweler yr Asesiadau o'r Effaith ar Lesiant Amgylcheddol (Adran 5) a Bioamrywiaeth (Atodiad F).

Pa ddata a ystyriwyd (cenedlaethol a lleol)?

Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o ffynonellau data a ffynonellau tystiolaeth eraill drwy gydol ein hasesiadau effaith. Mae'r rhain yn cynnwys data fel Mynegai Amddifadedd

Lluosog Cymru, data'r Cyfrifiad a data arolygon a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, llenyddiaeth academiaidd, ac ymchwil a gynhyrchwyd gan sefydliadau sydd â buddiant mewn amaethyddiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r gwahanol ffynonellau hyn yn ein galluogi i asesu effeithiau posibl y Cynllun mewn perthynas ag amryfal ffactorau sy'n berthnasol i statws economaidd-gymdeithasol.

Sut allai'r cynnig waethygu ymhellach yr anghydraddoldeb canlyniadau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhowch fanylion ynghylch anghydraddoldebau canlyniadau sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio

Ni ddisgwylir y bydd y Cynllun yn effeithio ar unrhyw un mewn modd sy'n gwaethygu anghydraddoldeb canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod y Cynllun yn cynrychioli newid sylweddol mewn polisi amaethyddol yng Nghymru, a bydd angen ystyried hyn er mwyn lleihau'r risg y bydd unrhyw un yn dioddef effeithiau andwyol, yn enwedig o ran y rhai sydd eisoes yn dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Er mwyn lliniaru effeithiau andwyol, bydd cyfnod pontio rhwng Cynllun y Taliad Sylfaenol presennol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Golyga hyn na fydd taliadau ffermwyr yn dod i ben yn sydyn, pa un a fyddant yn dewis ymuno â'r Cynllun newydd ai peidio.

I gael rhagor o fanylion am sut y disgwyliwn i'r Cynllun effeithio ar wahanol grwpiau demograffig, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B).

Sut gallai'r penderfyniad wella canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhowch fanylion am y canlyniadau a fydd yn cael eu gwella ac i bwy.

Bwriad fframwaith deddfwriaethol Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) (2023), a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yw cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol ac ymrwymïadau Llywodraeth Cymru o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Y ffordd gyntaf y gallai'r Cynllun gefnogi gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yw gwell canlyniadau iechyd. Bydd aer a dŵr glanach yn arbennig yn lleihau'r risgiau i iechyd, yn enwedig ymhlith grwpiau mwy agored i niwed.

Ymhellach, gallai gwell mynediad i gefn gwlad gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer hamdden ac ymarfer corff, gan fod o fudd i iechyd corfforol a meddyliol. Ceir rhagor o fanylion am effeithiau'r Cynllun ar iechyd yn Adran 2 y ddogfen hon.

Yr ail ffordd y gallai'r Cynllun yn cefnogi'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yw drwy leihau'r perygl o lifogydd a sychder. Fel arfer, mae pobl sy'n dioddef amddifadedd â llai o rym i newid eu sefyllfa, er enghraifft, drwy symud i eiddo gwahanol os yw eu cartref mewn ardal lle ceir perygl mawr o lifogydd. O'r herwydd, bydd pennu SLM fel fframwaith ar gyfer ffermio yng Nghymru yn y dyfodol o fudd arbennig i'r rhai sy'n dioddef anfantais oherwydd y canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol y bwriedir i'r Cynllun eu galluogi.

Yn fwy penodol, mae'r Cynllun wedi'i lunio i ddod â budd i ffermwyr mewn nifer o ffyrdd, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd cymryd rhan yn y Cynllun yn rhoi ffrwd incwm sefydlog i ffermwyr, gan roi sicrwydd iddynt o ran eu sefyllfa ariannol eu hunain a hefyd o ran eu gallu i gyflogi gweithwyr a chontractwyr. Bwriad y sefydlogrwydd hwn yw cynnig manteision economaidd a allai, yn eu tro, arwain at fanteision iechyd meddwl drwy leddfu ansicrwydd a straen ariannol. Disgwylir hefyd y ceir manteision cymdeithasol cadarnhaol drwy alluogi ffermwyr a'u teuluoedd i barhau i fod yn aelodau o'u cymunedau.

Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn fframwaith cyfannol y bwriedir iddo fod o fudd i'r amgylchedd ac i ffermwyr. Mae gweithredoedd o fewn y Cynllun sydd wedi'u llunio i helpu ffermwyr i leihau eu costau, gan gael effaith gadarnhaol ar eu hincwm. Ymhellach, bwriad SLM yw gwella gallu i wrthsefyll effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â lliniaru'r effeithiau hyn yn uniongyrchol – rhywbeth a fydd yn helpu busnesau fferm i baratoi ar gyfer y dyfodol a sicrhau y bydd ffermydd yn parhau i fod yn hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sut fyddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)

A oes angen casglu gwybodaeth fonitro newydd? Os felly, beth?

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) (2023) yn darparu'r pwerau ar gyfer monitro a gwerthuso SLM yn ei gyfanrwydd, ynghyd â'r Cynllun. Mae strategaeth fonitro a gwerthuso yn cael ei datblygu a bydd yn manylu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu'r modd y cyflawnir canlyniadau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

-
- ¹ [Llywodraeth Cymru \(2024\), 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Amlinelliaid o'r cynllun'](#)
 - ² [Llywodraeth Cymru \(2023\), 'Bil Amaethyddiaeth \(Cymru\): Memorandwm esboniadol'](#)
 - ³ [Llywodraeth Cymru \(2022\), 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion bras ar gyfer 2025'](#)
 - ⁴ [Llywodraeth Cymru, \(2019\) 'Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru: Ein hymateb'](#)
 - ⁵ [Llywodraeth Cymru, \(2022\) 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Ein hymateb'](#)
 - ⁶ [Llywodraeth Cymru, \(2021\) 'Papur Gwyn Amaeth \(Cymru\): Crynodeb o'r ymatebion'](#)
 - ⁷ [Llywodraeth Cymru \(2024\), 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr i ffermio: Crynodeb o'r ymatebion'](#)
 - ⁸ [Llywodraeth Cymru \(2021\), 'Cyddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru'](#)
 - ⁹ [Llywodraeth Cymru \(2023\), 'Cyddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Adroddiad terfynol'](#)
 - ¹⁰ [ADAS \(2023\), 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Dadansoddiad o'r adborth i gynigion bras y cynllun'](#)
 - ¹¹ [Llywodraeth Cymru \(2024\), 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon: Adroddiad cryno'](#)
 - ¹² [Food and Agriculture Organisation of the United Nations \(FAO\), 'Sustainable Land Management'](#)
 - ¹³ [Cyfoeth Naturiol Cymru \(2020\), 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) Cymru 2020'](#)
 - ¹⁴ [Cyfoeth Naturiol Cymru \(2020\), 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) Cymru 2020'](#)
 - ¹⁵ [Osborne R ac Evans N \(2019\), 'Friend or foe? UK farmers' relationships with the weather', Journal of Rural Studies, Cyfrol 72, tudalennau 205 i 215](#)
 - ¹⁶ [Osborne R ac Evans N \(2019\), 'Friend or foe? UK farmers' relationships with the weather', Journal of Rural Studies, Cyfrol 72, tudalennau 205 i 215](#)
 - ¹⁷ [Bullock J M, ac eraill \(2017\), 'Resilience and food security: Rethinking an ecological concept', Journal of Ecology, Cyfrol 105, tudalennau 880 i 884](#)
 - ¹⁸ [Farmwell Cymru](#)
 - ¹⁹ [Y Pwyllgor Newid Hinsawdd \(2020\) 'Land use: Policies for a Net Zero UK'](#)
 - ²⁰ [Naghavi M, ac eraill \(2024\), 'Global burden of bacterial antimicrobial resistance 1990–2021: A systematic analysis with forecasts to 2050', The Lancet, Cyfrol 404, Rhifyn 10459](#)

-
- ²¹ [Naghavi M, ac eraill \(2024\), 'Global burden of bacterial antimicrobial resistance 1990–2021: A systematic analysis with forecasts to 2050', The Lancet, Cyfrol 404, Rhifyn 10459](#)
- ²² [Gweler, Wilson E O, \(1984\) 'Biophilia', Harvard University Press: Cambridge; Bowler, D E, ac eraill \(2010\), 'A systematic review of evidence for the added benefits to health of exposure to natural environments', BMC Public Health, Cyfrol 10, Rhif 456; Capaldi C A, ac eraill \(2015\), 'Flourishing in nature: A review of the benefits of connecting with nature and its application as a wellbeing intervention', International Journal of Wellbeing, Cyfrol 5, Rhif 4; Bratman G N, ac eraill \(2019\), 'Nature and mental health: An ecosystem service perspective' | Science Advances; Pritchard A \(2019\), 'The relationship between nature connectedness and eudaimonic well-being: A meta-analysis', Journal of Happiness Studies, Cyfrol 21, tudalennau 1145 i 1167](#)
- ²³ [Llywodraeth Cymru \(2020\), 'Arolwg Amaethyddol a Garddwrol Mehefin 2020: Canlyniadau Cymru'](#)
- ²⁴ [Newton, J \(2007\), 'Wellbeing and the natural environment: A brief overview of the evidence'](#)
- ²⁵ [Newton, J \(2007\), 'Wellbeing and the natural environment: A brief overview of the evidence'](#)
